WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION

England & Wales · Charity number 218093

Details

Other names	THE COUNCIL OF SOCIAL SERVICE FOR WALES (INC), THE COUNCIL OF SOCIAL SERVICE FOR WALES AND MONMOUTHSHIRE INC), THE WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION, WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION, WCVA
Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	00425299
Registered	1963-05-24
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	Wales Council for Voluntary Action One Canal Parade Dumballs Road Cardiff CF10 5BF
Phone	02920431734
Website	www.wcva.cymru

Activities

Objects: TO PROMOTE, IN SUCH MANNER AS SHALL BE CONSISTENT WITH CHARITY COMMISSIONPUBLISHED GUIDANCE FROM TIME TO TIME AND FOR THE BENEFIT OF THE PUBLIC IN WALES, THEVOLUNTARY SECTOR AND THE PROMOTION OF CHARITABLE PURPOSES THROUGH THAT SECTOR'SPROVISION OF BENEFIT TO THE PUBLIC IN PARTICULAR, BUT NOT EXCLUSIVELY, BY:PROVIDING SERVICES, EDUCATION, TRAINING, INFORMATION, ADVICE AND SUPPORT TO CHARITIESAND OTHER VOLUNTARY ORGANISATIONS IN WALES;4.2 TO ADVANCE OTHER SUCH OBJECTS OR PURPOSES WHICH ARE EXCLUSIVELY CHARITABLEACCORDING TO THE LAW OF ENGLAND AND WALES IN ANY PART OF THE WORLD AND IN SUCHMANNER AS THE DIRECTORS MAY IN THEIR ABSOLUTE DISCRETION THINK FIT.

Activities: WCVA is the national membership organisation for voluntary organisations in Wales. WCVA promotes volunteering, good governance, sustainability and engagement by providing information, training, advice and support to charities, voluntary and community groups & social enterprises. WCVA manages several grant & loan schemes.

Downloaded from opencharities.uk/ew/218093

Classification

- **How:** Makes Grants To Organisations, Provides Other Finance, Provides Advocacy/advice/information, Sponsors Or Undertakes Research, Acts As An Umbrella Or Resource Body
- **What:** General Charitable Purposes
- **Who:** Other Charities Or Voluntary Bodies

Geography

- **Area of benefit:** WALES
- Throughout Wales

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£36,614,642	£34,629,373	£21,013,541	79
2024-03-31	£33,223,612	£29,270,062	£19,026,425	79
2023-03-31	£35,015,959	£33,230,639	£14,970,001	105
2022-03-31	£39,010,559	£35,513,720	£14,507,474	108
2021-03-31	£50,951,056	£49,662,968	£6,406,079	100

Downloaded from opencharities.uk/ew/218093

Trustees

Name	Role	Appointed
Dr Neil Rhys Wooding	Chair	2022-02-16
Callum Edward Pople Jones		2024-11-14
Christopher Peter Lines		2018-05-24
Colin James Arnold		2022-03-03
Edward Watts MBE DL		2018-11-22
Ellis Mark Richard Peares		2024-12-04
Gareth Clubb		2025-11-20
Jainaba Conteh		2024-11-14
Judith Alexandra Stone		2024-11-14
Kate Eleanor Young		2018-11-22
Lowri Catrin Jones		2022-11-17
Menai Peris Owen-Jones		2021-11-18
Rhian Helen Elizabeth Davies		2021-11-18

Downloaded from opencharities.uk/ew/218093

WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION

England & Wales - Charity number 218093

Accounts

WCVA
CGGC

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2024/25

Annual report and financial statements 2024/25

CYMRAEG ENGLISH

0300 111 0124
www.wcva.cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
The Wales Council for Voluntary Action

Cynnwys

Adroddiad blynyddol 2024/25 2

Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr 39

Grantiau a chyllid 42

Aelodau 44

Adolygiad ariannol 45

Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 50

- Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol 50
- Cyfrif incwm a gwariant y grŵp 51
- Mantolen gyfunol 52
- Mantolen yr elusen 53
- Datganiad o lif arian y grŵp 54
- Nodiadau i'r datganiadau ariannol 55

Adroddiad strategol y grŵp 82

Adroddiad yr archwilydd annibynnol 83

Croeso

Sector sydd byth yn stopio. Tîm sydd yn eich cefnogi.

ELENI, DAETH SECTOR GWIRFODDOL CYMRU I'R ADWY. DRO AR ÔL TRO.

O dlodi bwyd i weithredu ar yr hinsawdd, iechyd meddwl i gynhwysiant mewn chwaraeon, gwnaeth mudiadau gwirfoddol yng Nghymru gadw eu drysau ar agor, eu gwasanaethau i fynd a'u cymunedau'n gysylltiedig yn 2024/25, hyd yn oed pan oedd costau'n mynd drwy'r to ac adnoddau'n brin. A gwnaethom ni sefyll gyda nhw bob cam o'r ffordd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu dim ond rhai o'r pethau y gwnaethom tuag at ein cynllun uchelgeisiol am 2022-27. Yn 2024/25:

- Gwnaethom wthio'n ôl pan gafodd y sector ei roi ar yr ystlys. Gwnaethom godi ein llais pan wnaeth cynnydd yn yr Yswiriant Gwladol roi gwasanaethau hanfodol mewn perygl, gyda'r costau posibl i'r sector yn ddegau o filiynau.
- Gwnaethom ddweud 'dyma beth mae'n ei olygu!' Gwnaeth ein Gwobrau Elusennau Cymru a'n hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ddangos i'r cyhoedd pam yn union mae'r sector gwirfoddol mor bwysig i bobl a chymunedau.
- Gwnaeth mudiadau gwirfoddol newid bywydau pobl wrth ddatblygu ffyrdd arloesol o gynnwys gwirfoddolwyr, a rhannu gwersi gyda'r sector ehangach. Bu hyn yn bosibl diolch i'n Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru.

Gwnaethom hefyd sicrhau cyllid, adeiladu platfformau, cynnig lleoedd a chefnogi pobl sy'n gwneud pethau eithriadol mewn oes eithriadol.

Eleni, roedd yn bleser gennym groesawu ein Prif Weithredwr newydd, Dr Lindsay Cordery-Bruce, hyrwyddwr beiddgar a brwdfrydig o'r sector, gyda chalon llawn diben ac yn barod i dorchi llewys.

Gobeithio y bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn eich ysbrydoli chi.

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

Clawr: Mae Eleeza yn aelod o Gyngor Ieuenctid Cenedlaethol Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW). Gyda chyllid o'n Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru, defnyddiodd Plant yng Nghymru eu harbenigedd mewn gwirfoddoli ieuenctid yn FAW

Ein strategaeth 2022-27

Gwyddom fod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd dros ben i bobl yng Nghymru a thu hwnt. Mae mudiadau gwirfoddol hefyd wedi wynebu adegau anodd iawn.

Er mwyn sicrhau y gallwn ni i gyd fynd i'r afael â heriau heddiw benben, gwnaethom weithio gyda'n staff a'n haelodau i feddwl am y camau positif y gallwn ni eu cymryd i lunio dyfodol gwell i Gymru.

Y newid rydym eisiau ei arwain ledled Cymru

EIN NOD:

Mae'r sector gwirfoddol yn fwy amrywiol a gwydn

- Mae pobl fwy amrywiol yn cymryd rhan mewn gweithredu gwirfoddol
- Mae adnoddau mwy amrywiol yn cryfhau'r ddarpariaeth
- Mae mudiadau yn fwy gwydn

EIN NOD:

Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru

- Mae mudiadau gwirfoddol yn arwain newid positif
- Mae'r holl sectorau yn cydweithio mwy i gyflawni uchelgeisiau cyffredin
- Mae ein democratiaeth yn mynd ati'n well i gefnogi mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan

Ac er mwyn i CGGC sicrhau ein bod y gorau y gallwn ni fod

EIN NOD:

Mae CGGC yn fwy gwydn

- Mae CGGC yn ariannol gynaliadwy
- Mae CGGC yn addasu'n bositif i newid
- Mae CGGC yn rhoi mwy o gefnogaeth i'w bobl

Ein nod

Mae'r sector gwirfoddol yn fwy amrywiol a gwydn

Yng ngŵydd heriau'r argyfwng costau byw, prisiau ynni'n saethu i fyny, a chyllidebau'n tynhau, dangosodd y sector gwirfoddol wydnwch anhygoel – ond roedd angen cymorth arno i ddal ati. A dyna le y camodd CGGC i mewn.

Gwnaethom rymuso mudiadau gyda'r adnoddau a'r sgiliau hanfodol oedd eu hangen arnynt, nid yn unig i ateb galwadau heddiw ond i ffynnu yn y dyfodol.

Ein ffocws yn 2024/25

Gwnaeth elusennau yng Nghymru godi eu lleisiau ar broblemau bancio - a gwnaethom ni'n siŵr bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed. Gwnaethom weithio gyda'r Grŵp Cymdeithas Sifil ar fancio i elusennau i sicrhau bod yr heriau penodol a wynebwyd gan fudiadau yng Nghymru yn cael eu cynnwys mewn adroddiad proffil uchel ledled y DU. Gwnaethom gwrdd yn rheolaidd â banciau mawr i ymladd dros driniaeth decach i elusennau yng Nghymru

Dechreuodd 15 o fudiadau gwirfoddol hanfodol ar eu teithiau digidol diolch i £35,000 mewn grantiau bach y gwnaethom eu dosbarthu drwy Newid – y buddsoddiad cyntaf o'i fath. O fentora digidol i hyfforddiant ymarferol, gwnaethom helpu grwpiau o bob rhan o Gymru i gofleidio adnoddau digidol er mwyn cynyddu eu heffaith. Mae Newid yn bartneriaeth rhwng CGGC, Cwmpas a ProMo Cymru, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru

Cafodd dros 200 o Reolwyr Gwirfoddolwyr ledled Cymru'r cymorth yr oedd ei angen arnynt pan oeddent ei angen fwyaf. Gwnaeth cyfranogwyr yn ein digwyddiadau 'Adeiladu Cymru yfory: ail-lunio eich ymgysylltiad â gwirfoddolwyr' rannu syniadau, mynd i'r afael â heriau, a gadael gydag adnoddau ymarferol i hybu ymgysylltiad gwirfoddolwyr - achubiaeth ar adeg pan mae recriwtio gwirfoddolwyr yn anoddach nag erioed

Gwnaethom ddangos y gall unrhyw un, o unrhyw gefndir, gamu ymlaen a gwneud gwahaniaeth. Rhannodd dau ymddiriedolwr ysbrydoledig eu teithiau mewn fideos y gwnaethom ni eu cynhyrchu ar gyfer Wythnos Ymddiriedolwyr 2024, a sbardunodd sgyrsiau am bwy all fod yn ymddiriedolwr a pham ei fod yn bwysig

Gwnaeth dwsinau o fudiadau gwirfoddol lunio dyfodol cyllid y sector. Gwnaethom gynnal digwyddiadau ymgynghori poblogaidd tu hwnt ar y *Cod Ymarfer newydd ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector*, gan roi llinell uniongyrchol i grwpiau at Lywodraeth Cymru. Gwnaeth eu mewnbwn helpu i lunio'r Cod, a lansiwyd yn Ebrill 2025 i ymwreiddio arferion cyllido tecach a mwy tryloyw

Gwnaethom helpu elusennau yng Nghymru i godi eu proffil – a'u hincwm. Trwy weithio gydag ymgyrchoedd codi arian ledled y DU fel Dydd Mawrth Rhoi a Diwrnod Ymwybyddiaeth Rhodd Cymorth, gwnaethom yn siŵr bod gan fudiadau yng Nghymru adnoddau dwyieithog, wedi'u teilwra i hybu eu hymdrechion codi arian ac amrywio eu hincwm

Gwnaethom ddathlu lleisiau eofn a chwalu rhwystrau yn ein Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2025 yn Abertawe. Daeth menywod o bob rhan o'r sector gwirfoddol a thu hwnt ynghyd i rannu syniadau, herio anghydraddoldebau a gwthio am newid go iawn yn y gweithle

Rhoesom ein harian ar ein gair ac ymrwymo i gefnogi ein sector anhygoel wrth iddo wynebu heriau ariannol a dyfodol ansicr. Rydym wedi cyflawni gwargedau yn ein cyllideb dros y blynyddoedd diwethaf diolch i nifer o benderfyniadau strategol, fel gwerthu eiddo, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn arian wrth gefn rhydd. Gydag ein rhaglen newid yn 2023/24, rydym eisoes wedi sicrhau ein sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ariannol fel y gallwn fod yno i'r sector gwirfoddol ymhell i'r dyfodol. Byddwn yn defnyddio ein harian wrth gefn rhydd nawr i wneud effaith unigryw, uniongyrchol a hirdymor i fudiadau gwirfoddol ar hyd a lled Cymru – mwy am hyn yn y man!

Grantiau a ddyfarnwyd a benthyciadau a fuddsoddwyd yn y sector gwirfoddol yng Nghymru

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL

Prosiectau lleol i adfer a gwella natur

£17,301,419

GRANTIAU'R GOEDWIG GENEDLAETHOL

Cynllun peilot i gefnogi coedwigoedd cenedlaethol Cymru

£542,529

GRANTIAU TWF SEFYDLIADOL LLYWODRAETH CYMRU

Cynorthwyo mudiadau i adeiladu eu gwydnwch a thyfu

£1,586,859

BENTHYCIADAU BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL CYMRU

Cynorthwyo mudiadau i ddatblygu

£301,000

GRANTIAU NEWID

Datblygu mudiadau trwy grantiau ar gyfer gwelliannau digidol

£35,491

CYNLLUN CYMUNEDAU Y DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI

Helpu cymunedau i weithredu dros eu hamgylchedd lleol

£420,018

GRANTIAU TWF SEFYDLIADOL COMIC RELIEF

Cynorthwyo mudiadau i gynyddu eu gwydnwch a thyfu

£315,000

CRONFA ADEILADU CAPASITI MEWN CYMUNEDAU ARFORDIROL

Prosiectau lleol mewn ardaloedd arfordirol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

£499,984



CYNLLUN GRANT CYMRU AC AFFRICA

Grantiau i brosiectau sy'n fuddiol i Gymru ac Affrica

£147,145

CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD YNNI

Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau mudiadau gwirfoddol

£279,756

GRANTIAU GWIRFODDOLI CYMRU

Hyrwyddo a gwella arferion gwirfoddoli yng Nghymru

£2,160,017

CRONFA BENTHYCIADAU ASEDAU CYMUNEDOL

Galluogi grwpiau i ddod ag eiddo o dan berchnogaeth cymunedau

£920,760

Ein gwaith gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW)

£15,332,008



Cyllid a ddyfarnwyd gan TSSW

Mudiadau a gefnogwyd â chyngor a gwybodaeth uniongyrchol

4,364

Oriau a dreuliwyd yn cefnogi'r sector gwirfoddol

17,792

Gwirfoddolwyr wedi manteisio ar gyfle gwirfoddoli

3,561

Ein prif effeithiau

Cafodd 79 o fudiadau gwirfoddol ledled Cymru gymorth arbenigol i leihau eu biliau ynni ac allyriadau carbon drwy ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni. Gwnaethom eu cefnogi â chyngor, arbenigedd a £358,056 mewn grantiau i gynnal arolygon ynni ac uwchraddio adeiladau gyda phethau fel paneli solar a phympiau gwres. Gwnaethom helpu'r sector i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a lleihau costau ynni ar adeg pan mae prisiau ynni yn mynd drwy'r to

'Freuddwydiais i fyth y bydden i'n mynd i Ganada...' – gwnaeth gweledigaeth un arweinydd am gymorth i ffoaduriaid fynd ag ef ar draws ddyfroedd yr Iwerydd – a dod â syniadau newydd gartref. Diolch i'n Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie, ymwelodd Salah Rasool o Gyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) â Chanada i edrych ar eu cynlluniau cyflogaeth arloesol i ffoaduriaid. Mae'r hyn a ddysgodd eisoes wedi llywio gwaith WRC a sbarduno mentrau newydd yma yng Nghymru. Ac mae'r daith yn parhau – mae derbynnydd ein bwrsari am 2024, Cindy Chen o ProMo Cymru, ar y ffordd i Singapore i ddarganfod sut gall technoleg rymuso pobl ifanc

Gwnaeth mwy na 318 o ddysgwyr hybu eu sgiliau drwy ein rhaglen hyfforddiant gyhoeddus – a graddiodd 99% ohonynt y cyrsiau fel rhai da neu ardderchog. O ddiogelu data i ddwyieithrwydd, rheoli prosiectau i lywodraethu cynhwysol, gadawodd cyfranogwyr yn fwy parod i arwain, rheoli a chyflawni. Dywedodd un cyfranogwr: 'Fe ddysgais i gymaint heb sylweddoli 'mod i'n dysgu.' Gwnaethom hefyd uno'r sector yn ein digwyddiad blaenllaw, gofod3, a ddychwelodd i fod yn ddigwyddiad wyneb-yn-wyneb am y tro cyntaf ers 2019, gyda dros 500 o fynychwyr yn creu diwrnod pwerus o ddysgu a chysylltu

Daeth hyrwyddwyr chwaraeon amrywiol ynghyd i ysbrydoli crewyr newid y dyfodol yn nigwyddiad 'Dod â'r Pencampwyr Ynghyd' Gwobrau Chwaraeon Amrywiaeth Ethnig Cymru (WEDSA) a drefnwyd gan ein prosiect Amrywiaeth Chwaraeon Cymru. Gwnaeth ein dathliad rhwydweithio llawn egni anrhydeddu enillwyr y llynedd a chreu lle i rannu storïau, cysylltiadau ac ysbrydoliaeth. Dywedodd un mynychwr ei fod yn 'ddigwyddiad ardderchog, wedi'i drefnu'n dda, da iawn i bawb. Diolch am noson wych'



Dde: Ciw o blant eiddgar oedd am dynnu eu lluniau gyda Steve Robinson a'i wregysau pencampwriaeth yn nigwyddiad 'Champions Unite' WEDSA, a gynhaliwyd gan ein prosiect Chwaraeon Amrywiaeth Cymru ▶



Mae mwy o elusennau Cymru yn ennill cyllid nawr diolch i Cyllido Cymru. Trwy weithio gyda chyllidwyr a chyda'n partneriaid yn Cefnogi Trydydd Sector Cymru, gwnaethom wella rhestriadau'r platfform a helpu cyllidwyr i gyrraedd cymunedau yng Nghymru'n well. Dywedodd un cyllidwr wrthym: 'Eleni, cawsom fwy o geisiadau o Gymru nag o unrhyw ran arall o'r DU – roedd y tu hwnt i bob disgwyl'

Gwnaeth mudiadau treftadaeth ledled Cymru ganfod diben o'r newydd a gwell cynhwysiant drwy brosiect Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion. Yn ôl gwerthusiad annibynnol, gwnaeth y prosiect, a arweiniwyd gan CGGC a'i gyllido gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sbarduno ton o newid positif ar draws mudiadau treftadaeth yng Nghymru. Disgrifiodd un cyfranogwr yr hyfforddiant fel 'trawsnewidiol', ac mae'r pecyn cymorth y gwnaethom ei lansio ar ôl y prosiect yn parhau i yrru arferion cynaliadwy a chynhwysol yn y sector treftadaeth a thu hwnt

Gwnaeth miloedd o bobl dorchi'u llewys i ddod â natur yn ôl i'w cymunedau. Gwnaeth ein cynllun Partneriaethau Natur Lleol Cymru gefnogi prosiectau i greu 140 o fannau gwyrdd newydd, yn ymestyn dros ryw 111 o hectarau, a 70 o berllannau newydd yn ymestyn dros 62 o hectarau! Gwnaeth hefyd ymhél â 4,740 o wirfoddolwyr a gyfrannodd mwy nag 21,000 o oriau o weithredu ledled Cymru - yn plannu blodau gwyllt, glanhau afonydd ac yn tyfu gerddi cymunedol. Mae'r cynllun yn cydweithio â phob awdurdod lleol a pharc cenedlaethol yng Nghymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol lleol

Daeth cannoedd o ymddiriedolwyr ac arweinwyr yn fwy craff ar ddiogelu a llywodraethu drwy ein hamserlen lawn dop o weminarau, sesiynau galw heibio a chyrsiau hyfforddi. Gwnaethom ymdrin â 216 o ymholiadau uniongyrchol, adolygu 45 o bolisïau a chynnal 26 o ddigwyddiadau i helpu'r sector i barhau i gydymffurfio, bod yn hyderus a chael yr wybodaeth ddiweddaraf

◀ **Chwith:** Yn dilyn diwedd prosiect 'Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion', edrychodd ein digwyddiad dathlu, ar yr effaith ar fudiadau treftadaeth yng Nghymru a'r gwersi a ddysgwyd

Astudiaeth achos: Newid bywydau a rhannu arferion da

Chwiliodd Scott ac Owen eu llais a'u diben diolch i waith dyfeisgar Innovate Trust. Mae'r elusen yn eiriolwr ysbrydoledig dros oedolion ag anableddau dysgu ac un o dderbynyddion Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru.

Trwy'r Hwb Gwirfoddoli – rhan o ap 'Insight' Innovate Trust – mae pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion ychwanegol eraill yn darganfod cyfleoedd gwirfoddoli hygyrch sy'n grymuso ac yn cael eu creu gyda nhw, nid dim ond ar eu cyfer nhw.

Un o lwyddiannau allweddol Hwb Gwirfoddoli Innovate oedd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau i gyd-gynhyrchu'r cynnwys ar gyfer y wefan. Roedd Scott wedi bod yn rhan o brosiect cadwraeth â chefnogaeth a oedd wedi dod i ben a'i adael yn teimlo ar goll. Ond pan ymunodd â phrosiect yr Hwb Gwirfoddoli, newidiodd popeth. Helpodd i lunio cynnwys, rhannu ei syniadau a chanfod diben newydd.

Bu taith Owen yr un mor bwerus. Ar y dechrau, teimlai fod hyd yn oed gwneud galwad ffôn y tu hwnt i'w allu. Ond trwy sesiynau 'Crëwr' misol, dechreuodd fentro y tu allan i'w gysurfan.

Bu ymarfer galwad i ofyn am rôl gwirfoddoli yn drobwynt iddo – ac yn garreg filltir i adeiladu ei annibyniaeth.

Yn ogystal â bod yn hygyrch, mae'r rôl Crëwr Gwirfoddol wedi bod yn drawsnewidiol i unigolion ag anableddau dysgu fel Scott ac Owen. Mae wedi agor drysau newydd, hybu sgiliau a hyder, a dangos beth sy'n bosibl pan fydd mudiadau yn dylunio gan ganolbwyntio ar gynhwysiant.

Mae cynllun Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan CGGC. Trwy ein cyllid grant, mae prosiectau fel hyn yn newid bywydau go iawn ac yn rhannu gwersi ehangach gyda mudiadau gwirfoddol eraill, fel sut i gynnwys pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.

Uchod: Roedd cael defnyddwyr gwasanaethau yn rhan o gydgynhyrchiad Hwb Gwirfoddoli newydd Innovate Trust yn rhan hanfodol o ddatblygu'r adnodd ▲

Adborth positif, effaith bositif: eich barn ar ein cymorth diogelu:

‘Digwyddiad ffantastig – gwybodaeth glir, gryno, berthnasol a phenodol, gyda dolenni i’w gefnogi er mwyn gallu gwneud mwy o waith y tu allan i’r sesiwn. Roedd hwn yn ddigwyddiad ardderchog i ymddiriedolwyr prysur sydd angen deall eu cyfrifoldebau a sut i’w bodloni. Diolch!’

Rhywun a ddaeth i’n gweminar ddiogelu ar gyfer ymddiriedolwyr

‘Rydyn ni’n ddiolchgar tu hwnt i chi am eich cyngor gwych a’ch argymhellion ar sut gallem ni wella ein polisi presennol. Roedd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr hefyd eisiau i mi gyfleu eu diolch i chi a’ch tîm. Gan ddefnyddio eich cyngor a’ch argymhellion, rydyn ni wedi gweithio ar draws y tîm a chydag aelodau o’n Bwrdd Ymddiriedolwyr i wella a diweddaru’r polisi.’

Hayley Richards, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)

Storïau go iawn, arbedion go iawn: yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni:

‘Mae Fforwm Pentref Trimsaran yn ddiolchgar iawn am y cymorth ariannol gan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni, nid yn unig am yr arian i brynu boeler newydd ar gyfer y Ganolfan Hamdden sy’n eiddo i’r gymuned a’r arolwg ynni, ond hefyd am y cyngor a’r arweiniad gan dîm CGGC.

Mae’r arolwg ynni wedi bod yn ddefnyddiol tu hwnt i nodi effeithlonrwydd ynni’r Ganolfan Hamdden a’r gwelliannau y gellir eu gwneud, a bydd yr wybodaeth yn hanfodol i gynaliadwyedd y cyfleuster yn y dyfodol.’

Kim Brook,
Cadeirydd Fforwm Pentref Trimsaran

Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru

Yn 2024/25 gwelsom fudiadau gwirfoddol yn wynebu costau rhedeg uwch pan oedd system gofal iechyd mewn trafferthion angen cyfraniad hanfodol y sector mwy nag erioed o'r blaen. Gwnaethom weiddi'n UCHEL am bwysigrwydd y 45,000 a mwy o fudiadau yn ein sector gwych, gan ymgyrchu ar eu rhan gyda'r llywodraeth a chysylltu â phartneriaid o'r sector cyhoeddus er mwyn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni newid.

Ein ffocws yn 2024/25

Gwnaethom weithio gyda'r sector i lunio maniffesto i'r sector gwirfoddol wedi'i greu gan ac ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Gan edrych ymlaen at etholiadau 2026 y Senedd, aethom ati, gyda'n haelodau, i brofi syniadau, rhannu mewnwelediadau a chodi ymwybyddiaeth o ddiwygiad y Senedd a'r hyn y mae'n ei olygu i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru. Hyrddiodd ein gwaith dylanwadu ymlaen gyda digwyddiad llawn dop yng nghynhadledd Gwanwyn Plaid Cymru, lle rhoddwyd y sylw i gyd i'r sector. Ac mae mwy i ddod! Yn 2025/26, byddwn yn hyrwyddo llais y sector yng nghynadleddau pleidiau eraill, gan sefyll ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a Cwmpas

Gwnaethom hybu pŵer y sector i lunio a chodi ein llais ar hawliau dynol yng Nghymru drwy lansio prosiect hawliau dynol newydd gyda chymorth y Legal Education Foundation. Gwnaethom hefyd barhau i chwarae rôl ganolog mewn hybu sgyrsiau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol yng Nghymru yn y dyfodol, gan droi un o ymrwymiadau allweddol y rhaglen lywodraethu yn gynnydd cyffyrddadwy, go iawn

Cafodd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru eu cyfeirio at wasanaethau canser rheng flaen sydd ar gael yn eu cymunedau, fel rhan o'n Prosiect Arloesi Cymunedol Macmillan. Gwnaethom gyflwyno hyfforddiant 'Gyda'n gilydd gydag Hyrwyddwyr', gan siarad yn uniongyrchol ag ystod eang o grwpiau o gymunedau amrywiol i wella ymwybyddiaeth o wasanaethau canser rheng flaen Macmillan a hyrwyddo mynediad cyfartal at y gwasanaethau hyn

Gwnaeth ein prosiect Helplu Cymru gefnogi camau gweithredu gweddnewidiol ar heneiddio'n dda. Fel rhan o'r grŵp llywio, gwnaethom rannu adnoddau pwerus i wella pecyn cymorth newydd Age Cymru sy'n ceisio galluogi cartrefi gofal, teuluoedd, ffrindiau a phreswylwyr i greu amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar lesiant. Yn ogystal â hyn, gwnaeth Arweinydd Strategol Helplu Cymru, Fiona Liddell, gyflwyniad mewn digwyddiad gan y Brifysgol Agored i ledaenu'r gair ynghylch sut mae gwirfoddoli yn helpu pobl i gadw'n brysur wrth heneiddio

Gwnaethom ni floeddio allan (yn llythrennol) i'r 938,000 o wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith penigamp ledled Cymru ac yn gwneud ein cymdeithas yn lle gwell. Gwnaethom ddathlu 40fed flwyddyn yr Wythnos Gwirfoddolwyr yn ein digwyddiad blaenllaw, gofod3, gyda 'bloedd i wirfoddolwyr' ANFERTH. Gwnaethom hefyd gefnogi cydweithwyr y DU i gynnwys mudiadau o Gymru yn yr ymgyrch genedlaethol bwysig hon ar wirfoddoli, gan gynnwys creu deunyddiau ymgyrchu lliwgar gan ddefnyddio'r Gymraeg

Gwnaethom ni chwifio banner fawr (neu ai'r tywydd oedd hynna?) dros rôl fawr y sector mewn diwylliant Cymru trwy gyflwyno Hwb y Sector Gwirfoddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ochr yn ochr â'n partner lleol, Interlink RCT, aethom ati i gydlynu Hwb y Sector Gwirfoddol yn yr Eisteddfod yn Rhondda Cynon Taf, ac ymunodd bron 50 o fudiadau â ni yn ystod yr wythnos. Gwnaeth yr Hwb roi cyfle i fudiadau ddangos eu gwaith ysbrydoledig a denodd ymwelwyr proffil uchel fel Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan AS

Gwnaethom gydweithio â Data Cymru i roi rhai rhifau y tu ôl i effaith enfawr ein mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yng Nghymru. Wedi'i ail-lansio eleni, mae gan Borth Data'r Sector Gwirfoddol ymddangosiad ac ymdeimlad newydd, ynghyd â gwybodaeth a data mwy cyfredol. Ymhlith y newidiadau, mae data cyflogaeth mwy manwl ar gyfer y sector gwirfoddol, gwell dadansoddiad o wirfoddoli a throsolwg mwy cynhwysfawr o ddata incwm a chyllid

Dde: 'Diolch yn fawr i wirfoddolwyr' yn ein digwyddiad blaenllaw, gofod3 a gynhaliwyd yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr arbennig iawn yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed ▶

Gwnaeth Michael Sheen annerch y teilyngwyr yn frwd yn ein seremoni wobrwyo urddasol yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd

Gwobrau Elusennau Cymru

Llongyfarchiadau gwresog i enillwyr a theilyngwyr syfrdanol 2024

Mae Gwobrau Elusennau Cymru, a drefnir gan CGGC, yn cydnabod a dathlu'r cyfraniad ffantastig y mae elusennau, grwpiau cymunedol, cwmnïau nid-er-elw a gwirfoddolwyr yn ei wneud i Gymru drwy amlygu a hyrwyddo'r gwahaniaeth positif rydym ni'n ei wneud ym mywydau ein gilydd.

Yn 2024 cawsom ni'r nifer uchaf erioed o enwebiadau ar gyfer y gwobrau. Cyhoeddwyd yr enillwyr yn ein seremoni yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 25 Tachwedd 2024. Llywyddwyd y digwyddiad gan y Newyddiadurwraig a chyflwynydd BBC, Jennifer Jones a gwnaeth yr actiwr Michael Sheen, Llywydd CGGC, hefyd roi anerchiad twymgalon i'r teilyngwyr.

Diolch o galon i bawb a gymerodd ran y flwyddyn hon, waeth a wnaethoch noddi, enwebu neu dim ond ymuno â ni i'w cefnogi! Llongyfarchiadau i'n holl enwebeion, teilyngwyr ac enillwyr. Mae'r gwaith y mae gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddolwyr yn ei wneud yng Nghymru yn anhygoel, yn ysbrydoledig ac yn fraint o'r mwyaf i'w ddathlu.

Mae rhestr lawn o deilyngwyr 2024 ar ein gwefan.

Enillwyr

Gwirfoddolwr y flwyddyn

(gwirfoddolwyr 26 oed a hŷn)
Noddwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru

Carmen Soraya Kelly

Mae Soraya wedi ymroi ei hun i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd difreintiedig, gan ddarparu adnoddau hanfodol a rhaglenni trawsnewidiol fel Unite4Youth, sy'n cynnig cyfnodau mentora a lleoliadau gwaith â thâl sy'n aml yn arwain at gyflogaeth barhaol.

Gwirfoddolwr ifanc y flwyddyn

(gwirfoddolwyr 25 oed neu'n iau)
Noddwyd gan Hugh James

Molly Fenton

Mae Molly, sylfaenydd 'Love Your Period' yn wirfoddolwr ac yn eiriolwr brwd dros iechyd mislif a grymuso ieuenctid yng Nghymru. Mae Molly yn gweithio'n ddiflin i chwalu stigmâu, dosbarthu cynhyrchion mislif ac i wneud lleisiau ieuenctid yn uwch.

Codwr arian y flwyddyn

Cyd-noddwyd gan Zurich Municipal a Thomas Carroll

Diabetes UK Cymru, ymgyrch 'Ailysgrifennu Stori Peter'

Mae gwaith codi arian a chefnogi Beth gyda Diabetes UK Cymru, er cof am ei mab Peter, wedi codi dros £100,000 ac wedi gyrru newidiadau systemig mewn diagnosio Diabetes Math 1 ledled Cymru.

Hyrwyddwr amrywiaeth

Cyd-noddwyd gan AP Cymru ac Asesiadau Awtistiaeth De Cymru

Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin wedi hyrwyddo cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth mewn gwasanaethau plentyndod cynnar cyfrwng Cymraeg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft, darparu hyfforddiant proffesiynol, adnoddau diwylliannol amrywiol a rhaglenni mentora ar gyfer awduron Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.

Defnydd o'r Gymraeg

Noddwyd gan Mentrau Iaith

Y Bartneriaeth Awyr Agored

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn elusen ddwyieithog sy'n grymuso cymunedau Cymraeg eu hiaith i ymhél â gweithgareddau awyr agored drwy fentrau fel Bant â Ni a chlybiau yn y gymuned, sydd wedi tyfu o 15 i fwy na 150 ers 2005.

Mudiad bach mwyaf dylanwadol

Noddwyd gan Sefydliad Banc Lloyds ar gyfer Cymru a Lloegr

Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

Mae Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW) wedi gwneud camau breision i ddadlau dros ofal iechyd gwell i fenywod, gan chwarae rôl allweddol mewn datblygu'r Cynllun Iechyd Menywod i ddod ar gyfer Cymru.

Iechyd a lles

Noddwyd gan Leaderful Action

St Giles Cymru – Prosiect 'Aspiring Champions'

Mae Prosiect 'Aspiring Champions' St Giles Cymru yn cefnogi mamau ifanc (14 i 24 oed) sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn y Rhyl. Maen nhw'n brwydro yn erbyn risgiau cam-fanteisio drwy rymuso, mentora a datblygu sgiliau.

Mudiad y flwyddyn

Noddwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru

FareShare Cymru

Mae FareShare Cymru yn troi problem amgylcheddol yn ddatrysiad cymdeithasol drwy ailddosbarthu bwyd sydd dros ben i fwy na 260 o grwpiau cymunedol, gan ddarparu mwy na 2.1 miliwn o brydau bwyd ar gyfer 28,295 o bobl bob wythnos.

Sbotolau ar ein staff: Yr uchafbwyntiau o'r maes iechyd a gofal

Jo Davies, Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn CGGC, sy'n arwain ein gwaith ar gysylltu mudiadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a siarad ar eu rhan.

Cyllidir Prosiect Iechyd a Gofal CGGC gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol i ymhél â dulliau arloesol o fynd ati i ymdrin ag iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yng Nghymru a'u datblygu. Anterth ychydig o waith hirdymor oedd blwyddyn olaf Cam 1 y prosiect.

Rydym wedi bod yn cysylltu mudiadau â'i gilydd ac â phenderfynwyr yng Nghymru drwy rwydweithiau gwahanol, wrth i'n prosiect Helplu Cymru ddod â phobl â diddordeb mewn sut mae gwirfoddoli o fudd i'r maes iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd.

Rydym yn defnyddio'r rhwydweithiau hyn i ddysgu am yr hyn sy'n bwysig i fudiadau. Mae hyn yn cyfrannu at ein hymatebion i ymgynghoriadau, papurau briffio a phapurau ymchwil, fel ein cyhoeddiad â Chomisiwn Bevan, 'Gwerthoedd a Gwerth y Trydydd Sector'. Mae'r rhain yn ein helpu i wthio am gydnabyddiaeth well o rôl y sector mewn iechyd a gofal.

Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiadau strategol pwysig i wella cydweithio. Gwnaeth ein Rheolwr Helplu Cymru gwrdd â'r sector iechyd statudol, a gwnaeth hyn arwain at greu dangosfwrdd gwirfoddolwyr drwy ein gwefan Gwirfoddoli Cymru sy'n rhoi mewnwelediad i fudiadau'r GIG o ddata gwirfoddoli.

Rydym yn falch tu hwnt o'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod cam cyntaf y prosiect. Rydym yn gyffrous i weld beth arall y gallwn ni, a'r sector, ei gyflawni gyda'n gilydd yng Ngham 2.

Uchod: Jo sy'n arwain ein gwaith hanfodol o hyrwyddo a chefnogi rôl mudiadau gwirfoddol yn y sector iechyd ▲

Ein prif effeithiau

Trwy gydweithio â Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop (EESC), gwnaethom helpu i roi pobl ifanc ar yr agenda gan arwain at ymrwymiadau gan y DU a'r UE ar symudedd ieuenctid a chyfnewidiadau addysgol. Gwnaethom sicrhau bod llais mudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn helpu i lywio meddylfryd y DU a'r UE. Diolch i'n mewnbwn, cafodd symudedd ieuenctid le amlwg ar agenda uwchgynhadledd ailosod y DU a'r UE. Roedd yn wych gweld ein gofynion yn cael eu gwireddu wrth i'r DU a'r UE gytuno i weithio tuag at gynllun symudedd ieuenctid sy'n cynnwys gwirfoddoli. Mae'r cytundeb i weithio tuag at gael y DU i ailymuno ag Erasmus+, rhaglen flaenllaw'r UE ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ieuenctid, yn gyfle enfawr i'r sector gwirfoddol ac yn uchafbwynt go iawn i ni!

Gwnaethom chwarae rôl hanfodol mewn llunio Cyfamod y Gymdeithas Sifil, gan sicrhau datganiadau yn Nhŷ'r Arglwyddi a oedd yn hyrwyddo ein blaenoriaethau. Mae Cyfamod y Gymdeithas Sifil yn set newydd o egwyddorion ar gyfer sut mae Llywodraeth y DU yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol. Gan ddilyn ymlaen o lwyddiant Cynllun Trydydd Sector Cymru ei hun, gwnaethom bledio'r achos dros bartneriaethau cryfach a thecach. Trwy ymhél yn uniongyrchol â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a chydweithio'n agos â'n chwaer-gynghorau a'n partneriaid cenedlaethol, gwnaethom ddylanwadu ar gyfeiriad y Cyfamod. Ac rydym wrth ein boddau o weld bod ein gwaith wedi talu ar ei ganfed, gyda phrif flaenoriaethau Cymru wedi'u codi gan Arglwyddi Cymru mewn trafodaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi

Yn 2024/25, gwnaeth ein gwaith gynhyrfu'r dyfroedd. Cafodd CGGC ei grybwyll 38 o weithiau ar draws newyddion a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a 32 o weithiau yn y Senedd, gan gynnwys deg gwaith mewn cyfarfod llawn a 22 o weithiau mewn sesiynau pwyllgorau. Nid dim ond casglu llwch wnaeth ein saith ymateb i ymgynghoriadau – gwnaethant agor drysau ac arwain at dri gwahoddiad i roi tystiolaeth ar lafar i Bwyllgorau'r Senedd, gan sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed yn y lle pwysicaf

Gwnaeth ein prosiect iechyd a gofal cymdeithasol ddangos cymaint y mae'r sector gwirfoddol yn ei olygu i'w bartneriaid yn GIG Cymru. Gwnaethom gyhoeddi adolygiad llenyddol ar O'r Ysbyty i'r Cartref a chynnal dau weithdy ar y pwnc. 'Bu'r gweithdai O'r Ysbyty i'r Cartref yn ddefnyddiol iawn o ran dwyn cydweithwyr ynghyd i ddeall ehangder a gwerth y gwasanaethau rydym yn eu cynnig i gefnogi'r GIG yng Nghymru.' - Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru

Gwnaeth ein tystiolaeth ddangos maint a gwerth gwaith y sector yn y maes iechyd a gofal. Gwnaethom gyhoeddi papurau ar *Gwerth a Gwerthoedd y Trydydd Sector* a *Pam mae'r trydydd sector yn bwysig i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru*. Gyda 63 o fynychwyr, roedd y sesiynau y gwnaethom eu cynnal yn ein digwyddiad, gofod3, i drafod y papurau a dyfodol iechyd a gofal yng Nghymru yn fwrlwm i gyd. 'Roedd y sesiwn roeddwn i'n gysylltiedig â hi wedi'i threfnu'n dda a'i chadeirio'n fedrus, gan roi cyfle am drafodaeth eang a ddangosodd ehangder a dylanwad y gwaith ar draws y trydydd sector yng Nghymru.' – Kate Williams, Gofal Canser Macmillan

'Rydym yn llunio ffordd weithio fwy strwythuredig, gynhwysol ac effeithiol'. Gwnaethom dorri tir newydd o ran sut mae'r sector yn cysylltu â Llywodraeth Cymru. Gwnaethom beilota ffordd newydd ffres ac uchelgeisiol o weithio i ddatblygu 'fframwaith ymgysylltu' Cynllun y Trydydd Sector, gan ddechrau gyda'r portffolio addysg. Creodd Kathryn Robson, cynrychiolydd addysg Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) a Phrif Weithredwr Addysg Oedolion Cymru, ddarlun o'r momentwm: 'Mae datblygiad ein fframwaith ymgysylltu yn fodd newydd i'r trydydd sector a Llywodraeth Cymru gydweithio ar addysg a hyfforddiant. Trwy rannu agendâu, gosod blaenoriaethau ar y cyd ac ymgysylltu'n gryfach â gweinidogion, rydym yn adeiladu ffordd fwy strwythuredig, gynhwysol ac effeithiol o weithio. Nid fframwaith yn unig mo hwn, mae'n sylfaen ar gyfer ymddiriedaeth, dylanwad ac arloesedd. Mae'r cynllun peilot hwn eisoes yn gosod cynsail am ymgysylltu a allai fod yn drawsnewidiol ar draws y sector ehangach.'

Dde: Gwnaeth ein grant Gwirfoddoli Cymru helpu No Fit State Circus i gynnig gweithgareddau syrcas a chreadigol i'r gymuned leol, gan roi cyfle i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau unigryw a gwella eu lles ▶

Sbotolau ar ein staff: Gwthio am weithredu ar y penderfyniad i godi'r Yswiriant Gwladol

Natalie Zhivkova, Rheolwr Polisi a Mewnwelediadau CGGC, sydd wedi bod yn arwain y gwaith o siarad ar ran y sector gwirfoddol wrth i'r costau uwch fygwth dyfodol mudiadau.

Yn ystod yr hydref, aethom ati ar unwaith i weithredu yn dilyn cyhoeddiad y Canghellor ynghylch codi Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, heb ad-daliad i'r sector gwirfoddol.

Daw'r cynnydd ar adeg pan mae cyllidebau mudiadau gwirfoddol eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf. Dywedodd mudiadau wrthym eu bod yn poeni'n arw am y dyfodol gyda gwasanaethau hanfodol mewn perygl, y nifer uchaf erioed o gwmnïau yn uno a rhai yn wynebu'r posibilrwydd o orfod cau eu drysau am byth.

Aethom ati i ymgyrchu ar lefel y DU ochr yn ochr â'n chwaer-gynghorau a phartneriaid cenedlaethol eraill. Gwnaethom hefyd ymhél â Thŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar ddiwygiadau i'r bil a fyddai naill ai'n ad-dalu neu'n esemptio mudiadau gwirfoddol rhag gorfod talu'r gost uwch.

Yng Nghymru, gwnaeth ein hymgyrchu helaeth ar y mater gipio sylw'r cyfryngau cenedlaethol droeon, a gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i Bwyllgor Cyllid Senedd.

Roeddem yn falch o weld ein gofynion wedi'u hadlewyrchu yn y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26. Adleisiwyd ein hargymhellion yn adroddiadau chwech o naw bwyllgor y Senedd, gan ddangos pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa.

Wrth i ni ysgrifennu hwn, rydym yn parhau i ymhél â phob lefel o'r llywodraeth, gyda'r nod o negodi datrysiadau cyllido ar gyfer y mudiadau gwirfoddol a effeithir.

Uchod: Mae Natalie wedi bod yn arwain ein gwaith ymgyrchu wrth i'r sector wynebu argyfwng ariannol difrifol ▲

Adrodd storïau ysbrydoledig. Yr hyn yr oedd ymgyrch Wythnos Elusennau Cymru yn ei golygu i chi:

‘Roedd y Birth Partner Project mor ddiolchgar o gael sylw gan CGGC yn ystod Wythnos Elusennau Cymru. Fel mudiad bach, rydyn ni wastad yn chwilio am ffyrdd o rannu ein gwaith anhygoel gyda’n cymuned leol. Yr hyn a effeithiodd arnom ni fwyaf oedd cael fideo byr wedi’i wneud am ein gwaith – cafodd hyn ei wneud mewn modd sensitif a chan ganolbwyntio ar ein Mamau.

Gallon ni ddefnyddio’r fideo hwn i ddangos ein gwaith, yn gyntaf yn ein digwyddiad cymunedol adeg y Nadolig i godi ymwybyddiaeth, ac yna i’w rannu hefyd â chyllidwyr a chefnogwyr posibl fel ffordd fwy effeithiol a didwyll o adrodd ein stori. Rydym wedi cael tymor llwyddiannus o godi arian ac wedi cael mwy o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol hefyd. Diolch CGGC am eich cymorth parhaus ac am ein helpu ni i rannu ein gwaith yn ystod Wythnos Elusennau Cymru.’

Emily Roux, Birth Partner Project

Uchod: Gwnaethom roi sylw i gefnogaeth anhygoel y Birth Partner Project i famau sy’ n chwilio am loches yn ystod Wythnos Elusennau Cymru ▲

‘Defnyddiol a grymusol’. Eich barn ar ein grŵp cynllunio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

‘Mae’r Grŵp Cynllunio IGC yn dod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghyd, sy’n ddefnyddiol ac yn rymusol i elusen fechan a arweinir gan gleifion fel Triniaeth Deg i Fenywod Cymru.’ **Debbie Shaffer, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru**

Staff CGGC yn cymryd rhan yn yr orymdaith Pride genedlaethol yng Nghaerdydd

Ein nod

Mae CGGC yn fwy gwydn

Yn 2023/24, dechreuodd CGGC ar drawsnewidiad mewnol mawr. Eleni, roedd Cam 2 ein rhaglen newid yn ymwneud â gweithredu – cryfhau ein hymrwymiad i lesiant, cyflogau a buddion staff a mynd ati o ddifrif i ymwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn.

Ein ffocws yn 2024/25

Aethom gam ymhellach yn ein taith i fod yn fudiad gwrth-hiliol. Eleni, gwnaethom gyhoeddi ein hymrwymiadau gwrth-hiliaeth a chyflwyno hyfforddiant ar wrth-hiliaeth a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'n holl staff. Rydym yn gwybod nad yw datganiadau yn ddigon – mae angen gweithredu. Ond megis dechrau ydym ni, ond mae'n gam ymlaen yn ein nod i nid yn unig herio hiliaeth, ond i helpu i'w ddifa

Gwnaethom ail-ddychmygu sut rydym yn cefnogi ac yn gwobrwyo ein staff. Gwnaeth adolygiad annibynnol o'n cyflogau a buddion sicrhau ein bod nid yn unig yn gystadleuol, ond hefyd yn deg ac yn flaengar. Roeddem yn falch o gyflwyno ein cynnig newydd i staff, sy'n ymwneud â denu'r bobl gywir, cadw talent a dangos i'n tîm bod eu llesiant nhw'n bwysig

Gwnaethom fuddsoddi yn nyfodol CGGC a'r sector. Gyda phenodiad Rheolwr Datblygu Busnes a Chydberthnasau, aethom ati i ddechrau cyflawni ein Strategaeth Cynhyrchu Incwm. Mae'r gwaith hwn yn allweddol i gryfhau ein gwydnwch, fel y gallwn barhau i sefyll yn gryf dros y sector gwirfoddol yng Nghymru

Gwnaethom gofleidio cyfathrebu cynhwysol drwy ddysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Gyda Chomisiynydd BSL ar y gorwel i Gymru, gwnaethom gymryd camau cynnar i baratoi, gyda nifer o'r staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant BSL Lefel 1 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

Aethom i'r afael â heriau iechyd a anwybyddir yn aml. Gwnaeth grwpiau a arweinir gan staff ar feigrynnau a menopos roi gofod i bobl rannu profiadau, cefnogi ei gilydd, a sbarduno sgyrsiau ehangach am lesiant yn y gwaith

Gwnaethom sefyll yn falch dros gynhwysiant LHDTC+. Gwnaeth ein staff orymdeithio mewn digwyddiadau Pride cenedlaethol a lleol, gan nid yn unig ddathlu pwy ydym ni, ond hefyd yr hyn rydym yn ei ddynodi – sector gwirfoddol croesawgar ac amrywiol

Gwnaethom ailgysylltu â diwylliant a chymuned. Gwnaeth ein diwrnod staff yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn 2024 ddod â'n tîm ynghyd i ddysgu am, a dathlu, treftadaeth Cymru – ynghyd â chwblhau cwis, gwneud helfa sborion a chael digonedd o hwyl

Staff CGGC yn cymryd seibiant o fyfyrio ar waith eu blwyddyn i fwynhau diwrnod diwylliant Cymru yn Sain Ffagan yn ein diwrnod blynyddol i staff

Sbotolau ar ein staff: Cymraeg yn CGGC

Arweiniodd Kate Gobir, ein Rheolwr Aelodaeth a'r Gymraeg, symudiad pwerus i roi dwyieithrwydd wrth wraidd y ffordd y mae CGGC yn gweithio ac yn cysylltu.

Dim ychwanegiad yw'r Gymraeg i ni. Mae'n ymwneud â mwy na chydymffurfio, mae'n ymwneud â diwylliant, hunaniaeth a chynhwysiant. Fel mudiad cenedlaethol, rydym ni'n credu mewn Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Eleni, gwnaeth y gred honno lunio lansiad ein Grŵp Cymraeg newydd, grŵp a arweinir gan staff sy'n hybu diwylliant byw o ddwyieithrwydd ar draws y mudiad.

Caiff y grŵp hwn ei arwain gan ein tîm Cymraeg, ei gadeirio gan Hyrwyddwr Cymraeg ein Bwrdd ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'n Prif Weithredwr. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y Gymraeg nid yn unig yn cael ei pharchu, ond ei bod yn cael ei dathlu a'i hymwreiddio'n weithredol yn ein prosesau, ein hymddygiadau a'n prosesau penderfynu.

Mae bod yn fudiad dwyieithog yn fwy na gwneud y peth iawn, mae'n hanfodol i sut rydym yn gwasanaethu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Gwyddom o'n haelodau pa mor bwysig yw hi i allu ymhél â ni drwy'r Gymraeg. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael croeso a chynrychiolaeth gyfartal a'u bod yn cael eu grymuso i rannu eu llais.

Mae hyn yn ymwneud â mwy na bodloni safonau, mae'n golygu arwain drwy esiampl. Rydym yn falch o fod yn rhan o ymgyrch sy'n creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn fywiog ac yn cael ei gwerthfawrogi ym mhob rhan o fywyd dinesig.

Uchod: Mae Kate wedi bod yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hymwreiddio yn niwylliant CGGC, gan adeiladu CGGC gwirioneddol ddwyieithog a gosod y naws ar gyfer y sector ▲

Ein prif effeithiau

Gwnaethom gefnogi staff fel Caryl i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol gyda'n rhaglen ddysgu a datblygu. Mynychodd Caryl Jones, Rheolwr Buddsoddiadau Cymdeithasol CGGC, y cwrs 'Rheoli eich hun ac eraill'. Yn ôl Caryl, '... roedd y cwrs gymaint mwy nag yr oeddwn i'n ei feddwl y byddai. Mae wedi diweddaru fy theori, gan roi amser i mi fyfyrio ac rydw i wedi dysgu ffyrdd newydd a gwahanol o reoli fy hun ac eraill. Fe wnaeth y cwrs ganiatáu i mi ddatblygu dulliau gweithredu newydd, gan gynnwys awgrymiadau a chynghorion y gallaf eu rhoi ar waith a fydd yn werthfawr i'r tîm a CGGC yn gyffredinol'.

Cyrhaeddodd ein Pennaeth Cyllid, Branka Terzic yr uchelfannau a chafodd ei henwebu ar gyfer Gwobrau Cyllid Cymru 2025. Mae ein tîm cyllid wedi parhau i ddefnyddio eu harbenigedd i reoli ein cyllid yn gadarn. Yn brawf o hyn roedd enwebiad haeddiannol Branka yng nghategori Rheolwr Cyllid y Flwyddyn, da iawn Branka!

'Cael fy ngweld, fy nghlywed a'm gwerthfawrogi...' Rhoesom anogaeth a chefnogaeth i'n staff i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith drwy ein rhwydwaith niwroamrywiaeth a arweinir gan y staff eu hunain. Mae'r rhwydwaith yn grŵp cymorth gan gymheiriaid i bobl sy'n uniaethu fel pobl niwroamrywiol. Meddai un aelod, 'mae bod yn rhan o'r Rhwydwaith Niwroamrywiaeth wedi gwneud i mi deimlo fy mod i'n cael fy ngweld, fy nghlywed, a'm gwerthfawrogi. Mae rhannu profiadau a sgyrsiau gyda chyfoedion wedi rhoi ymdeimlad gwirioneddol o hyder i mi yn fy ngalluoedd fy hun. Mae wedi fy helpu i sylweddoli bod llawer o'r pethau rydw i wedi'u profi yn gwbl ddilys ac yn aml yn cael eu rhannu gan eraill. Am y tro cyntaf, rwy'n teimlo fy mod yn cael fy neall yn wirioneddol ar lefel bersonol, ac mae'r ddealltwriaeth honno wedi cael effaith gadarnhaol ar fy mywyd personol a'm gwaith. Mae'n teimlo'n gyffrous i allu parhau i dyfu yn y gymuned hon a gobeithio, i gefnogi a chodi calon eraill ar hyd y ffordd.'

Dde: Fel rhan o'r Wythnos Llesiant, fe wnaeth tîm bach o'n staff yn y de dreulio ychydig o amser yn gwirfoddoli fel grŵp i gasglu sbwriel yn yr ardal leol ▶

Sbotolau ar ein hymddiriedolwyr: Bydd CGGC yn parhau i drawsnewid

Llwyddodd ein hetholiadau ymddiriedolwyr yn 2024/25 i ymgysylltu mwy o bobl iau â llywodraethiant CGGC. Mae Edward Watts MBE DL, ymddiriedolwr CGGC yn egluro pam mae amrywiaeth ar y bwrdd yn hanfodol.

Allai byrddau ddim bodoli heb amrywiaeth. Mae mor bwysig ein bod ni'n cynrychioli'r gwahanol gymunedau sydd yna fel y gallwn ni glywed pa broblemau maen nhw'n eu hwynebu a chael eu persbectif unigryw.

Rydym yn glir bod amrywiaeth ar y bwrdd yn rhywbeth hollol hanfodol i Fwrdd Ymddiriedolwyr CGGC. Ar gyfer etholiadau ein hymddiriedolwyr yn 2024 roedden ni'n canolbwyntio ar sicrhau'r safbwynt iau.

Mae angen pobl ifanc ar y Bwrdd i gynnig her, ffyrdd newydd o feddwl ac i ddod â rhywfaint o ffresni i drafodaethau. Gall ymgymryd â swydd ymddiriedolwr hefyd roi llawer yn ôl i bobl ifanc. Mae'n gyfle i ddysgu sgiliau newydd a gwneud cysylltiadau allweddol, yn enwedig ar adeg pan nad yw'n hawdd dygymod â phopeth sy'n mynd ymlaen yn y byd ar hyn o bryd.

Roedd yn wych gweld ein hymdrechion i ymgysylltu â phobl iau yn arwain at 43% o geisiadau i ymuno â'r Bwrdd gan bobl o dan 30 oed. Roeddwn wrth fy modd pan etholodd ein haelodau dri o bobl ifanc i'n Bwrdd ym mis Tachwedd ar gyfer y chwe swydd oedd ar gael.

Mae CGGC bob amser yn ceisio bod yn arloesol wrth recriwtio, ond rhaid profi hyn go iawn. Cyn belled â'n bod ni'n cynnal cynhwysiant ar draws pob adran, fel hil, rhyw, niwroamrywiaeth ac ati, bydd CGGC yn parhau i drawsnewid – y cyfan y gellir ei wneud yw dysgu o'r tro diwethaf a cheisio parhau i wella.

Uchod: Mae Edward Watts MBE DL yn ymddiriedolwr CGGC ac yn hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y Bwrdd ▲

Rydym yn sefyll yn gadarn ar y sylfeini y gwnaeth ef eu gosod

Ym mis Mawrth 2025, roedd yn drist iawn gennym glywed am farwolaeth ein cyn Brif Weithredwr, Graham Benfield.

Roedd Graham yn llais hynod ddylanwadol dros bobl a chymunedau yng Nghymru a chafodd ddylanwad mawr ar y sector gwirfoddol yng Nghymru a thu hwnt.

Graham oedd Prif Weithredwr CGGC rhwng 1989 a 2014, ac yn ystod ei 25 mlynedd mewn swydd, bu'n allweddol yn y gwaith o drawsnewid y dirwedd yn llwyr i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Graham fel Prif Weithredwr oedd tynnu sylw at rôl bwysig y sector gwirfoddol mewn cymdeithas yng Nghymru. Am y tro cyntaf roedd maint cyfraniad y sector i Gymru yn amlwg, diolch i ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd ar y miloedd o fudiadau a gwirfoddolwyr, a'u heffaith economaidd.

Pan ddaeth datganoli i Gymru, bu Graham yn allweddol i'r gwaith o sefydlu'r hyn sydd bellach yn cael ei adnabod fel Cynllun y Trydydd Sector. Roedd hwn yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth a ymgorfforodd mewn cyfraith ofyniad i lywodraeth yng Nghymru weithio gyda'r sector gwirfoddol a hyrwyddo buddiannau'r sector. Roedd y cynllun yn gydnabyddiaeth o ba mor annatod yw'r sector i lesiant pobl yn ein gwlad.

Mae gwaddol Graham yng Nghymru yn rhywbeth i fod yn hynod falch ohono. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ddiolchgar amdano am byth a byddwn yn ymdrechu i barhau i adeiladu ar y sylfeini a osododd Graham.

'Roedd yn fraint fawr i mi weld â'm llygaid fy hun gred ddiysgog Graham ym mhŵer gweithredu gwirfoddol a'i effaith drawsnewidiol ar gymunedau ledled Cymru. Heddiw, bob tro mae CGGC yn cysylltu gwirfoddolwr, yn cefnogi ac yn cyllido elusen, neu'n chwyddo llais cyfunol cymdeithas sifil, rydyn ni'n sefyll yn gadarn ar y sylfeini y gwnaeth ef ei osod. Mae ei ymroddiad diysgog, a'i eiriolaeth ddiflino dros sector gwirfoddol cryf a chydnabyddedig yng Nghymru, yn parhau i ysbrydoli ac arwain bob un ohonom yn CGGC.'

Matthew Brown, Dirprwy Brif Weithredwr CGGC

Uchod: Graham Benfield yn ei barti ymddeol yn 2014 ▲

Ein cyllid

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad ariannol ar gyfer 2024/25.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddosbarthu **£30.3 miliwn** mewn grantiau a benthyciadau i'r sector gwirfoddol. Ein hincwm oedd **£36.6 miliwn** a'n gwariant oedd **£34.6 miliwn**.

Incwm
£36.6 miliwn



- Incwm cyfyngedig
- Incwm anghyfyngedig

Incwm cyfyngedig
£32.5 miliwn



- Grantiau derbyniadwy
- Incwm o fuddsoddiadau
- Gweithgareddau masnachu eraill

Incwm anghyfyngedig
£4.1 miliwn



- Grantiau derbyniadwy
- Incwm o fuddsoddiadau
- Gweithgareddau masnachu eraill
- Gwariant a gafodd ei adennill

Gwariant
£34.6 miliwn



- Grantiau i'r sector
- Costau staff (cyflogau, recriwtio, hyfforddiant ac ati)
- Gorbenion (costau adeiladau, cyfarpar, cyfleustodau ac ati)
- Costau eraill (archwiliadau, ymgynghorwyr, marchnata ac ati)

Aelodau Bwrdd CGGC

Llywydd
Michael Sheen

Is-lywyddion
Tom Jones OBE
Peter Davies CBE

Cadeirydd
Dr Neil Wooding CBE

Is-gadeiryddion
Fran Targett OBE (ymddeolodd 14 Tachwedd 2024)
Menai Owen-Jones
Kate Young

Trysorydd
Colin Arnold

Ymddiriedolwyr
Reham Bassal
Jainaba Conteh (etholwyd 14 Tachwedd 2024)
Rhian Davies
Simon Harris
Callum Jones (etholwyd 14 Tachwedd 2024)
Lowri Jones
Chris Lines
Mark Llewellyn (ymddeolodd 5 Rhagfyr 2024)
Kathryn Luckock (ymddiswyddodd 5 Rhagfyr 2024)
Ellis Peares (etholwyd 5 Rhagfyr 2024)
Joe Stockley (ymddiswyddod 14 Tachwedd 2024)
Judith Stone (etholwyd 14 Tachwedd 2024)
Edward Watts MBE DL

Ysgrifenyddes
Tracey Lewis

Rhif cofrestru'r cwmni
0425299

Rhif elusen
218093

Swyddfa gofrestredig
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

Bancwyr
Barclays Bank Plc
Llys Windsor
1-3 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3BX

Cynghorwyr Cyfreithiol
Geldards LLP
Cwr y Ddinas Rhif 4
Stryd Tyndall, Caerdydd
CF10 4BZ

Hugh James
Dau Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FS

Capital Law
Adeilad Capital
Stryd Tyndall, Caerdydd
CF10 4AZ

Darwin Gray
9 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA

Archwilydd
Bevan Buckland LLP
Llawr Gwaelod, Cardigan House, Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Diolch

Hoffem ddiolch i'n holl aelodau a phartneriaid am eu cefnogaeth y flwyddyn hon, gyda diolch arbennig i:

ACEVO

Anabledd Cymru

AP Cymru

Asesiadau Awtistiaeth De Cymru

Bevan Buckland LLP

Busnes Buddsoddi Cymdeithasol

Cavendish Cymru

Ceniarth

Clear the Fog

Comic Relief

Comisiwn Bevan

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cwmni Cyfrifiaduron Pugh

Cwmpas

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymorth Canser Macmillan Cymru

Chwaraeon Cymru

Data Cymru

Eileen Murphy Consultants

Eisteddfod Genedlaethol

Geldards LLP

Gofal Cymdeithasol Cymru

Gwelliant Cymru

Gwirfoddoli Nawr

Helplu

Hugh James

Hwb Cymru Affrica

Law Works

Leaderful Action

Llamau

Llywodraeth Cymru

Mandy Williams Consulting

Mentrau Iaith Cymru

NCVO (Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol)

Nico

Pride Cymru

ProMo Cymru

Recruit3

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Savage a Gray

SCG Cymru

Sefydliad Banc Lloyds

Sefydliad Moondance

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Tîm Cymorth Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig (EYST)

The Funding Eye

Thomas Carroll

Uchelgais Gogledd Cymru

Utility Aid

Volunteer Scotland

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Y Dirprwy Gomisiynydd Plant

Y Loteri Genedlaethol

Ynni Cymunedol Cymru

Ysgol Rhagnodi Cymdeithasol Cymru

Zurich Municipal

Datganiadau ariannol

2024/25

Yn yr adran hon ceir manylion ein cyfrifon a'n gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 gan gynnwys adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr, adolygiad a datganiadau ariannol, adroddiad strategol y grŵp, gwybodaeth ynglŷn â'n haelodau, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol.

Adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr 2024/25

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Dogfen lywodraethu

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ('CGGC') yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Ei ddogfennau llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 9 Rhagfyr 1946 (dyddiad corffori), a ddiwygiwyd diwethaf ym mis Tachwedd 2016. Cafodd CGGC ei gofrestru fel elusen ar 24 Mai 1963.

Recriwtio a phenodi Ymddiriedolwyr

Mae erthyglau cymdeithasu CGGC yn darparu ar gyfer Bwrdd sy'n cynnwys dim llai na chwech a dim mwy nag un-ar-bymtheg o ymddiriedolwyr. Caiff hyd at ddeuddeg o ymddiriedolwyr Bwrdd CGGC eu hethol gan aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chaiff hyd at bedwar aelod eu penodi gan Fwrdd CGGC i sicrhau'r gymysgedd gywir o sgiliau a phrofiad. Bydd ymddiriedolwyr yn ymadael yn ôl trefn gylchdro, sef y rhai sydd wedi gwasanaethu am dair blynedd yn ddi-dor ar ôl cael eu hethol neu eu hailethol.

Bydd ymddiriedolwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol am dymor pellach o dair blynedd ac ni chaiff yr un ymddiriedolwr fod yn y swydd am fwy na naw mlynedd yn olynol. Gall Bwrdd CGGC gyfethol unrhyw un ar unrhyw adeg i lenwi swydd wag dros dro sy'n codi ar Fwrdd CGGC. Yn dilyn proses ethol Ymddiriedolwyr eleni a phleidlais ein haelodau ar gyfer y chwe lle gwag ar y Bwrdd, gwnaeth ein haelodau gymeradwyo penodi tri ymddiriedolwr newydd ac ailbenodi tri ymddiriedolwr cyfredol. Yn ogystal â'r chwe lle etholedig, cymeradwyodd y Bwrdd le penodol i gynnwys ymddiriedolwyr iau er mwyn gwella'r gymysgedd gyfredol o sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd.

Cynefino, dysgu a datblygu ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn mynychu cyfarfod cynefino sy'n cynnwys y cyfle i gwrdd â staff allweddol ac arsylwi ar gyfarfodydd pwyllgor/paneli cyllido. Caiff ymddiriedolwyr wybodaeth am eu rôl a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys Yr Ymddiriedolwr Hanfodol. Mae'r llawlyfr i Ymddiriedolwyr yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd nifer o sesiynau canolbwyntiedig ar raglenni gwaith gwahanol ar gyfer ymddiriedolwyr, gan gynnwys cyfrifyddu carbon, datblygiad a chymorth i'r sector gwirfoddol ar sgiliau digidol, newidiadau i'r system etholiadol yng Nghymru a maniffesto CGGC ynghyd â'n dull gweithredu strategol wrth i ni agosáu at etholiadau 2026 y Senedd.

Gwnaeth ymddiriedolwyr hefyd gwblhau hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu.

Gwnaeth Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd blynyddol y Bwrdd ganolbwyntio ar lywodraethiant, datblygu ein cynnig aelodaeth yn y dyfodol ac edrych ar yr Erthyglau.

Swyddi Anrhydeddus

Mae Llywydd Anrhydeddus CGGC, Michael Sheen yn hyrwyddo CGGC a'r sector bob cyfle a gaiff.

Mae Is-lywydd CGGC, Tom Jones OBE yn gweithio i gynnal a datblygu cysylltiadau cymdeithas sifil ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Mae Is-lywydd CGGC, Peter Davies CBE, yn gefnogwr brwd o'r sector gwirfoddol, yn arbennig o ran datblygu cynaliadwy.

Diolch i'n His-gadeirydd a'n His-lywydd

Eleni, gwelsom ein Is-gadeirydd, Fran Targett OBE yn sefyll i lawr o'r Bwrdd ar ôl 21 mlynedd o gefnogi CGGC a'r Sector. Fran hefyd oedd Cadeirydd panel gyllido'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a gyllidwyd gan yr UE a'i chyflwyno gan CGGC. Llwyddodd y gronfa i gyrraedd grwpiau a dargedwyd a gwnaeth wahaniaeth ar hyd a lled Cymru gan roi cymorth i fwy na 23,000 o unigolion ers 2015. Fel Cadeirydd Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, gwnaeth Fran alluogi CGGC i ddarparu miliynau o bunnoedd o gymorth ariannol i'r sector.

Mae'r Is-lywydd, Tom Jones OBE wedi bod yn ddiflin yn ei frwdfrydedd a'i ymrwymiad i fynd ati i gefnogi pobl a chymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae Tom wedi bod yn canolbwyntio ar gyfrannu at y gymdeithas sifil ehangach, yn enwedig pobl ifanc, cymunedau cefn gwlad, a phartneriaethau lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Mae Tom wedi bod yn cefnogi gwaith CGGC ers 25 o flynyddoedd ac yn parhau i wneud y rôl hon heddiw.

Diolcha'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r tîm staff i'r ddau ohonynt am eu cymorth.

Strwythur y mudiad

Aelod-fudiad yw CGGC. Mae'r aelodaeth ar agor i elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio. Caiff aelodau eu hannog yn weithredol i lunio ein gwaith a chysylltu â rhwydwaith cyfoethog o bobl o'r un meddylfryd sydd â'r un weledigaeth. Mae tri is-bwyllgor yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei rôl, ac mae'r rhain yn adrodd i'r bwrdd:

- Pwyllgor Cyllid a Risg
- Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol
- Pwyllgor Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru

Cefnogir y Bwrdd hefyd gan nifer o baneli ymgynghori ariannol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro'r cynlluniau strategol a gweithredol sy'n ganolbwynt ac yn sail i waith CGGC.

Rheoli risg

Mae Pwyllgor Cyllid a Risg CGGC yn adolygu'r gofrestr risg er mwyn sicrhau bod risgiau strategol y mudiad yn cael eu rheoli'n briodol a bod camau lliniaru digonol yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r gofrestr risg, adroddiadau Cadeirydd/Is-gadeirydd y pwyllgorau i'r Bwrdd a'r cyfarfodydd Bwrdd chwarterol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y gofrestr risg ei hail-ddylunio mewn ymgynghoriad â'r pwyllgor Cyllid a Risg gyda mewnbwn gan ein harchwilwyr er mwyn adlewyrchu'r mudiad yn well ar ôl yr ailstrwythuro.

Partïon cysylltiedig

Yn ystod 2010/11 sefydlodd yr Elusen grŵp drwy gorffori dau is-gwmni perchnogaeth lwyr, Social Investment (Cymru) Limited (a ailenwyd o WCVA Investments Limited ar 24 Hydref 2014) at ddibenion sefydlu cronfa fenthyciadau, a WCVA Services Limited at ddibenion gweinyddu gwasanaethau benthyca.

Gwnaeth Social Investment (Cymru) Limited ddarparu buddsoddiad cymdeithasol ar gyfer ac ar ran y trydydd sector yng Nghymru. Daeth yr is-gwmni hwn yn segur yn ystod 2023/2024 gan drosglwyddo ei holl weithgarwch i CGGC. Cafodd Pwyllgor Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru ei sefydlu ar 23 Awst 2023 i gynorthwyo Bwrdd CGGC â'i ddyletswydd i gadw llygad ar gyfeiriad gweithgareddau cyllid ad-daladwy CGGC.

Yn dilyn cwblhad prosiect blaenorol a gyllidwyd gan Ewrop, mae WCVA Services Limited bellach yn segur.

Cafodd trydydd is-gwmni, WCVA Trading Limited, ei gorffori yn ystod 2011/12; nid yw'r cwmni hwn wedi bod yn weithredol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd y penderfyniad i ddileu a diddymu dau is-gwmni segur, sef WCVA Services Limited ac WCVA Trading Limited.

Byddant yn cael eu diddymu ym mis Mehefin 2025.

Gwnaeth ein pedwerydd is-gwmni, Cynnal Cymru - Sustain Wales (Cynnal Cymru) ymuno â grŵp CGGC ar 1 Ebrill 2018. Cynnal Cymru yw'r elusen genedlaethol dros ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cynnal Cymru hefyd yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant. Arbenigwyr cynaliadwyedd yw Cynnal Cymru sy'n darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i helpu mudiadau wneud penderfyniadau beiddgar am ddyfodol tecach a mwy diogel.

Mae grantiau a chontractau caffael a ddyfarnwyd i gyrff lle mae gan yr Ymddiriedolwyr naill ai reolaeth uniongyrchol neu ddylanwad sylweddol wedi'u datgelu o fewn nodyn 8 y cyfrifon.

Amcanion a gweithgareddau

Ein gweledigaeth

'Dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb'

Ein cenhadaeth

'Bydd CGGC yn gatalydd dros newid positif drwy Gysylltu, Galluogi a Dylanwadu'

Amcanion elusennol

Amcanion yr elusen yw hybu pob diben neu unrhyw ddiben er budd y gymuned y bernir yn ôl y gyfraith ei fod yn ddiben elusennol.

Budd cyhoeddus

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi talu sylw dyledus at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolwyr yn hyderus bod nodau a gweithgareddau CGGC yn cadw at y rheoliadau ar fudd cyhoeddus, fel y dangosir drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a'n haelodaeth ehangach, gwnaethom ganolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd lle gallem wneud yr effaith fwyaf. Un o'n prif negeseuon cyfathrebu yw ein bod yn gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Grantiau a chyllid

Gwnaeth yr elusen weinyddu 13 (2024: 18) o gynlluniau grant yn ystod y flwyddyn a chafodd taliadau grant eu gwneud i 557 (2024: 525) o fudiadau.

Grantiau / cynlluniau	**2025 Nifer y grantiau a dalwyd / ad-dalwyd**	**2025 Gwerth y grantiau a dalwyd / ad-dalwyd £**	2024 Nifer y grantiau a dalwyd / ad-dalwyd	2024 Gwerth y grantiau a dalwyd / ad-dalwyd £
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru	-	-	1	124,440
Cynhwysiant Gweithredol – Ieuenctid Dwyrain Cymru	-	-	1	12,741
Cynhwysiant Gweithredol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	1	121,798
Cyllid Seilwaith - CVCs	**19**	**5,409,208**	19	4,848,583
Treth Safleoedd Tirlenwi	**41**	**402,924**	92	2,126,709
Cyngor Partneriaeth	**29**	**98,347**	29	84,024
Gwirfoddoli Cymru	**162**	**2,959,942**	141	2,345,822
Cysylltiadau Cymunedol Cymru dros Affrica	**33**	**239,611**	42	416,639
Comic Relief	**63**	**1,711,673**	5	88,000
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LPfN (Newydd)	**88**	**16,578,375**	82	12,760,640
Partneriaeth Forol ac Arfordirol	**6**	**488,079**	11	300,044
NEWID	**17**	**337,522**	1	5,613

Sero Net	-	-	4	50,000
Catalydd	-	-	15	24,913
Grant Iechyd Meddwl	-	-	1	23,793
Effeithiolrwydd Ynni	**67**	**332,056**	26	26,000
Tlodi Plant – Grantiau Bach	-	-	19	37,200
Cymdeithas Sifil	-	-	35	5,250
Cronfa'r Goedwig Genedlaethol	**13**	**520,512**	-	-
Diogelu	**18**	**106,500**	-	-
TSRF3	-	-	-	(22,100)
Cronfa Newid TSSW	**1**	**70,000**		
	557	**29,254,749**	525	23,380,098

Incwm a gwariant ychwanegol mewn cyllid cyfatebol a ddenwyd gan incwm o'r cynlluniau grant	-	-	3	(34,866)

Contractau a gafaelwyd

Gwnaeth yr elusen weinyddu 0 (2024: 0) cynllun contract a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn

Aelodaeth

Mae'r aelodaeth ar agor i elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n weithredol yng Nghymru. Rydym wedi parhau i ymhél ag aelodau a'r sector ehangach ar faterion pwysig i'r sector drwy gydol 2024/25, a gwnaethom gadw mewn cysylltiad rheolaidd am ddigwyddiadau pwysig. Ond ym mis Medi 2024, penderfynwyd oedi'r aelodaeth cyn yr oedd angen adnewyddu aelodaeth y mwyafrif o bobl. Ers hyn, rydym wedi cynnal digwyddiadau a gwaith ymchwil ar y cynnig gyda'r nod o lansio cynnig aelodaeth newydd yn Hydref 2025.

Adolygiad ariannol 2024/25

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CGGC gynhyrchu cyfanswm incwm gweithredu o £37 miliwn. Prif ffynonellau cyllido'r Elusen yw cyllid grant a benthyciad gan Lywodraeth Cymru, Comic Relief a chyllidwyr eraill i gefnogi ei weithgareddau craidd, gwaith prosiect penodol a chymorth parhaus i'r sector gwirfoddol. Caiff cyllid uniongyrchol hefyd ei gynhyrchu drwy ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer ei aelodau, gan gynnwys hyfforddiant, cyhoeddiadau a chynadleddau.

Rhennir yr incwm hwn, ynghyd â'r gwariant yr eir iddo, rhwng gweithgareddau anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol yr elusen er mwyn helpu i roi darlun clir o'r sefyllfa'n ymarferol. Cefnogir hyn ymhellach gan y naratif isod:

Dadansoddiad o sefyllfa ariannol gyfunol CGGC

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £
Incwm gweithredu	3,359,207	31,821,776	35,180,984
Costau gweithredu	(2,950,065)	(31,679,308)	(34,629,373)
Canlyniadau gweithredu	**409,143**	**142,468**	**551,611**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	192,367	(192,367)	-
Incwm buddsoddi	705,269	728,389	1,433,658
Elw/(Colled) ar ôl ailbrisio buddsoddiadau	1,848	-	1,848
Sefyllfa derfynol	**1,308,627**	**678,490**	**1,987,117**
Balansau a ddygwyd ymlaen	11,695,846	7,330,578	19,026,424
Balansau a gariwyd ymlaen	13,004,473	8,009,068	21,013,541

Gweithgarwch anghyfyngedig

Yr enillion gweithredu net ar weithgarwch anghyfyngedig yw £1.3 miliwn. Cyfanswm y cyllid anghyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025 oedd £13 miliwn. O hyn, mae'r Bwrdd wedi dynodi £5.8 miliwn ar gyfer cronfa eiddo, strategaeth hirdymor CGGC, gwaith prosiect a chostau i gefnogi datblygiad parhaus y mudiad, sy'n gadael cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig o £7.1 miliwn. Mae strategaeth ariannol bwyllog a gofalus yn cael ei dilyn i sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig yr elusen yn cael eu diogelu i gefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd parhaus y mudiad.

Gweithgarwch cyfyngedig

Mae'r holl brosiectau cyfyngedig yn cael eu cyllido'n llawn. Mae'r symudiad cadarnhaol o £0.7 miliwn yn cynrychioli'r symudiad net yn y flwyddyn yn erbyn y cronfeydd sydd gan CGGC ar weithgarwch benthyciadau o ran CIF 1, CIF 2, Asda a chynlluniau benthyciadau Gwydnwch. Mae'r prif gynnydd eleni wedi dod yn sgil llog banc a enillwyd.

Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2025 oedd £8 miliwn, sy'n cynrychioli arian a dyledion heb eu talu ar gyllid a ddyfarnwyd gan gynlluniau benthyca amrywiol, net unrhyw ddarpariaethau ar gyfer dyled goll. Yn unol â strategaeth ariannol CGGC, mae gwariant ar bob prosiect cyfredol yn cael ei fonitro a'i reoli'n ofalus er mwyn sicrhau nad oes colledion yn codi ar weithgarwch cyfyngedig sy'n cael ei gyllido'n llawn.

Gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'i ymddiriedolwyr gwirfoddol, mae 47 o unigolion a chanddynt sgiliau a phrofiad perthnasol yn gwasanaethu fel aelodau gwirfoddol o'r Byrddau Prosiect a'r Panel Benthyciadau ac yn cynorthwyo CGGC drwy ddarparu arbenigedd ar wahanol gynlluniau grant neu gynllunio gwahanol agweddau ar ei waith.

Polisi grantiau a chyllido

Mae'r ymddiriedolwyr yn hysbysebu pob cynllun grant a chyllido ac yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau cymwys. Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol ac argymhellion a wneir gan y Byrddau Prosiect a'r Panel Benthyciadau, a benodir gan y Bwrdd a'u cadeirio gan aelodau Bwrdd, gan gyflwyno trawstoriad eang o arbenigedd. Cedwir at godau ymddygiad llym, gan gynnwys cofrestru buddiannau. Cyhoeddir yr holl ddyfarniadau'n gyhoeddus.

Polisi buddsoddi

Mae'r ymddiriedolwyr yn buddsoddi'n bennaf mewn adneuon banc y farchnad arian, ond hefyd mewn rhai buddsoddiadau llog sefydlog, gyda'r nod o sicrhau enillion rhesymol gyda chyn lleied â phosibl o risg.

Polisi cronfeydd

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gosod polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd gael eu cadw ar lefel sy'n sicrhau y gall gweithgarwch craidd CGGC barhau pe bai cyllidwr mawr yn lleihau ei gyllid neu'n ei dynnu'n ôl, a bod cyfran o'r cronfeydd ar gael ar ffurf y gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried mai cronfeydd y gellid eu gwireddu'n rhwydd yw'r symiau y gellid eu troi'n arian parod yn hawdd pe bai angen gwneud hynny. Yn ôl yr ymddiriedolwyr, cronfeydd y gellir cael gafael arnynt yn hawdd yw'r swm o gyllid y gellir ei droi'n arian parod yn hawdd pe bai'r angen yn codi. Mae cyfrifo lefel ofynnol y cronfeydd yn rhan annatod o gylchred gynllunio, cyllidebu a rhagweld CGGC. Mae'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â phob ffrwd incwm a gwariant yn wahanol i'r swm a neilltuwyd; lefel y gweithgarwch arfaethedig; ac ymrwymiadau CGGC.

Mae'r ymddiriedolwyr yn asesu ac yn adolygu'r polisi cronfeydd yn ystod y flwyddyn. Maen nhw'n trafod y cronfeydd y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd, ymrwymiadau CGGC a gwerth buddsoddiadau ar y farchnad. Caiff y prif risgiau i'r incwm a gwariant eu hamlygu a chyfrifir canlyniadau ariannol posibl symudiadau niweidiol. Mae'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau y cedwir lefel ddigonol o gronfeydd y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd. Mae gan yr ymddiriedolwyr gronfeydd anghyfyngedig dynodedig, gwerth cyfanswm o £5.8 miliwn, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf.

Gellir gweld manylion y cronfeydd anghyfyngedig sydd gan yr Elusen yn nodyn 18 y cyfrifon.

Yr Ymddiriedolwyr a chynghorwyr yr elusen

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ymddiriedolwyr a'r cynghorwyr eraill a wasanaethodd yr elusen yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â manylion gweinyddol eraill ynghylch yr elusen, ar dudalen 36 yr Adroddiad Blynyddol uchod.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith cwmnïau yn gofyn i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r elusen a'r adnoddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae angen i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- Datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw amrywiadau perthnasol sydd wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau ar y sail honno

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan yr elusen ac am uniondeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Archwilydd

Yn ystod 2024, gwahoddodd CGGC dendrwyr drwy GwerthwchiGymru i ddarparu gwasanaethau archwilio allanol ar gyfer CGGC a'i is-gwmnïau.

Cyflwynwyd penderfyniad i benodi'r cynigydd llwyddiannus, Bevan Buckland LLP, gerbron ein haelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Bydd y contract ar gyfer gwasanaethau archwilio allanol yn dechrau o gyfnod cyfrifo 2025/2026 ac yn para am dair blynedd i ddechrau, gydag opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd bellach.

DRWY ORCHYMYN Y BWRDD

T. Lewis

Tracey Lewis
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
24 Medi 2025

CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT

DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2025

Datganiad Cyfunol o weithgareddau ariannol

INCWM

	Nodyn	Cyllid Anghyfyngedig	Cyllid Cyfyngedig	Cyfanswm Cyllid 2025	Cyfanswm Cyllid 2024
		£	£	£	£
Incwm o weithgareddau Masnachu:					
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**623,684**	**287,503**	**911,187**	681,406
Incwm o fuddsoddiadau	4	**705,270**	**728,389**	**1,433,659**	1,069,348
Incwm o weithgareddau Elusennol:					
Grantiau derbyniadwy	5	**2,292,280**	**31,534,273**	**33,826,553**	28,097,874
Ad-daliad o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**-**	**-**	**-**	2,927,000
Incwm arall	5	**-**	**-**	**-**	58,726
Gwariant wedi'i adennill		**443,243**	**-**	**443,243**	389,258
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**4,064,477**	**32,550,165**	**36,614,642**	33,223,612
GWARIANT					
Costau cynhyrchu cronfeydd:					
Gwariant ar godi arian	9	**671,231**	**-**	**671,231**	718,797
Gwariant ar weithgareddau elusennol	9	**2,278,834**	**31,679,308**	**33,958,142**	28,551,265
Cyfanswm gwariant		**2,950,065**	**31,679,308**	**34,629,373**	29,270,062
Incwm Net		**1,114,412**	**870,857**	**1,985,269**	3,953,550
Trosglwyddiadau rhwng cyllid		**192,367**	**(192,367)**	**-**	-
Elw/(Colled) ar ailbrisio buddsoddiadau		**1,848**	**-**	**1,848**	102,873
Symudiad net mewn cyllid		**1,308,627**	**678,490**	**1,987,117**	4,056,423
Balansau a ddygwyd ymlaen		**11,695,846**	**7,330,578**	**19,026,424**	14,970,001
Balansau a gariwyd ymlaen		**13,004,473**	**8,009,068**	**21,013,541**	19,026,424

Mae holl weithgareddau'r elusen yn cael eu cyfrif fel rhai parhaus.

Mae'r cyllid anghyfyngedig yn cynnwys £5,855,167 (2024: £7,977,251) o gyllid dynodedig a chynaliadwy (gweler nodyn 18).

Cyfrif incwm a gwariant y grŵp

	Nodyn	Cyllid Anghyfyngedig £	Cyllid Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Incwm		**3,359,207**	**31,821,776**	**35,180,984**	32,154,264
Costau gweithredu	9	**(2,950,065)**	**(31,679,308)**	**(34,629,373)**	(29,270,062)
		409,143	**142,468**	**551,611**	2,884,202
Incwm buddsoddiad	4	**705,269**	**728,389**	**1,433,658**	1,069,348
Incwm net		**1,114,412**	**870,857**	**1,985,269**	3,953,550

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.

Mantolen Gyfunol

	Nodyn	2025 £	2024 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau diriaethol	12	**215,476**	246,628
Buddsoddiadau	13	**1,094,417**	1,092,250
		1,309,893	1,338,878
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	14	**-**	80,924
Dyledion: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	15	**13,148,162**	12,627,364
Dyledion: symiau sy'n ddyledus ar ôl un flynedd	15	**6,000,813**	6,108,942
Arian yn y banc		**23,334,366**	19,027,574
		42,483,340	37,844,805
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	16	**(15,100,300)**	(13,102,359)
Asedau cyfredol net		**27,383,041**	24,742,446
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**28,692,934**	26,081,324
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flynedd	16	**(7,679,393)**	(7,054,899)
Asedau net		**21,013,541**	19,026,424
CYLLID			
Cyfanswm cyllid anghyfyngedig	18	**13,004,473**	11,695,846
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**2,746,441**	3,175,122
Gwarged - arall		**5,262,627**	4,155,456
Cyfanswm cyllid cyfyngedig	19	**8,009,068**	7,330,578
CYFANSWM CYLLID		**21,013,541**	19,026,424

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 24 Medi 2025 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif cofrestru'r cwmni: 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen yr Elusen

	Nodyn	2025 £	2024 £
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	12	**215,476**	246,628
Buddsoddiadau	13	**1,094,417**	1,092,250
		1,309,893	1,338,878
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	14	**-**	80,924
Dyledion: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	15	**13,064,850**	12,446,850
Dyledion: symiau sy'n ddyledus ar ôl un flynedd	15	**6,000,813**	6,108,942
Arian yn y banc		**23,246,805**	18,894,444
		43,312,469	37,531,161
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	16	**(14,992,195)**	(12,936,254)
Asedau cyfredol net		**27,320,274**	24,594,907
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**28,630,167**	25,933,785
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flynedd	16	**(7,679,393)**	(7,054,899)
Asedau net		**20,950,774**	18,878,886
CYLLID			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**12,941,705**	11,548,310
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**2,746,441**	3,175,122
Gwarged – arall		**5,262,627**	4,155,456
Cyfanswm cyllid cyfyngedig	19	**8,009,068**	7,330,578
CYFANSWM CYLLID		**20,950,774**	18,878,886

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 24 Medi 2025 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif cofrestru'r cwmni: 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o lif arian y grŵp

	2025 £	2024 £
Llifau arian o weithgareddau gweithredu		
Incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd	**1,987,117**	1,026,550
Addasiadau ar gyfer:		
Costau dibrisiant	**31,152**	31,153
(Elw)/colled ar fuddsoddiadau	**(1,848)**	-
Llog a dderbyniwyd	**(1,433,658)**	(1,069,348)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn dyledion	**(412,669)**	(1,351,320)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr	**2,622,435**	3,784,360
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredu	**2,792,529**	2,421,395
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi:		
Enillion o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	**-**	2,927,000
Prynu buddsoddiad ag asedau sefydlog	**-**	(1,000,000)
Enillion o werthu cyfranddaliadau	**80,605**	-
Llog a dderbyniwyd	**1,433,658**	1,069,348
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	**1,514,263**	2,996,348
Newid mewn arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd	**4,306,792**	5,417,743
Arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	**19,027,574**	13,609,831
Arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**23,334,366**	19,027,574

Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig wedi'i hymgorffori yn y Deyrnas Unedig. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF.

Nod yr elusen yw cyflwyno gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi gwirfoddoli, llywodraethu, cyllido a diogelu; a hyrwyddo a chefnogi cyfraniad y trydydd sector at feysydd polisi pwysig.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi mewn sterling, sef arian gweithredol y grŵp, a'u talgrynnu i'r £1 agosaf.

1. Polisïau cyfrifyddu

Dyma'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd trwy gynnwys buddsoddiadau asedau sefydlog ar werth y farchnad. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n codi amheuaeth ynghylch gallu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i barhau fel busnes gweithredol.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau" (Elusennau SORP FRS 102) a Deddf Cwmnïau 2006, ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (y DU a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn gofyn i ni ddefnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn gofyn i reolwyr ddefnyddio eu crebwyll wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Cwmni (gweler nodyn 2).

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn ymgorffori datganiadau ariannol yr Elusen a holl ymgymeriadau'r grŵp. Gan fod Datganiad cyfunol o Weithgareddau Ariannol a chyfrif incwm a gwariant yn cael eu cyhoeddi, mae Datganiad ar wahân o Weithgareddau Ariannol y rhiant-gwmni yn cael ei hepgor o ddatganiadau ariannol y grŵp drwy rinwedd adran 408 Deddf Cwmnïau 2006.

Busnes gweithredol

Mae'r grŵp a'r elusen yn bodloni eu gofynion o ran eu cyfalaf gweithio bob dydd drwy gyfleusterau eu banc. Mae'r cyflyrau economaidd cyfredol yn parhau i greu ansicrwydd. Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sefyllfa fasnachu'r cwmni at y dyfodol, ac yn seiliedig ar ganlyniadau masnachu gwirioneddol ers diwedd y flwyddyn, maent yn hyderus bod modd defnyddio'r egwyddor busnes gweithredol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Cyfrifyddu cyllid

Defnyddir cyllid cyfyngedig at ddibenion penodol a osodir gan y rhoddwr. Bydd dibenion o'r fath yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y mudiad. Codir gwariant at y dibenion hynny ar y cyllid, ynghyd â dyraniad teg o orbenion a chostau cefnogi.

Cyllid dynodedig yw cyllid anghyfyngedig sydd wedi'i ddynodi at ddibenion penodol gan yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer gwaith angenrheidiol mewn cysylltiad â darpariaeth barhaus y gwasanaethau, ond sy'n methu â bodloni meini prawf llym y rhwymedigaeth gontractiol a osodir yn FRS 102.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Incwm a gwaddolion

RHODDION AC ANRHEGION

Caiff yr holl roddion ac anrhegion ariannol eu cynnwys yn llawn yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan gânt eu derbyn, a bwrw nad yw'r rhoddwr wedi gosod cyfyngiadau ar amseriad y gwariant perthnasol, ac os felly oedir cydnabyddiaeth hyd nes y mae'r rhag-amod wedi'i fodloni.

GRANTIAU DERBYNIADWY

Caiff grantiau refeniw eu cyfrif fel adnoddau sy'n dod i mewn yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo a bwrw bod yr amodau derbyn wedi'u bodloni.

Caiff grantiau ar gyfer cyllid craidd eu cyfrif fel incwm gwirfoddol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Caiff grantiau i brynu asedau sefydlog eu cyfrif fel adnoddau cyfyngedig sy'n dod i mewn yn y cyfnod y cododd y gwariant ynddo a bwrw bod yr amodau derbyn wedi'u bodloni.

INCWM BUDDSODDIADAU

Caiff incwm buddsoddi ei gyfrif ar sail gronnol. Daw'r incwm hwn o ddifidendau cyfranddaliadau, llog banc a llog o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

INCWM MASNACHU

Caiff yr holl incwm buddsoddi ei gyfrif amdano ar sail gronnol. Mae'r incwm hwn yn cynnwys hyfforddiant allanol a ddarperir, lesau tenantiaid ac aelodaeth.

INCWM ARALL

Caiff pob incwm arall ei gyfrif yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y mae'r incwm yn perthyn iddo a bwrw bod gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm.

Gwariant

GRANTIAU TALADWY

Caiff grantiau taladwy eu cyfrif amdanynt yn y cyfnod y bodlonir yr amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth y taliad grant neu, pan nad oes amodau perfformiad, pan gyfyd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol.

GWARIANT ARALL

Cydnabyddir gwariant ar sail gronnol fel y cyfyd rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn llawn, a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n perthyn iddo:

- Costau cynhyrchu cyllid yw'r costau sydd ynghlwm wrth ddenu incwm gwirfoddoli a'r costau masnachu i godi arian.
- Gwariant elusennol yw'r costau hynny y mae'r elusen yn mynd iddynt wrth gynnig ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r cyfryw weithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cefnogi.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac mae hyn yn cynnwys y ffioedd a'r costau archwilio sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
- Dyrannir pob cost rhwng categorïau gwario'r SoFA mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Caiff costau sy'n ymwneud â gweithgaredd penodol eu dyrannu'n uniongyrchol, a chaiff eraill eu dyrannu fel sy'n briodol.

GWARIANT WEDI'I ADENNILL

Mae gwariant wedi'i adennill yn ymwneud â gorbenion y gellir ailgodi tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys taliadau cyfieithu, meddiannaeth a defnyddiau traul, hyfforddiant staff mewnol, llogi ystafelloedd a ffioedd rheoli.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN GWEITHREDOL CYFLWYNIADOL

Caiff datganiadau ariannol unigol pob endid grŵp eu cyflwyno yn arian y prif amgylchedd economaidd y mae'r endid yn gweithredu o'i fewn (ei arian gweithredol). At ddiben y datganiadau ariannol cyfunol, cyflwynir y canlyniadau a'r sefyllfa ariannol mewn sterling (£).

ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL A DIBRISIANT

Nodir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei fywyd defnyddiol tybiedig neu, os delir ef o dan les cyllid, dros gyfnod y les, pa un bynnag yw'r byrraf.

Gosodiadau a ffitiadau – 10 mlynedd

Cyfarpar cyfrifiadurol – 10 mlynedd

Mae'r gost yn cynnwys pris prynu'r ased a'r gwariant a briodolir yn uniongyrchol i gael yr eitem. Caiff ased sefydlog ei anadnabod ar ei werediad neu pan na ddisgwylir unrhyw fuddion economaidd yn y dyfodol o barhau i ddefnyddio'r ased. Pennir yr enillion neu'r colledion sy'n codi o waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng elw gwerthiannau a gwerth cario ymlaen yr ased a chânt eu cydnabod neu eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

Ni chaiff asedau sy'n costio £1,000 neu lai eu trin fel cyfalaf a chânt eu cyfrif yn y datganiadau o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn y cânt eu prynu.

BUDDSODDIADAU

Cyfrifir buddsoddiadau asedau sefydlog yn unol â'u gwerth marchnadol, fel y'u cofnodir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Caiff symudiadau yng ngwerth y farchnad eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel enillion neu golledion heb eu gwireddu ar asedau buddsoddiadau. Caiff incwm sy'n deillio o asedau o'r fath ei gofnodi fel incwm buddsoddiad yn y flwyddyn y'i derbyniwyd.

Nodir cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn ôl cost namyn darpariaeth.

STOC

Mae Stoc yn ymwneud ag eiddo a gedwir i'w ail-werthu a chaiff ei nodi ar gost y gwerth net ar y llyfrau ar yr amser y caiff ei drosglwyddo o ased diriaethol sefydlog i stoc.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, caiff stoc eu hasesu am amhariad. Os oes amhariad ar eitem o stoc, caiff y stocrestr adnabyddedig ei lleihau i'w phris gwerthu namyn y costau i gwblhau a gwerthu a chaiff tâl amhariad ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled. Pan fydd angen gwrthdroi amhariad, caiff y tâl amhariad ei wrthdroi, hyd at golled wreiddiol yr amhariad, a chaiff ei gydnabod fel credyd yn y cyfrif elw a cholledion.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Grŵp wedi dewis mabwysiadu FRS 102, Adran 11 Offerynnau Ariannol Sylfaenol a 12 Cyhoeddiad Offerynnau Ariannol arall o FRS 102 o ran offerynnau ariannol.

Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol eu mesur ar bris trafodiad i gychwyn, gan gynnwys costau trafodiad, ac eithrio'r asedau ariannol hynny a ddosbarthir ar werth teg drwy elw neu golled, a gaiff eu mesur ar werth teg i gychwyn (pris trafodiad heb gynnwys costau trafodiad) oni bai bod y trefniant yn drafodiad cyllidol.

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol dim ond eu gwrthbwyso ar fantolen y Grŵp pan, a dim ond pan, mae hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod y Grŵp yn bwriadu setlo ar sail net, neu realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Mae offerynnau dyled (ar wahân i'r rheini sydd angen eu had-dalu neu eu derbyn o fewn blwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill derbyniadwy a thaladwy, yn cael eu mesur ar werth presennol y llifau arian yn y dyfodol i ddechrau ac yna'n cael eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN PAROD A PHETHAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian parod wrth law ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb os rhoddir dim mwy na 24 awr o rybudd. Pethau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau hylifol iawn sy'n aeddfedu mewn tri mis ar y mwyaf o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb lawer o risg o newid eu gwerth.

Yn y datganiad cyfunol o lifau arian parod, dangosir arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod net gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Grŵp.

DYLEDION

Caiff dyledion tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad, namyn unrhyw amhariad. Caiff benthyciadau derbyniadwy eu mesur ar werth teg, net costau'r trafodiad, i ddechrau, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

DYLEDION MWY NA BLWYDDYN

Mae dyledion mwy na blwyddyn yn ymwneud â dyledion benthyciadau o'r benthyciadau buddsoddiad cymdeithasol.

DYLED DDRWG

Os credir nad oes modd adennill unrhyw incwm heb ei gasglu serch eich ymdrechion gorau, caiff ei ddileu fel dyled ddrwg drwy'r cyfrif incwm a gwariant (I&E) fel gostyngiad mewn incwm.

CREDYDWYR

Caiff credydwyr masnachu tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad. Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

BENTHYCIADAU CONSESIYNOL

Benthyciadau consesiynol yw benthyciadau a gyflwynir gan/i'r elusen ar gyfradd llog is na chyfradd gyffredin y farchnad neu ar delerau mwy ffafriol na'r rheini a gynigir gan fenthycwyr masnachol. Fel arfer, caiff benthyciadau o'r fath eu darparu er mwyn cefnogi gweithgareddau elusennol neu i roi cymorth ariannol i unigolion neu fudiadau na fyddai fel arall yn gallu cael credyd fforddiadwy.

Mae'r elusen yn cydnabod benthyciadau consesiynol ar gost, sef swm yr arian parod neu ystyriaeth arall a dalwyd/derbyniwyd pan gafodd y benthyciad ei wneud, ynghyd ag unrhyw gostau trafodiadau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng cost y benthyciad a gwerth enwol y benthyciad ei gofnodi fel grant yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff unrhyw golledion amhariad eu cydnabod pan fydd tystiolaeth wrthrychol na fydd yr elusen yn gallu casglu'r holl symiau sy'n ddyledus o dan gytundeb y benthyciad. Cydnabyddir colledion amhariad yn unol ag amodau'r benthyciadau consesiynol a'u cofnodi yn unol â hyn yn y datganiadau ariannol.

Mae'r elusen yn datgelu swm y benthyciadau consesiynol heb eu casglu, y cyfraddau llog a'r telerau ac amodau eraill, ac unrhyw symiau a gydnabyddir fel grantiau neu golledion amhariad yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Mae'n werth nodi bod FRS 102 yn caniatáu i elusennau ddewis a ydynt eisiau mesur benthyciadau consesiynol ar gost neu werth teg, cyhyd â'u bod yn dilyn eu dull dewisol yn gyson ac yn datgelu'r polisi cyfrifyddu a'i effaith ar y datganiadau ariannol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

BUDDION CYFLOGAETH

Caiff buddion tymor byr cyflogeion a chyfraniadau at gynlluniau cyfrannu diffiniedig eu cydnabod fel treuliau yn y cyfnod y cododd y treuliau hynny.

Mae cost unrhyw hawliau gwyliau nas defnyddiwyd yn cael ei chydnabod ar unwaith fel traul pan mae cwmni'n amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu, a chyfrifir y treuliau ar gyfer yr holl hawliau gwyliau nas defnyddiwyd, fel ag y maent ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â hyn.

COSTAU PENSIWN A BUDDION ERAILL AR ÔL YMDDEOL

CYNLLUN PENSIWN Â CHYFRANIADAU WEDI'U DIFFINIO

Mae'r Grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu cynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion. Cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau sefydlog i mewn i gynllun y mae ei asedau wedi'u cadw ar wahân mewn cyllid a weinyddir yn annibynnol. Caiff y cyfraniadau taladwy blynyddol eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

ASEDAU AR LES

Mae'r Grŵp yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau ar y dechrau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn les, neu'n cynnwys les, sy'n seiliedig ar sylwedd y trefniant.

ASEDAU LES CYLLID

Caiff lesau asedau sy'n trosglwyddo rhan helaeth o'r holl risgiau a buddion o ganlyniad i berchenogaeth eu galw yn lesau cyllid.

Mae lesau cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r les fel asedau ar werth teg yr asedau ar les neu, os yw hynny'n is, gwerth presennol y taliadau les lleiaf a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog heb ei diffinio yn y les. Pan na ellir pennu'r gyfradd heb ei diffinio, defnyddir cyfradd fenthyca gynyddrannol y Grŵp. Mae costau cynyddrannol uniongyrchol, sy'n codi wrth negodi a threfnu'r les, wedi'u cynnwys yng nghost yr ased.

Caiff asedau eu dibrisio dros gyfnod byrrach y les a thros fywyd defnyddiol tybiedig yr ased. Caiff asedau eu hasesu am amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau les fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r cytundeb. Caiff taliadau les eu rhannu rhwng ad-daliad cyfalaf a thâl cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, i gynhyrchu cyfradd tâl gyson ar falans yr ad-daliadau cyfalaf heb eu casglu.

ASEDAU LES GWEITHREDU

Cyfeirir at lesau nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth fel lesau gweithredu. Caiff taliadau o dan lesau gweithredu eu codi ar y cyfrif elw a cholled ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

CYMHELLION LES

Mae cymhellion a dderbynnir i rwymo i les cyllid yn lleihau gwerth teg yr ased a chânt eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer gwerth presennol taliadau les lleiaf.

Caiff cymhellion a dderbynnir i rwymo i les gweithredu eu credydu i'r cyfrif elw a cholled, i leihau treuliau'r les, ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

TRETHIANT

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a'r prif ffynonellau o ansicrwydd wrth amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i reolwyr wneud rhagamcanion a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ac asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau a adroddir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny.

Ym marn y cyfarwyddwr, dyma'r dyfarniadau beirniadol sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn natganiadau ariannol y Grŵp:

MAE'R DYFARNIADAU ALLWEDDOL A WNAED GAN REOLWYR YN YMWNEUD Â'R CANLYNOL:

1 .Y gallu i adennill dyledion, a digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.

2. Yr amcangyfrif o fywydau defnyddiol a gwerth gweddilliol bras asedau sefydlog, at ddiben cyfrifo dibrisiant a godir.

3. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cyllid Anghyfyngedig	**Cyllid Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cyllid 2025**	Cyfanswm Cyllid 2024
	£	**£**	**£**	£
Hyfforddiant a chyhoeddusrwydd	**465,166**	**287,503**	**752,669**	543,211
Cyfarfodydd a thenantiaid	**106,484**	**-**	**106,484**	76,033
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	**52,033**	**-**	**52,033**	62,162
	623,684	**287,503**	**911,187**	681,406

4. Incwm o Fuddsoddiadau

	Cyllid Anghyfyngedig	**Cyllid Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cyllid 2025**	Cyfanswm Cyllid 2024
	£	**£**	**£**	£
Llog ar adnau banc	**695,727**	**728,389**	**1,424,116**	1,063,878
Incwm buddsoddiad	**9,543**	**-**	**9,543**	5,470
	705,270	**728,389**	**1,433,659**	1,069,348

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

5. Grantiau derbyniadwy

	Cyllid Anghyfyngedig	Cyllid Cyfyngedig	Cyfanswm Cyllid 2025	Cyfanswm Cyllid 2024
	£	£	£	£
Prifysgol Caerdydd	-	**9,261**	**9,261**	11,531
Sefydliad Cymorth i Elusennau	**339,741**	-	**339,741**	43,206
Comic Relief	-	**124,814**	**124,814**	137,993
Cwmpas	-	**13,521**	**13,521**	11,055
Y Consortiwm Hawliau Dynol	-	-	-	43,000
Cymorth Canser Macmillan	-	**54,048**	**54,048**	64,921
Moondance Foundation	-	**247,074**	**247,074**	51,000
Cronfa Dreftadaeth Genedlaethol	-	**82,903**	**82,903**	116,599
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol	**8,323**	**50,000**	**58,323**	-
Promo	-	**5,000**	**5,000**	5,000
Chwaraeon Cymru	-	**101,396**	**101,396**	82,465
Sefydliad Addysg Gyfreithiol	-	**170**	**170**	-
The Wheel	-	-	-	8,288
Prifysgol De Cymru	-	**6,415**	**6,415**	6,415
Llywodraeth Cymru	**1,940,282**	**30,659,990**	**32,600,272**	26,371,566
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	**170**	**170**	199
CGGC	**3,934**	-	**3,934**	3,501
WEFO	-	**179,511**	**179,511**	1,141,135
Cyfanswm grantiau derbyniadwy	**2,292,280**	**31,534,273**	**33,826,553**	28,097,874
Incwm Secondiad	-	-	-	58,726

6. Incwm net

Nodir incwm net ar ôl codi tâl ar gyfer:	2025	2024
	£	£
Dibrisiant ar asedau sefydlog a berchnogir	**31,153**	31,153
Taliadau i'r archwiliwr: - ffioedd archwilio	**28,680**	28,090
- gwasanaethau treth	**4,374**	2,381

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

7. Gwybodaeth ynglŷn ag ymddiriedolwyr a chyflogeion

A) GWYBODAETH YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLWYR

Ni chafodd yr un ymddiriedolwr nac unigolyn â chysylltiad teuluol neu fusnes ag ymddiriedolwyr, daliad yn y flwyddyn, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gan yr elusen na chan sefydliad neu gwmni a reolir gan yr elusen (2024: £Dim).

Ad-dalwyd treuliau teithio chwe ymddiriedolwr i fynychu cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgorau a Phanel Grantiau a ddaeth i gyfanswm o £732 yn ystod y flwyddyn (2024: £670).

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-ymddiriedolwyr am wasanaethau proffesiynol yn ystod y flwyddyn (2024: £Dim).

B) GWYBODAETH YNGLŶN Â CHYFLOGEION

	2025	2024
	£	£
Taliadau a chyflogau	**2,746,110**	2,836,289
Costau nawdd cymdeithasol	**276,177**	277,893
Costau pensiwn ac yswiriant bywyd eraill	**220,035**	774,986
	3,242,321	3,889,168

Nifer y cyflogeion yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd 79 (2024: 79).

Mae'r enillion yn cynnwys cyflog ac yswiriant gwladol y cyflogwr ond nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Maent hefyd yn cynnwys taliadau dileu a therfynu swydd a wnaed yn y flwyddyn. Gellir dosbarthu nifer y cyflogeion yr oedd eu henillion am y flwyddyn yn fwy na £60,000 fel a ganlyn:

	2025	2024
£60,000 - £69,999	**-**	1
£70,000 - £79,999	**-**	-
£80,000 - £89,999	**1**	-
£90,000 – £99,999	**1**	-
£100,000 – £109,999	**-**	1

Cafodd cyfraniadau eu talu at gynllun â buddion wedi'u diffinio 0 (2024: 3) o'r cyflogeion y telir cyflog uwch iddynt ac at gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio 2 (2024: 1) cyflogai y telir cyflog uwch iddo.

Cyfanswm y buddion cyflogeion ar gyfer personel rheoli allweddol y grŵp yw £496,343 (2024: £409,924)

Mae prif bersonél rheoli'r Elusen yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Ysgrifennydd y Cwmni a'r ymddiriedolwyr. Cyfanswm buddion cyflogeion prif bersonél rheoli'r Elusen oedd £318,039 (2024: £353,644).

C) TALIADAU DILEU A THERFYNU SWYDD

Mae'r ffigur taliadau a chyflogau yn cynnwys £Dim o gostau diswyddo a therfynu (2024: £dim).

Mae cyflog pob aelod o'r staff yn gysylltiedig â phwyntiau ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), ac eithrio'r Prif Weithredwr. Cafodd y cyflog hwnnw ei feincnodi flynyddoedd yn ôl ac mae wedi'i chwyddo ers hynny yn unol â chodiadau cyflog yr NJC.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

8. Grantiau taladwy a thaliadau contractau a gafaelwyd

Dyma restr o'r 50 grant mwyaf yn eu crynswth a roddwyd i sefydliadau (ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion):
Dyfernir yr holl grantiau i fudiadau trydydd sector yng Nghymru:

	2025 £	2024 £
Cyngor Sir Benfro	**1,793,259**	1,071,736
Cyngor Sir Ddinbych	**1,026,597**	508,790
Cyngor Gwynedd	**965,484**	667,306
Cymdeithas Mudiadau gwirfoddol Gwent (GAVO)	**899,760**	801,780
Cyngor Sir Ynys Môn	**861,501**	917,174
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	**788,400**	471,600
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	**784,721**	465,668
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	**778,280**	531,213
Cyngor Dinas Caerdydd	**753,606**	555,435
Cyngor Sir Powys	**744,734**	637,000
Cyngor Sir Gâr	**744,089**	433,612
Cyngor Bro Morgannwg	**693,750**	493,503
Cyngor Sir Ceredigion	**693,399**	505,290
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	**671,722**	324,599
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	**658,800**	533,362
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	**625,119**	824,117
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	**606,200**	557,590
Cyngor Dinas Casnewydd	**583,414**	497,322
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**575,564**	445,046
Cyngor Sir Fflint	**561,884**	409,735
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	**558,400**	428,717
Cyngor Sir Fynwy	**545,146**	492,126
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	**543,395**	321,628
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	**524,379**	444,835
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	**485,623**	497,278
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	**470,303**	424,881
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)	**322,523**	251,203
Interlink	**303,537**	251,552
Mantell Gwynedd	**291,842**	272,363

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

8. Grantiau taladwy a thaliadau contractau a gafaelwyd (parhad)

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe	**275,240**	261,852
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS)	**263,940**	235,740
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd a Phort Talbot (NPTCVS)	**261,825**	206,295
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)	**258,678**	205,626
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)	**247,814**	211,502
Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)	**243,051**	209,394
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA)	**241,895**	224,369
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC)	**238,557**	208,702
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro/ Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	**238,283**	223,709
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)	**234,758**	204,500
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)	**232,761**	209,404
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (FLVC)	**227,542**	214,839
Medrwn Môn	**216,153**	214,385
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT)	**214,191**	202,503
Promo Cymru	**155,031**	-
Cwmpas	**150,934**	-
Foothold Cymru	**110,567**	193,831
Ymddiriedaeth St Giles	**98,870**	133,132
PLANED	**90,704**	-
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru	**90,066**	118,298
Plant Yng Nghymru - Children in Wales	**88,023**	-
Byddin yr Iachawdwriaeth	-	246,238
Cyfoeth Naturiol Cymru	-	200,000
Mind Casnewydd	-	118,793
Innovate Trust	-	117,111
Cyfanswm y 50 grant mwyaf a dalwyd i sefydliadau	**24,034,314**	19,196,684
Cyfanswm grantiau taladwy eraill	**5,220,435**	4,183,414
Cyfanswm grantiau a dalwyd i sefydliadau	**29,254,749**	23,380,098

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Dyma fudiadau lle y ceir ymddiriedolwyr cyffredin a/neu le y mae gan ymddiriedolwr CGGC safle uwch yn y mudiad a dderbyniodd grantiau gan yr Elusen yn ystod y flwyddyn.

Mudiad	**Parti Cysylltiedig**	**2025**	2024
		£	£
Anabledd Cymru	Rhian Davies	983	875
This funding was via an agreement reached with Social Investment Scotland regarding the use of money collected by Asda via the plastic carrier bag levy. WCVA was chosen as the delivery partner for a loan scheme utilising the Welsh money. This complemented the already established Community Investment Fund loans schemes.

Community Investment Fund and Community Investment Fund 2
This funding for these two loan schemes was from two rounds of European Regional Development Fund moneys (between 2005 and 2016) via the Welsh European Funding Office and Welsh Government. It was to address market failure in the provision of repayable financing to the sector.

Third Sector Resilience Fund for Wales 'Resilience Fund'
The initial resilience funding was from the Welsh Government during 2020/21 and was aimed at addressing issues being faced by the sector due to the pandemic. This funding was a blend of grants and loans and this restricted funding remaining relates to the repayable portion which beneficiaries are paying over an agreed time period.

Group	**2025**	2024
Restricted funds:	**£**	£
In surplus- relating to long term loans awarded	**2,746,441**	3,175,122
In surplus- other	**5,262,627**	4,155,456
	8,009,068	7,330,578

Charity	**2025**	2024
Restricted funds:	**£**	£
In surplus- relating to long term loans awarded	**2,746,441**	3,175,122
In surplus- other	**5,262,627**	4,155,456
	8,009,068	7,330,578

Notes to the financial statements

Comparative analysis of movements in restricted funds

	Balance at 1 April 2023	Transfer	Movement in Reserves Incoming	Movement in Reserves Outgoing	Balance at 31 March 2024
	£	£	£	£	£
IB ESF & SBGF	-	39,895	556,805	(596,700)	-
Active Inclusion West Wales & Valleys	-	-	133,964	(133,964)	-
Active Inclusion East Wales	-	-	146,761	(146,761)	-
Active Inclusion East Wales Youth	-	-	13,120	(13,120)	-
SBGF Grants West Wales & Valleys	-	(192,290)	192,290	-	-
SBGF Grants East Wales	-	(133,453)	133,169	284	-
Macmillan Cancer Support	-	-	64,922	(94,922)	-
Third Sector Knowledge	-	-	30,495	(30,495)	-
Erasmus	-	(3,288)	8,288	(5,000)	-
Third Sector Support Fund	-	-	281,500	(281,500)	-
Wales Funders Forum	-	-	199	(199)	-
NEWID	-	-	100,000	(100,000)	-
Catalyst Cymru Broadening Horizons	-	-	116,599	(116,599)	-
BME Sport Cymru	-	-	82,465	(82,465)	-
Health & Social Care Small Grants	-	-	300,000	(300,000)	-
Social Leaders Cymru	-	-	11,055	(11,055)	-
Volunteering Wales	-	-	2,787,373	(2,787,373)	-
Safeguarding Hub	-	-	114,500	(114,500)	-
Social Prescribing	-	-	6,415	(6,415)	-
Brexit - Cardiff University	-	-	60,031	(60,031)	-
Net Zero Start Up Grant	-	-	50,000	(50,000)	-
Energy Efficiency Grants	-	-	26,000	(26,000)	-
Small Grants	-	-	42,200	(42,200)	-
LPfN Grant – Local Places for Nature	-	-	12,772,640	(12,772,640)	-
Marine and Coastal Partnership Grant	-	-	300,044	(300,044)	-
Infrastructure Funding CVCs	-	-	4,848,587	(4,848,587)	-
Wales for Africa	-	-	416,639	(416,639)	-
Landfill Tax Grant	-	-	2,126,709	(2,126,709)	-
Comic Relief	-	-	87,993	(87,993)	-
Partnership Capacity Fund	-	-	84,024	(84,024)	-
CVC CRM Licences	-	60,524	91,500	(152,024)	-
Third Sector Resilience Fund Grants	-	-	(22,110)	22,110	-
SBGF Recycled Loan	-	325,743	30,462	-	356,205
Asda Loan Scheme	595,386	-	7,846	(15,035)	588,196
Community Investment Fund 2	2,068,028	-	78,693	(15,035)	2,195,907
Community investment Fund	2,116,831	-	306,739	(351,159)	2,072,410
Resilience Fund	1,728,458	-	389,401	-	2,117,859
Group Total	**6,508,703**	**(97,131)**	**26,777,317**	**(26,052,573)**	**7,330,578**
Charity Total	**6,508,703**	**(97,131)**	**26,777,317**	**(26,052,573)**	**7,330,578**

Notes to the financial statements

20. Group Analysis of net assets between funds

	Unrestricted Funds	Restricted Funds	Total Funds 2025	Total Funds 2024
	£	£	£	£
Fixed assets	**1,309,893**	**-**	**1,309,893**	1,338,878
Long term loans	**-**	**6,000,813**	**6,000,813**	6,108,942
Current assets	**12,024,214**	**24,458,314**	**36,482,528**	31,735,862
Current liabilities	**(289,937)**	**(14,810,363)**	**(15,100,300)**	(13,102,359)
Long term liabilities	**(39,696)**	**(7,639,698)**	**(7,679,393)**	(7,054,899)
	13,004,473	**8,009,068**	**21,013,541**	19,026,424

Charity Analysis of net assets between funds

	Unrestricted Funds	Restricted Funds	Total Funds 2025	Total Funds 2024
	£	£	£	£
Fixed assets	**1,309,893**	**-**	**1,309,893**	1,338,878
Long term loans	**-**	**6,000,813**	**6,000,813**	6,108,944
Current assets	**11,853,341**	**24,458,314**	**36,311,655**	31,422,217
Current liabilities	**(181,833)**	**(14,810,362)**	**(14,992,195)**	(12,936,254)
Long term liabilities	**(39,696)**	**(7,639,698)**	**(7,679,393)**	(7,054,899)
	12,941,705	**8,009,068**	**20,950,774**	18,878,886

21. Group Reconciliation of movements in funds

	2025	2024
	£	£
Net incoming resources for the financial year	**1,987,117**	4,056,423
Net increase to funds	**1,987,117**	4,056,423
Opening funds	**19,026,424**	14,970,001
Closing funds	**21,013,541**	19,026,424

Charity Reconciliation of movements in funds

	2025	2024
	£	£
Net incoming resources for the financial year	**2,071,888**	4,074,166
Net increase to funds	**2,071,888**	4,074,166
Opening funds	**18,878,886**	14,804,720
Closing funds	**20,950,774**	18,878,886

Notes to the financial statements

22. Related parties

Grants and Procurement Contracts awarded to bodies where Trustees either have direct control or significant influence have been disclosed within note 8. In addition to the grants disclosed in note 8, there are loans outstanding at the year end from Children in Wales and Challenge Wales as follows:

Children in Wales - £15,745

Challenge Wales - £162,026

The Group has taken advantage of the exemption under FRS 102 from disclosing transactions with other wholly owned group companies.

23. Contingent liabilities

There were no contingent liabilities at 31 March 2025 (2024: £nil).

24. Capital commitments

The Group and Parent Charity had total capital commitments of £nil at 31 March 2025 (2024: £nil).

25. Financial commitments

Financial commitments under non-cancellable operating leases will result in the following annual payments in respect of land and buildings:

	Land & Buildings	
	2025	2024
	£'000	£'000
Expiring within 1 year	**118,293**	124,644
Expiring within 2-5 years	**473,172**	473,172
Expiring after 5 years	**186,628**	302,949

26. Ultimate controlling party

The charitable company is limited by guarantee and has no share capital. In the opinion of the Trustees, there is no ultimate controlling party.

27. Post balance sheet events

Subsequent to the balance sheet date, the trustees of both WCVA and Cynnal Cymru have approved a proposal to demerge from its existing group structure. This decision reflects the strategic direction of the charity and is intended to enhance its operational independence and governance.

At the date of approval of these financial statements, the demerger process is ongoing and subject to the completion of all necessary legal, regulatory, and administrative procedures. The trustees are working closely with legal and financial advisors to ensure full compliance with all applicable requirements.

The trustees have assessed the financial and operational implications of the proposed demerger and are satisfied that it will have no material impact on the charity's ability to continue as a going concern. The charity remains financially stable and continues to operate in line with its charitable objectives.

Group strategic report

Achievements and performance

Financial pressures continued to impact the sector in a number of ways including increasing demand for services, increasing the costs for delivery whilst funding sources struggled to keep pace.

Working at a national level we have worked hard to put in place funding and support to help the sector whilst working to implement policy change at a strategic level to help and improve the situation for the voluntary sector in Wales.

We've continued to work closely with our Third Sector Support Wales (TSSW) partners where we have implemented improved digital products and resources and worked to make sure we are co-ordinating our services and support to the sector.

Our group structure comprises WCVA, Social Investment (Cymru) Limited, WCVA Trading Limited, WCVA Services Limited and Sustain Wales (Cynnal Cymru). In September 2024 the Board made the decision to strike off and dissolve two dormant subsidiary companies, WCVA Services Ltd and WCVA Trading Ltd. Dissolution will take effect in June 2025. We share ambitions to support the sector and wider civil society in Wales.

Principal risks and uncertainties

During this reporting period WCVA reviewed and managed risks that impacted on our work relating to the difficult operating environment for the voluntary sector in Wales.

WCVA staff regularly monitor activity and assess operational risks. The Executive Team present the strategic risks to the Finance and Risk Committee, who review the issues and make suggestions to mitigate risks.

The risks are considered under six categories: digital, finance, governance, operations, reputation and staff. The main risks are identified below:

- Failure to provide clear, strategic leadership for the voluntary sector in Wales, particularly during a time of growing demand and change.
- Insufficient compliance with systems, policies, or governance standards, including risks around data protection and cyber security.
- Inability to maintain the performance and quality required across our funded activity and strategic programmes, including delivery by partners and grantees.
- Challenges in securing and aligning sufficient people, infrastructure and systems to meet operational demands and strategic ambitions.
- Impact of wider economic and funding conditions on the financial health of WCVA and the wider sector, affecting both resilience and sustainability.

This report was approved by the Board on 24 September 2025 and signed on its behalf.

Dr Neil Wooding CBE
Chair

Independent auditor's report to the members and trustees of The Wales Council for Voluntary Action

Opinion

We have audited the financial statements of The Wales Council for Voluntary Action (the parent charitable company) and its subsidiary companies (the 'group') for the year ended 31 March 2025 which comprise the Consolidated Statement of Financial Activities, the Consolidated and Charity Balance Sheet, the Group Cash Flow Statement and notes to the financial statements, including a summary of significant accounting policies. The financial reporting framework that has been applied in their preparation is applicable law and United Kingdom Accounting Standards, including Financial Reporting Standard 102: The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice).

In our opinion, the financial statements:

- give a true and fair view of the state of the Group's and parent charitable company's affairs as at 31 March 2025 and of its incoming resources and application of resources for the year then ended;
- have been properly prepared in accordance with United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice, including Financial Reporting Standard 102 'The financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland; and
- have been prepared in accordance with the requirements of the Companies Act 2006.

Basis for opinion

We conducted our audit in accordance with International Standards on Auditing (UK) (ISAs (UK)) and applicable law. Our responsibilities under those standards are further described in the Auditor's responsibilities for the audit of the financial statements section of our report. We are independent of the Group and Parent charitable company in accordance with the ethical requirements that are relevant to our audit of the financial statements in the UK, including the FRC's Ethical Standard, and we have fulfilled our other ethical responsibilities in accordance with these requirements. We believe that the audit evidence we have obtained is sufficient and appropriate to provide a basis for our opinion.

Conclusions relating to going concern

We have nothing to report in respect of the following matters in relation to which the ISAs (UK) require us to report to you where:

- the trustees' use of the going concern basis of accounting in the preparation of the financial statements is not appropriate; or
- the trustees have not disclosed in the financial statements any identified material uncertainties that may cast significant doubt about the Group's and Parent Charitable company's ability to continue to adopt the going concern basis of accounting for a period of at least twelve months from the date when the financial statements are authorised for issue.

Other information

The trustees are responsible for the other information. The other information comprises the information included in the annual report other than the financial statements and our auditor's report thereon. Our opinion on the financial statements does not cover the other information and, except to the extent otherwise explicitly stated in our report, we do not express any form of assurance conclusion thereon.

In connection with our audit of the financial statements, our responsibility is to read the other information and, in doing so, consider whether the other information is materially inconsistent with the financial statements, or our knowledge obtained in the audit or otherwise appears to be materially misstated. If we identify such material inconsistencies or apparent material misstatements, we are required to determine whether there is a material misstatement in the financial statements or a material misstatement of the other information. If, based on the work we have performed, we conclude that there is a material misstatement of this other information, we are required to report that fact. We have nothing to report in this regard.

Opinions on other matters prescribed by the Companies Act 2006

In our opinion, based on the work undertaken in the course of the audit:

- the information given in the trustees' report (incorporating the strategic report and the directors' report) for the financial year for which the financial statements are prepared is consistent with the financial statements; and
- the trustees' report (incorporating the strategic report and the directors' report) have been prepared in accordance with applicable legal requirements.

Matters on which we are required to report by exception

In the light of the knowledge and understanding of the Group and Parent Charitable Company and its environment obtained in the course of the audit, we have not identified material misstatements in the Trustees' Annual Report.

We have nothing to report in respect of the following matters in relation to which the Companies Act 2006 requires us to report to you if, in our opinion:

- adequate accounting records have not been kept or returns adequate for our audit have not been received from branches not visited by us; or
- the financial statements are not in agreement with the accounting records and returns; or
- certain disclosures of trustees' remuneration specified by law are not made; or
- we have not obtained all the information and explanations necessary for the purposes of our audit.

Responsibilities of the trustees

As explained more fully in the trustees' responsibilities statement, the trustees are responsible for the preparation of the financial statements and for being satisfied that they give a true and fair view, and for such internal control as they determine is necessary to enable the preparation of financial statements that are free from material misstatement, whether due to fraud or error.

In preparing the financial statements, the trustees are responsible for assessing the Group's and Parent Charitable company's ability to continue as a going concern, disclosing, as applicable, matters related to going concern and using the going concern basis of accounting unless the trustees either intend to liquidate the Group and Parent Charitable company or to cease operations, or have no realistic alternative but to do so.

Our responsibilities for the audit of the financial statements

Our objectives are to obtain reasonable assurance about whether the financial statements as a whole are free from material misstatement, whether due to fraud or error, and to issue an auditor's report that includes our opinion. Reasonable assurance is a high level of assurance but is not a guarantee that an audit conducted in accordance with ISAs (UK) will always detect a material misstatement when it exists. Misstatements can arise from fraud or error and are considered material if, individually or in the aggregate, they could reasonably be expected to influence the economic decisions of users taken on the basis of these financial statements.

Extent to which the audit was considered capable of detecting irregularities, including fraud

We identify and assess the risks of material misstatement of the Financial Statements, whether due to fraud or error, and then, design and perform audit procedures responsive to those risks, including obtaining audit evidence that is sufficient and appropriate to provide a basis for our opinion.

We discussed our audit independence complying with the Revised Ethical Standard 2019 with the engagement team members whilst planning the audit and continually monitored our independence throughout the process.

Identifying and assessing potential risks related to irregularities.

In identifying and assessing risks of material misstatement in respect of irregularities, including fraud and non-compliance with laws and regulations, our procedures included the following:

- enquiring of management, including obtaining and reviewing supporting documentation, concerning the Group's and Parent charitable company's policies and procedures relating to:
- identifying, evaluating and complying with laws and regulations and whether they were aware of any instances of non-compliance.
- detecting and responding to the risks of fraud and whether they have knowledge of any actual, suspected or alleged fraud.
- the internal controls established to mitigate risks related to fraud or non-compliance with laws and regulations.
- discussing among the engagement team how and where fraud might occur in the Financial Statements and any potential indicators of fraud.
- obtaining an understanding of the legal and regulatory frameworks that the Group and Parent Charitable company operates in, focusing on those laws and regulations that had a direct effect on the Financial Statements or that had a fundamental effect on the operations of the Group and Parent Charitable company, The key laws and regulations we considered in this context included the UK Companies Act and relevant tax legislation.

Audit response to risks identified

In addition to the above, our procedures to respond to risks identified included the following:

- reviewing the financial statement disclosures and testing to supporting documentation to assess compliance with relevant laws and regulations.
- enquiring of management concerning actual and potential litigation and claims; performing analytical procedures to identify any unusual or unexpected relationships that may indicate risks of material misstatement due to fraud.
- reading minutes of meetings of those charged with governance and reviewing correspondence with HMRC; and

- in addressing the risk of fraud through management override of controls, testing the appropriateness of journal entries and other adjustments.
- assessing whether the judgements made in making accounting estimates are indicative of a potential bias; and
- evaluating the business rationale of any significant transactions that are unusual or outside the normal course of business.

We also communicated relevant identified laws and regulations and potential fraud risks to all engagement team members and remained alert to any indications of fraud or non-compliance with laws and regulations throughout the audit.

A further description of our responsibilities for the audit of the financial statements is located on the Financial Reporting Council's website at: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. This description forms part of our auditor's report.

Use of our report

This report is made solely to the Charity's members, as a body, in accordance with Chapter 3 of Part 16 of the Companies Act 2006. Our audit work has been undertaken so that we might state to the Charity's members those matters we are required to state to them in an auditor's report and for no other purpose. To the fullest extent permitted by law, we do not accept or assume responsibility to anyone other than the Charity's members as a body, for our audit work, for this report, or for the opinions we have formed.



Alison Vickers (Senior Statutory Auditor)
for and on behalf of
Bevan Buckland LLP
Chartered Accountants
And Statutory Auditors
Ground Floor
Cardigan House
Castle Court
Swansea Enterprise Park
Swansea
SA7 9LA

Date: 24 September 2025

Cyhoeddwyd Tachwedd 2025 | Published November 2025
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Wales Council for Voluntary Action
Rhif elusen gofrestredig | Registered charity number 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant | Company limited by guarantee 0425299
Cofrestrwyd yng Nghymru | Registered in Wales

WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION

England & Wales - Charity number 218093

Accounts

WCVA
CGGC

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2023/24
Annual report and financial statements 2023/24

0300 111 0124 | www.wcva.cymru

CYMRAEG ENGLISH

Cynnwys

Adroddiad blynyddol 2023/24 2

Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr 39

Grantiau a chyllid 42

Aelodau 44

Adolygiad ariannol 45

Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 50

- Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol 50
- Cyfrif incwm a gwariant y grŵp 51
- Mantolen gyfunol 52
- Mantolen yr elusen 53
- Datganiad o lif arian y grŵp 54
- Nodiadau i'r datganiadau ariannol 55

Adroddiad strategol y grŵp 85

Adroddiad yr archwilydd annibynnol 86

Croeso

Helo a chroeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24

PARATOI'R FFORDD I FUDIADAU GWIRFODDOL LWYDDO

Eleni, fe wnaeth ein gwaith ni roi'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa gref ar gyfer y dyfodol. Gwnaethom ganolbwyntio ar gefnogi mudiadau i wynebu heriau'r argyfwng o ran recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, a thirwedd gyllido arw ac – wrth i bwysau'r costau byw barhau – i fod yno i'r bobl a'r cymunedau sy'n dibynnu ar ein sector.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu dim ond rhai o'r pethau y gwnaethom tuag at ein cynllun uchelgeisiol ar gyfer 2022-27. Yn 2023/24:

- Gwnaeth ein cyllid alluogi mudiadau gwirfoddol i ddarparu ar gyfer eu cymunedau yng Nghymru a thu hwnt.
- Gwnaethom eirioli ar ran ein sector ar lefelau Cymru, y DU ac Ewrop, gan newid polisïau llywodraethol i helpu mudiadau gwirfoddol.
- Mewn ymateb i gyfnod heriol i staff CGGC, gwnaethom waith ar gefnogi a buddsoddi yn ein pobl.

Eleni, gwnaethom ffarwelio'n dyner â Ruth Marks a dweud 'diolch' iddi. Gwnaeth Ruth ymddeol ar ôl gyrfa ffantastig yn hyrwyddo'r sector gwirfoddol a naw mlynedd yn arwain CGGC fel Prif Weithredwr.

Mae effaith Ruth ar y sector ac ar y rheini y bu'n gweithio â nhw'n anghymesur, a dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

Rydym uwch ben ein digon i fod yn croesawu'r Prif Weithredwr newydd, Lindsay Cordery-Bruce yn 2024/25 ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at weithio gyda'n gilydd i adeiladu dyfodol gwell ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau ein Hadroddiad Blynyddol.

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

Llun ar y clawr: Aelod o'r gynulleidfa yn gofyn cwestiwn yn ein cynhadledd pedair gwlad a drefnwyd gan CGGC a Phrifysgol Caerdydd

Ein strategaeth 2022-27

Gwyddom fod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd dros ben i bobl yng Nghymru a thu hwnt. Mae mudiadau gwirfoddol hefyd wedi wynebu adegau anodd iawn.

Er mwyn sicrhau y gallwn ni i gyd fynd i'r afael â heriau heddiw benben, gwnaethom weithio gyda'n staff a'n haelodau i feddwl am y camau positif y gallwn ni eu cymryd i lunio dyfodol gwell i Gymru.

Y newid rydym eisiau ei arwain ledled Cymru

EIN NOD:

Mae'r sector gwirfoddol yn fwy amrywiol a gwydn

- Mae pobl fwy amrywiol yn cymryd rhan mewn gweithredu gwirfoddol
- Mae adnoddau mwy amrywiol yn cryfhau'r ddarpariaeth
- Mae mudiadau yn fwy gwydn

EIN NOD:

Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru

- Mae mudiadau gwirfoddol yn arwain newid positif
- Mae'r holl sectorau yn cydweithio mwy i gyflawni uchelgeisiau cyffredin
- Mae ein democratiaeth yn mynd ati'n well i gefnogi mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan

Ac er mwyn i CGGC sicrhau ein bod y gorau y gallwn ni fod

EIN NOD:

Mae CGGC yn fwy gwydn

- Mae CGGC yn ariannol gynaliadwy
- Mae CGGC yn addasu'n bositif i newid
- Mae CGGC yn rhoi mwy o gefnogaeth i'w bobl

Ein nod

Mae'r sector gwirfoddol yn fwy amrywiol a gwydn

- Mae pobl fwy amrywiol yn cymryd rhan mewn gweithredu gwirfoddol
- Mae adnoddau mwy amrywiol yn cryfhau'r ddarpariaeth
- Mae mudiadau yn fwy gwydn

Beth wnaethom ni

Hon oedd y flwyddyn orau erioed i'n cangen cyllid benthyciadau, Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, wrth i ni **ddosbarthu mwy o fenthyciadau nag erioed o'r blaen**, gan gyflwyno £2,530,000 o gyllid ad-daladwy i'r sector o'i gymharu ag £1,613,000 yn ystod 2022/23

Gwnaethom weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar nifer o ymgyrchoedd ledled y DU. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar frand newydd Wythnos y Gwirfoddolwyr a datblygu deunyddiau marchnata Cymreig i gyd-fynd â dathlu 40fed mlynedd yr wythnos, cynnal nifer o ddigwyddiadau am ddim yn ystod Wythnos yr Ymddiriedolwyr, a hwyluso'r gwaith o greu asedau Cymraeg ar gyfer Dydd Mawrth Rhoi

Gwnaethom barhau i ddatblygu'r platfformau digidol a rennir. Gan weithio gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru, gwnaethom lansio fersiwn newydd a gwell o wefan Gwirfoddoli Cymru, ac ychwanegu tudalennau help a chanllawiau newydd ar yr Hwb Gwybodaeth ar gyfer Wythnos Elusennau Bach. Gwnaethom hefyd weithio'n agosach gyda chyllidwyr i roi perchnogaeth iddynt o'u gwybodaeth ar wefan Cyllido Cymru, gan helpu i gadw'r cofnodion yn gyfredol ac yn gywir

Ar ôl gwrando ar adborth gan y sector ar filiau ynni uwch, **gwnaethom bartneru â rhanddeiliaid i lansio Cynllun Effeithlonrwydd Ynni newydd**. Cynigiodd y cynllun grantiau o hyd at £25,000 tuag at wneud eiddo mudiad yn fwy effeithlon o ran ynni

Gwnaethom uwchgyfeirio ein hymdrechion i ymgyrchu dros fancio ar ran y sector gwirfoddol a chyd-lofnodi llythyr agored yn gofyn am ddiwygiad brys

Mewn ymateb i geisiadau gan y sector, gwnaethom ddatblygu dau adnodd allweddol, adnodd hunanasesu gwiriad iechyd llywodraethu ac adnodd arallgyfeirio incwm, a ddatblygwyd gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Trwy brosiectau a gyllidwyd gan ein Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru, **gwnaethom greu nifer o adnoddau gwirfoddoli ar gyfer y sector**. Mae'r adnoddau hyn yn rhannu'r pethau a ddysgwyd o'n prosiectau ac maen nhw ar gael i'r holl sector. Maen nhw'n ymdrin â phynciau fel cynorthwyo gwirfoddolwyr â phrofiadau bywyd anhraddodiadol, rhedeg cynlluniau gwirfoddoli i gyflogeion, annog gwirfoddoli ieuenctid a mwy

Gwnaethom barhau i hyrwyddo'r Gymraeg a chadw at ein hymrwymiad i weithio a chyfathrebu'n ddwyieithog. Gwnaethom ddyfarnu'r wobr 'Defnydd gorau o'r Gymraeg' i Wasanaeth Ffôn Cymorth Dementia Cymdeithas Alzheimer Cymru yng Ngwobrau Elusennau Cymru eleni, rhedeg digwyddiad gofod3 a oedd yn ceisio dysgu o daith Cymraeg tîm pêl-droed Cymru, a chyflwyno cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg i 37 o gyfranogwyr

Grantiau a ddyfarnwyd a benthyciadau a fuddsoddwyd yn y sector gwirfoddol yng Nghymru

CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD YNNI

Gwella effeithlonrwydd ynni eiddo mudiadau gwirfoddol

£26,000

GRANTIAU CYMUNEDOL CATALYDD CYMRU

Datblygu mudiadau neu brosiectau treftadaeth ac ehangu eu rhwydweithiau

£24,913

BENTHYCIADAU BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL CYMRU

Cynorthwyo mudiadau i ddatblygu

£550,000

GRANT DECHRAU BUSNES CARBON SERO NET

Cefnogi egin fusnesau cymdeithasol yng Nghymru

CYNLLUN CYMUNEDAU Y DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI

Helpu cymunedau i weithredu dros eu hamgylchedd lleol

£1,390,693



CRONFA ADEILADU CAPASITI MEWN CYMUNEDAU ARFORDIROL

Prosiectau lleol mewn ardaloedd arfordirol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

£300,044

CYMRU AC AFFRICA

Grantiau ar gyfer prosiectau sy'n fuddiol i Gymru ac Affrica

£449,399

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL

Prosiectau lleol i adfer a gwella byd natur

£12,760,640

GRANTIAU GWIRFODDOLI CYMRU

Hyrwyddo a gwella arferion gwirfoddoli yng Nghymru

£2,408,063



CRONFA BENTHYCIADAU ASEDAU CYMUNEDOL

Galluogi grwpiau i ddod ag eiddo i berchnogaeth gymunedol

£1,980,000

Ein gwaith gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW)

£44,971,999



o gyllid wedi'i ddyfarnu gan bob partner TSSW

4,310

o fudiadau wedi'u cynorthwyo gyda chyngor a gwybodaeth uniongyrchol

15,470

o oriau wedi'u treulio yn cefnogi'r sector gwirfoddol gyda gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu

1,405

o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar gyfer cyfle gwirfoddoli

Sbotolau ar ein staff: Uchafbwyntiau o'n gwaith rhoi grantiau

Mae Cat Miller, Pennaeth Grantiau ac Incwm, wedi bod yn goruchwylio ein gwaith ar ddod â chyllid i mewn i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Mae gweithio yn y rhan o CGGC sy'n rhoi grantiau yn dod â llawer o fodlonrwydd. Rydyn ni'n gallu ymhél yn uniongyrchol â'r rheini sy'n derbyn grantiau a gweld y pethau ffantastig y mae'r cyllid grant rydyn ni'n ei weinyddu yn eu galluogi. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn hon i mi.

Gwnaeth y tîm dderbyn ac asesu dros 500 o geisiadau cyllido newydd – tra roeddent hefyd yn cefnogi mwy na 200 o brosiectau a oedd eisoes yn bodoli. Roedd y rhain yn ymwneud â chwmpas enfawr o weithgareddau, gan gynnwys prosiectau grymuso menywod yng Nghymru ac Affrica, prosiectau bioamrywiaeth a arweinir gan y gymuned, llythrennedd morol a gwirfoddoli ar gyfer iechyd meddwl.

Cyflawniad arall gwych oedd mynd ati o ddifrif i arwain y Partneriaethau Natur ac Arfordirol Lleol. Yn ogystal â dyfarnu cyllid i fentrau gwych, gwnaethom hefyd chwarae rôl hanfodol fel y prif bartner mewn dangos effaith a gwerth dull Cymru gyfan o ymdrin â'r gwaith hwn.

Eleni, gwnaethom gynyddu ein gweithgareddau cynhyrchu incwm ein hunain gyda strategaeth newydd a wnaeth ein galluogi i flaenoriaethu a mireinio ein hymdrechion er mwyn helpu'r sector i allu cyflawni yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi treulio'r flwyddyn yn edrych ar bosibiliadau newydd cyffrous ar gyfer dulliau cyllido yn y dyfodol. Mae mwy i ddod yn 2024/25, felly cadwch eich llygaid ar agor...

Uchod: Cat Miller sy'n arwain ein gweithgarwch grantiau ac incwm i gael cyllid allan i fudiadau gwirfoddol ar hyd a lled Cymru ▲

Y gwahaniaeth a wnaethom

Gwnaethom alluogi dysgu a chymorth rhwng cyfoedion, gan gyflwyno 36 o ddigwyddiadau, gweminarau a chyrsiau hyfforddi i 577 o gyfranogwyr. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu data, llywodraethu da, dwyieithrwydd yn y gwaith, rheolaeth ariannol elusennau, ymdrin â sgyrsiau anodd, cynllunio ac ysgrifennu cynigion cyllido llwyddiannus, rheoli prosiectau, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ysgrifennu ar gyfer y we. **Gwnaeth 99% o'r rheini a fynychodd ddweud bod ein cyrsiau'n dda neu'n ardderchog**

Diolch i'n hymgyrch i lansio'r platfform Gwirfoddoli Cymru newydd, **cofrestrwyd 1,336 o wirfoddolwyr, ychwanegwyd 205 o fudiadau, crëwyd 695 o gyfleoedd a gwnaeth 101.17% yn fwy o bobl fanteisio ar gyfleoedd**. Gwnaethom hefyd hwyluso lefel uchel o ddiddordeb gan y wasg gyda chyfryngau ar-lein, darlledu ac ar bapur roi sylw i'r ymgyrch yng nghyd-destun yr argyfwng recriwtio gwirfoddolwyr sy'n wynebu'r sector. Gwnaeth fideo a wnaed ar y cyd â Media Cymru a Gwirfoddolwyr Cymunedol y Sblot i amlygu buddion gwirfoddoli hefyd gael lefel ddigyffelyb o ymgysylltiad

Gwnaeth ein prosiect Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion helpu mudiadau treftadaeth (a phrosiectau treftadaeth) i arallgyfeirio ffrydiau incwm a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. O ganlyniad i'r ymweliadau 'ehangu ein rhwydweithiau' y gwnaethom eu trefnu mewn partneriaeth â Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST), Anabledd Cymru a Pride Cymru, **gwnaeth mudiadau treftadaeth fabwysiadu arferion mwy cynhwysol a denu gwirfoddolwyr newydd**

'Mae wedi bod yn daith anhygoel, rydyn ni wedi cyflawni mwy na allem ni erioed wedi gobeithio amdano...' Dyna oedd geiriau Steve Swindon, derbynnydd ein Bwrsariaeth Arweinyddiaeth Walter Dickie **a gynrychiolodd y sector gwirfoddol yn Hollywood!** Gwnaeth y fwrsariaeth alluogi Steve i ddatblygu fel arweinydd, sgrinio gwaith ei elusen, TAPE Cerdd a Ffilm Cymunedol, yn Hollywood a gwneud cysylltiadau rhyngwladol i ddatblygu ymdrechion TAPE i wneud ffilmiau cynhwysol

Mae ein cynlluniau grant yn helpu mudiadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth yng Nghymru a thu hwnt. Gwnaeth cyllid grant drwy **ein Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi roi budd i 486 o gymunedau** gyda gweithgareddau fel ailwampio ardaloedd wedi'u hesgeuluso a dirywio er mwyn i'r gymuned eu hailddefnyddio, annog pobl i ailddefnyddio,

adfer ac ailgylchu gwastraff a rheoli coetiroedd. Gwnaeth ein cynllun grant Cymru ac Affrica gefnogi prosiectau sy'n cyflwyno effeithiau positif gartref ac mewn nifer o wledydd Affrica Is-Sahara. Gwnaeth prosiectau'r flwyddyn hon **gynorthwyo 40,512 o blant ac oedolion yn Affrica â'u hanghenion addysgol, a chynorthwyo 131,413 o bobl i gael gofal iechyd tecach, o ansawdd**

Mae ein cynllun, Partneriaethau Natur Lleol Cymru, wedi parhau i weithio tuag at Gymru iach, wydn, gyfoethog o natur mewn cydweithrediad â'r holl awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yng Nghymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru. Yn 2023/24, gwnaeth y prosiectau **greu 60 o fannau gwyrdd newydd a gwella 391 o fannau pellach a oedd eisoes yn bodoli, a oedd yn gyfanswm o thua 529 o hectarau! Gwnaeth y prosiectau ymhél â 2,344 o wirfoddolwyr a gyfrannodd bron 16,000 o oriau** tuag at weithgareddau fel plannu blodau gwyllt, tyfu bwyd, creu cynefinoedd a lleihau'r defnydd o blaladdwyr

Gan weithio gyda phartneriaid, gwnaethom gynorthwyo'r sector â digidol. Gwnaeth Newid Cymru, partneriaeth rhwng CGGC, Cwmpas a ProMo Cymru, **gyflwyno deg sesiwn hyfforddi i 160 o fynychwyr o 93 o fudiadau**. Gwnaethom hefyd gyfrannu at brosiect Cefnogaeth Ddigidol Trydydd Sector ProMo Cymru, **a redodd pedwar digwyddiad i 237 o fynychwyr ar Ddeallusrwydd Artiffisial, ei ddefnydd moesegol yn y sector gwirfoddol, a sesiynau rhagarweiniol i Canva a TikTok**



Dde: Gwnaeth y Prosiect 'Family Tree', a gyllidwyd gan ein cynllun grant Cymru ac Affrica roi technegau plannu coed i Nickson a fydd yn trechu datgoedwigo ac yn ei helpu i fwydo ei deulu a chreu ffynhonnell gynaliadwy o goed tân ▶

Astudiaeth achos: Gwobrau chwaraeon amrywiaeth ethnig cyntaf Cymru

Gwnaeth y Gwobrau Chwaraeon Amrywiaeth Ethnig Cymru agoriadol, a arweiniwyd gan CGGC, dywynnu golau ar Eleeza Khan fel enghraifft ragorol o ferch Fwslim mewn chwaraeon.

Gyda chymorth Chwaraeon Cymru, C3SC a Women Connect First, ac o dan arweiniad ein Rheolwr Amrywiaeth mewn Chwaraeon Cenedlaethol, Rajma Begum, gwnaethom lansio Gwobrau Chwaraeon Amrywiaeth Ethnig Cymru, y digwyddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru i ddathlu unigolion ysbrydoledig. Mae'r gwobrau'n cefnogi gweledigaeth Chwaraeon Cymru am genedl egnïol a chymdeithas fywiog lle gall pawb 'gael oes o fwynhad o chwaraeon'.

Mae Eleeza Khan, 17 oed ac enillydd 'gwobr Gwirfoddolwr y flwyddyn', eisoes yn annog merched Mwslim ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae Eleeza eisiau bod yr esiampl na chafodd hi pan oedd hi'n tyfu i fyny ac mae'n ymrwymedig i chwalu'r stigma na all ferched Mwslim gymryd rhan mewn pêl-droed. Hi oedd y ddyfarnwraig Fwslim gyntaf erioed yng Nghymru, ynghyd â'i chwaer, Rosheen. Mae hefyd yn hyfforddwr ac yn Is-gadeirydd Cyngor Ieuenctid Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

'Roedd ennill yn foment mor arbennig oherwydd roeddwn i'n teimlo mod i'n cael fy adnabod fel person ifanc sy'n ceisio cael effaith,' eglurodd Eleeza. 'Roedd yn ffordd berffaith o ddiwedd blwyddyn mor llwyddiannus.

'Fi yw un o'r ychydig o fenywod hijabi ym myd chwaraeon Cymru sy'n rhoi llais i ferched sy'n edrych fel fi nad ydynt yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Hoffwn weld menywod a merched o leiafrifoedd ethnig yn ffynnu yn y byd chwaraeon a chael gwared â'r tabŵ amdanom ni'n chwarae chwaraeon.'

◀ **Chwith:** Eleeza Khan yn derbyn ei 'gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn' yng Ngwobrau Chwaraeon Amrywiaeth Ethnig Cymru

Adborth ar ein prosiect Catalydd Cymru

> ‘Gwnaeth tri unigolyn fynegi diddordeb mewn dod yn wirfoddolwyr garddwriaethol yn y parc a mynegodd un arall ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda’r amgueddfa. Gwnaeth hyn ni’n ffyddiog y byddem yn dod o hyd i unigolion o’r gymuned ffoaduriaid a fyddai â diddordeb ymgymryd mewn lleoliadau gwaith garddwriaethol fel rhan o gam cyflenwi’r prosiect gardd furiog.’

Ymddiriedolaeth Drws i’r Dyffryn ar yr ymweliad ‘ehangu eich rhwydwaith’ y gwnaethant eu cynnal diolch i gefnogaeth Catalydd Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru

> ‘Dysgais am bethau ymarferol iawn y gallwn ei wneud i wella fy sgiliau arwain, yn ogystal â rhinweddau i’w cynnwys yn ein hamgylchedd gwaith, fel cael meddylfryd i dyfu.’

> ‘Byddwn i’n ei argymell yn fawr i bobl ar bob cam o’u gyrfaoedd arweinyddiaeth.’

Cyfranogwyr o gwrs hyfforddiant ‘Arwain gydag Effaith’ Catalydd Cymru

Beth wnaethoch chi ei ddweud am ein hyfforddiant

> ‘Fel cael ffrind sy’n gwybod am dechnoleg yn dangos i mi beth sydd ar gael a sut gallai fod yn ddefnyddiol.’

Cyfranogwr o un o ddosbarthiadau meistr digidol Newid Cymru

> ‘Gwnaeth argraff fawr arnaf, dysgais lawer ac roedd yr adnoddau a anfonwyd allan MOR ddefnyddiol!’

Rhywun a fynychodd ein cwrs, ‘Cynllunio ac ysgrifennu cynigion cyllido llwyddiannus’

> ‘Ychydig iawn oeddwn i’n ei wybod pan ddeuthum i’r cwrs hwn. Rwyf wedi gadael yn teimlo mod i wedi ennill sgiliau newydd ac rwy’n gyffrous.’

Dysgwr ar ein cwrs ‘Ymgysylltu â’r Cyhoedd’ (a achredwyd gan Agored Cymru)

Gyda chyllid gan ein cynllun grant Cymru ac Affrica, gwnaeth Teacher Aid adeiladu a llenwi llyfrgell ar gyfer disgyblion, staff a chymuned Ysgol Gymunedol Nsobe yng nghefn gwlad Zambia

Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru

- Mae mudiadau gwirfoddol yn arwain newid positif
- Mae'r holl sectorau yn cydweithio mwy i gyflawni uchelgeisiau cyffredin
- Mae ein democratiaeth yn mynd ati'n well i gefnogi mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan

Beth wnaethom ni

Cyn yr etholiad cyffredinol, **gwnaeth ein prosiect Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru**, a gyllidwyd gan y Sefydliad Addysg Gyfreithiol, **gynnal cynhadledd fywiog ddeuddydd o hyd gyda'i gyfatebwyr o bob rhan o'r DU i fwyafu llais y sector**. Ymhlith y siaradwyr adnabyddus oedd y cyn Brif Weinidog ac Aelod o'r Senedd, Mark Drakeford, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Aelod Seneddol, David TC Davies, a Gweinidog yr Wrthblaid dros Gymdeithas Sifil, yr Aelod Seneddol Lillian Greenwood. Gwnaeth y digwyddiad ddenu oddeutu 100 o gyfranogwyr o bob cwr o'r DU

Gwnaethom gynnal Wythnos Elusennau Cymru a Gwobrau Elusennau Cymru i godi proffil gwaith a chyflawniadau pwysig mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Cafodd y gwobrau'r nifer uchaf erioed o enwebiadau, a gwnaeth mudiadau ledled y wlad gynnal digwyddiadau dathlu yn ystod Wythnos Elusennau Cymru gyda phecynnau digwyddiadau a grëwyd gan CGGC

Gwnaeth ein Prosiect Iechyd a Gofal gynhyrchu fideo i ddathlu 75 mlynedd o'r GIG. Gan siarad â gwirfoddolwyr o'r grŵp coetir, Coed Lleol, a'r mudiad trafnidiaeth gymunedol, PIVOT, edrychodd y darn ar fuddion gwirfoddoli i iechyd y corff ac iechyd meddwl. Gwnaeth hefyd amlygu sut mae'r sector gwirfoddol, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol, yn lleddfu'r pwysau ar y sector iechyd statudol

Gwnaethom hwyluso 17 o gyfarfodydd ar draws pum rhwydwaith iechyd a gofal cymdeithasol, gan alluogi'r sector i rannu arferion da, adnabod problemau cyffredin a chael dylanwad cyfunol ar benderfynwyr

Er mwyn cefnogi'r sector i arwain newid positif, **gwnaethom gyhoeddi adnoddau Cefnogi Trydydd Sector Cymru newydd ar gyfer yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru**. Gwnaethom gynhyrchu cwrs e-ddysgu gyda chanllawiau ac adnoddau a oedd yn ei gwneud hi mor syml â phosibl i gynnwys arferion da o ran ymgysylltu mewn gwaith bob dydd. Cafodd yr adnoddau hyn eu cynhyrchu mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ac Un Llais Cymru

Gwnaethom ymgysylltu â'r sector a Llywodraeth Cymru i ddatblygu a diweddaru'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector, gan ei wneud yn fwy modern a hygyrch ar gyfer y sector. Y nod yw creu cod sy'n gwella dyluniad a chyflwyniad rhaglenni cyllido yng Nghymru, gan ganiatáu i'r sector gael mwy o effaith ar ein cymunedau. Bydd hyn yn gwella cynaliadwyedd mudiadau gwirfoddol a'r gwasanaethau y byddant yn eu darparu

Gwnaethom gymryd rhan yng ngorymdaith Pride Cymru 2023, ochr yn ochr â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Chwarae Teg, Ymddiriedolaeth Datblygu Corneli, Papyrus a Darganfod Cymru. Trwy rannu costau a'i gwneud hi'n fwy hygyrch i fynychu, gwnaethom helpu i hwyluso mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan yn y digwyddiad pwysig hwn, a oedd yn adlewyrchu amrywiaeth y sector

Gwnaethom gynnal ymarferiad gwrando cynhwysfawr gydag aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) a datblygu strategaeth i sicrhau bod ymgysylltiadau'r sector â gweinidogion Cymru yn cael cymaint â phosibl o effaith

Gwobrau Elusennau Cymru

Llongyfarchiadau i enillwyr Gwobrau Elusennau Cymru 2023

Mae Gwobrau Elusennau Cymru yn dangos y gwahaniaeth positif y gall pob un ohonom ei wneud i fywydau ein gilydd drwy gydnabod a dathlu'r cyfraniad gwych y mae'r sector gwirfoddol yn ei wneud i gymdeithas.

Gwnaethom dderbyn mwy o enwebiadau nag erioed yn 2023, a derbyniodd yr wyth enillydd eu gwobrau yn ein seremoni yng Ngwesty'r Parkgate yng Nghaerdydd ar 11 Hydref 2023.

Enillwyr

Gwirfoddolwr y flwyddyn

(gwirfoddolwyr 26 oed a hŷn)

Noddwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru

Nicola Harteveld

Sefydlodd Nicola y Megan's Starr Foundation ar ôl i'w merch, Megan, gyflawni hunanladdiad. Nawr, mae Nicola yn gwirfoddoli 40 awr yr wythnos i hyrwyddo iechyd meddwl da ymhlith pobl ifanc ddifreintiedig yn Sir Benfro.

Gwirfoddolwr ifanc y flwyddyn

(gwirfoddolwyr 25 oed neu iau)

Noddwyd gan Utility Aid

Sara Madi

Mae Sara, ceisiwr lloches 21 oed, yn wirfoddolwr hanfodol yn y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd. Mae'n arwain grŵp merched ifanc Women Breaking Borders a hi sbardunodd hyfforddiant cwnsela ar gyfer pobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.

Hyrwyddwr y wobr amrywiaeth

Noddwyd gan Hugh James

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM)

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae ei lwyddiannau diweddar yn cynnwys sicrhau cwotâu rhywedd yn niwygiad y Senedd a chael cyllid i oroeswyr cam-drin domestig heb fynediad at arian cyhoeddus.

Tŷ Hafan

Arweiniodd yr argyfwng costau byw at 50% yn llai o roddion i elusen Tŷ Hafan. Mewn ymateb i hyn, gwnaethant gynnal ymgyrch codi arian cyhoeddus 60 awr o hyd gan ddefnyddio'r 'model Hyrwyddwr Apêl', a chodi £344,649 (y mwyaf erioed i'r elusen).

Cynhyrchydd incwm y flwyddyn

Noddwyd gan Tantrwm

Defnydd gorau o'r Gymraeg

Noddwyd gan Nico

Gwasanaeth Ffôn Cymorth Dementia Cymdeithas Alzheimer Cymru

Cryfhaodd Cymdeithas Alzheimer's Cymru ei gwasanaethau Cymraeg trwy gefnogi 281 o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg drwy ei gwasanaeth ffôn yn 2022/23, cyllido Cynghorwyr Dementia Cymraeg eu hiaith i deithio i ardaloedd heb staff rhugl a mireinio'r deunydd sydd ganddyn nhw wedi'i gyfieithu.

Gwobr Arloeswr

Noddwyd gan Salesforce.org

Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru

Mae Gwirfoddolwyr Cymunedol Cymru yn rhedeg pantri bwyd cymunedol arloesol sy'n dargyfeirio 400kg o fwyd o safleoedd tirlenwi. Maen nhw'n grymuso eu haelodau i wneud dewisiadau cynaliadwy a fforddiadwy drwy danysgrifio i gael basged fwyd am £2.

Gwobr iechyd a lles

Noddwyd gan fudiad Gwelliant Cymru

Wye Gymnastics & Galaxy Cheerleading

Mae Wye Gymnastics & Galaxy Cheerleading yn defnyddio chwaraeon i greu newid positif a thrawsnewid iechyd a lles, gan gynnig cyfleoedd gymnasteg a chodi hwyl cynhwysol yn Sir Fynwy a Chasnewydd.

Mudiad y flwyddyn

Noddwyd gan SCG Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi mynd ati'n ddiflin i gefnogi ac eirioli ar ran ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan ddechrau prosiect Wcráin sydd wedi bod o fudd i dros 1,700 o bobl Wcráin a dod o hyd i gartrefi i dros 200 o ffoaduriaid mewn perygl o fod yn ddigartref.

Sbotolau ar ein staff: Prosiect Arloesi Cymunedol Macmillan

Mae Eleanor Jones, Rheolwr Arloesi Cymunedol Macmillan, wedi bod yn arwain prosiect i helpu i edrych ar y potensial i wella mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chymorth canser Macmillan, drwy ymyrraeth a arweinir gan y gymuned.

Yn ystod 2023, gwnaethom ddefnyddio technegau cyd-gynhyrchu i ymhél â 53 o grwpiau a 340 o bobl drwy Brosiect Arloesi Cymunedol Macmillan, gan ganolbwyntio ar unigolion o grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Gwnaethom ofyn iddynt beth oeddent yn ei wybod am wasanaethau gwybodaeth a chymorth Macmillan a sut, yn eu tyb nhw, gellid gwella'r gwasanaethau hyn.

Awgrymodd y cyfranogwyr gyfres o argymhellion, a mwy o fynediad at gymorth wyneb yn wyneb yn y gymuned ddaeth i'r brig fel yr un pwysicaf. Trwy drafodaethau â Macmillan, mae rhaglen Hyrwyddwyr Gwybodaeth Macmillan wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac edrychwn ymlaen at weld y rhaglen derfynol yn 2024.

Ymhlith yr argymhellion eraill a fydd yn cael sylw mae mynediad gwell at wybodaeth a chymorth canser i bobl ag anableddau dysgu, cysylltiadau gwell rhwng staff gofal iechyd carchardai a nyrsys canser arbenigol, a mwy o ymgyrchoedd ar y cyfryngau am wasanaethau gwybodaeth a chymorth.

Mae ein gwaith ar godi ymwybyddiaeth o wybodaeth a chymorth canser yn hanfodol, oherwydd pan ddaw'r diagnosis hwnnw, dyna pryd y mae angen i'r unigolyn a'i anwyliaid wybod bod help llaw ar gael iddynt.

Uchod: Gwnaeth Eleanor Jones arwain Prosiect Arloesi Cymunedol Macmillan a helpu cymunedau i ymgysylltu â gwasanaethau Macmillan ▲

Y gwahaniaeth a wnaethom

Ni seiniodd y larwm ar recriwtio a chadw gwirfoddolwyr: mae 90% o gynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn cael anhawster recriwtio ac 82% ohonynt yn cael anhawster cadw gwirfoddolwyr. **Sbardunodd ein gwaith ymchwil drafodaeth yn y Siambr y Senedd a chafodd sylw sylweddol ym mhob un o brif gyfryngau Cymru**

Cafodd llais ein sector ei glywed yn groch ac yn glir yng nghyllideb 2024/25 Llywodraeth Cymru. Gwnaeth CGGC hwyluso ymgysylltiadau â gweinidogion, cyflwyno tystiolaeth a dwyn y TSPC ynghyd i lunio eu datganiad ar y cyd cyntaf erioed yn craffu ar y gyllideb. **Gwelsom ein hargymhellion yn cael eu hadlewyrchu mewn tri adroddiad pwyllgor a chawsom ymrwymiad pwysig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd** i sicrhau cyllid ar gyfer Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn y dyfodol

Gwnaeth ein Prosiect Iechyd a Gofal lunio nifer o bapurau ac adroddiadau yn 2023/24 a oedd yn canolbwyntio ar rôl bwysig mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn y maes iechyd a gofal yng Nghymru. Ymhlith y rhain roedd papur o'r enw *Llywio toriadau cyllid: rôl y trydydd sector fel partneriaid allweddol* i Lywodraeth Cymru, a'r papur *Cydlynu gwirfoddolwyr mewn ymateb i argyfyngau: rôl GwirfoddoliCymru.net* i gefnogi'r cynlluniau cenedlaethol ar gyfer argyfyngau sifil

Er mwyn cynorthwyo mudiadau i arwain newid positif, gwnaethom lansio adran cyngor ac arweiniad ar Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru, gydag adnoddau ar gyfer sefydlu grŵp, ymddiriedolwyr a llywodraethu, diogelu, cyllid a rhedeg eich mudiad, a rheoli arian a chyllidebau. **Y tudalennau hyn oedd y rhai yr edrychwyd arnynt fwyaf ar yr Hwb Gwybodaeth, a chawsant eu cyrchu dros 1,500 o weithiau mewn tri mis** ar gyfradd sy'n amlygu diddordeb y sector yn y meysydd hyn

Gwnaethom barhau i yrru effaith yn y maes hawliau dynol yng Nghymru drwy ein prosiect, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, gyda Phrifysgol Caerdydd. **Ar ôl y gwaith a wnaethom ar y 'Bil Hawliau' arfaethedig yn 2022/23, cafodd ein prif ofyniad ei wireddu a thynnwyd y ddeddfwriaeth yn ôl.** Rydym wedi parhau â gwaith cyffrous tuag at fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer cryfhau hawliau dynol yng Nghymru, ac mae'r sector gwirfoddol a phartneriaid academaidd wedi siarad mewn nifer o ddigwyddiadau yn dathlu 75 mlynedd o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Yn ystod 2023/24, **cafodd gwaith CGGC ei grybwyll 42 o weithiau ar draws eitemau a chyhoeddiadau newyddion gwahanol gan Lywodraeth Cymru a 37 o weithiau yn y Senedd** – mae hynny'n 14 o weithiau mewn cyfarfodydd llawn a 23 o weithiau mewn sesiynau pwyllgor

Sbotolau ar ein staff:
Rhoi Cymry ar y map yn y DU a'r UE

Mae Charles Whitmore, cydlynydd Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru CGGC a Phrifysgol Caerdydd, wedi bod yn codi proffil y sector yn y DU a'r UE.

Er bod Brexit yn teimlo ymhell i ffwrdd bellach, rydym wedi bod yn gweithio ar sicrhau bod lleisiau'r sector gwirfoddol yn helpu i lywio'r heriau aelodaeth parhaus ar ôl yr UE, ac eleni, rydym wedi gweld rhai canlyniadau clir o'n gwaith.

Gwnaethom weithio gyda phartneriaid i ddiwygio Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023, gan atal yr hyn a allai fod yn filoedd o safonau pwysig rhag cael eu diddymu o gyfraith y DU ar ddiwedd 2023. Gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar lefel Cymru a'r DU, ni oedd yr unig gyfrannwr o Gymru a roddodd tystiolaeth ar lafar i Senedd y DU a chafodd ein cyd-eiriolaeth â phartneriaid sylw ar dudalen flaen y Financial Times.

Gwnaethom hefyd ymuno â galwadau am ddatrysiadau i effeithiau negyddol y cyfyngiadau newydd ar gyfnewidiau addysgol trawsffiniol rhwng y DU a'r UE. Gwnaethom wthio hyn yn Grŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU, fel yr unig gynrychiolydd penodol dros Gymru, gan hwyluso dau ddiwrnod o weithgareddau a chyfrannu at adroddiad Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yn galw am raglen gyfnewid newydd rhwng y DU a'r UE. Yn fuan ar ôl ei gyhoeddiad, gofynnodd y Comisiwn Ewropeaidd am drafodaethau o'r newydd ar hyn gyda'r DU.

Gwnaethom weithio gyda phartneriaid y DU ar nifer o faterion eraill fel y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon a Deddf Diogelwch Rwanda a gwnaethom drefnu cynhadledd pedair gwlad, gan rannu mewnwelediadau o bob rhan o'r DU a mwyafu llais y sector cyn etholiad cyffredinol 2024.

Uchod: Charles Whitmore sy'n cydlynu Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, sy'n rhoi llais i'r sector gwirfoddol ar lefel yr holl DU ac Ewrop ▲

Adborth ar ein hymateb i ymgynghoriadau

‘Diolch am yr holl waith sydd wedi’i wneud ar yr ymateb i’r ymgynghoriad ar Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal. Mae hwn yn bapur gwych sy’n cynnwys llawer iawn o bwyntiau pwysig, perthnasol a defnyddiol.

‘Rwy’n cadeirio dwy elusen yng Nghymru ac rwy’n mynd i ofyn i’r ddau fwrdd a’n timau uwch dreulio amser yn ystyried sut gallwn ni ddefnyddio eich mewnwelediadau, eich doethineb a’ch safbwyntiau i’n helpu ni gyda’n strategaethau, cynigion a gwaith arall.’

Jonathan Richards FRCGP, Cadeirydd Home-Start Cymru a mudiad Camau’r Cymoedd

Ar Pride Cymru 2023

‘Roeddwn eisiau ysgrifennu atoch i ddiolch i chi am y cyfle i gerdded yn y parêd ddydd Sadwrn diwethaf. Cafodd ein tîm amser gwych yn cymryd rhan ac ni fyddem wedi ystyried ei wneud pe na baech chi wedi cynnig.’

Adrian Morgan, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Datblygu Corneli

Ein nod

Mae CGGC yn fwy gwydn

- Mae CGGC yn ariannol gynaliadwy
- Mae CGGC yn addasu'n bositif i newid
- Mae CGGC yn rhoi mwy o gefnogaeth i'w bobl

Beth wnaethom ni

Gwnaethom ddatblygu Strategaeth Cynhyrchu Incwm er mwyn gosod ein blaenoriaethau a'n nodau ar gyfer cyflawni buddsoddiad pellach mewn meysydd allweddol o'n gwaith

Gwnaethom barhau i arallgyfeirio ein ffrydiau incwm er mwyn i CGGC gael sylfaen gref i gefnogi mudiadau gwirfoddol yn y dyfodol. Gwnaethom hyn drwy feithrin cydberthnasau â noddwyr a chyflenwyr dibynadwy a pharatoi ar gyfer masnacheiddio ein systemau rheoli grantiau

Gwnaethom greu llyfryn dysgu a datblygu newydd i helpu staff i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd datblygu oedd ar gael iddynt

Gwnaethom barhau i gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ein data a'n dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Bydd cael darlun da o'r sector yn ein helpu i fonitro ac ymateb i newidiadau sy'n effeithio ar fudiadau gwirfoddol

Gwnaethom gyflwyno hyfforddiant 'Cyflwyniad i ddylunio gwasanaethau' i staff fel rhan o raglen Newid, gyda chwrs rhagarweiniol a oedd yn agored i'r holl staff. Gwnaeth 29 o bobl gymryd rhan yn yr hyfforddiant cychwynnol, a chofrestrodd 15 i gwblhau prosiect a fydd yn ddefnyddiol iddynt yn eu gwaith bob dydd. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys: 'Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fonitro prosiect?', 'Adolygu ein proses arfarnu flynyddol', 'Y broses o wneud cais am fenthyciad ar-lein ar gyfer y sector gwirfoddol' a 'Gwneud gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd i wasanaeth ymholiadau cyffredinol CGGC'

Trwy gydweithio â'n Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a'n Hyrwyddwr Lles, **gwnaethom ddatblygu a gweithredu cydgynllun EDI a Llesiant llwyddiannus ar gyfer 2023/24**, gan ganolbwyntio ar feithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol

Gwnaethom gynnal adolygiad o gynnig presennol ein Rhaglen Cymorth Cyflogeion, gan gwrdd â phedwar darparwr gwahanol fel rhan o ymarferiad cymharu i edrych ar ba opsiynau oedd ar gael i ni

Gwnaeth Cymdeithas Eryri
gymryd rhan yn ein cynllun peilot,
Gwasanaeth Natur Cenedlaethol,
yn edrych ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau
a chreu swyddi sy'n cefnogi gwaith adfer natur

Sbotolau ar ein staff: Buddsoddi yn ein pobl

Gwnaeth Sara Sellek, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Phobl, alluogi i gyflawni'r marc ansawdd, Buddsoddwyr mewn Pobl, a gydnabyddir yn fyd-eang.

Roedd gan CGGC y safon Buddsoddwyr mewn Pobl am flynyddoedd maith, ond nid oeddem yn gallu gweithio tuag ato'r llynedd oherwydd rhaglen newid eang. Roedd hwn yn gyfnod anodd iawn i'n staff oherwydd y newidiadau, yr argyfwng costau byw a'r pwysau ariannol sydd ar bob un ohonom, fel pobl ac fel elusen.

Eleni, roeddwn i'n teimlo ei fod yn bwysig ein bod yn ailsefydlu ein hymrwymiad i'n staff drwy weithio tuag at y safon Buddsoddwyr mewn Pobl unwaith eto. Byddai hyn yn ein helpu i wirio a oedd staff yn gwerthfawrogi gweithio i CGGC a sicrhau ein bod yn parhau i wneud gwelliannau. Dechreuodd y broses gyda chyfweliadau ac arolwg staff annibynnol i gofnodi'r profiad o weithio yn CGGC.

Gwnaeth y staff ymgysylltu'n dda â ni. Dangosodd yr adborth fod parch positif tuag at sut gwnaethom redeg ein rhaglen newid, bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hystyried yn ddibynadwy, a'u bod yn credu yn ein gwerthoedd. Gwnaeth y cyfraniad hwn ein helpu i ennill lefel safonol Buddsoddwyr mewn Pobl, gyda chydnabyddiaeth ein bod yn gweithredu ar y lefel uwch ar hyn o bryd (pe bai ni'n ymgeisio amdani yn y dyfodol).

Yn dilyn yr achrediad, ac yn seiliedig ar ein cynllun gweithredu, rydym wedi dechrau gweithio ar adolygu cyflogau a'n polisïau, a sicrhau y gall staff ymhél â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy ailgyflwyno ein fforwm ymgynghori â staff.

Uchod: Mae Sara Sellek wedi bod yn helpu CGGC i ddod yn 'Fuddsoddwyr mewn Pobl' ▲

Y gwahaniaeth a wnaethom

I ddangos bod gennym reolaeth ariannol gref, **cawsom archwiliad 'diamod' llwyddiannus ar gyfer 2023/24**. Mae hyn yn golygu nad oedd unrhyw feysydd y gellir eu gwella

Gwnaethom ddangos ein seilwaith TG diogel wrth i **CGGC ennill achrediad Cyber Essentials Plus**. Mae ennill Cyber Essentials Plus yn rhoi sicrwydd annibynnol i ni bod y mesurau sydd gennym ar waith ar gyfer seiberddiogelwch yn addas i'r diben

Dde: Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Aelod Seneddol David TC Davies, yn derbyn cwestiynau gan y gynulleidfa yn yr Uwchgynhadledd Cymdeithas Sifil Pedair Gwlad a drefnwyd gan ein prosiect, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ▶

Sbotolau ar ein staff: Gwneud CGGC yn gyflogwr cynhwysol

Rajma Begum yw Rheolwr Amrywiaeth mewn Chwaraeon Cenedlaethol CGGC. Mae wedi bod yn cadeirio ein grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a arweinir gan staff, ac mae hwn wedi gwneud CGGC yn lle gwirioneddol groesawgar i bawb.

Sefydlwyd ein grŵp hyrwyddwyr EDI a arweinir gan staff yn 2019. Roeddwn yn gwybod bod gennym arbenigedd yn CGGC ar draws nifer o wahanol feysydd, a bod pobl yn frwd am EDI. Roeddwn eisiau gweld a allem gael budd o gael lle i gefnogi ein pobl ag EDI, a phan ofynnais y cwestiwn, cafwyd ymateb positif iawn gan y staff.

Roeddem yn gwybod bod mudiadau gwirfoddol yng Nghymru angen cymorth ag EDI, felly sefydlwyd y grŵp i uwchsgilio staff, er mwyn sicrhau ein bod yn gymwys ac yn hyderus i gefnogi ein cydweithwyr a'n haelodau.

Ers dechrau'r grŵp, rydym wedi arwain nifer o newidiadau pwysig i'r mudiad, fel pledio'r achos dros gael swyddog EDI penodedig (a'i gyflogi) a chyflwyno asesiadau cydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau sy'n effeithio ar staff. O ganlyniad i'r grŵp hyrwyddwyr, rydym wedi sylwi bod pobl yn fwy hyderus o lawer nawr i ofyn cwestiynau ynghylch EDI, codi materion a herio pethau.

Rwyf wedi camu i lawr fel cadeirydd y grŵp yn ddiweddar, ac rwy'n gadael gan deimlo bod CGGC yn lle gwell, yn rhywle y byddem yn falch o'i argymell i aelodau o bob cymuned fel cyflogwr cynhwysol. A nawr mae'r awenau yn nwylo fy olynydd i fynd ag CGGC i'r lefel nesaf!

Uchod: Rajma Begum sy'n arwain ein prosiect Amrywiaeth Chwaraeon Cymru ▲

Adborth ar ein gweithgareddau lles a arweinir gan staff

> ‘Rwyf wastad yn edrych ymlaen at giniawau mawr yn y swyddfa. Closio dros fwyd yw un o’r ymarferion adeiladu tîm symlaf a siŵr o fod hynaf, ond weithiau d’oes dim angen ailddyfeisio’r olwyn.
>
> Gwnaethom gynnal ciniawau ‘mentro’ch lwc’ ar gyfer Eid a’r Nadolig a nifer o stondinau cacennau i gefnogi achosion elusennol. Mae’r swyddfa yn llenwi bob tro mae rhywun eisiau rhannu ei ddiwylliant neu helpu achos sy’n agos at ei galon. Mae’n dyst i ddiwylliant cynnes a chefnogol ein mudiad.’
>
> **Natalie Zhivkova, Rheolwr Polisi a Mewnwelediadau CGGC**

Ruth Marks yn siarad am gyflawniadau anhygoel mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yng Ngwobrau Elusennau Cymru 2023

‘Etifeddiaeth barhaol’

Ar ran CGGC, mae Neil Wooding yn dweud ffarwel hoffus i Ruth Marks a wnaeth ymddeol y flwyddyn hon

Gwnaeth Ruth Marks ymddeol fel Prif Weithredwr CGGC yn Ebrill 2024 ar ôl naw mlynedd anhygoel. Mae Ruth yn gadael etifeddiaeth barhaol, nid yn unig ar bawb y mae wedi gweithio gyda nhw, ond ar yr holl sector gwirfoddol yng Nghymru.

Fel Prif Weithredwr, cyflawnodd Ruth lawer iawn, gan arwain nifer o adolygiadau, rhoi enw da i CGGC fel mudiad dibynadwy iawn sy’n seiliedig ar werthoedd ac adeiladu cydberthnasau cryf ar draws y sector.

Nid oedd bob amser yn hawdd, ond gyda’i harweinyddiaeth, ei hymroddiad a’i brwdfrydedd, gwnaeth Ruth oresgyn llawer o heriau ar hyd y ffordd. Nid yn rhy bell yn ôl, datblygodd Ruth bartneriaethau strategol a alluogodd CGGC i chwarae rôl hanfodol mewn ymdrin ag effaith y pandemig, a helpodd y sector i wynebu colli cyllid yr UE. Mae Ruth wedi cefnogi staff CGGC â charedigrwydd drwy gyfres o newidiadau mawr.

YN EI GEIRIAU EI HUN

Wrth siarad am ei hymddeoliad, dywedodd Ruth:

> ‘Rwy’n teimlo’n falch iawn o fod wedi bod yn rhan o CGGC a’r sector gwirfoddol ehangach am gyhyd. Mae staff, ymddiriedolwyr, aelodau a phartneriaid CGGC yn ei wneud yn lle unigryw i weithio.
>
> O ddyddiau cynnar fy ngyrfa i’m rôl olaf cyn ymddeol, rwyf wedi mwynhau fy amser gyda’r mudiad yn fawr iawn. Rydym wedi cyflawni llawer iawn gyda, a thros y sector ac rwy’n siŵr y bydd CGGC yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.’

GYRFA I FOD YN FALCH OHONI

Penodwyd Ruth Marks yn Brif Weithredwr CGGC yn 2015. Cyn hynny, fel y Comisiynydd Pobl Hŷn cyntaf yn y byd, sefydlodd Ruth y swyddfa annibynnol a defnyddio ei phwerau statudol i adolygu gofal iechyd i bobl hŷn, gan gynhyrchu’r adroddiad, Gofal gydag Urddas.

Fel gweithredwraig ac arweinydd profiadol yn y sector gwirfoddol, mae Ruth wedi arwain RNIB Cymru a Chwarae Teg ac adolygiad annibynnol ar reoleiddiadau iechyd yng Nghymru. Mae ei chymwysterau ôl-radd mewn rheoli adnoddau dynol ac arweinyddiaeth gydweithredol.

Mae Ruth yn cyfrannu’n rheolaidd at ymchwiliadau a byrddau cynghori ar faterion fel amrywiaeth, cydraddoldeb, gwirfoddoli a’r sector gwirfoddol. Bydd diddordeb Ruth yn y sector gwirfoddol yn parhau drwy ei chysylltiad â gweithgareddau lleol a’i chefnogaeth dros achosion sy’n agos at ei chalon.

Mae Ruth yn ysgogwr penigamp, yn grymuso pobl i gyrraedd eu potensial. Dymunwn ymddeoliad hapus ac iach iddi a gobeithiwn y bydd yn edrych yn ôl yn falch ar yrfa ffantastig, gan wybod ei bod wedi gadael CGGC gyda sylfaen gadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Ein cyllid

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad ariannol ar gyfer 2023/24.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddosbarthu **£23.4 miliwn** mewn grantiau a benthyciadau i'r sector gwirfoddol. Ein hincwm oedd **£33.2 miliwn** a'n gwariant oedd **£29.3 miliwn**.

Incwm
£33.2 miliwn



Incwm cyfyngedig
£26.8 miliwn



Incwm anghyfyngedig
£6.5 miliwn



Gwariant
£29.3 miliwn



- Grantiau i'r sector
- Costau staff (cyflogau, recriwtio, hyfforddi ac ati)
- Gorbenion (costau adeiladau, cyfarpar, cyfleustodau ac ati)
- Costau eraill (archwilio, ymgynghorwyr, marchnata ac ati)

Aelodau bwrdd CGGC

Llywydd
Michael Sheen

Is-lywyddion
Tom Jones OBE
Margaret Thorne CBE DL
Peter Davies CBE

Cadeirydd
Dr Neil Wooding CBE

Is-gadeirydd
Fran Targett OBE

Trysorydd
Colin Arnold

Ymddiriedolwyr
Reham Bassal
Lindsay Cordery-Bruce (ymddiswyddodd 23 Tachwedd 2023)
Rhian Davies
Simon Harris
Lowri Jones
Chris Lines
Mark Llewellyn
Kathryn Luckock
Menai Owen-Jones
Joe Stockley
Edward Watts, MBE DL
Kate Young

Ysgrifenyddes
Tracey Lewis

Rhif cofrestru'r cwmni
0425299

Rhif elusen
218093

Swyddfa gofrestredig
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

Bancwyr
Barclays Bank Plc
Llys Windsor
1-3 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3BX

Cynghorwyr cyfreithiol
Geldards LLP
Cwr y Ddinas Rhif 4
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Hugh James
Dau Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FS

Capital Law
Adeilad Capital
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4AZ

Archwilydd
Bevan Buckland LLP
Llawr Gwaelod
Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Diolch

Hoffem ddiolch i'n holl aelodau a phartneriaid am eu cefnogaeth y flwyddyn hon, gan ddiolch yn arbennig i:

ACEVO

Anabledd Cymru

Big Learning Company

C3SC

Comic Relief

Comisiwn Bevan

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cwmpas

Cyfryngau Digidol Tantrwm

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Cymorth Canser Macmillan yng Nghymru

Chwaraeon Cymru

Data Cymru

Gareth Kiddie Associates

Geldards LLP

Gofal Cymdeithasol Cymru

Gwelliant Cymru

Helplu

History Ventures

Hub Cymru Affrica

Hugh James

Lloyds Bank Foundation

Llywodraeth Cymru

Media Cymru Cyf

NCVO

Nico

Pride Cymru

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol De Cymru

ProMo-Cymru

Pugh Computers

Recruit3

Richard Newton Consulting

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Savage and Gray

SCG Cymru

Social Investment Business

Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST)

The Funding Centre

Thomas Carroll

Un Llais Cymru

Utility Aid

Volunteer Scotland

Volunteering Matters

Women Connect First

Datganiadau ariannol

2023/24

Yn yr adran hon ceir manylion ein cyfrifon a'n gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 gan gynnwys adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr, adolygiad a datganiadau ariannol, adroddiad strategol y grŵp, gwybodaeth ynglŷn â'n haelodau, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol.

Adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr 2023/24

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Dogfen lywodraethu

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ('CGGC') yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Ei ddogfennau llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 9 Rhagfyr 1946 (dyddiad corffori), a ddiwygiwyd diwethaf ym mis Tachwedd 2016. Cafodd CGGC ei gofrestru fel elusen ar 24 Mai 1963.

Recriwtio a phenodi Ymddiriedolwyr

Mae erthyglau cymdeithasu CGGC yn darparu ar gyfer Bwrdd sy'n cynnwys dim llai na chwech a dim mwy nag un-ar-bymtheg o ymddiriedolwyr. Caiff hyd at ddeuddeg o ymddiriedolwyr Bwrdd CGGC eu hethol gan Aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chaiff hyd at bedwar aelod eu penodi gan Fwrdd CGGC i sicrhau'r gymysgedd gywir o sgiliau a phrofiad. Bydd ymddiriedolwyr yn ymadael yn ôl trefn gylchdro, sef y rhai sydd wedi gwasanaethu am dair blynedd yn ddi-dor ar ôl cael eu hethol neu eu hailethol.

Bydd ymddiriedolwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol am dymor pellach o dair blynedd ac ni chaiff yr un ymddiriedolwr fod yn y swydd am fwy na naw mlynedd yn olynol. Gall Bwrdd CGGC gyfethol unrhyw un ar unrhyw adeg i lenwi swydd wag dros dro sy'n codi ar Fwrdd CGGC. Ni chafodd etholiadau ymddiriedolwyr eu cynnal yn 2023 gan nad oedd unrhyw ymddiriedolwr yn ymddeol, felly bydd ein Hetholiad nesaf ar gyfer Ymddiriedolwyr yn cael ei gynnal yn 2024.

Cynefino a hyfforddi ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn mynychu cyfarfod cynefino sy'n cynnwys y cyfle i gwrdd â staff allweddol. Caiff ymddiriedolwyr lawlyfr cynhwysfawr i ymddiriedolwyr sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am eu rôl a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys Yr Ymddiriedolwr Hanfodol a pholisïau a dogfennau allweddol y mudiad.

Yn ystod 2023/24, cynhaliwyd nifer o sesiynau canolbwyntiedig ar raglenni gwaith gwahanol ar gyfer ymddiriedolwyr, gan gynnwys hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu.

Gwnaeth Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd blynyddol y Bwrdd ganolbwyntio ar lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd a thrafodaethau polisi/eirioli ynghylch ein nodau strategol.

Swyddi Anrhydeddus

Mae Llywydd Anrhydeddus CGGC, Michael Sheen yn hyrwyddo CGGC a'r sector bob cyfle a gaiff.

Mae Is-lywydd CGGC, Tom Jones OBE yn gweithio i gynnal a datblygu cysylltiadau cymdeithas sifil ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Mae Is-lywydd CGGC, Peter Davies CBE, yn gefnogwr brwd o'r sector gwirfoddol, yn arbennig o ran datblygu cynaliadwy.

Ym mis Medi 2023, roeddem yn drist o golli un o gefnogwyr hirsefydlog CGGC a theulu'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, pan hunodd Is-lywydd CGGC, Margaret Thorne CBE DL. Roedd Margaret wedi bod yn Is-lywydd ers 2010 ac roedd wedi creu etifeddiaeth o ran ei chefnogaeth dros elusennau a gwirfoddolwyr.

Rhaglen Step to Non-Executive (StNEP)

Yn ystod 2023, bu CGGC yn fudiad partner yn cefnogi rhaglen StNEP Chwarae Teg, a oedd yn ceisio annog mwy o fenywod i mewn i rolau Cyfarwyddwyr Anweithredol. Roedd y rhaglen yn cynnig mentora un-i-un, cyfleoedd cysgodi a hyfforddiant sgiliau ar lywodraethu a rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol. Gwnaeth Cadeirydd CGGC, Dr Neil Wooding CBE, ymgymryd â rôl mentor Ymddiriedolwr a gwnaeth y sawl a gafodd ei fentora gysgodi ein Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Roeddem yn drist o weld yr elusen cydraddoldeb rhywedd, Chwarae Teg, yn cau yn ystod y flwyddyn a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ei hetifeddiaeth gwaith yn parhau.

Strwythur y mudiad

Aelod-fudiad yw CGGC. Mae'r aelodaeth ar agor i elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio. Caiff aelodau eu hannog yn weithredol i lunio ein gwaith a chysylltu â rhwydwaith cyfoethog o bobl o'r un meddylfryd sydd â'r un weledigaeth.

Yn dilyn ein rhaglen newid fawr yn ystod 2022/2023, a gafodd ei gwneud i sicrhau cynaliadwyedd rôl CGGC o gefnogi'r sector gwirfoddol yn y dyfodol, cafodd y llywodraethiant ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn hon. Nod y diweddariad llywodraethu oedd edrych ar sut gallwn gryfhau, symleiddio a gwella ein llywodraethiant. Yn dilyn yr adolygiad hwn, gwnaethom ailffurfio ein Pwyllgorau a sut maen nhw'n gweithredu.

Mae tri is-bwyllgor yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei rôl, ac mae'r rhain yn adrodd i'r bwrdd:

- Pwyllgor Cyllid a Risg
- Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol
- Pwyllgor Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru

Cefnogir y Bwrdd hefyd gan nifer o baneli ymgynghori ariannol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro'r cynlluniau strategol a gweithredol sy'n ganolbwynt ac yn sail i waith CGGC.

Rheoli risg

Mae pwyllgor Cyllid a Risg CGGC yn adolygu'r gofrestr risg er mwyn sicrhau bod risgiau strategol y mudiad yn cael eu rheoli'n briodol a bod camau lliniaru digonol yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Mae'r pwyllgor yn argymell y Bwrdd i gymeradwyo'r gofrestr risg. Yn ystod 2024, bydd y gofrestr risg yn cael ei hail-ddylunio mewn ymgynghoriad â'r pwyllgor Cyllid a Risg gyda mewnbwn gan ein harchwilwyr er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r mudiad yn well ar ôl yr ailstrwythuro.

Partïon cysylltiedig

Yn ystod 2010/11 sefydlodd yr elusen grŵp drwy gorffori dau is-gwmni perchnogaeth lwyr, Social Investment (Cymru) Ltd (a ailenwyd o WCVA Investments Ltd ar 24 Hydref 2014) at ddibenion sefydlu cronfa fenthyciadau, a WCVA Services Ltd at ddibenion gweinyddu gwasanaethau benthyca.

Gwnaeth Social Investment (Cymru) Ltd ddarparu buddsoddiad cymdeithasol ar gyfer ac ar ran y trydydd sector yng Nghymru. Daeth yr is-gwmni hwn yn segur yn ystod 2023/2024 gan drosglwyddo ei holl weithgarwch i CGGC. Cafodd Pwyllgor Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru ei sefydlu ar 23 Awst 2023 i gynorthwyo Bwrdd CGGC â'i ddyletswydd i gadw llygad ar gyfeiriad gweithgareddau cyllid ad-daladwy CGGC.

Yn dilyn cwblhad prosiect blaenorol a gyllidwyd gan Ewrop, mae WCVA Services Limited bellach yn segur. Cafodd trydydd is-gwmni, WCVA Trading Limited, ei gorffori yn ystod 2011/12; nid yw'r cwmni hwn yn weithredol ar hyn o bryd.

Gwnaeth ein pedwerydd is-gwmni, Cynnal Cymru - Sustain Wales (Cynnal Cymru) ymuno â grŵp CGGC ar 1 Ebrill 2018. Cynnal Cymru yw'r elusen genedlaethol dros ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cynnal Cymru hefyd yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant. Arbenigwyr cynaliadwyedd yw Cynnal Cymru sy'n darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i helpu mudiadau wneud penderfyniadau beiddgar am ddyfodol tecach a mwy diogel.

Yn ystod 2023/24, gwnaethom barhau i gefnogi a gweithio gyda mudiad Cynnal Cymru. Mae hyn yn cynnwys defnyddio eu harbenigedd i gefnogi rhai o'r mudiadau y mae Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn buddsoddi ynddynt a'n cefnogi ni i ymgymryd ag ymarferiad mesur ôl troed carbon.

Mae Grantiau a Chontractau Caffael a ddyfarnwyd i gyrff lle mae gan yr Ymddiriedolwyr naill ai reolaeth uniongyrchol neu ddylanwad sylweddol wedi'u datgelu o fewn nodyn 8 y cyfrifon.

Amcanion a gweithgareddau

Ein gweledigaeth

'Dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb'

Ein cenhadaeth

'Bydd CGGC yn gatalydd dros newid positif drwy Gysylltu, Galluogi a Dylanwadu'

Amcanion elusennol

Amcanion yr elusen yw hybu pob diben neu unrhyw ddiben er budd y gymuned y bernir yn ôl y gyfraith ei fod yn ddiben elusennol.

Budd cyhoeddus

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi talu sylw dyledus at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolwyr yn hyderus bod nodau a gweithgareddau CGGC yn cadw at y rheoliadau ar fudd cyhoeddus, fel y dangosir drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a'n haelodaeth ehangach, gwnaethom ganolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd lle gallem wneud yr effaith fwyaf. Un o'n prif negeseuon cyfathrebu yw ein bod yn gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Grantiau a chyllid

Gweinyddodd yr elusen 18 (2023:17) o gynlluniau grant yn ystod y flwyddyn a chafodd taliadau grant eu gwneud i 525 (2023: 560) o fudiadau.

Grantiau / cynlluniau	**2024 Nifer y grantiau a dalwyd**	**2024 Gwerth y grantiau a dalwyd £**	2023 Nifer y grantiau a dalwyd	2023 Gwerth y grantiau a dalwyd £
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru	**1**	**124,440**	10	586,143
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru Ieuenctid	**1**	**12,741**	9	394,385
Cynhwysiant Gweithredol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**1**	**121,798**	62	4,626,610
Cynhwysiant Gweithredol - Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Ieuenctid	-	-	29	1,318,852
SGBF – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	19	1,305,319
SGBF – Dwyrain Cymru	-	-	5	299,761
Cyllid Seilwaith - CVCs	**19**	**4,848,583**	19	4,550,650
Treth Safleoedd Tirlenwi	**92**	**2,126,709**	62	1,373,964
Cyngor Partneriaeth	**29**	**84,024**	30	87,525
Gwirfoddoli Cymru	**141**	**2,345,822**	127	764,519
Cysylltiadau Cymunedol Cymru dros Affrica	**42**	**416,639**	19	236,438
Comic Relief	**5**	**88,000**	21	959,080
Partneriaeth Natur Leol LNP	-	-	21	14,644
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LP4N	-	-	99	9,127,569

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LPfN (Newydd)	**82**	**12,760,640**	-	-
Partneriaeth Forol ac Arfordirol	**11**	**300,044**	-	-
Kickstart	**-**	**-**	14	18,000
NEWID	**1**	**5,613**	2	218,704
Sero Net	**4**	**50,000**	12	150,000
Catalydd	**15**	**24,913**	-	-
Grant Iechyd Meddwl	**1**	**23,793**	-	-
Effeithlonrwydd Ynni	**26**	**26,000**	-	-
Tlodi Plant – grantiau bach	**19**	**37,200**	-	-
Cymdeithas Sifil	**35**	**5,250**	-	-
TSRF3	**-**	**-22,110**	-	-
	525	**23,380,098**	548	26,032,163
Incwm a gwariant ychwanegol o gyllid cyfatebol a ddenwyd gan incwm o'r cynlluniau grant.	**3**	**-34,866**	315	3,185,198

Contractau a gafaelwyd

Gweinyddodd yr elusen 0 (2023: 0) cynllun contract a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn.

Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i unrhyw elusen, grŵp gwirfoddol, grŵp cymunedol a menter gymdeithasol sydd ar waith yng Nghymru. Rydym wedi parhau i ymhél ag aelodau ar faterion pwysig i'r sector drwy gydol 2023/24, ac wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â nhw am ddigwyddiadau a datblygiadau pwysig a allai fod o ddiddordeb iddynt. Mae CGGC yn falch o weithio gydag amrywiaeth o gyflenwyr dibynadwy sy'n rhannu ein diben ac yn cynnig gwybodaeth arbenigol, gwasanaethau a chynigion unigryw i'n haelodau.



Adolygiad ariannol 2023/24

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CGGC gynhyrchu cyfanswm incwm gweithredu o £32 miliwn. Prif ffynonellau cyllido'r elusen yw cyllid grant a benthyciad gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, Comic Relief a chyllidwyr eraill i gefnogi ei weithgareddau craidd, gwaith prosiect penodol a chymorth parhaus i'r sector gwirfoddol. Caiff cyllid uniongyrchol hefyd ei gynhyrchu drwy ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer ei aelodau, gan gynnwys hyfforddiant, cyhoeddiadau a chynadleddau.

Rhennir yr incwm hwn, ynghyd â'r gwariant yr eir iddo, rhwng gweithgareddau anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol yr elusen er mwyn helpu i roi darlun clir o'r sefyllfa'n ymarferol. Cefnogir hyn ymhellach gan y naratif isod:

Dadansoddiad o sefyllfa ariannol gyfunol CGGC

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £
Incwm gweithredu	5,790,698	26,363,566	32,154,264
Costau gweithredu	(3,217,489)	(26,052,573)	(29,270,062)
Canlyniadau gweithredu	**2,573,209**	**310,993**	**2,884,202**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	(97,131)	97,131	-
Incwm buddsoddi	655,597	413,751	1,069,348
Elw/(Colled) ar ôl ailbrisio buddsoddiadau	102,873	-	102,873
Sefyllfa derfynol	**3,234,548**	**821,875**	**4,056,423**
Balansau a ddygwyd ymlaen	8,461,298	6,508,703	14,970,001
Balansau a gariwyd ymlaen	11,695,846	7,330,578	19,026,424

Gweithgarwch anghyfyngedig

Yr enillion gweithredu net ar weithgarwch anghyfyngedig yw £3.2 miliwn. Mae hyn yn cynnwys taliad incwm o £2.927 miliwn ar ôl ymadael â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol (LGPS) â buddion wedi'u diffinio.

Cyfanswm y cyllid anghyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024 oedd £11.7 miliwn. O hyn, mae'r Bwrdd wedi dynodi £8 miliwn ar gyfer cronfa eiddo, strategaeth hirdymor CGGC, y costau terfynol a ragwelir o brosiectau Ewropeaidd, costau i gefnogi datblygiad a dyluniad sefydliadol costau cam 2 a phrosiect Cyfalaf Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, sy'n gadael cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig o £3.7 miliwn. Mae strategaeth ariannol bwyllog a gofalus yn cael ei dilyn i sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig yr elusen yn cael eu diogelu i gefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd parhaus y mudiad.

Gweithgarwch cyfyngedig

Mae'r holl brosiectau cyfyngedig yn cael eu cyllido'n llawn. Mae'r symudiad cadarnhaol o £0.8 miliwn yn cynrychioli'r symudiad net yn y flwyddyn yn erbyn y cronfeydd sydd gan CGGC ar weithgarwch benthyciadau o ran CIF 1, CIF 2, Asda a chynlluniau benthyciadau Gwydnwch. Mae'r prif gynnydd y flwyddyn hon wedi dod yn sgil rhyddhau incwm i gronfeydd cyfyngedig mewn perthynas ag ad-dalu benthyciadau o fewn y cynllun benthyciadau Gwydnwch.

Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023 oedd £7.3 miliwn, sy'n cynrychioli arian a dyledion heb eu talu ar gyllid a ddyfarnwyd gan gynlluniau benthyca amrywiol, net unrhyw ddarpariaethau ar gyfer dyled goll. Yn unol â strategaeth ariannol CGGC, mae gwariant ar bob prosiect cyfredol yn cael ei fonitro a'i reoli'n ofalus er mwyn sicrhau nad oes colledion yn codi ar weithgarwch cyfyngedig sy'n cael ei gyllido'n llawn.

Gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'i ymddiriedolwyr gwirfoddol, mae 53 o unigolion a chanddynt sgiliau a phrofiad perthnasol yn gwasanaethu fel aelodau gwirfoddol o'r Byrddau Prosiect a'r Panel Benthyciadau ac yn cynorthwyo CGGC drwy ddarparu arbenigedd ar wahanol gynlluniau grant neu gynllunio gwahanol agweddau ar ei waith.

Polisi grantiau a chyllido

Mae'r ymddiriedolwyr yn hysbysebu pob cynllun grant a chyllido ac yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau cymwys. Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol ac argymhellion a wneir gan y byrddau prosiect a'r panel benthyciadau, a benodir gan y bwrdd a'u cadeirio gan aelodau bwrdd, gan gyflwyno trawstoriad eang o arbenigedd. Cedwir at godau ymddygiad llym, gan gynnwys cofrestru buddiannau. Cyhoeddir yr holl ddyfarniadau'n gyhoeddus.

Polisi buddsoddi

Mae'r ymddiriedolwyr yn buddsoddi'n bennaf mewn adneuon banc y farchnad arian, ond hefyd mewn rhai buddsoddiadau llog sefydlog, gyda'r nod o sicrhau enillion rhesymol gyda chyn lleied â phosibl o risg.

Polisi cronfeydd

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gosod polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd gael eu cadw ar lefel sy'n sicrhau y gall gweithgarwch craidd CGGC barhau pe bai cyllidwr mawr yn lleihau ei gyllid neu'n ei dynnu'n ôl, a bod cyfran o'r cronfeydd ar gael ar ffurf y gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried mai cronfeydd y gellid eu gwireddu'n rhwydd yw'r symiau y gellid eu troi'n arian parod yn hawdd pe bai angen gwneud hynny. Yn ôl yr ymddiriedolwyr, cronfeydd y gellir cael gafael arnynt yn hawdd yw'r swm o gyllid y gellir ei droi'n arian parod yn hawdd pe bai'r angen yn codi. Mae cyfrifo lefel ofynnol y cronfeydd yn rhan annatod o gylchred gynllunio, cyllidebu a rhagweld CGGC.

Mae'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â phob ffrwd incwm a gwariant yn wahanol i'r swm a neilltuwyd, lefel y gweithgarwch arfaethedig, ac ymrwymiadau CGGC.

Mae'r ymddiriedolwyr yn asesu ac yn adolygu'r polisi cronfeydd yn ystod y flwyddyn. Maen nhw'n trafod y cronfeydd y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd, ymrwymiadau CGGC a gwerth buddsoddiadau ar y farchnad. Caiff y prif risgiau i'r incwm a gwariant eu hamlygu a chyfrifir canlyniadau ariannol posibl symudiadau niweidiol. Mae'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau y cedwir lefel ddigonol o gronfeydd y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd. Mae gan yr ymddiriedolwyr gronfeydd anghyfyngedig dynodedig, gwerth cyfanswm o £8 miliwn, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf.

Gellir gweld manylion y cronfeydd anghyfyngedig sydd gan yr elusen yn nodyn 17 y cyfrifon.

Yr Ymddiriedolwyr a chynghorwyr yr elusen

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ymddiriedolwyr a'r cynghorwyr eraill a wasanaethodd yr elusen yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â manylion gweinyddol eraill ynghylch yr elusen, ar dudalen 36 yr Adroddiad Blynyddol uchod.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith cwmnïau yn gofyn i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r elusen a'r adnoddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae angen i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- Datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw amrywiadau perthnasol sydd wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau ar y sail honno

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan yr elusen ac am uniondeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Archwilydd

Cafodd Bevan Buckland LLP eu penodi fel yr archwilwyr am dair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2020, gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd bellach. Cafodd y penderfyniad i ymestyn am ddwy flynedd bellach ei gyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol 2022, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a thelerau contract y tendr. Yn ystod 2024, bydd CGGC yn dechrau'r broses dendro ar gyfer gwasanaethau archwilio i ddechrau o'r cyfnod cyfrifyddu 2025/2026.

DRWY ORCHYMYN Y BWRDD

Tracey Lewis
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
26 Medi 2024

CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT

DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2024

Datganiad Cyfunol o weithgareddau ariannol

INCWM

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2024	Cyfanswm Cronfeydd 2023
		£	£	£	£
Incwm o weithgareddau Masnachu:					
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**635,760**	**45,646**	**681,406**	764,708
Incwm o fuddsoddiadau	4	**655, 597**	**413,751**	**1,069,348**	502,739
Incwm o weithgareddau Elusennol:					
Grantiau derbyniadwy	5	**1,779,954**	**26,317,920**	**28,097,874**	32,857,750
Ad-daliad o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	24	**2,927,000**	**-**	**2,927,000**	-
Incwm arall	5	**58,726**	**-**	**58,726**	158,845
Gwariant wedi'i adennill		**389,258**	**-**	**389,258**	731,917
		6,446,295	**26,777,317**	**33,223,612**	35,015,959
GWARIANT					
Costau cynhyrchu cronfeydd:					
Gwariant ar godi arian	9	**718,797**	**-**	**718,797**	627,672
Gwariant ar weithgareddau elusennol	9	**2,498,692**	**26,052,573**	**28,551,265**	32,602,967
Cyfanswm gwariant		**3,217,489**	**26,052,573**	**29,270,062**	33,230,639
Incwm Net/(gwariant)		**3,228,806**	**724,744**	**3,953,550**	1,785,320
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		**(97,131)**	**97,131**	**-**	-
Enillion actwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**-**	**-**	**-**	7,030,000
Ased heb ei gydnabod		**-**	**-**	**-**	(7,160,000)
Elw/(Colled) ar ailbrisio buddsoddiadau		**102,873**	**-**	**102,873**	(12,793)
Symudiad net mewn cronfeydd		**3,234,548**	**821,875**	**4,056,423**	1,642,527
Balansau a ddygwyd ymlaen		**8,461,298**	**6,508,703**	**14,970,001**	13,327,474
Balansau a gariwyd ymlaen		**11,695,846**	**7,330,578**	**19,026,424**	14,970,001

Mae holl weithgareddau'r elusen yn cael eu cyfrif fel rhai parhaus.

Mae'r cyllid anghyfyngedig yn cynnwys £7,977,251 (2023: £3,070,251) o gyllid dynodedig a chynaliadwy (gweler nodyn 18).

Cyfrif incwm a gwariant y grŵp

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2024 £	Cyfanswm 2023 £
Incwm		**5,790,698**	**26,363,566**	**32,154,264**	34,513,220
Costau gweithredu	9	**(3,217,489)**	**(26,052,573)**	**(29,270,062)**	(33,230,639)
		2,573,209	**310,993**	**2,884,202**	1,282,581
Incwm buddsoddiad	4	**655,597**	**413,751**	**1,069,348**	502,739
Incwm net		**3,228,806**	**724,744**	**3,953,550**	1,785,320

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.

Mantolen Gyfunol

	Nodyn	2024 £	2023 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau diriaethol	12	**246,628**	277,781
Buddsoddiadau	13	**1,092,250**	-
		1,338,878	**277,781**
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	14	**80,925**	79,254
Dyledion: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	15	**12,627,364**	12,324,385
Dyledion: symiau sy'n ddyledus ar ôl un mlynedd	15	**6,108,942**	5,060,601
Arian yn y banc		**19,027,574**	13,609,831
		37,844,805	**31,074,071**
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un mlynedd	16	**(13,102,359)**	(8,885,777)
Asedau cyfredol net		**24,742,446**	22,188,294
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**26,081,324**	22,466,075
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flynedd	16	**(7,054,899)**	(7,496,074)
Ased Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	24	**-**	-
Asedau net		**19,026,425**	14,970,001
CRONFEYDD			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**11,695,846**	8,461,298
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**3,175,122**	3,260,044
Gwarged - arall		**4,155,456**	3,248,659
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	19	**7,330,578**	6,508,703
CYFANSWM CRONFEYDD		**19,026,424**	14,970,001

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 26 Medi 2024 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen yr Elusen

	Nodyn	2024 £	2023 £
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	13	**246,628**	277,781
Buddsoddiadau	13	**1,092,250**	-
		1,338,878	277,781
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	14	**80,925**	79,257
Dyledion: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	15	**12,446,850**	12,241,008
Dyledion: symiau sy'n ddyledus ar ôl un mlynedd	15	**6,108,942**	5,060,601
Arian yn y banc		**18,894,444**	13,422,067
		37,531,161	30,802,933
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flynedd	16	**(12,936,254)**	(8,779,920)
Asedau cyfredol net		**24,594,907**	22,023,013
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**25,933,785**	22,300,794
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flynedd	16	**(7,054,899)**	(7,496,074)
Ased Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	24	**-**	-
Asedau net		**18,878,886**	14,804,720
CRONFEYDD			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**11,548,310**	8,296,017
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**3,175,122**	3,260,044
Gwarged – arall		**4,155,456**	3,248,659
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	19	**7,330,578**	6,508,703
CYFANSWM CRONFEYDD		**18,878,886**	14,804,720

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 26 Medi 2024 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o lif arian y grŵp

	2024 £	2023 £
Llifau arian o weithgareddau gweithredu		
Incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd	**1,026,550**	1,785,320
Addasiadau ar gyfer:		
Costau dibrisiant	**31,153**	31,153
Llog a dderbyniwyd	**(1,069,348)**	(502,739)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn dyledion	**(1,351,320)**	(4,425,254)
(Gostyngiad) mewn credydwyr	**3,784,360**	(3,902,640)
Symudiad anariannol parthed addasiad Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio	**-**	(130,000)
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau	**2,421,395**	(7,142,160)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi:		
Enillion o'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	**2,927,000**	-
Prynu buddsoddiad ag asedau sefydlog	**(1,000,000)**	-
Ailddosbarthiad ased diriaethol sefydlog	**-**	32
Llog a dderbyniwyd	**1,069,348**	502,739
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	**2,996,348**	502,771
Newid mewn arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd	**5,417,743**	(6,641,389)
Arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	**13,609,831**	20,251,220
Arian parod a phethau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**19,027,574**	13,609,831

Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig wedi'i hymgorffori yn y Deyrnas Unedig. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF.

Nod yr elusen yw cyflwyno gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi gwirfoddoli, llywodraethu, cyllido a diogelu; a hyrwyddo a chefnogi cyfraniad y trydydd sector at feysydd polisi pwysig.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi mewn sterling, sef arian gweithredol y grŵp, a'u talgrynnu i'r £1 agosaf.

1. Polisïau cyfrifyddu

Dyma'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd trwy gynnwys buddsoddiadau asedau sefydlog ar werth y farchnad. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n codi amheuaeth ynghylch gallu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i barhau fel busnes gweithredol.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau" (Elusennau SORP FRS102) a Deddf Cwmnïau 2006, ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (y DU a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn gofyn i ni ddefnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn gofyn i reolwyr ddefnyddio eu crebwyll wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Cwmni (gweler nodyn 2).

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn ymgorffori datganiadau ariannol yr elusen a holl ymgymeriadau'r grŵp. Gan fod Datganiad cyfunol o Weithgareddau Ariannol a chyfrif incwm a gwariant yn cael eu cyhoeddi, mae Datganiad ar wahân o Weithgareddau Ariannol y rhiant-gwmni yn cael ei hepgor o ddatganiadau ariannol y grŵp drwy rinwedd adran 408 Deddf Cwmnïau 2006.

Busnes Gweithredol

Mae'r grŵp a'r elusen yn bodloni eu gofynion o ran eu cyfalaf gweithio bob dydd drwy gyfleusterau eu banc. Mae'r cyflyrau economaidd cyfredol yn parhau i greu ansicrwydd. Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sefyllfa fasnachu'r cwmni at y dyfodol, ac yn seiliedig ar ganlyniadau masnachu gwirioneddol ers diwedd y flwyddyn, maent yn hyderus bod modd defnyddio'r egwyddor busnes gweithredol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Cyfrifyddu cronfeydd

Defnyddir cronfeydd cyfyngedig at ddibenion penodol a osodir gan y rhoddwr. Bydd dibenion o'r fath yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y mudiad. Codir gwariant at y dibenion hynny ar y gronfa, ynghyd â dyraniad teg o orbenion a chostau cefnogi.

Cronfeydd anghyfyngedig yw rhoddion ac adnoddau eraill a dderbynnir neu a gynhyrchir i'w gwario ar amcanion cyffredinol yr elusen.

Cronfeydd dynodedig yw cronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u dynodi at ddibenion penodol gan yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer gwaith angenrheidiol mewn cysylltiad â darpariaeth barhaus y gwasanaethau, ond sy'n methu â bodloni meini prawf llym y rhwymedigaeth gontractiol a osodir yn FRS102.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Incwm a gwaddolion

RHODDION AC ANRHEGION

Caiff yr holl roddion ac anrhegion ariannol eu cynnwys yn llawn yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan gânt eu derbyn, a bwrw nad yw'r rhoddwr wedi gosod cyfyngiadau ar amseriad y gwariant perthnasol, ac os felly oedir cydnabyddiaeth hyd nes y mae'r rhag-amod wedi'i fodloni.

GRANTIAU DERBYNIADWY

Caiff grantiau refeniw eu cyfrif fel adnoddau sy'n dod i mewn yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo a bwrw bod yr amodau derbyn wedi'u bodloni.

Caiff grantiau ar gyfer cyllid craidd eu cyfrif fel incwm gwirfoddol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Caiff grantiau i brynu asedau sefydlog eu cyfrif fel adnoddau cyfyngedig sy'n dod i mewn yn y cyfnod y cododd y gwariant ynddo a bwrw bod yr amodau derbyn wedi'u bodloni. Caiff dibrisiad ar yr asedau sefydlog a brynwyd gyda'r cyfryw grantiau eu codi yn erbyn y gronfa gyfyngedig.

INCWM BUDDSODDIADAU

Caiff incwm buddsoddi ei gyfrif ar sail gronnol. Daw'r incwm hwn o ddifidendau cyfranddaliadau, llog banc a llog o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

INCWM MASNACHU

Caiff incwm buddsoddi ei gyfrif ar sail gronnol. Mae'r incwm hwn yn cynnwys hyfforddiant allanol a ddarperir, lesau tenantiaid, biwro'r gyflogres ac aelodaeth.

INCWM ARALL

Caiff pob incwm arall ei gyfrif yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y mae'r incwm yn perthyn iddo a bwrw bod gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm. Ni chaiff cyllid cyfatebol ei gyfrifo yn y cyfrifon hyn ond cyfeirir at y swm yn adroddiad yr ymddiriedolwyr a nodyn 8.

Gwariant

GRANTIAU TALADWY

Caiff grantiau taladwy eu cyfrif yn y cyfnod pan fodlonir yr amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth y taliad grant neu, pan nad oes amodau perfformiad, pan gyfyd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol.

GWARIANT ARALL

Cydnabyddir gwariant ar sail gronnol fel y cyfyd rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn llawn, a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n perthyn iddo:

- Costau cynhyrchu cronfeydd yw'r costau sydd ynghlwm wrth ddenu incwm gwirfoddoli a'r costau masnachu i godi arian.
- Gwariant elusennol yw'r costau hynny y mae'r elusen yn mynd iddynt wrth gynnig ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r cyfryw weithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cefnogi.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac mae hyn yn cynnwys y ffioedd a'r costau archwilio sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
- Dyrannir pob cost rhwng categorïau gwario y SoFA mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Caiff costau sy'n ymwneud â gweithgaredd penodol eu dyrannu'n uniongyrchol, a chaiff eraill eu dyrannu fel sy'n briodol.

GWARIANT WEDI'I ADENNILL

Mae gwariant wedi'i adennill yn ymwneud â gorbenion y gellir ailgodi tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys taliadau cyfieithu, meddiannaeth a defnyddiau traul, hyfforddiant staff mewnol, llogi ystafelloedd a ffioedd rheoli.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN GWEITHREDOL CYFLWYNIADOL

Caiff datganiadau ariannol unigol pob endid grŵp eu cyflwyno yn arian y prif amgylchedd economaidd y mae'r endid yn gweithredu o'i fewn (ei arian gweithredol). At ddiben y datganiadau ariannol cyfunol, cyflwynir y canlyniadau a'r sefyllfa ariannol mewn Sterling (£).

ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL A DIBRISIANT

Nodir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei fywyd defnyddiol tybiedig neu, os delir ef o dan les cyllid, dros gyfnod y les, pa un bynnag yw'r byrraf.

Gosodiadau a ffitiadau – 10 mlynedd

Cyfarpar cyfrifiadurol – 10 mlynedd

Mae'r gost yn cynnwys pris prynu'r ased a'r gwariant a briodolir yn uniongyrchol i gael yr eitem. Caiff ased sefydlog ei anadnabod ar ei warediad neu pan na ddisgwylir unrhyw fuddion economaidd yn y dyfodol o barhau i ddefnyddio'r ased. Pennir yr enillion neu'r colledion sy'n codi o waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng elw gwerthiannau a gwerth cario ymlaen yr ased a chânt eu cydnabod neu eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

Ni chaiff asedau sy'n costio £1,000 neu lai eu trin fel cyfalaf a chânt eu cyfrif yn y datganiadau o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn y cânt eu prynu.

BUDDSODDIADAU

Cyfrifir buddsoddiadau asedau sefydlog yn unol â'u gwerth marchnadol, fel y'u cofnodir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Caiff symudiadau yng ngwerth y farchnad eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel enillion neu golledion heb eu gwireddu ar asedau buddsoddiadau. Caiff incwm sy'n deillio o asedau o'r fath ei gofnodi fel incwm buddsoddiad yn y flwyddyn y'i derbyniwyd.

Nodir cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn ôl cost namyn darpariaeth.

STOC

Mae Stoc yn ymwneud ag eiddo a gedwir i'w ail-werthu a chaiff ei nodi ar gost y gwerth net ar y llyfrau ar yr amser y caiff ei drosglwyddo o ased diriaethol sefydlog i stoc.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, caiff stoc eu hasesu am amhariad. Os oes amhariad ar eitem o stoc, caiff y stocrestr adnabyddedig ei lleihau i'w phris gwerthu namyn y costau i gwblhau a gwerthu a chaiff tâl amhariad ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled. Pan fydd angen gwrthdroi amhariad, caiff y tâl amhariad ei wrthdroi, hyd at golled wreiddiol yr amhariad, a chaiff ei gydnabod fel credyd yn y cyfrif elw a cholledion.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Grŵp wedi dewis mabwysiadu Offerynnau Ariannol Sylfaenol FRS 102, Adran 11 a 12 Dyroddiad arall o Offerynnau Ariannol FRS 102 o ran offerynnau ariannol.

Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol eu mesur ar bris trafodiad i gychwyn, gan gynnwys costau trafodiad, ac eithrio'r asedau ariannol hynny a ddosbarthir ar werth teg drwy elw neu golled, a gaiff eu mesur ar werth teg i gychwyn (pris trafodiad heb gynnwys costau trafodiad) oni bai bod y trefniant yn drafodiad cyllidol.

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol dim ond eu gwrthbwyso ar fantolen y Grŵp pan, a dim ond pan, mae hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod y Grŵp yn bwriadu setlo ar sail net, neu realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Mae offerynnau dyled (ar wahân i'r rheini sydd angen eu had-dalu neu eu derbyn o fewn blwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill derbyniadwy a thaladwy, yn cael eu mesur ar werth presennol y llifau arian yn y dyfodol i ddechrau ac yna'n cael eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN PAROD A PHETHAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian parod wrth law ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb os rhoddir dim mwy na 24 awr o rybudd. Pethau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau hylifol iawn sy'n aeddfedu mewn tri mis ar y mwyaf o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb lawer o risg o newid eu gwerth.

Yn y datganiad cyfunol o lifau arian parod, dangosir arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod net gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Grŵp.

DYLEDION

Caiff dyledion tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad, namyn unrhyw amhariad. Caiff benthyciadau derbyniadwy eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

DYLEDION MWY NA BLWYDDYN

Mae dyledion mwy na blwyddyn yn ymwneud â dyledion benthyciadau o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

DYLED DDRWG

Os credir nad oes modd adennill unrhyw incwm heb ei gasglu serch eich ymdrechion gorau, caiff ei ddileu fel dyled ddrwg drwy'r cyfrif incwm a gwariant (I&E) fel gostyngiad mewn incwm.

CREDYDWYR

Caiff credydwyr masnachu tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad. Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

BENTHYCIADAU CONSESIYNOL

BBenthyciadau consesiynol yw benthyciadau a gyflwynir gan/i'r elusen ar gyfradd llog is na chyfradd gyffredin y farchnad neu ar delerau mwy ffafriol na'r rheini a gynigir gan fenthycwyr masnachol. Fel arfer, caiff benthyciadau o'r fath eu darparu er mwyn cefnogi gweithgareddau elusennol neu i roi cymorth ariannol i unigolion neu fudiadau na fyddai fel arall yn gallu cael credyd fforddiadwy.

Mae'r elusen yn cydnabod benthyciadau consesiynol ar gost, sef swm yr arian parod neu ystyriaeth arall a dalwyd/derbyniwyd pan gafodd y benthyciad ei wneud, ynghyd ag unrhyw gostau trafodiadau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng cost y benthyciad a gwerth enwol y benthyciad ei gofnodi fel grant yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff unrhyw golledion amhariad eu cydnabod pan fydd tystiolaeth wrthrychol na fydd yr elusen yn gallu casglu'r holl symiau sy'n ddyledus o dan gytundeb y benthyciad. Cydnabyddir colledion amhariad yn unol ag amodau'r benthyciadau Consesiynol a'u cofnodi yn unol â hyn yn y datganiadau ariannol.

Mae'r elusen yn datgelu swm y benthyciadau consesiynol heb eu casglu, y cyfraddau llog a'r telerau ac amodau eraill, ac unrhyw symiau a gydnabyddir fel grantiau neu golledion amhariad yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Mae'n werth nodi bod FRS 102 yn caniatáu i elusennau ddewis a ydynt eisiau mesur benthyciadau consesiynol ar gost neu werth teg, cyhyd â'u bod yn dilyn eu dull dewisol yn gyson ac yn datgelu'r polisi cyfrifyddu a'i effaith ar y datganiadau ariannol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

BUDDION CYFLOGAETH

Caiff buddion tymor byr cyflogeion a chyfraniadau at gynlluniau cyfrannu diffiniedig eu cydnabod fel treuliau yn y cyfnod y cododd y treuliau hynny.

Mae cost unrhyw hawliau gwyliau nas defnyddiwyd yn cael ei chydnabod ar unwaith fel traul pan mae cwmni'n amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu, a chyfrifir y treuliau ar gyfer yr holl hawliau gwyliau nas defnyddiwyd, fel ag y maent ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â hyn.

COSTAU PENSIWN A BUDDION ERAILL AR ÔL YMDDEOL

CYNLLUN PENSIWN Â CHYFRANIADAU WEDI'U DIFFINIO

Mae'r Grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu cynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion. Cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau sefydlog i mewn i gynllun y mae ei asedau wedi'u cadw ar wahân mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol. Caiff y cyfraniadau taladwy blynyddol eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Caiff asedau cynllun eu mesur ar werth teg. Caiff rhwymedigaethau cynllun eu mesur ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u gostwng ar gyfraddau bond safon uchel priodol. Cyflwynir y gwarged neu ddiffyg net ar wahân i asedau net eraill ar y fantolen. Caiff gwarged net dim ond ei gydnabod i'r graddau y mae'n adenilladwy, naill ai trwy lai o gyfraniadau i'r cynllun neu drwy ad-daliad ariannol o'r cynllun.

Ni chredir bod ad-daliadau ar gael o warged os yw'r hawl i warged yn dibynnu ar y digwyddiad.

Codir costau gwasanaeth cyfredol a chostau o setliadau a chwtogiadau yn erbyn yr elw gweithredu. Cydnabyddir y llog ar rwymedigaethau'r cynllun a'r llog ar asedau'r cynllun yn yr adran elw neu golled. Adroddir enillion ar asedau cynllun (heb gynnwys incwm llog) ac enillion a cholledion actwaraidd yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

ASEDAU AR LES

Mae'r Grŵp yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau ar y dechrau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn les, neu'n cynnwys les, sy'n seiliedig ar sylwedd y trefniant.

ASEDAU LES CYLLID

Caiff lesau asedau sy'n trosglwyddo rhan helaeth o'r holl risgiau a buddion o ganlyniad i berchenogaeth eu galw yn lesau cyllid.

Mae lesau cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r les fel asedau ar werth teg yr asedau ar les neu, os yw hynny'n is, gwerth presennol y taliadau les lleiaf a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog heb ei diffinio yn y les. Pan na ellir pennu'r gyfradd heb ei diffinio, defnyddir cyfradd fenthyca gynyddrannol y Grŵp. Mae costau cynyddrannol uniongyrchol, sy'n codi wrth negodi a threfnu'r les, wedi'u cynnwys yng nghost yr ased.

Caiff asedau eu dibrisio dros gyfnod byrrach y les a thros fywyd defnyddiol tybiedig yr ased. Caiff asedau eu hasesu am amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau les fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r cytundeb. Caiff taliadau les eu rhannu rhwng ad-daliad cyfalaf a thâl cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, i gynhyrchu cyfradd tâl gyson ar falans yr ad-daliadau cyfalaf heb eu casglu.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ASEDAU LES GWEITHREDU

Cyfeirir at lesau nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth fel lesau gweithredu. Caiff taliadau o dan lesau gweithredu eu codi ar y cyfrif elw a cholled ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

CYMHELLION LES

Mae cymhellion a dderbynnir i rwymo i les cyllid yn lleihau gwerth teg yr ased a chânt eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer gwerth presennol taliadau les lleiaf.

Caiff cymhellion a dderbynnir i rwymo i les gweithredu eu credydu i'r cyfrif elw a cholled, i leihau treuliau'r les, ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

TRETHIANT

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a'r prif ffynonellau o ansicrwydd wrth amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i reolwyr wneud rhagamcanion a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ac asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau a adroddir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny.

Ym marn y cyfarwyddwr, dyma'r dyfarniadau beirniadol sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn natganiadau ariannol y Grŵp:

MAE'R DYFARNIADAU ALLWEDDOL A WNAED GAN REOLWYR YN YMWNEUD Â'R CANLYNOL:

1 .Y gallu i adennill dyledion, a digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.

2. Yr amcangyfrif o fywydau defnyddiol a gwerth gweddilliol bras asedau sefydlog, at ddiben cyfrifo dibrisiant a godir.

3. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfyngedig	**Cronfeydd Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cronfeydd 2024**	Cyfanswm Cronfeydd 2023
	£	**£**	**£**	£
Hyfforddiant a chyhoeddusrwydd	**503,065**	**40,146**	**543,211**	647,555
Cyfarfodydd a thenantiaid	**70,533**	**5,500**	**76,033**	50,425
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	**62,162**	**-**	**62,162**	66,728
	635,760	**45,646**	**681,406**	764,708

4. Incwm o Fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig	**Cronfeydd Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cronfeydd 2024**	Cyfanswm Cronfeydd 2023
	£	**£**	**£**	£
Llog ar adnau banc	**650,127**	**413,751**	**1,063,878**	497,269
Incwm buddsoddiad	**5,470**	**-**	**5,470**	5,470
	655,597	**413,751**	**1,069,348**	502,739

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

5. Grantiau derbyniadwy

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2024	Cyfanswm Cronfeydd 2023
	£	£	£	£
Prifysgol Caerdydd	-	11,531	11,531	19,902
Sefydliad Cymorth i Elusennau	43,206	-	43,206	43,672
Comic Relief	50,000	87,993	137,993	1,022,080
Cwmpas	-	11,055	11,055	-
Adran Gwaith a Phensiynau	-	-	-	18,716
Y Consortiwm Hawliau Dynol	-	43,000	43,000	-
Cymorth Canser Macmillan	-	64,921	64,921	10,587
Moondance Foundation	25,000	26,000	51,000	-
Cronfa Dreftadaeth Genedlaethol	-	116,599	116,599	99,417
Promo	-	5,000	5,000	-
Cronfa Buddsoddiad Cymdeithasol ASDA	-	-	-	42,718
Chwaraeon Cymru	-	82,465	82,465	83,422
The Wheel	-	8,288	8,288	10,422
Prifysgol De Cymru	-	6,415	6,415	6,512
Llywodraeth Cymru	1,658,247	24,713,319	26,371,566	20,628,826
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	199	199	326
CGGC	3,501	-	3,501	3,501
WEFO	-	1,141,135	1,141,135	10,867,649
Cyfanswm grantiau derbyniadwy	1,779,954	26,317,920	28,097,874	32,857,750
Incwm Secondiad	58,726	-	58,726	158,845

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

6. Incwm net

Nodir incwm net ar ôl codi tâl ar gyfer:	**2024**	2023
	£	£
Dibrisiant ar asedau sefydlog a berchnogir	**31,153**	31,153
Taliadau i'r archwiliwr: - ffioedd archwilio	**28,090**	25,317
- gwasanaethau treth	**2,381**	2,877

7. Gwybodaeth ynglŷn ag ymddiriedolwyr a chyflogeion

A) GWYBODAETH YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLWYR

Ni chafodd yr un ymddiriedolwr nac unigolyn â chysylltiad teuluol neu fusnes ag ymddiriedolwyr, daliad yn y flwyddyn, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gan yr elusen na chan sefydliad neu gwmni a reolir gan yr elusen (2023: £Dim).

Ad-dalwyd treuliau teithio chwe ymddiriedolwr i fynychu cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgorau a Phanel Grantiau a ddaeth i gyfanswm o £670 yn ystod y flwyddyn (2023: £1,162).

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-ymddiriedolwyr am wasanaethau proffesiynol yn ystod y flwyddyn (2023: £Dim).

B) GWYBODAETH YNGLŶN Â CHYFLOGEION

	2024	2023
	£	£
Cyflogau	**2,836,289**	3,442,064
Costau nawdd cymdeithasol	**277,893**	341,606
Costau pensiwn ac yswiriant bywyd eraill	**774,986**	883,786
	3,889,168	4,667,456

Nifer y cyflogeion yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd 79 (2023: 105).

Mae'r enillion yn cynnwys cyflog ac yswiriant gwladol y cyflogwr ond nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Maent hefyd yn cynnwys taliadau dileu a therfynu swydd a wnaed yn y flwyddyn. Gellir dosbarthu nifer y cyflogeion yr oedd eu henillion am y flwyddyn yn fwy na £60,000 fel a ganlyn:

	2024	2023
£60,000 - £69,999	**1**	2
£70,000 - £79,999	**-**	1
£80,000 - £89,999	**-**	-
£90,000 – £99,999	**-**	1
£100,000 – £109,999	**1**	-

Cafodd cyfraniadau eu talu at gynllun â buddion wedi'u diffinio 3 (2023: 3) o'r cyflogeion y telir cyflog uwch iddynt ac at gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio 1 (2023: 1) cyflogai y telir cyflog uwch iddo.

Mae prif bersonél rheoli'r elusen yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Ysgrifennydd y Cwmni a'r ymddiriedolwyr. Cyfanswm buddion cyflogeion prif bersonél rheoli'r elusen oedd £353,644 (2023: £433,752).

C) TALIADAU DILEU A THERFYNU SWYDD

Mae'r ffigur cyflogau yn cynnwys £Dim o gostau diswyddo a therfynu (2023: £324,829).

Prif bersonél rheoli'r grŵp yw'r un unigolion â'r rheini sydd gan yr elusen.

Mae cyflog pob aelod o'r staff yn gysylltiedig â phwyntiau ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), ac eithrio'r Prif Weithredwr. Cafodd y cyflog hwnnw ei feincnodi flynyddoedd yn ôl ac mae wedi'i chwyddo ers hynny yn unol â chodiadau cyflog yr NJC.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

8. Grantiau taladwy a thaliadau contractau a gafaelwyd

Dyma restr o'r 50 grant mwyaf yn eu crynswth a roddwyd i sefydliadau (ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion):
Dyfernir yr holl grantiau i fudiadau trydydd sector yng Nghymru:

	2024 £	2023 £
Cyngor Sir Benfro	**1,071,736**	887,922
Cyngor Sir Ynys Môn	**917,174**	374,734
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	**824,117**	-
Cymdeithas Mudiadau gwirfoddol Gwent (GAVO)	**801,780**	874,352
Cyngor Gwynedd	**667,306**	753,375
Cyngor Sir Powys – Neuad y Sir Llandrindod	**637,000**	282,356
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	**557,590**	384,540
Cyngor Dinas Caerdydd	**555,435**	503,876
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	**533,362**	466,871
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	**531,213**	481,959
Cyngor Sir Ddinbych	**508,790**	349,214
Cyngor Sir Ceredigion	**505,290**	231,647
Cyngor Dinas Casnewydd	**497,322**	347,710
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	**497,278**	195,006
Cyngor Bro Morgannwg	**493,503**	247,343
Cyngor Sir Fynwy	**492,126**	309,748
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	**471,600**	543,418
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	**465,668**	322,996
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**445,046**	189,628
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	**444,835**	420,486
Cyngor Sir Gâr	**433,612**	256,995
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	**428,717**	-
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	**424,881**	461,893
Cyngor Sir Fflint	**409,735**	694,457
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	**324,599**	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	**321,628**	305,608
Mantell Gwynedd	**272,363**	253,234
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe	**261,852**	244,241
Interlink	**251,552**	236,127
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)	**251,203**	370,067

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Byddin yr Iachawdwriaeth	**246,238**	408,947
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS)	**235,740**	316,453
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA)	**224,369**	239,117
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro/ Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	**223,709**	210,370
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (FLVC)	**214,839**	-
Medrwn Mon	**214,385**	190,348
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)	**211,502**	197,005
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)	**209,404**	195,054
Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)	**209,394**	388,374
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC)	**208,702**	194,406
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd a Phort Talbot (NPTCVS)	**206,295**	262,122
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)	**205,626**	197,765
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)	**204,500**	188,340
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT)	**202,503**	285,245
Cyfoeth Naturiol Cymru	**200,000**	-
Foothold Cymru	**193,831**	-
Ymddiriedaeth St Giles	**133,132**	-
Mind Casnewydd	**118,793**	-
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru	**118,298**	-
Innovate Trust	**117,111**	-
Cymunedau'n Ymlaen Môn Communities Forward	**-**	651,039
PRIME Cymru	**-**	379,096
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	**-**	343,475
Whitehead-Ross Education and Consulting Ltd	**-**	287,071
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful (MTIB)	**-**	273,432
Llamau Cyf	**-**	257,926
YMCA Abertawe	**-**	243,955
Leonard Cheshire	**-**	224,729
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd	**-**	220,312
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	**-**	216,284
Cyfanswm y 50 grant mwyaf a dalwyd i sefydliadau	**19,196,684**	17,360,668
Cyfanswm grantiau taladwy eraill	**4,183,414**	8,671,495
Cyfanswm grantiau a dalwyd i sefydliadau	**23,380,098**	26,032,163

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Nid yw'r grantiau hyn yn cynnwys £34,866 (2023: £3,185,198) o incwm a gwariant cyllid cyfatebol a adlewyrchir yng nghyfrifon y mudiadau a gafodd grantiau.

Dyma fudiadau lle y ceir ymddiriedolwyr cyffredin a/neu le y mae gan ymddiriedolwr CGGC safle uwch yn y mudiad a dderbyniodd grantiau gan yr elusen yn ystod y flwyddyn.

Mudiad	Parti Cysylltiedig	2024	2023
		£	£
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Edward Watts	**801,780**	874,352
The Wallich	Lindsay Cordery-Bruce	**13,729**	11,232
Anabledd Cymru	Rhian Davies	**875**	13,087
Fare Share Cymru	Simon Harris	**11,000**	12,672
Cyngor Hil Cymru	Menai Owen-Jones	**3,501**	3,501
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru	Rhian Davies	**3,501**	3,501
Mentrau Iaith Cymru	Lowri Jones	**3,501**	3,501
Fforwm Cymru Gyfan	Kate Young	**3,501**	3,501
Plant yng Nghymru	Menai Owen-Jones	**3,501**	3,501

Nid oedd unrhyw daliadau contractau a gaffaelwyd i fudiadau yn 2024 (2023: £Dim). Ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion (2023: dim).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

9. Cyfanswm gwariant

Gwariant elusennol uniongyrchol

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2024 £	Cyfanswm Cronfeydd 2023 £
Grantiau a Ddyfarnwyd	-	-	23,380,098	23,380,098	26,032,163
Treuliau Eiddo	-	29,932	4,572	34,505	21,087
Treuliau Cyfarpar Swyddfa	-	703	35	738	-
Rhent ac Ardrethi	18,307	156,988	-	175,295	148,233
Gwres a Golau	1,177	8,811	-	9,989	24,229
Recriwtio a Staff Dros Dro	-	27,115	1,456	28,571	20,848
Cyflogau ac Argostau	478,581	1,482,597	1,743,828	3,705,006	4,530,965
Teithio, Cynhaliaeth a Lles	808	32,041	17,139	49,988	36,097
Hyfforddiant Staff	114	8,390	4,444	12,948	22,732
Cyfarfodydd a Chynadleddau	118,952	16,145	40,403	175,500	127,078
Cyhoeddusrwydd	2,861	27,936	19,495	50,292	51,908
Postio a Theleffon	21	789	98	909	1,520
Costau Hyfforddiant Allanol	18,075	7,664	14,096	39,835	42,801
Deunydd Ysgrifennu	128	568	-	696	738
Argraffu	-	-	91	91	4,054
Costau Cyhoeddi	2	7,648	10,000	17,649	15,666
Costau Cyfieithu	98	9,365	21,552	31,016	27,524
Llungopïo	-	1,037	398	1,435	971
Ymgynghori ac Archwilio	3,053	189,643	148,143	340,840	603,104
Gorbenion Canolog	45,335	23,140	320,783	389,258	758,399
Mân Gostau	(775)	12,707	60,264	72,196	12,730
	686,740	2,043,218	25,786,896	28,516,854	32,482,847

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Costau cymorth a ddyrannwyd

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2024 £	Cyfanswm Cronfeydd 2023 £
Cyflogau a Chostau Staff	**21,277**	**281,994**	**-**	**303,271**	287,840
Yswiriant a Diogelwch	**1,388**	**10,392**	**13,830**	**25,610**	25,416
Costau Cyfrifiadurol	**5,655**	**84,923**	**169,488**	**260,066**	325,852
Ffioedd Banc	**1,011**	**15,433**	**4,019**	**20,464**	9,383
Dibrisiant Eiddo Rhydd-ddaliadol	**-**	**31,153**	**-**	**31,153**	31,153
Atgyweiriadau ac Amnewidiadau	**2,727**	**-**	**-**	**2,727**	-
	32,058	**423,896**	**187,337**	**643,290**	679,644
Costau Llywodraethu					
Ffioedd Archwilio	**-**	**28,090**	**-**	**28,090**	**23,872**
Arall	**-**	**670**	**-**	**670**	**1,162**
	-	**28,760**	**-**	**28,760**	**25,034**
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus ar y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol	-	2,817	78,341	81,158	43,114
Cyfanswm gwariant	**718,797**	**2,498,692**	**26,052,573**	**29,270,062**	33,230,639

10. Trethiant

Fel elusen, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'i eithrio rhag treth ar incwm ac enillion i'r graddau y maent yn cael eu defnyddio ar gyfer ei amcanion elusennol. Nid oes taliadau treth wedi codi yn yr elusen.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

11. Ffurfiau cymharol ar gyfer y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 (fel yr ailddatganwyd) £
Incwm o weithgareddau Masnachu:					
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**747,199**	**17,509**	**764, 708**	**738,459**
Incwm o fuddsoddiadau	4	**243,492**	**259,247**	**502,739**	**243,259**
Incwm o weithgareddau Elusennol:					
Grantiau derbyniadwy	5	**1,712,405**	**31,145,345**	**32,857,750**	35,706,000
Incwm arall	5	**158,845**	**-**	**158,845**	63,409
Gwariant wedi'i adennill		**731,917**	**-**	**731,917**	896,763
Elw ar werthu eiddo	5	**-**	**-**	**-**	1,362,669
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**3,593,858**	**31,422,101**	**35,015,959**	39,010,559
Costau cynhyrchu cronfeydd:					
Gwariant ar godi arian	9	**627,672**	**-**	**627,672**	558,602
Gwariant ar weithgareddau Elusennol	9	**2,361,931**	**30,241,036**	**32,602,967**	34,955,118
Cyfanswm gwariant		**2,989,603**	**30,241,036**	**33,230,639**	35,513,720
Incwm Net		**604,255**	**1,181,065**	**1,785,320**	3,496,839
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		**78,228**	**(78,228)**		
Enillion actwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**7,030,000**	**-**	**7,030,000**	4,610,000
Ased heb ei gydnabod		(7,160,000)	-	(7,160,000)	-
Elw/(Colled) ar ailbrisio buddsoddiadau		**(12,793)**	-	**(12,793)**	(5,444)
Symudiad net mewn cronfeydd		**539,690**	**1,102,837**	**1,642,527**	8,101,395
Balansau a ddygwyd ymlaen		**7,921,608**	**5,405,866**	**13,327,474**	6,406,079
Addasiad o'r flwyddyn gynt	26	**-**	**-**	**-**	(1,180,000)
Balansau a gariwyd ymlaen		**8,461,298**	**6,508,703**	**14,970,001**	13,327,474

Gwariant

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

12. Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp ac Elusen	Gosodiadau a Ffitiadau Un Rhodfa'r Gamlas	Cyfanswm
Cost	**£**	**£**
Ar 1 Ebrill 2023	311,529	311,529
Ychwanegiadau	-	-
Ailddosbarthu	-	-
Ar 31 Mawrth 2024	**311,529**	**311,529**
Dibrisiant		
Ar 1 Ebrill 2023	33,748	33,748
Tâl am y flwyddyn	**31,153**	**31,153**
Dibrisiant ar werthiannau	**-**	**-**
Ar 31 Mawrth 2024	**64,901**	**64,901**
Gwerth net ar y llyfrau		
Ar 31 Mawrth 2024	**246,628**	**246,628**
Ar 31 Mawrth 2023	277,781	277,781

Cedwir pob ased sefydlog at ddibenion elusennol uniongyrchol.

13. Buddsoddiadau

Grŵp ac Elusen	Buddsoddiadau a restrwyd	Cyfanswm
Gwerth Farchnad	**£**	**£**
Ar 1 Ebrill 2023	-	-
Ychwanegiadau	**1,000,000**	**1,000,000**
Ailbrisiadau	**92,250**	**92,250**
Ar 31 Mawrth 2024	**1,092,250**	**1,092,250**
Gwerth llyfr Net		
Ar 31 Mawrth 2024	**1,092,250**	**1,092,250**
Ar 31 Mawrth 2023	-	-

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

14. Buddsoddiadau

Grŵp ac Elusen	**2024**	**2024**	2023	2023
Buddsoddiadau a restrir	**Cost**	**Gwerth marchnadol**	Cost	Gwerth marchnadol
	£	**£**	£	£
44,250 National Westminster Bank 9% SR "A" Cyfranddaliadau Blaenoriaeth heb fod yn gronnus	**50,352**	**58,698**	50,352	58,344
17,000 8¾% Aviva Cyfranddaliadau Blaenoriaeth Cronnol	**19,820**	**22,228**	19,820	20,910
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	**70,172**	**80,925**	70,172	79,254

Elusen yn unig	**Cwmnïau grŵp**
	£
Ar 31 Mawrth 2023 ac 31 Mawrth 2024	**3**
Gwerth net ar y llyfrau	
Ar 31 Mawrth 2023 ac 31 Mawrth 2024	**3**

Ar 31 Mawrth 2024 roedd y canlynol yn is-gwmnïau a oedd yn eiddo llwyr i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac wedi'u corffori ym Mhrydain Fawr:

	Gweithgareddau
Cynnal Cymru – Sustain Wales Ltd	Buddsoddiadau
Social Investment (Cymru) Limited	Anfasnachol
WCVA Services Limited	Anfasnachol
WCVA Trading Limited	Anfasnachol

Roedd cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau a'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2024 a'r elw neu'r golled am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw ar gyfer ymgymeriadau'r is-gwmni fel a ganlyn:

	Cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau a'r cronfeydd	Elw/(Colled)
	£	£
Cynnal Cymru – Sustain Wales Ltd	147,539	(17,745)
Social Investment (Cymru) Limited	-	-
WCVA Services Limited	1	-
WCVA Trading Limited	1	-

Caiff pob un o'r is-gwmnïau uchod eu cario yn unol â'r gwerth net ar y llyfrau, sef £3 yn y cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

15. Dyledwyr

	Grŵp		Elusen	
	2024	2023	**2024**	2023
Symiau sy'n ddyledus cyn pen un mlynedd	**£**	£	**£**	£
Dyledion masnachol	**238,111**	203,009	**103,577**	146,846
Incwm cronnus	**11,780,032**	11,626,071	**11,734,051**	11,599,161
Dyledion eraill a thaliadau ymlaen llaw	**76,328**	81,972	**76,329**	81,672
Cynlluniau Benthyg	**532,893**	413,333	**532,893**	413,333
	12,627,364	12,324,385	**12,446,850**	12,241,008

	2024	2023	**2024**	2024
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un mlynedd	**£**	£	**£**	£
Cynlluniau Benthyg	**6,108,942**	5,060,601	**6,108,942**	5,060,601
	6,108,942	5,060,601	**6,108,942**	5,060,601

Gwneir benthyciadau'r Gronfa Fuddsoddi Gymunedol, Asda a benthyciadau Gwydnwch am gyfnodau yn amrywio o 5 mlynedd i 25 mlynedd ac mae ganddynt gyfradd llog o 2-7% (rhai gyda chyfnod di-log).

	Dygwyd ymlaen 31 Mawrth 2023	Rhagdaliadau yn y flwyddyn	Llog yn y flwyddyn	Swm a ad-dalwyd yn y flwyddyn	Symudiad Darpariaeth	Cariwyd ymlaen 31 Mawrth 2024
ELUSEN	**5,411,438**	**2,093,545**	**349,545**	**(1,276,531)**	**(175,014)**	**6,402,987**
GRŴP	**5,411,438**	**2,093,545**	**349,545**	**(1,276,534)**	**(175,014)**	**6,402,987**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

16. Credydwyr

	Grŵp		Elusen	
	2024	2023	**2024**	2023
Symiau sy'n ddyledus o fewn un mynledd	**£**	£	**£**	£
Credydwyr masnachol	**115,526**	75,177	**71,674**	65,505
Trethiant a nawdd cymdeithasol	**121,863**	160,095	**88,460**	127,619
Croniadau ac incwm gohiriedig	**12,864,970**	8,650,505	**12,776,120**	8,586,796
	13,102,359	**8,885,777**	**12,936,254**	**8,779,920**

	Grŵp		Yr Elusen	
	2024	2023	**2024**	2023
Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flynedd	**£**	£	**£**	£
Cronfa Benthyciad Eiddo	**1,000,000**	1,000,000	**1,000,000**	1,000,000
Cronfa Benthyciadau asedau cymunedol	**5,000,000**	5,000,000	**5,000,000**	5,000,000
Darpariaeth les	**45,882**	52,069	**45,882**	52,069
Credydwyr gwydnwch	**1,009,017**	1,444,005	**1,009,017**	1,444,005
	7,054,899	**7,496,074**	**7,054,899**	**7,496,074**

Mae dau fenthyciad consesiynol yn ddyledus ar ôl un flynedd yn yr adran credydwyr, sef y Gronfa Benthyciad Eiddo o £1,000,000, sydd i fod i gael ei ad-dalu erbyn 31 Mawrth 2046 ac ar gyfradd llog o 0% a'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol o £5,000,000, sydd i fod i gael ei ad-dalu erbyn 21 Medi 2051 ac ar gyfradd llog o 0%.

17. Cwmni cyfyngedig drwy warant

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliadau. Mae rhwymedigaeth ei ymddiriedolwyr, sy'n gyfarwyddwyr, yn gyfyngedig. Mae'r cyfyngiad fesul cyfarwyddwr wedi'i gyfyngu i swm nad yw'n fwy nag £1 yr aelod. Mae cyfnod cyfyngiad pob cyfarwyddwr wedi'i gyfyngu i'r amser y mae'n aelod neu ymhen blwyddyn wedyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

18. Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd anghyfyngedig

	Balans ar ddechrau'r flwyddyn £	Symudiad net mewn cronfeydd £	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £	Balans ar ddiwedd y flwyddyn £
Cronfeydd Anghyfyngedig Cyffredinol	5,391,047	-	(2,407,000)	2,984,047
Incwm Net		301,806	-	301,806
Ad-daliad o'r pensiwn â buddion wedi'u diffinio		2,927,000	-	2,927,000
Trosglwyddiad o gronfeydd cyfyngedig	-	-	(97,131)	(97,131)
Elw ar ailbrisio buddsoddiadau	-	102,873	-	102,873
Cyfanswm Cronfeydd Cyffredinol	5,391,047	3,331,679	(2,504,131)	6,218,595
Cronfeydd Dynodedig				
Eiddo	2,075,251	-	-	2,075,251
Gwariant Datblygu Busnes	300,000	-	-	300,000
Costaucau/diswyddo Ewropeaidd	70,000	-	(70,000)	-
Pontio i gynllun yr LGPS	475,000	-	(475,000)	-
Datblygu a Dylunio sefydliadol	150,000	-	-	150,000
Costau cau prosiectau Ewropeaidd	-	-	25,000	25,000
Strategaeth hirdymor CGGC	-	-	2,927,000	2,927,000
Cronfeydd anghyfyngedig	8,461,298	3,331,679	(97,131)	11,695,846
Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig - Grŵp	8,461,298	3,331,679	(97,131)	11,695,846
Symiau wedi'u cynnwys yn ymwneud â Cynnal Cymru - Sustain Wales Limited	(165,284)	17,745	-	(147,539)
Buddsoddiad mewn is-gwmnïau	3	-	-	3
Cyfanswm Elusen	8,296,017	3,349,424	(97,131)	11,548,310

	Adnoddau a ddaeth i mewn £	Adnoddau a wariwyd £	Symudiadau mewn cronfeydd £
Cronfeydd cyffredinol	3,519,294	(3,217,488)	301,806

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

DIBEN CRONFEYDD DYNODEDIG

EIDDO DYNODEDIG

Mae'r gronfa eiddo wrth gefn hon yn cynnwys yr arian net a dderbyniwyd yn sgil gwerthu tri eiddo. Mae wedi'i ddynodi ar gyfer unrhyw wariant cyfalaf ar swyddfeydd a dodrefn a osodir yn Un Rhodfa'r Gamlas, a chostau ychwanegol yr eir iddynt yn y dyfodol o bosibl wrth brynu safle swyddfa newydd.

GWARIANT DATBLYGU BUSNES DYNODEDIG

Cafodd y gronfa ar gyfer gwariant datblygu busnes ei sefydlu am ei fod yn bwysig bod yr elusen yn cael cymaint â phosibl o incwm ac yn lleihau gwariant cyffredinol lle'n bosibl. Felly, mae datblygu ffrydiau incwm newydd, cryfhau'r rhai sy'n bodoli eisoes a gwella effeithlonrwydd yn flaenoriaeth. Er bod rhywfaint o weithgarwch wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb flynyddol, mae'n ddefnyddiol cadw cronfa ddynodedig wrth gefn i'r diben hwn er mwyn gallu talu costau mentrau mwy o faint neu fentrau mwy hirdymor. Gall y costau hyn gynnwys gwaith ymchwil yn ogystal â datblygu a gweithredu cynlluniau a fydd yn cyfoethogi ac yn gwella cynaliadwyedd cyffredinol CGGC â'r sector gwirfoddol.

DATBLYGIAD A DYLUNIAD SEFYDLIADOL

Yn ystod 2022/23, dechreuodd CGGC ar ei gynllun datblygu a dylunio sefydliadol. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys ailddatblygu strwythur ei fudiad, a arweiniodd at leihau nifer y staff. Bydd yr ail gam yn ymwneud ag ymwreiddio'r strwythur newydd; diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau; adolygu taliadau, dysgu a datblygu staff ac adolygu systemau a phrosesu. Bydd y gronfa wrth gefn ddynodedig ar gyfer datblygu a dylunio'r mudiad yn darparu cyllid ar gyfer cwmpasu a gweithredu cam 2, a bydd y gronfa yn cynyddu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

COSTAU CAU/DISWYDDO EWROPEAIDD DYNODEDIG

Caeodd y cyllid Ewropeaidd ar 30 Medi 2023. Mae pob hawliad wedi'i brosesu a'i gwblhau. Fodd bynnag, mae rhai taliadau heb eu casglu o hyd. Felly, mae cronfa ddynodedig wrth gefn wedi'i sefydlu i dalu am arian ychwanegol y bydd yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn erbyn yr hawliadau Ewropeaidd priodol ar gyfer costau cau, pan a phryd y byddant yn dod i law yn ystod 2024/25.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

19. Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd cyfyngedig

	Balans ar 1 Ebrill 2023	Trosglwyddo	Symudiad mewn Cronfeydd wrth gefn		Balans ar 31 Mawrth 2024
			Arian a ddaeth i mewn	Arian a aeth allan	
	£	£	£	£	£
IB ESF ac SBGF	-	39,895	556,805	596,700	-
Cynhwysiant Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	133,964	(133,964)	-
Cynhwysiant Gweithredol Dwyrain Cymru	-	-	146,761	(146,761)	-
Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid Dwyrain Cymru	-	-	13,120	(13,120)	-
Grantiau tyfu busnesau cymdeithasol (SBGF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	(192,290)	192,290	-	-
Grantiau SBGF Dwyrain Cymru	-	(133,453)	133,169	284	-
Cymorth Canser Macmillan	-	-	64,922	(94,922)	-
Gwybodaeth Trydydd Sector	-	-	30,495	(30,495)	-
Erasmus	-	(3,288)	8,288	(5,000)	-
Cronfa Gymorth y Trydydd Sector	-	-	281,500	(281,500)	-
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	-	199	(199)	-
NEWID	-	-	100,000	(100,000)	-
Catalydd Cymru, Ehangu Gorwelion	-	-	116,599	(116,599)	-
Chwaraeon BME Cymru	-	-	82,465	(82,465)	-
Grantiau Bach Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-	-	300,000	(300,000)	-
Arweinwyr Cymdeithasol Cymru	-	-	11,055	(11,055)	-
Gwirfoddoli Cymru	-	-	2,787,373	(2,787,373)	-
Hyb Diogelu	-	-	114,500	(114,500)	-
Presgripsiynu Cymdeithasol	-	-	6,415	(6,415)	-
Brexit – Prifysgol Caerdydd	-	-	60,031	(60,031)	-
Grant Dechrau Busnes Sero Net	-	-	50,000	(50,000)	-
Grantiau Effeithlonrwydd Ynni	-	-	26,000	(26,000)	-
Grantiau bach	-	-	42,200	42,200	-
Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN)	-	-	12,772,640	(12,772,640)	-
Grant Partneriaeth Forol ac Arfordirol	-	-	300,044	(300,044)	-
Cyllid Seilwaith Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs)	-	-	4,848,587	(4,848,587)	-
Cymru ar gyfer Affrica	-	-	416,639	(416,639)	-
Grant y Dreth Dirlenwi	-	-	2,126,709	(2,126,709)	-
Comic Relief	-	-	87,993	(87,993)	-
Cronfa Capasiti Partneriaeth	-	-	84,024	(84,024)	-
Trwyddedau CRM CVCs	-	60,524	91,500	(152,024)	-
Grantiau Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector	-	-	(22,110)	22,110	-
Benthyciad SBGF wedi'i ailgylchu	-	325,743	30,462	-	356,205
Cynllun Benthyca Asda	595,386	-	7,846	(15,035)	588,196
Cronfa Fuddsoddi Gymunedol 2	2,068,028	-	78,693	(15,035)	2,195,907

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Cronfa Fuddsoddi Gymunedol	2,116,831	-	306,739	(351,159)	2,072,410
Cronfa gwydnwch	1,728,458	-	389,401	-	2,117,859
Cyfanswm Grŵp	**6,508,703**	**(97,131)**	**26,777,317**	**(26,052,573)**	**7,330,578**
Cyfanswm yr Elusen	**6,508,703**	**(97,131)**	**26,777,317**	**(26,052,573)**	**7,330,578**

Benthyciad SBGF wedi'i ailgylchu

Daeth y cyllid hwn drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, sy'n rhoi cymorth ariannol i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru i'w galluogi i dyfu a chreu cyfleoedd gwaith. Mae'r cynllun yn cynnig cyllid cyfunol i ymgeiswyr sy'n gysylltiedig â chreu swydd, sy'n gymysgedd o arian grant ac arian sydd angen ei ad-dalu. Roedd telerau'r cynllun yn caniatáu i bobl ohirio eu had-daliadau am hyd at ddwy flynedd ar ôl cwblhau prosiectau.

Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu bob mis o'r prosiectau cymwys. Yn wreiddiol, roedd y cyllid i gael ei ddychwelyd i WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), ond mae wedi'i gadarnhau y gall CGGC gadw'r cyllid i gael ei ailgylchu mewn prosiectau cymwys eraill newydd.

Cynllun Benthyca

Daeth y cyllid hwn drwy gytundeb y daethpwyd iddo gyda Social Investment Scotland ynghylch defnyddio'r arian a gasglwyd gan Asda drwy'r ardoll ar fagiau plastig. Dewiswyd CGGC fel y partner cyflenwi ar gyfer cynllun benthyca a oedd yn defnyddio arian Cymru. Roedd hyn yn ategu cynlluniau benthyca'r gronfa fuddsoddi cymunedol a oedd eisoes wedi'u sefydlu.

Cronfa Fuddsoddi Gymunedol a Chronfa Fuddsoddi Gymunedol 2

Daeth y cyllid ar gyfer y ddau gynllun benthyca hyn o ddau gylch o arian Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (rhwng 2005 a 2016) drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru. Ei diben oedd mynd i'r afael â'r methiant yn y farchnad o ran darparu cyllid ad-daliadwy i'r sector.

Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru, y "Gronfa Gwydnwch"

Daeth y cyllid gwydnwch cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020/21 a'i nod oedd mynd i'r afael â'r problemau roedd y sector yn eu hwynebu oherwydd y pandemig. Roedd y cyllid hwn yn gyfuniad o grantiau a benthyciadau ac mae'r cyllid cyfyngedig hwn sydd ar ôl yn ymwneud â'r gyfran ad-daladwy y mae buddiolwyr yn ei thalu dros gyfnod cytunedig o amser.

Grŵp	**2024**	2023
Cronfeydd cyfyngedig:	**£**	£
Gwarged – ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd	**3,175,122**	3,260,044
Gwarged - arall	**4,155,456**	3,248,659
	7,330,578	6,508,703

Elusen	**2024**	2023
Cronfeydd cyfyngedig:	**£**	£
Gwarged – yn ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd	**3,175,122**	3,260,044
Gwarged - arall	**4,155,456**	3,248,659
	7,330,578	6,508,703

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Dadansoddiad cymharol o'r symudiadau mewn cronfeydd cyfyngedig

	Balans ar 1 Ebrill 2022	Trosglwyddo	Symudiad mewn Cronfeydd wrth gefn		Balans ar 31 Mawrth 2023
			Arian a ddaeth i mewn	Arian a aeth allan	
	£	£	£	£	£
IB ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	804,395	(804,395)	-
IB ESF Dwyrain Cymru	-	-	540,128	(540,128)	-
IB SBGF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	291,523	(291,523)	-
IB SBGF Dwyrain Cymru	-	-	452,551	(452,551)	-
3 SET ESF Gorllewin	-	-	247,982	(247,982)	-
Cynhwysiant Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	5,193,602	(5,193,602)	-
Cynhwysiant Gweithredol Dwyrain Cymru	-	-	836,800	(836,800)	-
Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	1,725,492	(1,725,492)	-
Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid Dwyrain Cymru	-	-	450,109	(450,109)	-
Grantiau SBGF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	9,665	2,881,569	(2,891,234)	-
Grantiau SBGF Dwyrain Cymru	-	-	628,696	(628,696)	-
Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru	-	-	166,597	(166,597)	-
Cymorth Canser Macmillan	-	-	10,587	(10,587)	-
Gwybodaeth Trydydd Sector	-	-	104,406	(104,406)	-
Erasmus	-	-	10,422	(10,422)	-
Cronfa Gymorth y Trydydd Sector	-	-	441,152	(441,152)	-
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	-	326	(326)	-
NEWID	-	-	293,939	(293,939)	-
Catalydd Cymru, Ehangu Gorwelion	-	-	99,417	(99,417)	-
Chwaraeon BME Cymru	-	-	83,422	(83,422)	-
LNP Cymru	-	-	14,644	(14,644)	-
LP4N	-	-	9,127,569	(9,127,569)	-
Grantiau Bach Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-	-	300,065	(300,065)	-
Gwirfoddoli Cymru	-	-	1,099,331	(1,099,331)	-
Hyb Diogelu	-	-	114,500	(114,500)	-
Presgripsiynu Cymdeithasol	-	-	6,512	(6,512)	-
Brexit – Prifysgol Caerdydd	-	-	19,902	(19,902)	-
Mentrau Cymdeithasol	-	-	150,000	(150,000)	-
Kickstart	-	-	18,000	(18,000)	-
Cyllido Seilwaith CVC's	-	-	4,550,649	(4,550,649)	-
Cymru ar gyfer Affrica	-	-	236,438	(236,438)	-
Grant y Dreth Dirlenwi	-	-	1,373,964	(1,373,964)	-

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Comic Relief	-	-	959,080	(959,080)	-
Cronfa Capasiti Partneriaeth	-	-	87,525	(87,525)	-
Trwyddedau CRM y CVCs	-	(87,893)	87,893	-	-
Cronfa Gwydnwch	830,381	-	898,077	-	1,728,458
Cynllun Benthyca Asda	542,666	-	52,720	-	595,386
Cronfa Fuddsoddi Cymunedol 2	1,953,803	-	81,363	32,862	2,068,028
Cronfa Fuddsoddi Gymunedol	2,079,016	-	165,954	(128,139)	2,116,831
Cyfanswm Grŵp	**5,405,866**	**(78,228)**	**34,607,301**	**(33,426,236)**	**6,508,703**
Cyfanswm yr Elusen	**5,405,866**	**(78,228)**	**34,607,301**	**(33,426,236**	**6,508,703**

20. Dadansoddiad Grŵp o asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd Anghyfyngedig	**Cronfeydd Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cronfeydd 2024**	Cyfanswm Cronfeydd 2023
	£	**£**	**£**	£
Asedau sefydlog	**1,338,878**	**-**	**1,338,878**	277,781
Benthyciadau hirdymor	**-**	**6,108,944**	**6,108,942**	5,060,601
Asedau cyfredol	**11,006,187**	**20,729,676**	**31,735,863**	26,013,470
Rhwymedigaethau cyfredol	**(593,670)**	**(12,508,689)**	**13,102,359**	(8,885,777)
Rhwymedigaethau hirdymor	**(45,882)**	**(7,009,017)**	**(7,054,899)**	(7,496,074)
	11,705,513	**7,320,912**	**19,026,425**	14,970,001

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Dadansoddiad Elusennol o asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2024	Cyfanswm Cronfeydd 2023
	£	£	£	£
Asedau sefydlog	**1,338,878**	**-**	**1,338,878**	277,781
Benthyciadau hirdymor	**-**	**6,108,944**	**6,108,944**	5,060,601
Asedau cyfredol	**10,692,543**	**20,729,674**	**31,422,217**	25,742,332
Rhwymedigaethau cyfredol	**(427,565)**	**(12,508,689)**	**(12,936,254)**	(8,779,920)
Rhwymedigaethau hirdymor	**(45,882)**	**(7,009,017)**	**(7,054,899)**	(7,496,074)
	11,557,974	**7,320,912**	**18,878,886**	14,804,720

21. Cysoniad Grŵp o symudiadau mewn cronfeydd

	2024	2023
	£	£
Adnoddau net sy'n dod i mewn ar gyfer y flwyddyn ariannol	**4,056,423**	1,642,527
Cynnydd net mewn cronfeydd	**4,056,423**	1,642,527
Cronfeydd cychwynnol	**14,970,001**	13,327,474
Cronfeydd terfynol	**19,026,424**	14,970,001

Cysoniad Elusennol o symudiadau mewn cronfeydd

	2024	2023
	£	£
Adnoddau net sy'n dod i mewn ar gyfer y flwyddyn ariannol	**4,074,166**	1,558,621
Cynnydd net mewn cronfeydd	**4,074,166**	1,558,621
Cronfeydd cychwynnol	**14,804,720**	13,246,099
Cronfeydd terfynol	**18,878,886**	14,804,720

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

22. Partïon cysylltiedig

Mae Grantiau a Chontractau Caffael a ddyfarnwyd i gyrff lle mae gan Ymddiriedolwyr naill ai reolaeth uniongyrchol neu ddylanwad sylweddol wedi'u datgelu yn nodyn 8. Yn ogystal â'r grantiau a ddatgelwyd yn nodyn 8, mae benthyciadau heb eu casglu ar ddiwedd y flwyddyn gan Cyngor Hil Cymru, The Wallich a mudiad Plant yng Nghymru fel y ganlyn:

Cyngor Hil Cymru - Cronfa Gwydnwch - £7,500

The Wallich - Cronfa Gwydnwch - £23,543

Plant yng Nghymru - £20,967

Mae'r Grŵp wedi manteisio ar yr eithriad o dan FRS 102 rhag datgelu trafodion gydag unrhyw gwmnïau grŵp eraill a berchnogir yn llwyr.

23. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2024 (2023: £dim).

24. Ymrwymiadau pensiwn

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr adolygu sefyllfa'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio a chanlyniad ymadawiad posibl o'r cynllun.

Cynhaliwyd ymarferiad gan Aon i bennu gwerth y cynllun fel ag yr oedd ar 31 Hydref 2023. Gwnaeth hwn nodi gwarged os ymadawyd â'r gronfa, felly ar ôl ymgynghori â'r cyflogeion, penderfynodd yr Ymddiriedolwyr ymadael â'r cynllun.

Dangosir y gwarged yn y gronfa ar ôl i'r Cyflogwr ymadael, fel ag yr oedd ar 31 Hydref 2023 (y 'Dyddiad Ymadael') yn y tabl isod.

	£'Mau
Asedau	21.953
Rhwymedigaethau	(19.026)
Cyfanswm y gwarged ar y dyddiad Ymadael	2.927

Mae'r gwerthusiad ymadael wedi'i wneud ar sail yr amgylchiadau canlynol ar ddyddiad ymadael y Cyflogwyr fel y'i cynghyorwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu:

- Ni fydd unrhyw gyflogwr unigol yn y gronfa yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyllido rhwymedigaethau blaenorol y Cyflogwr, h.y. bydd rhwymedigaethau'r Cyflogwr yn dod yn rhwymedigaethau 'amddifad'.

Cyfrannodd yr elusen yn flaenorol at amrediad o gynlluniau pensiwn â chyfraniadau diffiniedig ar ran y cyflogeion

Mae'r tâl pensiwn ar gyfer y cyfnod yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan yr elusen i'r cynlluniau, sef £159,798 (2023: £121,421).

Mae'r elusen hefyd yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol (Cronfa Bensiynau Caerdydd a Bro Morgannwg) a weinyddir gan Gyngor Sir Caerdydd. Mae Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol, a chaiff y cyfraniadau eu talu allan o'r cyfrif incwm a gwariant fel y gellir gwasgaru cost y pensiynau dros fywydau gwaith y cyflogeion gyda'r elusen.

Y tâl pensiwn am y cyfnod oedd £274,188 (2023: £842,365).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Mae'r elusen yn cyfrannu at Gronfa Bensiynau Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfradd gyffredin sy'n berthnasol i grŵp o gyflogwyr, a osodir gan actiwari cymwys sy'n ystyried asedau a rhwymedigaethau'r grŵp yn ei gyfanrwydd. Cyfraniadau'r elusen a'r cyflogeion yw 35% a chyfradd amrywiol rhwng 5.5% a 9.9% o'r enillion yn ôl eu trefn.

Dyma'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun o dan FRS102:

	2024 %	2023 %
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	-	3.7
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau mewn taliadau	-	2.7
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig	-	2.7
Cyfradd gostyngiad	-	4.7
Cyfradd chwyddiant	-	2.7

Dyma werth teg asedau'r cynllun a'r gyfradd adennill ddisgwyliedig, gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun a'r diffyg a geir o ganlyniad:

	2024 Gwerth £'000	2023 Gwerth £'000
Ecwiti	-	17,688
Bondiau Corfforaethol	-	1,980
Bondiau Llywodraethol	-	2,292
Eiddo	-	1,876
Arian parod	-	833
Asedau Eraill	-	1,381
Cyfanswm gwerth yr asedau ar y farchnad	-	26,050
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	-	(17,710)
Gwarged Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn y cynllun	-	8,340

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Symudiad mewn Gwaged/(diffyg) yn ystod y flwyddyn:	**2024 £'000**	2023 £'000
Gwarged (Diffyg) yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	-	1,180
Cost Gwasanaeth Cyfredol	-	(710)
Elw actwaraidd a gydnabyddir yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)	-	7,030
Cyfraniadau gan y cyflogwr	-	840
Gwarged yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn yn unol ag adroddiad yr actiwari	-	8340
Gwarged nad yw wedi'i gydnabod	-	(8,340)
Ased / (rhwymedigaeth) a gydnabyddir ar y fantolen	-	-

Dadansoddiad o gostau Pensiwn a godwyd ar elw gweithredu o dan FRS 102:	**2024 £'000**	2023 £'000
Cost gwasanaeth cyfredol	-	(760)
Incwm/(cost) cyllido	-	50
Cyfanswm tâl gweithredu	-	(710)

Symiau a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall:	**2024 £'000**	2023 £'000
(Colledion)/enillion mewn asedau a gododd yn ystod y cyfnod	-	(1,160)
Enillion/(colledion) actwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	-	9,660
Enillion/(colledion) actwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	-	90
(Colledion)/enillion mewn rhwymedigaethau a gododd yn ystod y cyfnod	-	(1,560)
Gwarged pensiwn heb ei gydnabod	-	(7,160)
Cyfanswm tâl gweithredu	-	(130)

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio:	**2024 £'000**	2023 £'000
Rhwymedigaeth cychwynnol buddion wedi'u diffinio	-	24,730
Cost gwasanaeth gyfredol	-	760
Traul llog ar rwymedigaeth buddion wedi'u diffinio	-	660
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	-	120
Enillion/(colledion) actwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	-	(9,660)
Enillion/(colledion) actwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	-	(90)
Colledion/(enillion) actwaraidd ar rwymedigaethau	-	1,560
Buddion net a dalwyd	-	(370)
Rhwymedigaeth derfynol buddion wedi'u diffinio	-	17,710

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Newidiadau i werth teg asedau:

	2024	2023
	£'000	£'000
Gwerth teg cychwynnol asedau	-	25,910
Incwm llog ar asedau	-	710
(Colledion)/enillion ail-fesur ar asedau	-	(1,160)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	-	840
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	-	120
Buddion net a dalwyd	-	(370)
Gwerth teg terfynol asedau	-	26,050

25. Ymrwymiadau cyfalaf

Roedd gan y Grŵp a'r Rhiant Elusen gyfanswm o £dim mewn ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2024 (2023: £dim).

26. Ymrwymiadau ariannol

Bydd ymrwymiadau ariannol o dan lesau gweithredu na ellir eu canslo yn arwain at y taliadau blynyddol canlynol o ran tir ac adeiladau:

	Tir ac Adeiladau	
	2024	2023
	£'000	£'000
Yn dod i ben o fewn blwyddyn	**124,644**	123,793
Yn dod i ben o fewn 2-5 mlynedd	**473,172**	473,172
Yn dod i ben ar ôl 5 mlynedd	**302,949**	423,214

Adroddiad strategol y grŵp

Cyflawniadau a pherfformiad

Gwnaeth pwysau'r costau byw barhau i effeithio ar y sector mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynyddu'r galw am wasanaethau a chynyddu costau'r ddarpariaeth, a chafodd ffynonellau cyllido drafferth dal i fyny.

Gan weithio ar lefel genedlaethol, rydym wedi gweithio'n galed i roi cyllid a chymorth ar waith i helpu'r sector ac wedi ceisio gweithredu newid polisi ar lefel strategol er mwyn helpu a gwella'r sefyllfa i'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), gan roi cynhyrchion ac adnoddau digidol gwell ar waith a cheisio sicrhau ein bod yn cydlynu ein gwasanaethau a'n cymorth i'r sector.

Gwnaethom gwblhau ein rhaglen newid uchelgeisiol er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion ein haelodau a'r sector ehangach mewn amgylchedd sy'n newid i bob un ohonom ni.

Mae strwythur ein grŵp yn cynnwys CGGC, Social Investment (Cymru) Ltd, WCVA Trading Limited, WCVA Services Limited a Sustrans Cymru (Cynnal Cymru). Rydym yn rhannu uchelgeisiau i gefnogi'r sector a'r gymdeithas sifil ehangach yng Nghymru.

Prif risgiau ac ansicrwydd

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaeth CGGC adolygu a rheoli risgiau a oedd yn effeithio ar ein gwaith a oedd yn ymwneud â chau'r gweithgareddau a gyllidwyd gan yr UE a'r argyfwng costau byw.

Mae staff CGGC yn monitro gweithgarwch ac yn asesu risgiau gweithredol yn rheolaidd. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cyflwyno'r risgiau strategol i'r Pwyllgor Cyllid a Risg, sy'n edrych ar y materion ac yn rhoi awgrymiadau ar sut i liniaru'r risgiau.

Mae'r risgiau yn cael eu hystyried o dan bum pennawd: arweinyddiaeth, llywodraethu, cydymffurfio, adnoddau a chynaliadwyedd.

Nodir y prif risgiau isod:

- Peidio â chynnig arweinyddiaeth briodol a strategol i'r sector yng Nghymru
- Peidio â chadw at systemau, gweithdrefnau a pholisïau mewnol priodol
- Methu â chyflawni canlyniadau o safon yn unol â gofynion ein holl gyllidwyr, prosiectau a chontractau
- Diffyg adnoddau ariannol, ffisegol a dynol i gyflawni ein cynllun strategol
- Methu â sicrhau cynaliadwyedd ariannol byrdymor a hirdymor grŵp CGGC

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y Bwrdd ar 26 Medi 2024 a'i lofnodi ar ei ran.

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau ac ymddiriedolwyr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (y "rhiant-gwmni elusennol") a'i is-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgarwch Ariannol, y Mantolenni Cyfunol ac Elusen, y Datganiad Llif Arian Grŵp a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cadw cyfrifon arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso yn eu gwaith paratoi yn gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol cymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau:

- yn rhoi golwg gywir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r rhiant-gwmni elusennol fel roeddent yn sefyll ar 31 Mawrth 2024 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd a'i ddefnydd o adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â'r Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: 'Y Safon Adrodd Ariannol cymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Y sail i'n barn

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (ISAs) (y DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwiliad o adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol oddi wrth y Grŵp a'r Rhiant-gwmni Elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), ac rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio y gwnaethom ei derbyn yn ddigonol er mwyn darparu sail i'n barn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (y DU) yn gofyn i ni adrodd i chi yn eu cylch:

- lle nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgan yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol adnabyddedig a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynglŷn â gallu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni Elusennol i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddim llai na deuddeg mis o'r dyddiad yr awdurdodir rhyddhau'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Cofrestrodd 103 o fudiadau â'r nod ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV) yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 106% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol), ac roedd 98% ohonynt yn cofrestru ar gyfer eu gwobr gyntaf. Gyda phartneriaid ledled y DU, gwnaethom ni gynyddu diddordeb yn y nod Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, gan gofnodi'r nifer uchaf o gofrestriadau ar gyfer y dyfarniad yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn mae 56 o fudiadau wedi gwneud cynnydd gyda'u cymhwyster, gyda 19 yn cyflawni'r nod ansawdd erbyn diwedd mis Mawrth 2023

Yn y cyfnod 2022/23 **ychwanegwyd 56 o gyllidwyr a 860 o gronfeydd at Cyllido Cymru a chofrestrodd 3,879 o ddefnyddwyr newydd**. Eleni gwnaethom rai o'r newidiadau mwyaf i'n platfform chwilio am gyllid ers lansio'r wefan. Wedi'i gynnal mewn partneriaeth â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol, mae Cyllido Cymru bellach yn caniatáu i ddefnyddwyr gadw chwiliadau a chael hysbysiadau uniongyrchol pan gaiff cyllid ei ychwanegu neu ei ddiweddaru. Gwyddom fod capasiti bob amser yn rhwystr i fudiadau sy'n chwilio am gyllid, felly rydym hefyd wedi gwella cywirdeb y chwilio a chynyddu'r cymorth a gynigiwn i ddefnyddwyr Cyllido Cymru

Canmoliaeth i Fuddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV)

> ‘Maen nhw’n eich cefnogi chi bob cam o’r ffordd ac mae wedi bod yn werth chweil i ni gymryd yr amser i fyfyrio ac arddangos yr effaith gadarnhaol y mae ein gwaith yn ei chael ar fywydau pobl.’ **Cydlynydd Gwirfoddoli**

Yr hyn a ddywedoch am brosiect Newid

> ‘Roedd pawb mor gymwynasgar - gan fy nghyfeirio at gyngor ac arweiniad. Fe wnes i drawsnewid fy marn yn llwyr am ddigidol a sut y gallaf gefnogi fy mudiad.’

> ‘Mae’r gwaith drwy Newid wedi bod yn hynod werthfawr. Hoffwn weld mwy o fudiadau’n sicrhau’r cymorth hwn - byddai’n gwneud cymaint o wahaniaeth i’r sector. Dim ond dechrau’r daith ydw i, ond rydw i’n anelu at wreiddio’r dysgu. Os galla i wedyn raeadru hyn i fudiadau eraill, bydden nhw’n elwa gymaint - yn enwedig y mudiadau bach hynny heb lawer o gyllideb hyfforddi.’

Dde: Derbyniodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru arian gan ein Cronfa Treth Gwarediadau Tirlenwi i gynnal gweithgareddau ar gyfer plant lleol ▶

Canmoliaeth i hyfforddiant BME Chwaraeon Cymru

‘Roedd yr hyfforddiant yn amhrisiadwy a gobeithio bod ymgysylltiad y tîm yn cynrychioli eu hymrwymiad i bwysigrwydd Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant ac ymgysylltu â chymunedau ethnig amrywiol.’

‘Mae eich cymorth a’ch cefnogaeth yn amhrisiadwy a gwn y byddwn yn parhau i ddefnyddio hynny wrth i ni gyflwyno ein gwaith gwrth-hiliol.’

Cydlynydd Gwirfoddoli

Adborth cymorth a gwasanaethau

‘Rwy’n teimlo y bydd y sgiliau rydw i wedi’u dysgu yn ddefnyddiol ym mhob agwedd ar fywyd proffesiynol a phersonol ac nid dim ond mewn sefyllfaoedd anodd gan fod defnyddio sgiliau’n gyson yn gallu helpu i atal yr angen am sgyrsiau anodd.’

Mynychwyr ar ein cwrs ‘Delio â sgyrsiau anodd’

‘Mae’n hanfodol bod polisïau a gweithdrefnau diogelu gwybodus ac effeithiol ar waith. Mae Suzanne a thîm diogelu CGGC wedi bod o gymorth enfawr wrth weithio gyda Daring to Dream, gan ein cynghori wrth ddatblygu ein polisi diogelu i fod yn un sy’n gyfredol ac yn “addas i’r diben”. Ar ran ein hymddiriedolwyr, diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.’

Barbara Chidgey, Daring to Dream

Astudiaeth achos: Gwella iechyd yn Nigeria

Fe wnaeth cyllid Cymru ac Affrica gan CGGC helpu Shine Cymru a Sefydliad Festus Fajemilo i gefnogi pobl fel Gbemisola i wella eu hiechyd a'u rhagolygon i'r dyfodol.

Ganed Gbemisola gyda Spina Biffida ac roedd yn dioddef o faterion ymataliaeth o ganlyniad, ac roedd hyn wedi arwain ati'n wynebu stigma difrifol a gwatwar gan ei chyfoedion.

Ar ôl dechrau ar 'Achub Bywydau' Gwella'r Dyfodol!' y Sefydliad, dysgodd reoli ei materion ymataliaeth yn well, ac o'r diwedd daeth o hyd i'r hyder i wneud ffrindiau newydd a hyd yn oed fynd i'r brifysgol, gyda'r bwriad i ddod yn eiriolwr hawliau anabledd.

Nod prosiect Shine Cymru a Sefydliad Festus Fajemilo (FFF) yw cefnogi 250 o fabanod, plant a phobl ifanc - a'u teuluoedd - gyda spina biffida a hydroceffalws i wella eu hiechyd trwy wella gofal a rheolaeth ymataliaeth mewn tri rhanbarth yn Nigeria.

Bu cyllid gan gynllun grant Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan CGGC, yn gymorth i'r prosiect gryfhau ac ehangu i gyrraedd mwy o blant a theuluoedd.

Meddai Gbemisola: 'Mae fy mhrofiad ers ymuno â FFF wedi gwneud i mi gredu nad oes problem na ellir ei datrys yn y bywyd hwn. Dw i'n barod i rannu hyn unrhyw bryd, unrhyw le, dw i mor hapus.'

Dde: Enillodd Gbemisola hyder a ffrindiau newydd ar ôl cymryd rhan ym mhrosiect Cymru ac Affrica, Shine Cymru a Sefydliad Festus Fajemilo ▶

Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru

- Mae mudiadau gwirfoddol yn arwain newid cadarnhaol
- Mae'r holl sectorau yn cydweithio mwy i gyflawni uchelgeisiau cyffredin
- Mae ein democratiaeth yn mynd ati'n well i gefnogi mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan

Beth wnaethom ni

Cyhoeddodd CGGC adroddiad ymchwil o'r enw *Y dyfodol rydym yn ei greu: gwersi o wirfoddoli mewn pandemig yng Nghymru*. Casglodd yr adroddiad **farn rhanddeiliaid allweddol i edrych ar effaith gwirfoddoli yn ystod COVID-19** a'r gwersi y gallwn eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Gwnaeth hefyd nifer o argymhellion i gefnogi mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn eu gwaith, fel sicrhau bod gan y sector fynediad at ddigon o gyllid ar gyfer adnoddau staff, gwella hygyrchedd adnoddau ar gyfer grwpiau anffurfiol, a buddsoddi mewn gweithgareddau i alluogi mathau newydd o wirfoddoli a chydweithio

Gwnaethom ni barhau i sicrhau bod llais y sector gwirfoddol yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy **hwyluso cyfarfodydd rheolaidd rhwng grwpiau'r sector a Gweinidogion Llywodraeth Cymru,** gan gynnwys cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt. Gwnaethom ni hefyd drefnu cyfarfod o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol gydag arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i drafod sut y gall mudiadau cenedlaethol wneud cyfraniad ar lefel ranbarthol

Gwnaethom ni roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar nifer o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, y Senedd a Llywodraeth y DU, gan gynnwys ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Strategaeth Arloesi Cymru, Dyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a'r Ymchwiliad i Lobïo

Buom yn gweithio fel rhan o Grŵp Cymdeithas Sifil y DU i sicrhau bod llais sector gwirfoddol Cymru yn cael ei glywed yn San Steffan ar bynciau fel Cyllideb y DU. Dechreuodd y grŵp hefyd brosiect gyda UK Finance i ddylunio offer ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau bancio yn fwy tryloyw, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Comisiwn Elusennau i rannu materion sy'n wynebu'r sector

Gwnaethom ni sefydlu partneriaeth newydd gyda Macmillan Cancer Care i wella mynediad at wybodaeth a chyngor i bobl â chanser

Gwobrau Elusennau Cymru

Llongyfarchiadau i enillwyr Gwobrau Elusennau Cymru 2022

Gan ddychwelyd am y tro cyntaf ers y pandemig, cawsom y nifer uchaf erioed o enwebiadau ar gyfer Gwobrau Elusennau Cymru eleni, ac yn ystod Wythnos Elusennau Cymru fe wnaethom ni ddathlu'r pum enillydd anhygoel.

Mae'r Gwobrau'n dangos y gwahaniaeth cadarnhaol y gall pob un ohonom ei wneud i fywydau ein gilydd drwy gydnabod a dathlu'r cyfraniad gwych y mae elusennau, grwpiau cymunedol, mudiadau nid-er-elw a gwirfoddolwyr yn ei wneud i gymdeithas yng Nghymru.

Derbyniodd y pum enillydd eu gwobrau mewn seremoni a gynhaliwyd yn stiwdios ITV ym Mae Caerdydd ym mis Tachwedd 2022.

ENILLWYR

Gwirfoddolwr y Flwyddyn
(26 oed neu drosodd)

Noddwyd gan Keegan a Pennykid

Andrew Coppin

Dyfarnwyd y wobr i Andrew am ei gyfraniad i iechyd meddwl dynion. Gyda lefelau hunanladdiad ymhlith dynion yn cynyddu yn ardal Y Drenewydd a'r Trallwng, sefydlodd Andrew grŵp cerdded a siarad i gefnogi dynion sy'n agored i niwed.

Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn
(25 oed ac iau)

Noddwyd gan Hugh James

Rachel Joseph

Yn wirfoddolwr gyda Thriniaeth Deg i Ferched Cymru (FTWW), cafodd Rachel ei chydnabod am ei heiriolaeth angerddol dros gleifion endometriosis, a menywod anabl a menywod â salwch cronig yng Nghymru.

Arloeswyr digidol

Noddwyd gan Salesforce

Ymddiriedolaeth Innovate

Enillodd Ymddiriedolaeth Innovate y wobr am eu ap unigryw, Insight, sydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl ag anableddau dysgu.

Llesiant yng Nghymru

Noddwyd gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Cariad Pet Therapy

Mae Cariad Pet Therapy yn trawsnewid lles meddyliol amrywiaeth o gymunedau ar draws y de-orllewin mewn ffordd radical.

Mudiad y Flwyddyn

Noddwyd gan Grŵp SCG

Urdd Gobaith Cymru

Fel mudiad gwirioneddol eithriadol, cyflawnodd yr Urdd lawer iawn yn eu blwyddyn ganmlwyddiant ac mae wir yn fudiad blaenllaw i bobl ifanc ledled Cymru. Mae eu gwaith gyda ffoaduriaid, a fu o fudd mawr i 250 o Wcraniaid a 110 o Affghaniaid yn un enghraifft o blith llu o weithgareddau.

Canolbwyntio ar ein staff: Hybu gwirfoddolwyr mewn iechyd a gofal

Mae Judith Stone, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymorth a Buddsoddi yn CGGC wedi bod yn rhan o waith pellgyrhaeddol ar rôl y sector gwirfoddol ym maes iechyd a gofal.

Yn 2022 dechreuwyd prosiect newydd, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gan adeiladu ar waith blaenorol i frocera cysylltiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'r effaith sylweddol a wnaed gan fudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn ystod pandemig COVID-19.

Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a chydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer y gwahaniaeth rydym am ei wneud gyda'r prosiect hwn.

Cyhoeddwyd ffeithlun a dau bapur, a ysgrifennwyd ar y cyd â Chomisiwn Bevan, i godi ymwybyddiaeth o gyfraniad y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr i iechyd, gofal a lles. Yn lansiad *Gwerth a gwerthoedd gwirfoddoli: ein hased cudd*, dathlodd Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru, gyfraniad gwirfoddolwyr gan ddweud: 'Dydw i ddim yn credu bod wythnos yn mynd heibio lle nad ydw i mewn sgwrs â rhywun am werth gwirfoddoli yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.'

Fe wnaethon ni hefyd gyfrannu at ystod o ffrydiau gwaith y llywodraeth a hwyluso cyfarfodydd rhwng y sector a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar gais y Gweinidog, fe wnaethom gyflwyno papur ar y strwythur a'r adnoddau sydd eu hangen ar wirfoddolwyr i gyflawni rolau gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn llwyddiannus.

Uchod: Mae Judith yn rhan o dîm yn CGGC sy'n canolbwyntio ar iechyd a gofal ▲

Y gwahaniaeth a wnaethom

Cafodd gwaith CGGC ei grybwyll 82 o weithiau gan Lywodraeth Cymru yn 2022/23 - sef 13 gwaith mewn sesiynau llawn, 19 o weithiau mewn sesiynau pwyllgorau, a 50 o weithiau ar draws gwahanol eitemau a chyhoeddiadau newyddion Llywodraeth Cymru

Buom yn siarad am faterion allweddol i fudiadau gwirfoddol gan ymddangos yn The Guardian, The Independent, BBC News a chyfryngau eraill. Gwnaethom barhau i eirioli dros y sector gwirfoddol yng Nghymru, yn enwedig codi ymwybyddiaeth ymhlith y wasg ar faterion yn ymwneud â'r diffyg cyllid newydd ar gyfer cronfeydd yr UE yng Nghymru

Bu Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, a gynhelir mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, **yn cadeirio gwaith Llywodraeth Cymru ynghylch Bil Deddf Hawliau Llywodraeth y DU**. Bu hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Masnach Deg Cymru i dreialu gwaith cydlynu, rhwydweithio ac eiriolaeth i'r sector gwirfoddol ar bolisi masnach ôl-Brexit. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru: 'Mae'r rhwydwaith wedi ein galluogi i ymgysylltu â mudiadau a chymdeithasau sifil sydd wedi bod yn anodd ymgysylltu â nhw yn y gorffennol oherwydd nifer o resymau, sef diffyg capasiti a gwybodaeth o fewn y mudiadau hynny'

Roedd ein dathliadau 'Wythnos Elusennau Cymru' yn cynnwys seremoni Gwobrau Elusennau Cymru a arweiniodd at **enillwyr gwobrau yn cael eu cynnwys ar newyddion gyda'r nos ar ITV Cymru ac ITV Cymru ar-lein**. Roedd hyn yn ddiolch i bartneriaeth gydag ITV Cymru Wales. Yn ystod Wythnos Elusennau Cymru hefyd cafodd sawl elusen gyfweliad ar y radio gan ymddangos mewn cyhoeddiadau cyfryngau lleol. Mae Wythnos Elusennau Cymru yn ymgyrch sy'n tynnu sylw at waith elusennau, mentrau cymdeithasol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru

Cynhyrchodd y Grŵp Perchnogaeth Gymunedol ymateb i'r ymgynghoriad a **ddylanwadodd yn sylweddol ar ymchwiliad y Senedd i asedau cymunedol**, gan dynnu sylw at faterion allweddol ynghylch perchnogaeth gymunedol. Eleni fe wnaethom sefydlu'r grŵp, sef rhwydwaith traws-sector a gynlluniwyd i godi proffil cymunedau sy'n cynnal mannau cyhoeddus tra'n gwella'r broses trosglwyddo asedau cymunedol a galluogi prynu asedau preifat

Dde: Roedd Fferm Gymunedol Abertawe yn un o'r mudiadau a amlygwyd gennym fel rhan o Wythnos Elusennau Cymru ▶

Canolbwyntio ar ein staff: Cyfrannu at ymdrechion Wcráin Cymru

Gweithiodd Natalie Zhivkova, Rheolwr Polisi a Mewnwelediadau CGGC, gyda'r sector a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau bod ffoaduriaid Wcráin yn cael eu hail-gartrefu a'u cefnogi'n gyflym ac yn garedig.

Bu'r newyddion am ymosodiad Wcráin a'r argyfwng dyngarol yn y wlad yn fraw i bawb ledled Cymru ac i lawer ohonom bu'n gymysgedd o awydd cryf i weithredu gydag ymdeimlad o anobaith. Beth allem ni ei wneud a sut gallem helpu o bell, filltiroedd i ffwrdd?

Rwy'n falch iawn o ddweud bod CGGC wedi cymryd rhan yn ymateb Cymru ar unwaith a gweithio'n gyflym i alluogi a chydlynu cefnogaeth i ffoaduriaid sy'n ffoi o'r gwrthdaro. Buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol i greu cysylltiadau a galluogi mudiadau arbenigol i ddarparu cymorth roedd mawr ei angen.

Gyda'n gilydd, fe wnaethon ni gynhyrchu deunyddiau gyda'r nod o gynorthwyo ymdrechion mewn ardaloedd awdurdodau lleol, helpu i lunio'r cynnwys sydd ar gael ar **noddfa.llyw.cymru**, darparu diweddariadau gan Lywodraeth Cymru i randdeiliaid, a sicrhau bod adborth o'r rheng flaen yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisïau.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i symleiddio prosesau cyfeirio, gwneud y defnydd gorau o gynigion o gymorth gan y cyhoedd, ac atal dyblygu gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Helpodd ein gwaith i gefnogi ffoaduriaid i symud allan o ganolfannau croeso a chymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli i wella sgiliau a chynyddu annibyniaeth.

Uchod: Mae Natalie wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid i helpu ffoaduriaid Wcráin ▲

Ein nod

mae CGGC yn fwy gwydn

- Mae CGGC yn ariannol gynaliadwy
- Mae CGGC yn addasu'n gadarnhaol i newid
- Mae CGGC yn rhoi mwy o gefnogaeth i'w bobl

Beth wnaethom ni

Aethom drwy raglen newid uchelgeisiol i ailddylunio a datblygu'r mudiad i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau bosibl i gefnogi'r sector gwirfoddol yn y dyfodol. Rhan o hyn oedd pecyn cymorth i staff ddarparu cymaint o gymorth â phosibl yn ystod y cyfnod ansicr hwn

Yn 2022/23 **edrychom ni ar ein diwylliant fel mudiad**, gan rymuso ein staff i gymryd rhan yn y broses drwy ein grŵp hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Gan weithio gyda chydweithwyr datblygwyd cyfres newydd o 'werthoedd ac ymddygiadau' a oedd yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod ein diwylliant yn y gweithle yn gynhwysol, yn deg, ac yn cefnogi twf a datblygiad ein staff

◀ **Chwith:** Staff CGGC yn ein digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gyda Sustrans Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Cynhaliwyd etholiadau'r ymddiriedolwyr gyda'r broses enwebu a dethol yn gadarn yn nwylo ein haelodau. Roedd yr ymgyrch etholiadol eleni yn rhoi ffocws cryf ar sicrhau amrywiaeth ar fwrdd CGGC

Cafodd ein staff eu hannog i ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaoedd. Bu tri o'n staff yn cymryd rhan mewn cyfleoedd secondiad gyda mudiadau eraill, gan ennill profiadau a gwybodaeth newydd i'w defnyddio yn eu rolau yn CGGC. Gwnaethom ni hefyd barhau â'n hymrwymiad i ddysgu a datblygu staff. Cofnododd ein staff 452 o wahanol achlysuron lle roedden nhw wedi cael mynediad at ddysgu ar bynciau fel 'Cyflwyniad i ddiogelu', ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a sgiliau digidol

Gwnaethom ni gomisiynu adroddiad annibynnol ar ein defnydd o'r Gymraeg. Bydd argymhellion yr adroddiad yn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau fel mudiad dwyieithog yn well a denu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â'n tîm staff

Canolbwyntio ar ein hymddiriedolwyr: Rhaglen Newid CGGC

Yn 2022/23 goruchwyliodd Reham Bassal a gweddill bwrdd CGGC raglen newid helaeth i helpu'r mudiad i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Ers i mi ddod yn ymddiriedolwr yn 2022, rhaglen newid CGGC fu prif ffocws y bwrdd, gan drawsnewid y mudiad i wasanaethu anghenion y sector gwirfoddol yng Nghymru yn well.

Gyda diwedd cyllid yr UE yng Nghymru, y newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio oherwydd y pandemig a'n cynllun strategol newydd ar gyfer 2022-27, roedd angen i CGGC drefnu ac edrych yn ein blaenau at baratoi ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chynrychioli'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn effeithiol, roedden ni'n cydnabod bod angen i ni ailfeddwl am ein strwythur fel mudiad a sut rydym yn gweithio. Er ei bod yn heriol, roedd angen sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n gwerthoedd a'n cenhadaeth o hybu arloesedd drwyddi draw, gan fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a'n heffaith, cefnogi ein pobl, a gyrru amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein pobl yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Gwnaethom ni ymgynghori'n helaeth â'n staff gan ddefnyddio arferion gorau i sicrhau tegwch a thosturi.

Er bod heriau ynghlwm ag ailstrwythuro, rwy'n credu ei fod wedi cryfhau ein mudiad yn y pen draw a'n rhoi ar ben ffordd ar gyfer llwyddiant yn y blynyddoedd i ddod. Rwy'n ddiolchgar am yr holl waith caled ac ymroddiad a ddangoswyd gan ein tîm drwy gydol y broses, ac rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y sector gwirfoddol.

Uchod: Ymunodd Reham â bwrdd ymddiriedolwyr CGGC ym mis Tachwedd 2022 ▲

Y gwahaniaeth a wnaethom

Mae ein rheolaeth ariannol ofalus wedi arwain at archwiliad interim llwyddiannus ar gyfer 2022/23. Derbyniodd ein Cronfa Cynhwysiant Gweithredol chwe archwiliad 'diamod' gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) eleni, sy'n golygu nad oedd unrhyw feysydd y gellid eu gwella arnynt.

Beth ddywedodd staff am weithio gyda'n Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

'Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cynnal asesiadau cydraddoldeb cynhwysfawr, yn enwedig yn ein rhaglen newid. Mae hyn wedi ein galluogi i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'n mudiad a sut y gallwn weithredu ein cynllun strategol yn effeithiol. Mae'r asesiadau hyn wedi ein galluogi i feithrin diwylliant mwy cynhwysol a theg yn y gweithle a sicrhau bod ein mudiad yn cyd-fynd â'n gwerthoedd a'n nodau.'

Samantha Carpenter, Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles

Beth ddywedodd y staff am gyfleoedd secondiad

'Roedd cael y cyfle i gael secondiad yn Llywodraeth Cymru wedi rhoi profiad a gwybodaeth i mi na allwn fod wedi'u hennill mewn unrhyw ffordd arall. Mae wedi fy ngalluogi i ddyfnhau fy ngwybodaeth o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a deall sut y gallwn gefnogi'r sector i ymgysylltu â nhw'n fwy effeithiol. Mae'r profiad hwn wedi arwain at sicrhau dyrchafiad a datblygu fy llwybr gyrfa fy hun ymhellach.'

Janine Downing, Pennaeth Partneriaethau a Pholisi CGGC

Canolbwyntio ar ein staff: Datblygu ein gweithwyr

Mae rhaglen hyfforddi staff CGGC wedi cefnogi'r Swyddog Cefnogi Grantiau, Emma Manderson i ddatblygu ei defnydd o'r Gymraeg a datblygu ei gyrfa.

Eleni, mynychais gwrs dwys 'Canolradd' dros yr haf a dalwyd gan CGGC ac fe wnaethon nhw gyfateb yr amser a dreuliais i, gan ganiatáu i mi gofnodi hanner yr wythnos breswyl fel amser gwaith.

Roeddwn i wedi bod yn dysgu Cymraeg o'r blaen, ond roedd fy nghymhelliant a'm cynnydd wedi arafu yn ystod y pandemig. Roedd y cwrs trochi wir wedi rhoi hwb i fy Nghymraeg, gan roi cyfle i mi ddefnyddio'r iaith drwy'r dydd ac atgyfnerthu fy nysgu.

Rhoddodd hyn yr hyder i mi gynrychioli CGGC ar ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan gyfarch ymwelwyr a sgwrsio am ein gwaith yn Gymraeg, a mynd ymlaen i gofrestru ar gyfer cwrs Lefel Uwch wythnosol (mae CGGC hefyd yn talu amdano gyda chyfatebiad amser). Rhoddodd hyn oll y sgiliau a'r hyder i mi ymgeisio am rôl 'Gymraeg hanfodol' fel Swyddog Cefnogi Cronfeydd Grantiau gyda CGGC y cefais fy mhenodi'n llwyddiannus iddi ym mis Mawrth.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydw i wedi mynd o fod yn ddechreuwr llwyr i fod yn ddigon rhugl i wneud y swydd hon, diolch i gefnogaeth CGGC.

Uchod: Mae Emma wedi gwneud defnydd da o'n rhaglen hyfforddi staff i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ▲

Defnyddiodd Chwarae Teg Gronfa Gymdeithasol Ewrop i weithio gyda menywod ledled Cymru i adeiladu eu hyder a chydnabod a datblygu eu sgiliau

‘Diwedd cyfnod’

Cyllid Ewropeaidd yng Nghymru

Wrth i gyllid Ewropeaidd ddirwyn i ben, rydym wedi bod yn dathlu’r hyn a gyflawnwyd gan y sector gwirfoddol yng Nghymru tra’n gweithio’n galed i ddylanwadu ar y dirwedd ariannu yn y dyfodol.

Canolbwyntio ar ein staff: Cefnogi’r sector ar ôl cyllid Ewropeaidd

Mae Matt Brown, Cyfarwyddwr Cyflawni a Datblygu CGGC, wedi bod yn arwain ar ein gwaith i ddylanwadu ar y dirwedd ariannu ar ôl diwedd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Mae cau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru yn ddiwedd cyfnod. Er bod ymdeimlad o dristwch am hyn, gallwn edrych yn ôl ar gyfnod lle mae mudiadau gwirfoddol wedi cael dylanwad enfawr ar ystod o faterion allweddol mewn cymdeithas.

Rydym yn falch ein bod, drwy CGGC a chyrff cymorth eraill, wedi gallu hwyluso’r cyllid hwn i fudiadau yn y sector gwirfoddol nad oes ganddynt y gallu na’r wybodaeth dechnegol i gael mynediad atynt yn draddodiadol.

Uchod: Sicrhaodd Matt fod llais y sector gwirfoddol yn cael ei glywed mewn trafodaethau cyllid ar ôl yr UE ▲

Yn eu tro, mae'r mudiadau hyn wedi defnyddio eu gwybodaeth leol a'u harbenigedd penodol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y cymunedau sydd eu hangen.

Gall mudiadau gwirfoddol yng Nghymru edrych yn ôl ar rai llwyddiannau gwirioneddol ysbrydoledig mewn meysydd fel gwella cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur a datblygu cynaliadwy.

Yn CGGC rydym hefyd yn edrych yn ôl yn falch o'n gwaith gyda Cwmpas, gan helpu busnesau cymdeithasol i dyfu. Ond rydym hyd yn oed yn fwy balch, trwy ein tîm Buddsoddi Cymdeithasol Cymru, fod buddsoddiad yr UE wedi dod yn ffynhonnell gyllid ailgylchadwy a fydd yn cael ei ailfuddsoddi yn y sector ymhell ar ôl cau cyllid Ewropeaidd.

Isod: Darparodd prosiect Cronfa Cynhwysiant Gweithredol Cyngor Pobl Fyddar Cymru gyfleoedd cyflogaeth â chymorth i bobl fyddar gyda Trafnidiaeth Cymru. Rheolir y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gan CGGC, gyda chymorth cyllid gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. ▼

Dathlu llwyddiannau'r sector yng Nghymru

Cynhaliwyd digwyddiad dathlu ym mis Mawrth 2023 **i dynnu sylw at yr effaith y mae'r sector gwirfoddol wedi'i chael gan ddefnyddio Cyllid Ewropeaidd**. Clywsom ddiweddariad angerddol gan Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, a'r straeon ysbrydoledig gan rai o'r prosiectau yng Nghymru sydd wedi bod yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r cymunedau maen nhw'n eu cefnogi. Yn y digwyddiad, lansiwyd *Effaith cyllid Ewropeaidd yng Nghymru,* adroddiad yn edrych ar sut y llwyddodd mudiadau gwirfoddol Cymru, drwy eu cyfranogiad mewn cyllid Ewropeaidd, i gyfrannu ar draws ystod o faterion cymdeithasol allweddol.

◀ **Chwith:** Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, yn siarad yn ein digwyddiad dathlu cyllid yr UE ym mis Mawrth

◀ **Chwith:** Archwiliodd ein hadroddiad y gwahaniaeth a wnaed gan fudiadau gwirfoddol mewn cyfnod sy'n rhychwantu dros 20 mlynedd, diolch i gyllid Ewropeaidd

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau yn San Steffan ac yn y Senedd, gan eiriol dros gynnwys y sector gwirfoddol mewn unrhyw benderfyniadau am y ffrydiau cyllido newydd. Gwnaethom ni dynnu sylw at effaith colli cyllid yr UE a'r oedi o ran rhyddhau cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar mudiadau gwirfoddol a'r bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu cefnogi. Gwnaethom hyn drwy ein hymgysylltiad â swyddogion y llywodraeth a rhanddeiliaid a phartneriaid lleol a rhanbarthol, ac arweiniodd ein gwaith dylanwadu at sylw lleol a chenedlaethol yn y wasg gan gynnwys yn The Guardian, ar BBC Cymru ac ar BBC Newsnight.

Elusennau a chyflogwyr yn ei chael hi'n anodd oherwydd oedi ariannol ar ôl Brexit

Mae rhai grwpiau gwirfoddol wedi cau a ffermwyr yn sôn am broblemau ar ôl arafwch talu arian y DU yn lle arian yr UE

Defnyddiodd Adferiad Recovery arian o'n Cronfa Cynhwysiant Gweithredol i helpu Rachel i baratoi ar gyfer byd gwaith

Ein cyllid

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad ariannol ar gyfer 2022/23.

Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd **£27.5 miliwn** mewn grantiau a benthyciadau i'r sector gwirfoddol. Ein hincwm oedd **£35 miliwn** a'n gwariant oedd **£33.2 miliwn.**

Incwm
£35 miliwn



Incwm cyfyngedig
£31.4 miliwn



Incwm anghyfyngedig
£3.6 miliwn



Gwariant
£33.2 miliwn



- Grantiau i'r sector
- Costau staff (cyflogau, recriwtio, hyfforddi ac ati)
- Gorbenion (costau adeiladau, cyfarpar, cyfleustodau ac ati)
- Costau eraill (archwilio, ymgynghorwyr, marchnata ac ati)

Mae ein Cyfrifon Blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar y cyfrifon hynny ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau.

Aelodau'r Bwrdd

Llywydd
Michael Sheen

Is-lywyddion
Tom Jones OBE
Margaret Thorne CBE DL
Peter Davies CBE (Cadeirydd tan 17 Tachwedd 2022)

Cadeirydd
Dr Neil Wooding CBE (Penodwyd 17 Tachwedd 2022)

Is-gadeirydd
Fran Targett OBE

Trysorydd
Colin Arnold

Ymddiriedolwyr
Steve Brooks (Ymddiswyddodd 17 Tachwedd 2022)
Reham Bassal (Penodwyd 17 Tachwedd 2022)
Lindsay Cordery-Bruce
Lisa Davies (Ymddiswyddodd 17 Tachwedd 2022)
Rhian Davies
Simon Harris
Lowri Jones (Penodwyd 17 Tachwedd 2022)
Chris Lines
Mark Llewellyn
Kathryn Luckock (Penodwyd 17 Tachwedd 2022)
Menai Owen-Jones
Joe Stockley
Edward Watts MBE DL
Kate Young

Ysgrifenyddes
Tracey Lewis

Rhif cofrestru'r cwmni
0425299

Rhif elusen
218093

Swyddfa gofrestredig
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs,
Caerdydd
CF10 5BF

Bancwyr
Barclays Bank Plc
Llys Windsor
1-3 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3BX

Cynghorwyr Cyfreithiol
Geldards LLP
Cwr y Ddinas Rhif 4
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Hugh James
Dau Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FS

Capital Law
Adeilad Capital
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4AZ

Archwilydd
Bevan Buckland LLP
Llawr Gwaelod
Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Diolch

Hoffai CGGC ddiolch i'n holl aelodau a'n partneriaid am eu cefnogaeth y flwyddyn hon yn ogystal â'r canlynol:

abrdn
ACEVO
Ateb
Barclays Bank PLC
Bevan Buckland LLP
Big Learning Company
Prifysgol Caerdydd
Charities Aid Foundation
Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Clear the Fog
Comic Relief
Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt)
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Cymen
Data Cymru
Data Orchard
Anabledd Cymru
Tîm Cymorth Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig (EYST)
Geldards LLP
Helplu
Cynllun iechyd HSF
Hub Cymru Africa
Hugh James
ITV Cymru Wales
Keegan a Pennykid
Cymorth Canser Macmillan Cymru
Martyn Palfreman Consulting
Menter Iaith
Mercer
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol
GIG Cymru
Nico
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Pride Cymru
ProMo Cymru
Pugh Computers Ltd
Recruit3
Richard Newton Consulting
Salesforce
Savage a Gray
SCG Cymru
The Scottish Council for Voluntary Organisations (SCVO)
Busnes Buddsoddi Cymdeithasol
Social Investment Scotland
Chwaraeon Cymru
Sustrans
Tantrwm Digital Media
Volunteering Matters
Volunteer Scotland
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)
Llywodraeth Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Wrigleys Solicitors

Datganiadau ariannol

2022/23

Yn yr adran hon ceir manylion ein cyfrifon a'n gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 gan gynnwys adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr, adolygiad a datganiadau ariannol, adroddiad strategol y grŵp, gwybodaeth ynglŷn â'n haelodau, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol.

Adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr 2022/23

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Dogfen lywodraethu

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ('CGGC') yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Ei ddogfennau llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 9 Rhagfyr 1946, a ddiwygiwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2016.

Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr

Mae erthyglau cymdeithasu CGGC yn darparu ar gyfer bwrdd sy'n cynnwys dim llai na chwech a dim mwy nag un-ar-bymtheg o ymddiriedolwyr. Caiff hyd at ddeuddeg o ymddiriedolwyr bwrdd CGGC eu hethol gan aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chaiff hyd at bedwar aelod eu penodi gan bwrdd CGGC. Bydd ymddiriedolwyr yn ymadael yn ôl trefn gylchdro, sef y rhai sydd wedi gwasanaethu am dair blynedd yn ddi-dor ar ôl cael eu hethol neu eu hailethol.

Bydd ymddiriedolwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol am dymor pellach o dair blynedd ac ni chaiff yr un ymddiriedolwr fod yn y swydd am fwy na naw mlynedd yn olynol. Gall bwrdd CGGC gyfethol unrhyw un ar unrhyw adeg i lenwi swydd wag dros dro sy'n codi ar fwrdd CGGC. Yn dilyn ein proses ethol ymddiriedolwyr eleni ac etholiad ein haelodau ar gyfer y pum sedd wag ar y bwrdd, cymeradwyodd ein haelodau benodiad tri ymddiriedolwr newydd ac ailbenodi dau ymddiriedolwr presennol.

Croeso i'n Cadeirydd newydd

Cafodd Dr Neil Wooding CBE ei groesawu'n ffurfiol fel Cadeirydd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) ym mis Tachwedd 2022 gan gymryd yr awenau gan Peter Davies CBE. Ymunodd Neil â'r bwrdd ym mis Chwefror 2022 fel Darpar Gadeirydd yn dilyn proses recriwtio drwyadl a thryloyw.

Mae Neil wedi ymgymryd â nifer o rolau gwirfoddol ar hyd ei yrfa. Ei feysydd arbenigol yw datblygu pobl, newid sefydliadol ac amrywiaeth ddynol.

Cynefino a hyfforddi ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn mynychu sesiwn gynefino ac yn cael llawlyfr cynhwysfawr i ymddiriedolwyr sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am eu rôl a'u cyfrifoldebau. Caiff ymddiriedolwyr fynediad at adnoddau ar-lein i'w cefnogi yn eu rôl a darperir hyfforddiant mewnol

sy'n ymdrin â meysydd llywodraethu allweddol yn ôl yr angen.

Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd nifer o sesiynau canolbwyntiedig ar gyfer ymddiriedolwyr, gan gynnwys hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu, yn ogystal â diweddariadau ar wahanol raglenni gwaith.

Rheoli risg

Mae Is-Bwyllgor Archwilio a Risg CGGC wedi cymeradwyo cofrestr risg gynhwysfawr y mae'n ei hadolygu'n gyson. Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau posibl, yn disgrifio'r camau y mae angen eu cymryd i leihau neu osgoi pob risg, pwy sy'n gyfrifol am gymryd y camau, a'r dyddiadau targed. Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod pob un o'r ymddiriedolwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Swyddi Anrhydeddus

Mae gan CGGC bedair swydd anrhydeddus, ac mae'n falch o gael cymorth pobl â diddordeb a phrofiad helaeth yn y sector gwirfoddol.

Mae Llywydd anrhydeddus CGGC, Michael Sheen yn hyrwyddo CGGC a'r sector bob cyfle a gaiff. Rydym wrth ein boddau fod Peter Davies CBE, y cyn-Gadeirydd, wedi derbyn y rôl o fod yn drydydd Is-lywydd i ni pan gamodd i lawr o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022. Mae Peter wedi bod yn gefnogwr brwd o'r sector gwirfoddol, ac o ddatblygu cynaliadwy yn benodol, drwy gydol ei yrfa.

Mae Is-lywydd CGGC, Tom Jones OBE yn gweithio i gynnal a datblygu cysylltiadau cymdeithas sifil ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Mae Is-lywydd CGGC, Margaret Thorne CBE DL yn parhau i gefnogi gwaith CGGC gyda phartneriaid lleol.

Strwythur y mudiad

Aelod-fudiad yw CGGC. Mae'r aelodaeth ar agor i elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio. Caiff aelodau eu hannog yn weithredol i lunio ein gwaith a chysylltu â rhwydwaith cyfoethog o bobl o'r un meddylfryd sydd â'r un weledigaeth.

Mae dau is-bwyllgor yn cynorthwyo'r bwrdd i gyflawni ei rôl: Pwyllgor Archwilio a Risg CGGC a Phwyllgor Cyllid CGGC. Cefnogir y bwrdd hefyd gan nifer o baneli ymgynghori ariannol. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro'r cynlluniau strategol a gweithredol sy'n ganolbwynt ac yn sail i waith CGGC. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ailstrwythuro er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ein rôl i gefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol yn y dyfodol.

Partïon cysylltiedig

Yn ystod 2010/11 sefydlodd yr elusen grŵp drwy gorffori dau is-gwmni perchnogaeth lwyr, Social Investment (Cymru) Ltd (a ailenwyd o WCVA Investments Ltd ar 24 Hydref 2014) at ddibenion sefydlu cronfa fenthyciadau, a WCVA Services Ltd at ddibenion gweinyddu gwasanaethau benthyca.

Mae Social Investment (Cymru) Ltd yn darparu buddsoddiad cymdeithasol ar gyfer ac ar ran y sector gwirfoddol yng Nghymru. Bydd yr is-gwmni hwn yn cael ei wneud yn segur yn ystod 2023/24 a bydd ei holl weithgarwch yn cael ei drosglwyddo i CGGC. Bydd Pwyllgor Buddsoddi Cymdeithasol yn cael ei sefydlu i gynorthwyo Bwrdd CGGC â'i ddyletswydd i gadw llygad ar gyfeiriad gweithgareddau cyllid ad-daladwy CGGC.

Yn dilyn cwblhad prosiect blaenorol

a gyllidwyd gan Ewrop, mae WCVA Services Limited bellach yn segur.

Cafodd trydydd is-gwmni, WCVA Trading Limited, ei gorffori yn ystod 2011/12; nid yw'r cwmni hwn yn weithredol ar hyn o bryd.

Gwnaeth ein pedwerydd is-gwmni, Cynnal Cymru - Sustain Wales (Cynnal Cymru) ymuno â grŵp CGGC ar 1 Ebrill 2018. Cynnal Cymru yw'r elusen genedlaethol dros ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cynnal Cymru hefyd yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant. Mae Cynnal Cymru yn credu y gall pob mudiad gymryd camau i ymateb i heriau byd-eang mewn ffyrdd sydd o fudd iddyn nhw ac i'r bobl o'u cwmpas. Boed hynny'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol fel y gall gweithwyr fyw ac nid bodoli yn unig, ail-lunio arferion busnes er mwyn gwneud cyn lleied â phosibl o niwed i'r amgylchedd, neu ymgysylltu â chyflogeion, cadwynau cyflenwi a chwsmeriaid i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr – maen nhw'n credu bod codi uchelgeisiau yn fuddiol i fudiadau yng Nghymru a thu hwnt, nawr ac yn y dyfodol.

Yn ystod 2022/23, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwaith teg ar draws nifer o feysydd polisi a phrosiectau gyda phartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Mae grantiau a chontractau caffael a ddyfarnwyd i gyrff lle mae gan yr ymddiriedolwyr naill ai reolaeth uniongyrchol neu ddylanwad sylweddol wedi'u datgelu o fewn nodyn 8 y cyfrifon.

Amcanion a gweithgareddau

Ein pwrpas

Galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd

Ein gweledigaeth

Dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb

Ein cenhadaeth

Bydd CGGC yn gatalydd dros newid positif drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu

Amcanion elusennol

Amcanion yr elusen yw hybu pob diben neu unrhyw ddiben er budd y gymuned y bernir yn ôl y gyfraith ei fod yn ddiben elusennol.

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr wedi talu sylw dyledus at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Dangosir hyn gan broses ailstrwythuro'r mudiad a'r polisi buddsoddi. Mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus bod gweithgareddau CGGC yn cadw at y rheoliadau ar fudd cyhoeddus.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a'n haelodaeth ehangach, gwnaethom ganolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd lle gallem wneud yr effaith fwyaf. Yn CGGC rydym yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o gwahaniaeth gyda'n gilydd.

Grantiau a chyllid

Gweinyddodd yr elusen 17 (2022: 18) cynllun grant yn ystod y flwyddyn a gwnaed taliadau grant i 560 (2022: 680) o fudiadau.

Grantiau / cynlluniau	**2023 Nifer y grantiau a dalwyd**	**2023 Gwerth y grantiau a dalwyd £**	2022 Nifer y grantiau a dalwyd	2022 Gwerth y grantiau a dalwyd £
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru	**10**	**586,143**	12	460,899
Cynhwysiant Gweithredol – Ieuenctid Dwyrain Cymru	**9**	**394,385**	13	366,963
Cynhwysiant Gweithredol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**62**	**4,626,610**	74	2,892,702
Cynhwysiant Gweithredol – Ieuenctid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**29**	**1,318,852**	41	1,467,341
Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**19**	**1,305,319**	13	537,228
Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – Dwyrain Cymru	**5**	**299,761**	2	81,338
Cyllid Seilwaith – Cynghorau Gwirfoddol Sirol	**19**	**4,550,650**	19	5,460,053
Treth Tirlenwi	**62**	**1,373,964**	75	462,557
Cyngor Partneriaeth	**30**	**87,525**	29	87,525
Gwirfoddoli Cymru	**127**	**764,519**	157	1,864,849
Cysylltiadau Cymunedol Cymru ac Africa	**19**	**236,438**	31	927,283
Comic Relief	**21**	**959,080**	5	102,925
Helplu	**-**	**-**	-	-

Apêl Llifogydd Dennis	**-**	**-**	1	12,938
Partneriaeth Natur Leol LNP	**21**	**14,644**	22	603,952
Lleoedd Natur Lleol L4NP	**99**	**9,127,569**	25	5,899,697
Grant Datblygu Helplu	**-**	**-**	-	-
Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector	**-**	**-**	98	6,698,859
Cronfa Argyfwng y Sector Gwirfoddol	**-**	**-**	-	-
Kickstart	**14**	**18,000**	61	303,000
Ymchwil ar Wirfoddoli a Llesiant	**-**	**-**	-	-
NEWID	**2**	**218,704**	2	349,104
Net Zero	**12**	**150,000**	-	-
	548	**26,032,163**	680	28,579,214
Incwm a gwariant arian cyfatebol ychwanegol a ddenwyd drwy incwm o'r cynlluniau grant.	**315**	**3,185,198**	143	2,377,774

Contractau drwy gaffael

Gweinyddodd yr elusen 0 (2022: 0) o gynlluniau contractau drwy gaffael yn ystod y flwyddyn.

Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i unrhyw elusennau, grwpiau gwirfoddol neu fentrau cymdeithasol sydd ar waith yng Nghymru. Mae ein cynnig aelodaeth, a lansiwyd ym mis Medi 2021, wedi parhau i gael derbyniad da gyda'r system wefan newydd ar gyfer aelodaeth yn gweithio'n dda ar gyfer adnewyddu a cheisiadau aelodaeth newydd. Gwnaethom gyflwyno nifer o ddigwyddiadau yn arbennig ar gyfer aelodau yn ystod 2022/23 gan gynnwys ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu ag aelodau ar yr argyfwng costau byw drwy gasglu a dadansoddi adborth ar heriau allweddol a threfnu sesiynau rhithwir pwrpasol i fynd i'r afael â'r heriau hyn.



Adolygiad ariannol 2022/23

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CGGC gynhyrchu cyfanswm incwm gweithredu o £35 miliwn. Prif ffynonellau cyllido'r elusen yw cyllid grant a benthyciad gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, Comic Relief a chyllidwyr eraill i gefnogi ei weithgareddau craidd, gwaith prosiect penodol a chymorth parhaus i'r sector gwirfoddol. Caiff cyllid uniongyrchol hefyd ei gynhyrchu drwy ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer ei aelodau, gan gynnwys hyfforddiant, cyhoeddiadau a chynadleddau.

Rhennir yr incwm hwn, ynghyd â'r gwariant yr eir iddo, rhwng gweithgareddau anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol yr elusen er mwyn helpu i roi darlun clir o'r sefyllfa'n ymarferol. Cefnogir hyn ymhellach gan y naratif isod:

Dadansoddiad o sefyllfa ariannol gyfunol CGGC

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £
Incwm gweithredu	3,350,366	31,162,854	34,513,220
Costau gweithredu	(2,989,603)	(30,241,036)	(33,230,639)
Canlyniadau gweithredu	**360,763**	**921,818**	**1,282,581**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	78,228	(78,228)	-
Incwm buddsoddi	243,492	259,247	502,739
Enillion ar ôl ailbrisio buddsoddiadau	(12,793)	-	(12,793)
Sefyllfa ariannol cyn addasiadau pensiwn	**669,690**	**1,102,837**	**1,772,527**
Addasiadau pensiwn *	7,030,000	-	7,030,000
Ased heb ei gydnabod	(7,160,000)	-	(7,160,000)
Sefyllfa derfynol	**539,690**	**1,102,837**	**1,642,527**
Balansau a ddygwyd ymlaen	9,101,608	5,405,866	14,507,474
Addasiad o'r flwyddyn gynt	(1,180,000)	-	(1,180,000)
Balansau a gariwyd ymlaen	8,461,298	6,508,703	14,970,001

*Mae swm o £130,000 o'r addasiad pensiwn o fewn incwm arall ar hyn o bryd (£50 mil) ac yn gwrthbwyso costau'r cyflogau (£80 mil).

Gweithgarwch anghyfyngedig

Mae'r enillion gweithredu net o £670 mil a adroddir ar weithgarwch anghyfyngedig yn cynnwys yr addasiad pensiwn uchod o £130 mil.

Cyfanswm y cyllid anghyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023 oedd £8.5 miliwn. O hyn, mae'r Bwrdd wedi dynodi £3.10 miliwn ar gyfer cronfa eiddo, costau pontio'r cynllun pensiwn, y costau a ragwelir o gau prosiectau Ewropeaidd, costau i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd parhaus yr elusen a chostau dylunio cam 2 y datblygiad sefydliadol, sy'n gadael cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig o £5.4 mil. Nid yw'r cronfeydd hyn yn cynnwys rhwymedigaeth nac ased pensiwn, oherwydd gall CGGC ddim ond cydnabod swm y gellir ei adennill. Mae strategaeth ariannol bwyllog a gofalus yn cael ei dilyn i sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig yr elusen yn cael eu diogelu i gefnogi cynaliadwyedd parhaus y mudiad – ac mae rheoli'r cronfeydd rhydd yn erbyn symudiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn her.

Gweithgarwch cyfyngedig

Mae'r holl brosiectau cyfyngedig yn cael eu cyllido'n llawn. Mae'r symudiad cadarnhaol o £1.1 miliwn yn cynrychioli'r symudiad net yn y flwyddyn yn erbyn y cronfeydd sydd gan CGGC ar weithgarwch benthyciadau o ran CIF 1, CIF 2, Asda a chynlluniau benthyciadau Gwydnwch. Mae'r prif gynnydd y flwyddyn hon wedi dod yn sgil rhyddhau swm sylweddol o incwm i gronfeydd cyfyngedig mewn perthynas ag ad-dalu benthyciadau o fewn y cynllun benthyciadau Gwydnwch.

Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023 oedd £6.5 miliwn, sy'n cynrychioli arian a dyledion heb eu talu ar gyllid a ddyfarnwyd gan gynlluniau benthyca amrywiol, net unrhyw ddarpariaethau ar gyfer dyled goll. Yn unol â strategaeth ariannol CGGC, mae gwariant ar bob prosiect cyfredol yn cael ei fonitro a'i reoli'n ofalus er mwyn sicrhau nad oes colledion yn codi ar weithgarwch cyfyngedig sy'n cael ei gyllido'n llawn.

Gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'i ymddiriedolwyr gwirfoddol, mae 84 o unigolion a chanddynt sgiliau a phrofiad perthnasol yn gwasanaethu fel aelodau gwirfoddol o'r byrddau prosiect a'r panel benthyciadau ac yn cynorthwyo CGGC drwy ddarparu arbenigedd ar wahanol gynlluniau grant neu gynllunio gwahanol agweddau ar ei waith.

Polisi grantiau a chyllido

Mae'r ymddiriedolwyr yn hysbysebu pob cynllun grant a chyllido ac yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau cymwys. Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol ac argymhellion a wneir gan y byrddau prosiect a'r panel benthyciadau, a benodir gan y bwrdd a'u cadeirio gan aelodau bwrdd, gan gyflwyno trawstoriad eang o arbenigedd. Cedwir at godau ymddygiad llym, gan gynnwys cofrestru buddiannau. Cyhoeddir yr holl ddyfarniadau'n gyhoeddus.

Polisi buddsoddi

Mae'r ymddiriedolwyr yn buddsoddi'n bennaf mewn adneuon banc y farchnad arian, ond hefyd mewn rhai buddsoddiadau llog sefydlog, gyda'r nod o sicrhau enillion rhesymol gyda chyn lleied â phosibl o risg.

Polisi cronfeydd

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gosod polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd gael eu cadw ar lefel sy'n sicrhau y gall gweithgarwch craidd CGGC barhau pe bai cyllidwr mawr yn lleihau ei gyllid neu'n ei dynnu'n ôl, a bod cyfran o'r cronfeydd ar gael ar ffurf y gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried mai cronfeydd y gellid eu gwireddu'n rhwydd yw'r symiau y gellid eu troi'n arian parod yn hawdd pe bai angen gwneud hynny. Yn ôl yr ymddiriedolwyr, cronfeydd y gellir cael gafael arnynt yn hawdd yw'r swm o gyllid y gellir ei droi'n arian parod yn hawdd pe bai'r angen yn codi. Mae cyfrifo lefel ofynnol y cronfeydd yn rhan annatod o gylchred gynllunio, cyllidebu a rhagweld CGGC.

Mae'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â phob ffrwd incwm a gwariant yn wahanol i'r swm a neilltuwyd; lefel y gweithgarwch arfaethedig; ac ymrwymiadau CGGC.

Mae'r ymddiriedolwyr yn asesu ac yn adolygu'r polisi cronfeydd yn ystod y flwyddyn. Maen nhw'n trafod y cronfeydd y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd, ymrwymiadau CGGC a gwerth buddsoddiadau ar y farchnad. Caiff y prif risgiau i'r incwm a gwariant eu hamlygu a chyfrifir canlyniadau ariannol posibl symudiadau niweidiol. Mae'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau y cedwir lefel ddigonol o gronfeydd y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd. Mae gan yr ymddiriedolwyr gronfeydd anghyfyngedig dynodedig, gwerth cyfanswm o £3.1 miliwn, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf.

Gellir gweld manylion y cronfeydd anghyfyngedig sydd gan yr elusen yn nodyn 17 y cyfrifon.

Yr ymddiriedolwyr a chynghorwyr yr elusen

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ymddiriedolwyr a'r cynghorwyr eraill a wasanaethodd yr elusen yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â manylion gweinyddol eraill ynghylch yr elusen, ar dudalen 32 yr Adroddiad Blynyddol uchod.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith cwmnïau yn gofyn i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r elusen a'r adnoddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae angen i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- Datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw amrywiadau perthnasol sydd wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau ar y sail honno

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan yr elusen ac am uniondeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Archwilydd

Cyflwynwyd penderfyniad ynghylch penodi'r archwilwyr, Bevan Buckland LLP, i'r aelodau yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019, yn unol ag adran 384 Deddf Cwmnïau 2006. Roedd y penodiad am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd bellach. Cyflwynwyd penderfyniad i ymestyn y penodiad presennol am ddwy flynedd bellach i'r aelodau yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022.

DRWY ORCHYMYN Y BWRDD

T. Lewis

Tracey Lewis
Ysgrifennydd y Cwmni

20 Medi 2023

CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT

DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Datganiad Cyfunol o weithgareddau ariannol

INCWM

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2023 £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 (fel yr ailddatganwyd) £
Incwm o weithgareddau Masnachu:					
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**747,199**	**17,509**	**764,708**	738,459
Incwm o fuddsoddiadau	4	**243,492**	**259,247**	**502,739**	243,259
Incwm o weithgareddau Elusennol:					
Grantiau derbyniadwy	5	**1,712,405**	**31,145,345**	**32,857,750**	35,706,000
Incwm arall	5	**158,845**	**-**	**158,845**	63,409
Gwariant wedi'i adennill		**731,917**	**-**	**731,917**	896,763
Elw o Werthu Eiddo	5	**-**	**-**	**-**	1,362,669
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**3,593,858**	**31,422,101**	**35,015,959**	39,010,559
GWARIANT					
Costau cynhyrchu cronfeydd:					
Gwariant ar godi arian	9	**627,672**	**-**	**627,672**	558,602
Gwariant ar weithgareddau elusennol	9	**2,361,931**	**30,241,036**	**32,602,967**	34,955,118
Cyfanswm gwariant		**2,989,603**	**30,241,036**	**33,230,639**	35,513,720
Incwm Net/(gwariant)		**604,255**	**1,181,065**	**1,785,320**	3,496,839
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		**78,228**	**(78,228)**	**-**	-
Enillion actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**7,030,000**	**-**	**7,030,000**	4,610,000
Ased heb ei gydnabod		**(7,160,000)**	**-**	**(7,160,000)**	-
(Colledion) ar ailbrisio buddsoddiadau		**(12,793)**	**-**	**(12,793)**	(5,444)
Symudiad net mewn cronfeydd		**539,690**	**1,102,837**	**1,642,527**	8,101,395
Balans a ddygwyd ymlaen		**7,921,608**	**5,405,866**	**13,327,474**	6,406,079
Addasiad o'r flwyddyn gynt	26	**-**	**-**	**-**	(1,180,000)
Balans a gariwyd ymlaen		**8,461,298**	**6,508,703**	**14,970,001**	13,327,474

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus. Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys £3,070,251 (2022: £3,053,547) o gronfeydd dynodedig a chynaliadwy (gweler nodyn 17).

Cyfrif incwm a gwariant y grŵp

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Incwm		**3,350,366**	**31,162,854**	**34,513,220**	38,767,300
Costau gweithredu	9	**(2,989,603)**	**(30,241,036)**	**(33,230,639)**	(35,513,720)
		360,763	**921,818**	**1,282,581**	3,253,580
Incwm buddsoddiad	4	**243,492**	**259,247**	**502,739**	243,259
Incwm net		**604,255**	**1,181,065**	**1,785,320**	3,496,839

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.

Mantolen Gyfunol

	Nodyn	2023 £	2022 (fel yr ailddatganwyd) £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau diriaethol	12	**277,781**	308,966
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	13	**79,254**	92,046
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	**12,324,385**	7,905,904
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	14	**5,060,601**	5,053,829
Arian yn y banc		**13,609,831**	20,251,220
		31,074,071	33,302,999
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	**(8,885,777)**	(11,909,000)
Asedau cyfredol net		**22,188,294**	21,393,999
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**22,466,075**	21,702,965
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	**(7,496,074)**	(8,375,491)
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	23	**-**	-
Asedau net		**14,970,001**	13,327,474
CRONFEYDD			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	17	**8,461,298**	7,921,608
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**3,260,044**	3,183,377
Gwarged - arall		**3,248,659**	2,222,489
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	18	**6,508,703**	5,405,866
CYFANSWM CRONFEYDD		**14,970,001**	13,327,474

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 20 Medi 2023 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen yr Elusen

	Nodyn	2023 £	2022 (fel yr ailddatganwyd) £
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	12	**277,781**	308,966
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	13	**79,257**	92,049
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	**12,241,008**	8,922,285
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	14	**5,060,601**	4,081,976
Arian yn y banc		**13,422,067**	20,023,024
		30,802,933	33,119,334
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	**(8,779,920)**	(11,806,710)
Asedau cyfredol net		**22,023,013**	21,312,624
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**22,300,794**	21,621,590
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	**(7,496,074)**	(8,375,491)
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	23	**-**	-
Asedau net		**14,804,720**	13,246,099
CRONFEYDD			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	17	**8,296,017**	7,840,233
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**3,260,044**	2,145,385
Gwarged - arall		**3,248,659**	3,260,481
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	18	**6,508,703**	5,405,866
CYFANSWM CRONFEYDD		**14,804,720**	13,246,099

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 20 Medi 2023 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

Dr Neil Wooding CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o lif arian y grŵp

	2023 £	2022 £
Llifau arian o weithgareddau gweithredu		
Gwariant net ar gyfer y cyfnod adrodd	**1,785,320**	3,496,839
Addasiadau ar gyfer:		
Costau dibrisiant	**31,153**	2,595
(Elw) ar waredu asedau diriaethol sefydlog	**-**	(1,370,000)
Llog a dderbyniwyd	**502,739**	243,259
Gostyngiad (cynnydd) mewn dyledwyr	**(4,425,254)**	412,815
Gostyngiad/mewn credydwyr	**(3,902,640)**	(4,058,244)
Symudiad anariannol parthed addasiad Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio	**(130,000)**	80,000
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredu	**(7,924,002)**	(1,192,736)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi:		
Enillion a dderbyniwyd o werthiant eiddo	**-**	1,730,000
Prynu gosodiadau a ffitiadau	**-**	(311,561)
Ailddosbarthiad ased diriaethol sefydlog	32	-
Llog a dderbyniwyd	**(502,739)**	(243,259)
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	**(502,739)**	1,175,180
Newid mewn arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod adrodd	**(6,641,389)**	(17,556)
Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	**20,251,220**	20,268,776
Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**13,609,831**	20,251,220

Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig wedi'i hymgorffori yn y Deyrnas Unedig. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF

Nod yr elusen yw cyflwyno gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi gwirfoddoli, llywodraethu, cyllido a diogelu; a hyrwyddo a chefnogi cyfraniad y trydydd sector at feysydd polisi pwysig.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian swyddogol y grŵp, a'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

1. Polisïau cyfrifyddu

Dyma'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd trwy gynnwys buddsoddiadau asedau sefydlog ar werth y farchnad. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n galw amheuaeth ynghylch gallu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i barhau fel busnes gweithredol.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau" (Elusennau SORP FRS102) a Deddf Cwmnïau 2006, ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (y DU a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Cwmni (gweler nodyn 2).

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn ymgorffori datganiadau ariannol yr Elusen a holl ymgymeriadau'r grŵp. Gan fod Datganiad cyfunol o Weithgareddau Ariannol a chyfrif incwm a gwariant yn cael ei gyhoeddi, mae Datganiad ar wahân o Weithgareddau Ariannol y rhiant-gwmni yn cael ei hepgor o ddatganiadau ariannol y grŵp drwy rinwedd adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Busnes Gweithredol

Mae'r grŵp a'r elusen yn bodloni eu gofynion cyfalaf gwaith dyddiol drwy eu cyfleusterau banc. Mae'r cyflyrau economaidd cyfredol yn parhau i greu ansicrwydd. Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sefyllfa fasnachu'r cwmni at y dyfodol, ac yn seiliedig ar ganlyniadau masnachu gwirioneddol ers diwedd y flwyddyn, maent yn hyderus bod modd defnyddio'r egwyddor busnes gweithredol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Cyfrifyddu cronfeydd

Defnyddir cronfeydd cyfyngedig at ddibenion penodol a osodir gan y rhoddwr. Bydd y cyfryw ddibenion yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y mudiad. Codir gwariant at y dibenion hynny ar y gronfa, ynghyd â dyraniad teg o orbenion a chostau cefnogi.

Rhoddion neu adnoddau eraill sy'n dod i mewn a geir neu a gynhyrchir i'w gwario ar amcanion cyffredinol yr elusen yw cronfeydd anghyfyngedig.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u dynodi at ddibenion penodol gan yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer gwaith angenrheidiol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau yn barhaus, ond sy'n methu â bodloni meini prawf llym y rhwymedigaeth gontractiol a osodir yn FRS102.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Incwm a gwaddolion

RHODDION AC ANRHEGION

Cynhwysir yr holl roddion ac anrhegion ariannol yn llawn yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy, a bwrw nad yw'r rhoddwr wedi gosod cyfyngiadau ar amseriad y gwariant perthnasol, ac os felly oedir cydnabyddiaeth hyd nes y mae'r rhag-amod wedi'i fodloni.

GRANTIAU DERBYNIADWY

Cynhwysir grantiau refeniw fel adnoddau sy'n dod i mewn yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo a bwrw bod amodau i'w derbyn wedi'u bodloni.

Cynhwysir grantiau ar gyfer cyllid craidd fel incwm gwirfoddol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Cynhwysir grantiau i brynu asedau sefydlog i adnoddau cyfyngedig sy'n dod i mewn yn y cyfnod y cododd y gwariant ynddo os yw'r amodau i'w derbyn wedi'u bodloni. Cynhwysir dibrisiad ar yr asedau sefydlog a brynwyd gyda'r cyfryw grantiau yn y gronfa gyfyngedig.

INCWM BUDDSODDIADAU

Cyfrifir am incwm buddsoddi ar sail croniadau. Daw'r incwm hwn o ddifidendau cyfranddaliadau, llog banc a llog o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

INCWM MASNACHU

Cyfrifir am incwm buddsoddi ar sail croniadau. Mae'r incwm hwn yn cynnwys hyfforddiant allanol a ddarperir, lesau tenantiaid, biwro'r gyflogres ac aelodaeth.

INCWM ARALL

Cynhwysir pob incwm arall yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y mae'r incwm yn perthyn iddo a bwrw bod gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm. Ni chynhwysir cyllid cyfatebol yn y cyfrifon hyn ond cyfeirir at y swm yn adroddiad yr ymddiriedolwyr a nodyn 8.

Gwariant

GRANTIAU TALADWY

Cynhwysir grantiau taladwy yn y cyfnod pan fodlonir yr amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth y taliad grant neu, pan nad oes amodau perfformiad, pan gyfyd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol.

GWARIANT ARALL

Cydnabyddir gwariant ar sail gronnol fel y cyfyd rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn llawn, a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n perthyn iddo:

- Costau cynhyrchu cronfeydd yw'r costau sydd ynghlwm wrth ddenu incwm gwirfoddoli a'r costau masnachu i godi arian.
- Gwariant elusennol yw'r costau hynny y mae'r elusen yn mynd iddynt wrth gynnal ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r cyfryw weithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cefnogi.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sydd ynghlwm wrth ateb gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a'r costau archwilio sydd ynghlwm wrth reolaeth strategol yr elusen.
- Dyrannir pob cost rhwng categorïau gwario y SoFA mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Caiff costau sydd ynghlwm wrth weithgaredd penodol eu dyrannu'n uniongyrchol, a chaiff eraill eu dyrannu ar sail briodol.

GWARIANT WEDI'I ADENNILL

Mae gwariant wedi'i adennill yn ymwneud â gorbenion y gellir ailgodi tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys taliadau cyfieithu, meddiannu a defnyddiau traul, hyfforddiant staff mewnol, llogi ystafelloedd a ffioedd rheoli.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN GWEITHREDOL CYFLWYNIADOL

Caiff datganiadau ariannol unigol pob endid grŵp eu cyflwyno yn arian y prif amgylchedd economaidd y mae'r endid yn gweithredu o'i fewn (ei arian gweithredol). At ddiben y datganiadau ariannol cyfunol, mae'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol wedi'u cyflwyno mewn Sterling (£).

ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL A DIBRISIANT

Nodir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei fywyd defnyddiol tybiedig neu, os y delir ef o dan les cyllid, dros gyfnod y les, pa un bynnag yw'r byrraf.

Gosodiadau a ffitiadau – 10 mlynedd

Cyfarpar cyfrifiadurol – 10 mlynedd

Mae'r gost yn cynnwys pris prynu'r ased a'r gwariant a briodolir yn uniongyrchol i gael yr eitem. Caiff ased sefydlog ei anadnabod ar ei warediad neu pan na ddisgwylir unrhyw fuddion economaidd yn y dyfodol o barhau i ddefnyddio'r ased. Pennir yr enillion neu'r colledion sy'n codi o waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng elw gwerthiannau a gwerth cario ymlaen yr ased a chânt eu cydnabod neu eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

Ni chaiff asedau sy'n costio £1,000 neu lai eu trin fel cyfalaf na thraul drwy'r datganiadau o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn y cânt eu prynu.

BUDDSODDIADAU

Cyfrifir buddsoddiadau asedau sefydlog yn unol â'u gwerth marchnadol, fel y'u cofnodir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Caiff symudiadau yn y gwerth marchnadol eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel enillion neu golledion heb eu gwireddu ar asedau buddsoddiadau. Cofnodir incwm sy'n deillio o'r cyfryw asedau fel incwm buddsoddiad yn y flwyddyn y'i derbyniwyd.

Nodir cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn ôl cost namyn darpariaeth.

STOC

Mae Stoc yn ymwneud ag eiddo a gedwir i'w ail-werthu a chaiff ei nodi ar gost y gwerth net ar y llyfrau ar yr amser y caiff ei drosglwyddo o ased diriaethol sefydlog i stoc.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, caiff stoc eu hasesu am amhariad. Os oes amhariad ar eitem o stoc, caiff y stocrestr adnabyddedig ei lleihau i'w phris gwerthu namyn y costau i gwblhau a gwerthu a chaiff tâl amhariad ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled. Pan fydd angen gwrthdroi amhariad, caiff y tâl amhariad ei wrthdroi, hyd at golled wreiddiol yr amhariad, a chaiff ei gydnabod fel credyd yn y cyfrif elwa a cholledion.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Grŵp wedi dewis mabwysiadu Offerynnau Ariannol Sylfaenol FRS 102, Adran 11 a 12 Dyroddiad arall o Offerynnau Ariannol FRS 102 o ran offerynnau ariannol.

Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol eu mesur ar bris trafodiad i gychwyn, gan gynnwys costau trafodiad, ac eithrio'r asedau ariannol hynny a ddosbarthir ar werth teg drwy elw neu golled, a gaiff eu mesur ar werth teg i gychwyn (pris trafodiad heb gynnwys costau trafodiad) oni bai bod y trefniant yn drafodiad cyllidol.

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol dim ond eu gwrthbwyso ar fantolen y Grŵp pan, a dim ond pan, mae hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod y Grŵp yn bwriadu setlo ar sail net, neu realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Mae offerynnau dyled (ar wahân i'r rheini sydd angen eu had-dalu neu eu derbyn o fewn blwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill derbyniadwy a thaladwy, yn cael eu mesur ar werth presennol y llifau arian yn y dyfodol i ddechrau ac yna'n cael eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN PAROD A PHETHAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian parod wrth law ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb os rhoddir dim mwy na 24 awr o rybudd. Pethau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau rhydd iawn sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n hawdd i symiau penodol o arian parod heb lawer o risg o newid eu gwerth.

Yn y datganiad cyfunol o lifau arian parod, dangosir arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod net gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Grŵp.

DYLEDWYR

Caiff dyledwyr tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad, namyn unrhyw amhariad. Caiff benthyciadau derbyniadwy eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

DYLEDWYR MWY NA BLWYDDYN

Mae dyledwyr mwy na blwyddyn yn ymwneud â dyledwyr benthyciadau o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

DYLED DDRWG

Os credir and oes modd adennill unrhyw incwm heb ei gasglu serch eich ymdrechion gorau, caiff ei ddileu fel dyled ddrwg drwy'r cyfrif incwm a gwariant (I&E) fel gostyngiad mewn incwm.

CREDYDWYR

Caiff credydwyr masnachu tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad. Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

BENTHYCIADAU CONSESIYNOL

Benthyciadau consesiynol yw benthyciadau a gyflwynir gan/i'r elusen ar gyfradd llog is na chyfradd gyffredin y farchnad neu ar delerau mwy ffafriol na'r rheini a gynigir gan fenthycwyr masnachol. Fel arfer, caiff benthyciadau o'r fath eu darparu er mwyn cefnogi gweithgareddau elusennol neu i roi cymorth ariannol i unigolion neu fudiadau na fyddai fel arall yn gallu cael credyd fforddiadwy.

Mae'r elusen yn cydnabod benthyciadau consesiynol ar gost, sef swm yr arian parod neu ystyriaeth arall a gaiff ei dalu/dderbyn ar yr adeg y caiff y benthyciad ei wneud, ynghyd ag unrhyw gostau trafodiadau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Caiff y gwahaniaeth rhwng cost y benthyciad a gwerth enwol y benthyciad ei gofnodi fel grant yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff unrhyw golledion amhariad eu cydnabod pan fydd tystiolaeth wrthrychol na fydd yr elusen yn gallu casglu'r holl symiau sy'n ddyledus o dan gytundeb y benthyciad. Cydnabyddir colledion amhariad yn unol ag amodau'r benthyciadau Consesiynol a'u cofnodi yn unol â hyn yn y datganiadau ariannol.

Mae'r elusen yn datgelu swm y benthyciadau consesiynol heb eu casglu, y cyfraddau llog a'r telerau ac amodau eraill, ac unrhyw symiau a gydnabyddir fel grantiau neu golledion amhariad yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Mae'n werth nodi bod FRS 102 yn caniatáu i elusennau ddewis a ydynt eisiau mesur benthyciadau consesiynol ar gost neu werth teg, cyhyd â'u bod yn dilyn eu dull dewisol yn gyson ac yn datgelu'r polisi cyfrifyddu a'i effaith ar y datganiadau ariannol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

BUDDION CYFLOGAETH

Caiff buddion tymor byr cyflogeion a chyfraniadau at gynlluniau cyfrannu diffiniedig eu cydnabod fel treuliau yn y cyfnod y cododd y treuliau hynny.

Mae cost unrhyw hawliau gwyliau nas defnyddiwyd yn cael ei chydnabod ar unwaith fel traul pan mae cwmni'n amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu, a chyfrifir y treuliau ar gyfer yr holl hawliau gwyliau nas defnyddiwyd, fel ag y maent ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â hyn.

Costau pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol

CYNLLUN PENSIWN Â CHYFRANIADAU WEDI'U DIFFINIO

Mae'r Grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu cynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion. Cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau sefydlog i mewn i gynllun y mae ei asedau wedi'u cadw ar wahân mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol. Caiff y cyfraniadau taladwy blynyddol eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Caiff asedau cynllun eu mesur ar werth teg. Caiff rhwymedigaethau cynllun eu mesur ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u gostwng ar gyfraddau bond safon uchel priodol. Cyflwynir y gwarged neu ddiffyg net ar wahân i asedau net eraill ar y fantolen. Caiff gwarged net dim ond ei gydnabod i'r graddau y mae'n adenilladwy, naill ai trwy lai o gyfraniadau i'r cynllun neu drwy ad-daliad ariannol o'r cynllun.

Codir costau gwasanaeth cyfredol a chostau o setliadau a chwtogiadau yn erbyn yr elw gweithredu. Cydnabyddir y llog ar rwymedigaethau'r cynllun a'r llog ar asedau'r cynllun yn yr adran elw neu golled. Adroddir enillion ar asedau cynllun (heb gynnwys incwm llog) ac enillion a cholledion actwaraidd yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

ASEDAU AR BRYDLES

Mae'r Grŵp yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau ar y dechrau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn brydles, neu'n cynnwys prydles, sy'n seiliedig ar sylwedd y trefniant.

ASEDAU LES CYLLID

Caiff prydlesi asedau sy'n sylweddol drosglwyddo'r holl risgiau a buddion o ganlyniad i berchenogaeth eu galw yn brydlesi cyllid.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles fel asedau ar werth teg yr asedau ar brydles neu, os yw hynny'n is, gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Pan na ellir pennu'r gyfradd sydd ymhlyg, defnyddir cyfradd fenthyca gynyddrannol y Grŵp. Mae costau cynyddrannol uniongyrchol, sy'n codi wrth negodi a threfnu'r brydles, wedi'u cynnwys yng nghost yr ased.

Caiff asedau eu dibrisio dros gyfnod byrrach y les a thros fywyd defnyddiol tybiedig yr ased. Caiff asedau eu hasesu am amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r cytundeb. Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng ad-daliad cyfalaf a thâl cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, i gynhyrchu cyfradd tâl gyson ar falans yr ad-daliadau cyfalaf heb eu casglu.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ASEDAU GWEITHREDU AR BRYDLES

Cyfeirir at brydlesi nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth fel prydlesi gweithredu. Caiff taliadau o dan brydlesi gweithredu eu codi ar y cyfrif elw a cholled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

CYMHELLION PRYDLES

Mae cymhellion a dderbynnir i rwymo i brydles gyllid yn lleihau gwerth teg yr ased a chânt eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer gwerth presennol taliadau prydles lleiaf.

Caiff cymhellion a dderbynnir i rwymo i brydles weithredu eu credydu i'r cyfrif elw a cholled, i leihau costau, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

TRETHIANT

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a'r prif ffynonellau o ansicrwydd wrth amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i reolwyr wneud rhagamcanion a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ac asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau a adroddir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny.

Ym marn y cyfarwyddwr, dyma'r dyfarniadau beirniadol sydd wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn natganiadau ariannol y Grŵp:

MAE'R DYFARNIADAU ALLWEDDOL A WNAED GAN REOLWYR YN YMWNEUD Â'R CANLYNOL:

1. Y gallu i adennill o ddyledwyr, a digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.
2. Amcangyfrif bywydau defnyddiol a gwerth gweddilliol asedau sefydlog, er mwyn cyfrifo dibrisiant a godir.
3. Y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio - Mae'r rheolwyr wedi ystyried yn ofalus i ba raddau y dylai ased pensiwn gael ei gydnabod o dan y safonau cyfrifyddu, sy'n gofyn i endid gyfyngu'r mesuriad o ased net â budd diffiniedig i'r gwarged isaf yn y cynllun â buddion wedi'u diffinio a therfyn uchaf yr ased, a ddiffinnir fel gwerth presennol y buddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau i gyfraniadau yn y dyfodol. O dan IFRIC 14, mae ad-daliad ar gael i endid os oes gan yr endid hawl ddiamod i gael ad-daliad. Mae'r rheolwyr wedi cael cyngor i ddeall yr amgylchiadau lle na all unrhyw asedau gwarged gael eu had-dalu i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ac wedi dod i'r canlyniad nad oes gan CGGC yr hawl ddiamod i gael ad-daliad, felly mae'r gydnabyddiaeth o'r ased pensiwn wedi ei chyfyngu i £dim yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

3. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfyngedig	**Cronfeydd Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cronfeydd 2023**	Cyfanswm Cronfeydd 2022
	£	**£**	**£**	£
Hyfforddiant a chyhoeddusrwydd	**630,046**	**17,509**	**647,555**	654,684
Cyfarfodydd a thenantiaid	**50,425**	**-**	**50,425**	40,681
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	**66,728**	**-**	**66,728**	43,094
	747,199	**17,509**	**764,708**	738,459

4. Incwm o Fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig	**Cronfeydd Cyfyngedig**	**Cyfanswm Cronfeydd 2023**	Cyfanswm Cronfeydd 2022
	£	**£**	**£**	£
Llog ar adnau banc	**238,022**	**259,247**	**497,269**	237,789
Incwm buddsoddiad	**5,470**	**-**	**5,470**	5,470
	243,492	**259,247**	**502,739**	243,259

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

5. Grantiau derbyniadwy

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2023	Cyfanswm Cronfeydd 2022
	£	£	£	£
Prifysgol Caerdydd	-	**19,902**	**19,902**	17,887
Sefydliad Cymorth i Elusennau	**43,672**	-	**43,672**	83,781
Comic Relief	**63,000**	**959,080**	**1,022,080**	167,925
Adran Gwaith a Phensiynau	**716**	**18,000**	**18,716**	315,646
GoFundMe (Cronfa Argyfwng Llifogydd Dennis)	-	-	-	12,938
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	-	-	-	117,472
Cymorth Canser Macmillan	-	**10,587**	**10,587**	-
Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol	-	-	-	20,257
Cronfa Treftadaeth Genedlaethol	-	**99,417,**	**99,417**	-
Cyfoeth Naturiol Cymru	-	-	-	710
New Philanthropy NPC	-	-	-	15,107
Prifysgol Northumbria	-	-	-	22,562
Cronfa Buddsoddiad Cymdeithasol ASDA	-	**42,718**	**42,718**	90,015
Chwaraeon Cymru	-	**83,422**	**83,422**	70,718
Cronfa'r Loteri Genedlaethol	-	-	-	5,415
The Wheel	-	**10,422**	**10,422**	22,485
Prifysgol De Cymru	-	**6,512**	**6,512**	6,447
Llywodraeth Cymru	**1,601,516**	**19,027,310**	**20,628,826**	26,607,130
Forwm Cyllidwyr Cymru	-	**326**	**326**	-
CGGC	**3,501**	-	**3,501**	4,376
WEFO	-	**10,867,649**	**10,867,649**	8,125,129
Cyfanswm grantiau derbyniadwy	**1,712,405**	**31,145,345**	**32,857,750**	35,706,000
Incwm Secondiad	**158,845**	-	**158,845**	63,409
Elwa ar werthiant eiddo	-	-	-	1,362,669

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

6. Incwm net

Nodir incwm net ar ôl codi tâl ar gyfer:	**2023**	2022
	£	£
Dibrisiant ar asedau sefydlog a berchnogir	**31,153**	2,595
Taliadau i'r archwiliwr: - ffioedd archwilio	**25,317**	23,872
- gwasanaethau treth	**2,877**	2,276

7. Gwybodaeth ynglŷn ag ymddiriedolwyr a chyflogeion

A) GWYBODAETH YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLWYR

Ni chafodd yr un ymddiriedolwr nac unigolyn â chysylltiad teuluol neu fusnes ag ymddiriedolwyr, daliad yn y flwyddyn, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gan yr elusen na mudiad neu gwmni a reolir gan yr elusen (2022: £Dim).

Ad-dalwyd treuliau teithio chwech ymddiriedolwr i fynychu cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgorau a Phanel Grantiau a ddaeth i gyfanswm o £1,162 yn ystod y flwyddyn (2022: £213).

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-ymddiriedolwyr am wasanaethau proffesiynol yn ystod y flwyddyn (2022: £Dim).

B) GWYBODAETH YNGLŶN Â CHYFLOGEION

	2023	2022
	£	£
Cyflogau	**3,442,064**	3,195,420
Costau nawdd cymdeithasol	**341,606**	305,042
Costau pensiwn ac yswiriant bywyd eraill	**883,786**	1,039,967
	4,667,456	4,540,429

Nifer y cyflogeion yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd 105 (2022: 108).

Mae'r enillion yn cynnwys cyflog ac yswiriant gwladol y cyflogwr ond nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Maent hefyd yn cynnwys taliadau dileu a therfynu swydd a wnaed yn y flwyddyn. Gellir dosbarthu nifer y cyflogeion yr oedd eu henillion am y flwyddyn yn fwy na £60,000 fel a ganlyn:

	2023	2022
£60,000 - £69,999	**2**	2
£70,000 - £79,999	**1**	-
£80,000 - £89,999	**-**	-
£90,000 – £99,999	**1**	1

Cafodd cyfraniadau eu talu at gynllun buddion diffiniedig 3 (2022: 3) o'r cyflogeion y telir cyflog uwch iddynt ac at gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio 1 (2022: 1) cyflogai y telir cyflog uwch iddo.

Mae prif bersonél rheoli'r Elusen yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Ysgrifennydd y Cwmni a'r ymddiriedolwyr. Cyfanswm buddion cyflogeion prif bersonél rheoli'r Elusen oedd £433,752 (2022: £410,389).

C) TALIADAU DILEU A THERFYNU SWYDD

Mae'r ffigur cyflogau yn cynnwys £324,829 o gostau diswyddo a therfynu (2022:£ Dim).

Prif bersonél rheoli'r grŵp yw'r un unigolion â'r rheini sydd gan yr Elusen.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

8. Grantiau taladwy a thaliadau contractau a gafaelwyd

Dyma restr o'r 50 grant mwyaf yn eu crynswth a roddwyd i fudiadau (ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion): Dyfernir yr holl grantiau i fudiadau trydydd sector yng Nghymru:

	2023 £	2022 £
Cyngor Sir Benfro	**887,922**	**275,048**
Cymdeithas Mudiadau gwirfoddol Gwent	**874,352**	**828,865**
Cyngor Gwynedd	**753,375**	**545,278**
Cyngor Sir Fflint	**694,457**	**459,006**
Cymunedau'n Ymlaen Môn Communities Forward	**651,039**	**444,028**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	**543,418**	**286,857**
Cyngor Caerdydd	**503,876**	**231,779**
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	**481,959**	**566,636**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	**466,871**	**-**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	**461,893**	**448,119**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	**420,486**	**171,048**
Byddin yr Iachawdwriaeth	**408,947**	**366,140**
Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy	**388,374**	**244,304**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	**384,540**	**210,963**
Prime Cymru	**379,096**	**469,817**
Cyngor Sir Ynys Môn	**374,734**	**254,795**
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd	**370,067**	**305,759**
Cyngor Sir Ddinbych	**349,214**	**268,299**
Cyngor Dinas Casnewydd	**347,710**	**187,899**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	**343,745**	**365,434**
Cyngor Castell Need Port Talbot	**322,996**	**-**
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	**316,453**	**257,017**
Cyngor Sir Fynwy	**309,748**	**-**
Cyngor bwrdeistref Sirol Conwy	**305,608**	**794,849**
Whitehead-Ross Education and Consulting Ltd	**287,071**	**-**
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful	**285,245**	**228,786**
Cyngor Sir Powys	**282,356**	**-**
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful	**273,432**	**301,949**
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd a Phort Talbot	**262,122**	**257,424**
Llamau Cyf	**257,926**	**-**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfyrddin	**256,995**	**-**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Mantell Gwynedd	**253,234**	**304,726**
Cyngor Bro Morgannwg	**247,343**	**217,578**
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe	**244,241**	**267,904**
YMCA Abertawe	**243,955**	**194,048**
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen	**239,117**	**264,559**
Interlink	**236,127**	**305,544**
Cyngor Sir Ceredigion	**231,647**	**384,088**
Leonard Cheshire Disability	**224,729**	**253,633**
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd	**220,312**	**-**
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	**216,284**	**-**
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	**210,370**	**184,147**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion	**197,765**	**238,366**
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	**197,005**	**240,385**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	**195,054**	**249,774**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	**195,006**	**-**
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	**194,406**	**238,432**
Medrwn Môn Cyf	**190,348**	**237,056**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**189,628**	**175,907**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr	**188,340**	**245,651**
Menter Mon	**-**	**261,970**
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint	**-**	**232,359**
Teams 4 U	**-**	**206,302**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	**-**	**200,754**
Mamau Affrica	**-**	**190,014**
Cwmpas (a elwyd yn Canolfan Gydweithredol Cymru cyn hyn)	**-**	**185,705**
Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch	**-**	**184,496**
Cymorth Cristnogol	**-**	**182,641**
Sgiliau Cyf	**-**	**178,958**
ProMo Cymru	**-**	**172,900**
Cyfanswm y 50 grant mwyaf a dalwyd i sefydliadau	**17,360,668**	**14,767,996**
Cyfanswm grantiau taladwy eraill	**8,671,495**	**13,811,218**
Cyfanswm grantiau a dalwyd i sefydliadau	**26,032,163**	**28,579,214**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Nid yw'r grantiau hyn yn cynnwys £3,185,198 (2022: £2,377,774) o incwm cyllid cyfatebol a gwariant a adlewyrchir yng nghyfrifon y mudiadau a gafodd grantiau.

Dyma fudiadau lle y ceir ymddiriedolwyr cyffredin a/neu le y mae gan ymddiriedolwr o CGGC safle uwch yn y mudiad a dderbyniodd grantiau gan yr Elusen yn ystod y flwyddyn.

Mudiad	Parti Cysylltiedig	Swm £
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Edward Watts	874,352
The Wallich	Lindsay Cordery-Bruce	11,232
Anabledd Cymru	Rhian Davies	13,087
Fare Share Cymru	Simon Harris	12,672
Cyngor Hil Cymru	Menai Owen-Jones	3,501
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru	Rhian Davies	3,501
Mentrau Iaith Cymru	Lowri Jones	3,501
Fforwm Cymru Gyfan (All Wales Forum)	Kate Young	3,501

Nid oedd unrhyw daliadau contractau a gafaelwyd i fudiadau yn 2023 (2022: £Dim). Ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion (2022: dim).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

9. Cyfanswm gwariant

Gwariant elusennol uniongyrchol

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2023 £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 £
Grantiau a Ddyfarnwyd	-	-	26,032,163	26,032,163	28,579,214
Treuliau Eiddo	-	21,087	-	21,087	40,319
Treuliau Cyfarpar Swyddfa	-	-	-	-	1,862
Rhent ac Ardrethi	-	148,233	-	148,233	70,978
Gwres a Golau	-	24,229	-	24,229	8,971
Recriwtio a Staff Dros Dro	124	13,492	7,232	20,848	70,332
Cyflogau ac Argostau	426,944	1,341,595	2,762,426	4,530,965	4,221,698
Teithio, Cynhaliaeth a Lles	549	12,576	22,972	36,097	40,647
Hyfforddiant Staff	96	9,582	13,054	22,732	8,497
Cyfarfodydd a Chynadleddau	73,520	33,346	20,212	127,078	70,945
Cyhoeddusrwydd	4,781	21,879	25,248	51,908	40,922
Postio a Theleffon	149	799	572	1,520	4,305
Costau Hyfforddiant Allanol	16,183	15,984	10,634	42,801	56,355
Deunydd Ysgrifennu	77	580	81	738	2,258
Argraffu	-	-	4,054	4,054	48
Costau Cyhoeddi	106	10,884	4,676	15,666	18,959
Costau Cyfieithu	918	3,761	22,845	27,524	58,837
Llungopïo	-	971	-	971	447
Ymgynghori ac Archwilio	23,828	221,783	357,493	603,104	614,344
Gorbenion Canolog	60,607	69,640	628,152	758,399	922,171
Mân Gostau	1,567	(5,297)	16,460	12,730	44,496
	609,449	1,945,124	29,928,274	32,482,847	34,876,605

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Costau cymorth a ddyrannwyd

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig £	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2023 £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 £
Cyflogau a Chostau Staff	**12,437**	**275,403**	**-**	**287,840**	276,427
Yswiriant a Diogelwch	**-**	**12,908**	**12,508**	**25,416**	24,237
Costau Cyfrifiadurol	**5,071**	**65,148**	**255,633**	**325,852**	231,417
Ffioedd Banc	**715**	**6,532**	**2,136**	**9,383**	9,289
Dibrisiant Eiddo Rhydd-ddaliadol	**-**	**31,153**	**-**	**31,153**	2,595
	18,223	**391,144**	**270,277**	**679,644**	543,965
Costau Llywodraethu					
Ffioedd Archwilio	**-**	**23,872**	**-**	**23,872**	23,872
Arall	**-**	**1,162**	**-**	**1,162**	213
	-	**25,034**	**-**	**25,034**	24,085
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus ar y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol	**-**	**629**	**42,485**	**43,114**	69,065
Cyfanswm gwariant	**627,672**	**2,361,931**	**30,241,036**	**33,230,639**	35,513,720

10. Trethiant

Fel elusen, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'i eithrio rhag treth ar incwm ac enillion i'r graddau y maent yn cael eu defnyddio ar gyfer ei amcanion elusennol. Nid oes taliadau treth wedi'u codi yn yr Elusen.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

11. Ffurfiau cymharol ar gyfer y Datganiad o Weithgareddau

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 £
Incwm o weithgareddau Masnachu:				
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**711,582**	**26,877**	**738,459**
Incwm o fuddsoddiadau	4	**8,584**	**234,675**	**243,259**
Incwm o weithgareddau Elusennol:				
Grantiau derbyniadwy	5	**2,152,740**	**33,553,260**	**35,706,000**
Incwm arall	5	**63,409**	**-**	**63,409**
Gwariant wedi'i adennill		**896,763**	**-**	**896,763**
Elw o werthu eiddo	5	**1,362,669**	**-**	**1,362,669**
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**5,195,747**	**33,814,812**	**39,010,559**
Gwariant				
Costau cynhyrchu cronfeydd:				
Gwariant ar godi arian	9	**558,602**	**-**	**558,602**
Gwariant ar weithgareddau Elusennol	9	**2,197,108**	**32,758,010**	**34,955,118**
Cyfanswm gwariant		**2,755,710**	**32,758,010**	**35,513,720**
Incwm Net		**2,440,037**	**1,056,802**	**3,496,839**
Enillion actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**4,610,000**	**-**	**4,610,000**
Colledion ar ailbrisio buddsoddiadau		**(5,444)**	**-**	**(5,444)**
Symudiad net mewn cronfeydd		**7,044,593**	**1,056,802**	**8,101,395**
Balansau a ddygwyd ymlaen		**2,057,015**	**4,349,064**	**6,406,079**
Addasiad o'r flwyddyn gynt		**(1,180,000)**	**-**	**(1,180,000)**
Balansau a gariwyd ymlaen		**7,921,608**	**5,405,866**	**13,327,474**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

12. Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp ac Elusen	Gosodiadau a Ffitiadau Un Rhodfa'r Gamlas £	 Cyfanswm £
Cost		
Ar 1 Ebrill 2022	311,561	311,561
Ychwanegiadau	-	-
Ailddosbarthu	(32)	(32)
Ar 31 Mawrth 2023	**311,529**	**311,529**
Dibrisiant		
Ar 1 Ebrill 2022	2,595	2,595
Tâl am y flwyddyn	**31,153**	**31,153**
Dibrisiant ar werthiannau	**-**	**-**
Ar 31 Mawrth 2023	**33,748**	**33,748**
Gwerth net ar y llyfrau		
Ar 31 Mawrth 2023	**277,781**	**277,781**
Ar 31 Mawrth 2022	308,966	308,966

Cedwir pob ased sefydlog at ddibenion elusennol uniongyrchol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

13. Buddsoddiadau

Grŵp ac Elusen Buddsoddiadau a restrir	**2023** **Cost** **£**	**2023** **Gwerth marchnadol** **£**	2022 Cost £	2022 Gwerth marchnadol £
44,250 National Westminster Bank 9% SR "A" Cyfranddaliadau Blaenoriaeth heb fod yn gronnus	**50,352**	**58,344**	50,352	67,481
17,000 8¾% Aviva Cyfranddaliadau Blaenoriaeth Cronnus	**19,820**	**20,910**	19,820	24,565
Gwerth marchnadol ar 31 Mawrth	**70,172**	**79,254**	70,172	92,046

Elusen yn unig	**Cwmnïau grŵp** **£**
Ar 31 Mawrth 2022 ac 31 Mawrth 2023	**3**
Gwerth net ar y llyfrau	
Ar 31 Mawrth 2022 ac 31 Mawrth 2023	**3**

Ar 31 Mawrth 2023 roedd y canlynol yn is-gwmnïau a oedd yn eiddo llwyr i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac wedi'u corffori ym Mhrydain Fawr:

	Gweithgareddau
Cynnal Cymru – Sustain Wales Ltd	Buddsoddiadau
Social Investment (Cymru) Limited	Anfasnachol
WCVA Services Limited	Anfasnachol
WCVA Trading Limited	Anfasnachol

Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y bwrdd drosglwyddo'r gweithgarwch benthyciadau yng nghwmni Social Investment (Cymru) Limited i'w riant-gwmni, CGGC. O ganlyniad, mae Social Investment (Cymru) Limited yn segur bellach, ac felly wedi dileu ei ddyled rhyng-gwmni gyda'i riant-gwmni yn ffurfiol. Digwyddodd y trosglwyddiad hwn ar 2 Mawrth 2023.

Roedd cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau a'r cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2023 a'r elw neu'r golled am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw ar gyfer yr is-ymgymeriadau fel a ganlyn:

	Cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau a'r cronfeydd wrth gefn £	Elw/(Colled) £
Cynnal Cymru – Sustain Wales Ltd	165,284	83,906
Social Investment (Cymru) Limited	-	-
WCVA Services Limited	1	-
WCVA Trading Limited	1	-

Caiff pob un o'r is-gwmnïau uchod eu cario yn unol â'r gwerth net ar y llyfrau, sef £3 yn y cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

14. Dyledwyr

	Grŵp		Elusen	
	2023	2022	**2023**	2022
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn	**£**	£	**£**	£
Dyledwyr masnachol	**230,219**	118,348	**146,842**	60,388
Incwm cronedig	**11,599,161**	7,113,131	**11,599,161**	7,113,131
Dyledwyr eraill	**81,672**	146,051	**81,672**	151,051
Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp	**-**	-	**-**	1,135,479
Cynlluniau Benthyg	**413,333**	528,374	**413,333**	462,236
	12,324,385	7,905,904	**12,241,008**	8,922,285

	2023	2022	**2023**	2022
Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	**£**	£	**£**	£
Cynlluniau Benthyg	**5,060,601**	5,053,829	**5,060,601**	4,081,976
	5,060,601	5,053,829	**5,060,601**	4,081,976

Gwneir benthyciadau'r Gronfa Fuddsoddi Cymunedol, Asda a Gwydnwch am gyfnodau yn amrywio o 5 mlynedd i 25 mlynedd ac mae ganddynt gyfradd llog o 2-7% (rhai gyda chyfnod di-log).

	Dygwyd ymlaen 31 Mawrth 2022	**Benthyciadau a roddwyd yn y flwyddyn**	**Llog yn y flwyddyn**	**Swm a ad-dalwyd yn y flwyddyn**	**Symudiad Darpariaeth**	**Cariwyd ymlaen 31 Mawrth 2023**
ELUSEN	**5,582,203**	**1,705,643**	**279,359**	**(2,122,947)**	**(32,820)**	**5,411,438**
GRŴP	**5,582,203**	**1,705,643**	**279,359**	**(2,122,947)**	**(32,820)**	**5,411,438**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

15. Credydwyr

	Grŵp		Elusen	
	2023	2022	**2023**	2022
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	**£**	£	**£**	£
Credydwyr masnachol	**75,177**	161,808	**65,505**	155,494
Trethiant a nawdd cymdeithasol	**160,095**	240,914	**127,619**	212,862
Croniadau ac incwm gohiriedig	**8,650,506**	11,506,278	**8,586,796**	11,438,354
	8,885,778	11,909,000	**8,779,920**	11,806,710

	Grŵp		Elusen	
	2023	2022	**2023**	2022
Symiau sy'n ddyledus ar ôl un blwyddyn	**£**	£	**£**	£
Cronfa Benthyciad Eiddo	**1,000,000**	1,000,000	**1,000,000**	1,000,000
Cronfa Benthyciadau asedau cymunedol	**5,000,000**	5,000,000	**5,000,000**	5,000,000
Darpariaeth les	**52,069**	44,508	**52,069**	44,508
Credydwyr gwytnwch	**1,444,005**	2,330,983	**1,444,005**	2,330,983
	7,496,074	8,375,491	**7,496,074**	8,375,491

Mae dau fenthyciad consesiynol yn ddyledus ar ôl un flynedd yn yr adran credydwyr, sef y Gronfa Benthyciad Eiddo o £1,000,000, sydd i fod i gael ei ad-dalu erbyn 31 Mawrth 2046 ac ar gyfradd llog o 0% a'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol o £5,000,000, sydd i fod i gael ei ad-dalu erbyn 21 Medi 2051 ac ar gyfradd llog o 0%.

16. Cwmni cyfyngedig drwy warant

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfranddaliadau. Mae rhwymedigaeth ei ymddiriedolwyr, sy'n gyfarwyddwyr, yn gyfyngedig. Mae'r cyfyngiad fesul cyfarwyddwr wedi'i gyfyngu i swm nad yw'n fwy na £1 yr aelod. Mae cyfnod cyfyngiad pob cyfarwyddwr wedi'i gyfyngu i'r amser y mae'n aelod neu ymhen blwyddyn wedyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

17. Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd anghyfyngedig

	Balans ar ddechrau'r flwyddyn £	Symudiad net mewn cronfeydd £	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £	Balans ar ddiwedd y flwyddyn £
Cronfeydd Anghyfyngedig Cyffredinol	**4,868,061**	**-**	**(129,466)**	**4,738,595**
Incwm Net/(gwariant)	**-**	**604,255**	**-**	**604,255**
Symudiad yn y ddarpariaeth bensiwn	**-**	**(130,000)**		**(130,000)**
Trosglwyddiad o gronfeydd cyfyngedig	**-**	**-**	**78,228**	**78,228**
Colled ar ailbrisio buddsoddiadau	**-**	**(12,793)**	**-**	**(12,793)**
Cyfraniadau ychwanegol at gronfa pensiwn â buddion wedi'u diffinio	**-**	**-**	**112,762**	**112,762**
Cyfanswm Cronfeydd Cyffredinol	**4,868,061**	**461,462**	**61,524**	**5,391,047**
Cronfeydd Dynodedig				
Eiddo	**2,075,251**	**-**	**-**	**2,075,251**
Cyfraniadau ychwanegol at gronfa pensiwn â buddion wedi'u diffinio	**608,296**	**-**	**(608,296)**	**-**
Gwariant Datblygu Busnes	**300,000**	**-**	**-**	**300,000**
Costau cau/diswyddo Ewropeaidd	**70,000**	**-**	**-**	**70,000**
Pontio i gynllun yr LGPS	**-**	**-**	**475,000**	**475,000**
Datblygu a Dylunio'r mudiad	**-**	**-**	**150,000**	**150,000**
Cronfeydd anghyfyngedig (ac eithrio rhwymedigaeth bensiwn)	**7,921,608**	**461,462**	**78,228**	**8,461,298**
Gwarged pensiwn	**1,180,000**	**-**	**-**	**1,180,000**
Addasiad o'r flwyddyn gynt	**(1,180,000)**	**-**	**-**	**(1,180,000)**
Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig - Grŵp	**7,921,608**	**461,462**	**78,228**	**8,461,298**
Symiau wedi'u cynnwys yn ymwneud â Cynnal Cymru - Sustain Wales Limited	**(81,378)**	**(83,906)**	**-**	**(165,284)**
Buddsoddiad mewn is-gwmnïau	**3**	**-**	**-**	**3**
Cyfanswm Elusen	**7,840,233**	**377,556**	**78,228**	**8,296,017**

	Adnoddau a ddaeth i mewn £	Adnoddau a wariwyd £	Symudiadau mewn cronfeydd £
Cronfeydd cyffredinol	**3,593,858**	**(2,989,603)**	**604,255**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

DIBEN CRONFEYDD DYNODEDIG

EIDDO DYNODEDIG

Mae'r gronfa eiddo wrth gefn hon yn cynnwys yr arian net a dderbyniwyd yn sgil gwerthu tri eiddo. Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i gynhyrchu incwm buddsoddi drwy bortffolio a reolir gan y gronfa yn dechrau yn 2023/24.

GWARIANT DATBLYGU BUSNES DYNODEDIG

Cafodd y gronfa wrth gefn ar gyfer gwariant datblygu busnes ei sefydlu am ei fod yn bwysig bod yr elusen yn cael cymaint â phosibl o incwm ac yn lleihau gwariant cyffredinol lle'n bosibl. Felly, mae datblygu ffrydiau incwm newydd, cryfhau'r rhai sy'n bodoli eisoes a gwella effeithlonrwydd yn flaenoriaeth. Er bod rhywfaint o weithgarwch wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb flynyddol, mae'n ddefnyddiol cadw cronfa wrth gefn ddynodedig i'r diben hwn er mwyn gallu talu costau mentrau mwy o faint neu fentrau mwy hirdymor. Gall y costau hyn gynnwys gwaith ymchwil yn ogystal â datblygu a gweithredu cynlluniau a fydd yn cyfoethogi ac yn gwella cynaliadwyedd cyffredinol CGGC â'r sector wirfoddol.

COSTAU CAU/DISWYDDO EWROPEAIDD DYNODEDIG

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer costau cau a diswyddo Ewropeaidd dynodedig wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod digon o gyllid ar gael pan fydd y prosiectau a gyllidir gan yr UE yn dod i ben yn 2023. Maent yn cynnwys y rhwymedigaethau diswyddo a phensiwn a ragwelir ar yr adeg honno, ynghyd â hyfforddiant i gyflogeion a fydd yn cael eu heffeithio pan ddaw'r prosiect i ben.

PONTIO I'R LGPS (Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL)

Mae'r gronfa pontio i'r LGPS ddynodedig wedi'i sefydlu i sicrhau bod digon o gyllid ar gael tra bod CGGC yn adolygu'r LGPS.

DATBLYGU A DYLUNIO'R MUDIAD

Yn ystod 2022/23, dechreuodd CGGC ar ei gynllun datblygu a dylunio ar gyfer y mudiad. Roedd y cam cyntaf yn ymwneud ag ailddatblygu strwythur ei fudiad, a arweiniodd at leihau nifer y staff. Bydd yr ail gam yn ymwneud ag ymwreiddio'r strwythur newydd; y diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau; adolygu taliadau cydnabyddiaeth, dysgu a datblygu staff ac adolygu systemau a phrosesau. Bydd y gronfa ddynodedig ar gyfer datblygu a dylunio'r mudiad yn darparu cyllid ar gyfer cwmpas a gweithrediad cam 2, a'r gronfa yn cael ei chynyddu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

18. Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd cyfyngedig

	Balans ar 1 Ebrill 2022	Trosglwyddo	Symudiad mewn Cronfeydd wrth gefn		Balans ar 31 Mawrth 2023
			Arian a ddaeth i mewn	Arian a aeth allan	
	£	£	£	£	£
IB ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	804,395	(804,395)	-
IB ESF Dwyrain Cymru	-	-	540,128	(540,128)	-
IB SBGF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	291,523	(291,523)	-
IB SBGF Dwyrain Cymru	-	-	452,551	(452,551)	-
3 SET ESF Gorllewin	-	-	247,982	(247,982)	-
Cynhwysiant Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	5,193,602	(5,193,602)	-
Cynhwysiant Gweithredol Dwyrain Cymru	-	-	836,800	(836,800)	-
Cynhwysiant Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Ieuenctid	-	-	1,725,492	(1,725,492)	-
Cynhwysiant Gweithredol Dwyrain Cymru Ieuenctid	-	-	450,109	(450,109)	-
Grantiau SBGF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	9,665	2,881,569	(2,891,234)	-
Grantiau SBGF Dwyrain Cymru	-	-	628,696	(628,696)	-
Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yng Nghymru	-	-	166,597	(166,597)	-
Cymorth Canser Macmillan	-	-	10,587	(10,587)	-
Gwybodaeth Trydydd Sector	-	-	104,406	(104,406)	-
Erasmus	-	-	10,422	(10,422)	-
Cronfa Cefnogi'r Trydydd Sector	-	-	441,152	(441,152)	-
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	-	326	(326)	-
NEWID	-	-	293,939	(293,939)	
Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion	-	-	99,417	(99,417)	
Chwaraeon BME Cymru	-	-	83,422	(83,422)	-
LNP Cymru	-	-	14,644	(14,644)	-
LP4N	-	-	9,127,569	(9,127,569)	-
Grantiau Bach Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-	-	300,065	(300,065)	-
Gwirfoddoli Cymru	-	-	1,099,331	(1,099,331)	-
Hwb Diogelu	-	-	114,500	(114,500)	-
Presgripsiynu Cymdeithasol	-	-	6,512	(6,512)	-
Brexit – Prifysgol Caerdydd	-	-	19,902	(19,902)	-
Menter Gymdeithasol	-	-	150,000	(150,000)	
Kickstart	-	-	18,000	(18,000)	-
Cymru ac Affrica	-	-	236,438	(236,438)	-
Grant Trethi Tirlenwi	-	-	1,373,964	(1,373,964)	-
Comic Relief	-	-	959,080	(959,080)	-

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Cronfa gallu Partneriaeth	-	-	87,525	(87,525)	-
Trwyddedau CRM CVCs	-	(87,893)	87,893	-	-
Cronfa Gwydnwch	830,381	-	898,077	-	1,728,458
Cynllun Benthyg Asda	542,666	-	52,720	-	595,386
Cronfa Buddsoddi Cymunedol 2	1,953,803	-	81,363	32,862	2,068,028
Cronfa Buddsoddi Cymunedol	2,079,016	-	165,954	(128,139)	2,116,831
Cyfanswm Grŵp	**5,405,866**	**(78,228)**	**34,607,301**	**(33,426,236)**	**6,508,703**
Cyfanswm yr Elusen	**5,405,866**	**(78,228)**	**34,607,301**	**(33,426,236)**	**6,508,703**

Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru, "Cronfa Gwydnwch"

Cafodd y cyllid gwydnwch cychwynnol ei roi gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020/21 gyda'r nod o fynd i'r afael â'r problemau a oedd yn cael eu hwynebu gan y sector oherwydd y pandemig. Roedd y cyllid hwn yn gyfuniad o grantiau a benthyciadau ac mae'r cyllid cyfyngedig hwn sydd ar ôl yn ymwneud â'r gyfran ad-daladwy y mae buddiolwyr yn ei thalu dros gyfnod cytunedig o amser.

Y Gronfa Buddsoddi Cymunedol a Chronfa Buddsoddi Cymunedol 2

Daeth y cyllid ar gyfer y ddau gynllun benthyca hyn o ddau gylch o arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (rhwng 2005 a 2016) drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru. Eu nod oedd mynd i'r afael â'r methiant yn y farchnad i ddarparu cyllid ad-daladwy i'r sector.

Cynllun Benthyca Asda

Cafwyd y cyllid hwn yn sgil cytundeb a wnaethpwyd gyda Social Investment Scotland o ran defnyddio'r arian a gasglwyd gan Asda drwy'r ardoll ar fagiau plastig. Dewiswyd CGGC fel partner gyflenwi'r cynllun benthyca i ddefnyddio arian Cymru. Gwnaeth hwn ategu cynlluniau benthyca'r gronfa buddsoddi cymunedol a oedd eisoes wedi'i sefydlu.

Grŵp

	2023	2022
Cronfeydd cyfyngedig:	**£**	£
Gwarged – yn ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd	**3,260,044**	3,183,377
Gwarged - arall	**3,248,659**	2,222,489
	6,508,703	5,405,866

Elusen

	2023	2022
Cronfeydd cyfyngedig:	**£**	£
Gwarged – yn ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd	**3,260,044**	2,145,385
Gwarged - arall	**3,248,659**	3,260,481
	6,508,703	5,405,866

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Dadansoddiad cymharol o'r symudiadau mewn cronfeydd cyfyngedig

	Balans ar 1 Ebrill 2021	Trosglwyddo	Symudiad mewn Cronfeydd wrth gefn		Balans ar 31 Mawrth 2022
			Arian a ddaeth i mewn	Arian a aeth allan	
	£	£	£	£	£
IB ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	870,487	(870,487)	-
IB ESF Dwyrain Cymru	-	-	519,913	(519,913)	-
IB SBGF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	241,624	(241,624)	-
IB SBGF Dwyrain Cymru	-	-	522,960	(522,960)	-
3 SET ESF Gorllewin	-	-	301,470	(301,470)	-
Cynhwysiant Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	3,534,194	(3,534,194)	-
Cynhwysiant Gweithredol Dwyrain Cymru	-	-	726,875	(726,875)	-
Cynhwysiant Gweithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Ieuenctid	-	-	1,946,669	(1,946,669)	-
Cynhwysiant Gweithredol Dwyrain Cymru Ieuenctid	-	-	457,624	(457,624)	-
Grantiau SBGF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-	-	1,330,545	(1,330,545)	-
Grantiau SBGF Dwyrain Cymru	-	-	188,338	(188,338)	-
Third Sector Knowledge	-	-	76,436	(76,436)	-
Erasmus	-		22,485	(22,485)	
Cronfa Cefnogi'r Trydydd Sector	-	-	241,298	(241,298)	-
- enquiring of management, including obtaining and reviewing supporting documentation, concerning the Group's and Parent charitable company's policies and procedures relating to:
- identifying, evaluating and complying with laws and regulations and whether they were aware of any instances of non-compliance.
- detecting and responding to the risks of fraud and whether they have knowledge of any actual, suspected or alleged fraud.
- the internal controls established to mitigate risks related to fraud or non-compliance with laws and regulations.
- discussing among the engagement team how and where fraud might occur in the Financial Statements and any potential indicators of fraud.
- obtaining an understanding of the legal and regulatory frameworks that the Group and Parent Charitable company operates in, focusing on those laws and regulations that had a direct effect on the Financial Statements or that had a fundamental effect on the operations of the Group and Parent Charitable company, The key laws and regulations we considered in this context included the UK Companies Act and relevant tax legislation.

Audit response to risks identified

In addition to the above, our procedures to respond to risks identified included the following:

- reviewing the financial statement disclosures and testing to supporting documentation to assess compliance with relevant laws and regulations.
- enquiring of management concerning actual and potential litigation and claims; performing analytical procedures to identify any unusual or unexpected relationships that may indicate risks of material misstatement due to fraud.
- reading minutes of meetings of those charged with governance and reviewing correspondence with HMRC; and

- in addressing the risk of fraud through management override of controls, testing the appropriateness of journal entries and other adjustments.
- assessing whether the judgements made in making accounting estimates are indicative of a potential bias; and
- evaluating the business rationale of any significant transactions that are unusual or outside the normal course of business.

We also communicated relevant identified laws and regulations and potential fraud risks to all engagement team members and remained alert to any indications of fraud or non-compliance with laws and regulations throughout the audit.

A further description of our responsibilities for the audit of the financial statements is located on the Financial Reporting Council's website at: **[www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]**. This description forms part of our auditor's report.

Use of our report

This report is made solely to the Charity's members, as a body, in accordance with Chapter 3 of Part 16 of the Companies Act 2006. Our audit work has been undertaken so that we might state to the Charity's members those matters we are required to state to them in an auditor's report and for no other purpose. To the fullest extent permitted by law, we do not accept or assume responsibility to anyone other than the Charity's members as a body, for our audit work, for this report, or for the opinions we have formed.

Alison Vickers (Senior Statutory Auditor)
for and on behalf of
Bevan Buckland LLP
Chartered Accountants
And Statutory Auditors
Ground Floor
Cardigan House
Castle Court
Swansea Enterprise Park
Swansea
SA7 9LA

Date: 20 September 2023

Published November 2023

Wales Council for Voluntary Action
Registered charity number 218093
Company limited by guarantee 425299
Registered in Wales

WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION

England & Wales - Charity number 218093

Accounts

Gwneud mwy o wahaniaeth **gyda'n gilydd**

Make a bigger difference **together**

WCVA
CGGC

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2021/22
Annual report and financial statements 2021/22

CYMRAEG | ENGLISH

0300 111 0124 | www.wcva.cymru

Cynnwys

Cyhoeddwyd Tachwedd 2022

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhif Elusen Gofrestredig 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru

Adroddiad blynyddol 2021/22 2

Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr 35

Grantiau a chyllid 38

Aelodau 40

Adolygiad ariannol 41

Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 46

- Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol 46
- Cyfrif incwm a gwariant y grŵp 47
- Mantolen gyfunol 48
- Mantolen yr elusen 49
- Datganiad o lif arian y grŵp 50
- Nodiadau i'r datganiadau ariannol 51

Adroddiad strategol y grŵp 81

Adroddiad yr archwilydd annibynnol 83

Croeso

Helo a chroeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22.

NI FU GWERTH Y SECTOR GWIRFODDOL ERIOED MOR GRYF.

Bu ail flwyddyn y pandemig yn heriol ofnadwy i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru, ond bu'r ymateb gan ein sector yn anhygoel.

A bod yn onest, ni fyddai Cymru wedi dod drwy'r cyfnod hwn heb ymdrechion anhygoel gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddol ar hyd a lled y wlad.

Yn CGGC, gwnaethom bopeth o fewn ein gallu i alluogi'r sector gwirfoddol i ateb heriau COVID-19 ac ymateb i anghenion pobl a chymunedau Cymru, a thu hwnt.

1 Gwnaethom ddosbarthu mwy o gyllid i'r mudiadau sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth mawr i'n cymunedau yn ystod y pandemig.

2 Gwnaethom siarad o blaid mudiadau gwirfoddol pan oedd o bwys ac, o ganlyniad, newidiwyd rhaglenni llywodraethol.

3 Trwy ein sesiynau hyfforddi, ein digwyddiadau a'n gweminarau, gwnaethom gefnogi miloedd o bobl yn llythrennol mewn mudiadau gwirfoddol a rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau oedd eu hangen arnynt i ymateb i'r pandemig.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau ein Hadroddiad Blynyddol.

Ruth Marks MBE
Prif Weithredwr

Peter Davies CBE
Cadeirydd

Ein nodau

Cynllun newid CGGC 2017-22



Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn gryfach ac yn fwy gwydn

Os yw mudiadau gwirfoddol yn mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf y gallant eu gwneud, mae angen iddynt fod yn gryf eu hunain. Yn ail flwyddyn y pandemig, gwnaethom addasu ein gwasanaethau wrth i'r sector droi ei olwg o oroesi i ailgodi ac addasu i'r dirwedd newydd a'r pethau ansicr newydd.

Beth wnaethom ni

1 Gwnaethom ni ddosbarthu £28.9 miliwn mewn cyllid grant a benthyciadau i'r sector, o'i gymharu â £47 miliwn yn 2020/21 ac £14.6 miliwn yn 2019/20. O hwn, roedd £6.7 miliwn yn gyllid a oedd yn ymwneud â COVID-19

2 Gwnaethom ni alluogi dysgu a chymorth rhwng cymheiriaid, a ddarparwyd drwy 178 o ddigwyddiadau, gweminarau a chyrsiau hyfforddi i 4,008 o gyfranogwyr

3 Gwnaethom ni ddarparu amrediad o wybodaeth a gwasanaethau cymorth ar gyfer y sector. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau COVID-19, help gyda chyflawni safonau ansawdd (fel Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a'r Marc Elusen Ddibynadwy) a chymorth gyda llywodraethu, cyllid a diogelu

4 Trwy wefan Gwirfoddoli Cymru, gwnaethom ni helpu i gynorthwyo 6,764 o wirfoddolwyr i gofrestru ar gyfer cyfle gwirfoddoli

Dde: Rebecca Evans AS yn ymweld â Llys yr Esgob, Abergwili i weld un o'r prosiectau a gyllidwyd gan ein Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ▶

Grantiau a benthyciadau a ddosbarthwyd i'r sector - £28.9 miliwn

£618,567
Grantiau buddsoddiad cymdeithasol

£5,460,053
Cymorth lleol i'r sector

£5,187,905
Lleihau anweithgarwch economaidd

£603,952
Partneriaethau natur lleol

£102,925
Cefnogi a chryfhau gweithredu cymunedol

£462,557
Grantiau amgylcheddol

£5,899,697
Prosiectau cyfalaf i adfer a gwella natur

£6,698,859
Grantiau goroesi a ffynnu COVID-19





£303,000
Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer lleoliadau sector

£927,283
Prosiectau rhwng Cymru ac Affrica

£569,049
Benthyciadau buddsoddiad cymdeithasol

£12,938
Arall

£87,525
Cynnal rhwydweithiau'r sector gwirfoddol

£67,000
Benthyciadau asedau cymunedol

£1,864,849 **Grantiau gwirfoddoli**

Y gwahaniaeth a wnaethom



1 Gwnaeth 96% o ddysgwyr ar ein rhaglen hyfforddi raddio ein cyrsiau fel da neu ardderchog

2 Cawsom werthusiad annibynnol cadarnhaol o'r cynllun peilot ar gyfer Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru. Mewn partneriaeth ag arweinwyr rhanbarthol Cynghorau Gwirfoddol Sirol, llwyddodd CGGC i gyflwyno'r cynllun hwn fel cyfryngwr Comic Relief. Gwnaeth y grantiau Twf Sefydliadau ddyfarnu £240,000 i chwe mudiad ar hyd a lled Cymru ar gyfer prosiect i gynyddu capasiti'r mudiadau, datblygu maes gwaith newydd neu lenwi bwlch mewn sgiliau. Bu llawer o gystadleuaeth am y grant, a derbyniwyd 95 o geisiadau

3 Gwnaeth ein prosiect Catalydd Cymru: Treftadaeth Wydn orffen yn gryf, gyda 23 o fudiadau treftadaeth yn llwyddo i gwblhau'r rhaglen hyfforddi erbyn mis Medi 2021. Gwnaeth chwe mudiad (26% o'r rheini a hyfforddwyd) symud y tu hwnt i gynyddu capasiti i amrywio ffrydiau incwm drwy roi strategaethau cyllido a ddatblygwyd yn ystod yr hyfforddiant ar waith. Erbyn diwedd y rhaglen, gellid priodoli £273,553 o'r incwm a gynhyrchwyd yn uniongyrchol i hyfforddiant Catalydd Cymrucoaching by the end of the programme

◀ **Chwith:** Mae ardal Barrack Hill yn edrych gymaint yn well ar ôl ymyrraeth gan Bartneriaethau Natur Lleol (LNPs) Sir Fynwy a Chasnewydd, rhan o'n prosiect LNP Cymru

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am gynllun peilot Twf Sefydliadol Comic Relief

Cafodd yr adroddiad effaith ar gyfer y cynllun peilot hwn ei ryddhau'r flwyddyn hon, ac mae ei lwyddiant profedig wedi arwain at gylch newydd o gyllid ar gyfer 2022/23.

> 'Er nad hwn yw'r grant mwyaf rydyn ni wedi'i dderbyn, d'oes dim dwywaith nad hwn yw'r un sydd wedi cael yr effaith fwyaf. Mae natur y grant wedi ein galluogi i fuddsoddi yn ein dyfodol, yn hytrach na dim ond ymateb i'r hyn sy'n digwydd ar y pryd.'
>
> **Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru**

> 'Mae grant Comic Relief wedi cael yr arwyddocâd mwyaf pellgyrhaeddol o'r holl grantiau neu gymorth rydyn ni wedi'u derbyn ar gyfer Grow Cardiff. Ni allaf orbwysleisio pwysigrwydd ac effaith eich cymorth ar dwf a chynaliadwyedd ein mudiad.'
>
> **Grow Cardiff**

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein hyfforddiant Catalydd Cymru: Treftadaeth Wydn



> ‘Roedd yr hyfforddwr yn berffaith ar gyfer ein mudiad, yn frwdfrydig a gwybodus iawn.’

> ‘Roeddwn i’n credu bod yr hyn a gawson ni’n wych. Roedd e’n teimlo eu bod yn mynd yr ail filltir i’r hyn roedd gennym ni’r hawl i’w gael. Roedd y tu hwnt i’n disgwyliadau ni’n bendant... i gael y lefel honno o gymorth ymarferol go iawn.’

◀ **Chwith:** Un o gyfranogwyr Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful yn adeiladu dodrefn wedi’u haddasu at ddibenion gwahanol ar gyfer swyddfeydd newydd CGGC, rhan o brosiect cyflogaeth a gyllidwyd gan ein Cronfa Cynhwysiant Gweithredol

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector

‘Heb y grant hwn, rydyn ni’n credu’n gryf na fydden [ni] yn gweithredu nawr o bosibl o ganlyniad i’r amgylchiadau sylweddol ac anodd rydyn ni’n eu hwynebu.’
Hamdden Harlech ac Ardudwy

‘Mae’r cyllid wedi caniatáu i ni ddal ati mewn cyfnod ansicr dros ben pan mae teuluoedd wedi ein hangen fwyaf. Rydyn ni wedi gallu cyflwyno miloedd o sesiynau ar-lein gan gefnogi nid yn unig y plant a’r bobl ifanc ag anableddau, ond hefyd eu brodyr a chwiorydd, rhieni/gofalwyr.

‘Mae eich staff yn glod llwyr i chi. Mae eu brwdfrydedd i hysbysu, i’n helpu ni i ddeall mwy, yn rhagorol.’ **Dilynwch Eich Breuddwydion**

‘Mae’r cyllid yn bwysig tu hwnt o ran ein helpu ni i ddod yn fwy gwydn fel mudiad ac i amrywio ein ffrydiau cyllid.

‘Diolch o galon am agor y gronfa hon! ” Mae’n gronfa ardderchog ac yn gwmws beth sydd ei hangen arnom ni – proses godi arian sy’n ein helpu i amrywio ein ffrydiau ariannol a dod yn fwy gwydn yng ngŵydd sioc yn y dyfodol.’
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein cyngor llywodraethu

‘Diolch am y sesiwn ardderchog y gwnaethoch chi ei chyflwyno, gwnaeth ein helpu ni i ail-werthuso ein ffordd o feddwl a byddwn ni’n gallu gwneud penderfyniadau mewn modd mwy gwybodus.’ **Cynghrair Niwrolegol Cymru**

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein gwasanaethau diogelu

‘Llawer o ddiolch eto am eich cymorth, arbenigedd a chyngor diweddar wrth adolygu ein polisïau a’n harferion diogelu …

‘Mae’r mewnbwn pwyllog a gwybodus rydyn ni wedi’i gael gennych chi hyd yn hyn wedi bod yn amhrisiadwy ac rydyn ni’n falch o fod wedi cael y cymorth pwysig hwn drwy CGGC.’ **Laura Drane, Gentle/Radical**

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein cyrsiau hyfforddi

‘Roedd y cwrs yn ddefnyddiol iawn ac mae wedi rhoi mwy o hyder i mi. Mae gennyf eisoes gynlluniau ar gyfer sut i ddiweddaru a newid ein cyllidebau ar gyfer ceisiadau cyllido a llywodraethu.’

Dysgwr o’n cwrs ‘Rheolaeth Ariannol Elusennau – rheoli costau a chyllidebau’, Ionawr 2022

Astudiaeth achos

The Mentor Ring

DIOLCH I'N CRONFA GWYDNWCH Y TRYDYDD SECTOR, GALLAI 'THE MENTOR RING' ESTYN HELP LLAW.

Bu'n rhaid i 'The Mentor Ring' droi ei holl ddatganiad cenhadaeth ben i waered yn sgil y pandemig, ond gwnaeth cyllid gan Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector (TSRF) eu helpu i nid yn unig goroesi COVID-19 ond hefyd i ehangu eu cyrhaeddiad.

Cenhadaeth 'The Mentor Ring' yw rhoi cymorth ac arweiniad mentora i bobl o bob oed a chefndir, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau sylweddol i gynhwysiant cymdeithasol. Cyn i ddechreuad COVID-19 roi pawb mewn cyfnod clo, eu cyngor i ddefnyddwyr gwasanaethau oedd 'Peidiwch ag ynysu – ewch allan!'

'Nid oedd gennym ni'r amser i wneud cais am gyllid arall, felly gwnaeth TSRF ganiatáu i ni barhau â'n gwasanaethau yn ogystal â rhedeg rhai ar-lein a oedd yn benodol i'r pandemig,' meddai Sujatha Thaladi, Prif Swyddog Gweithredol 'The Mentor Ring'.

'Bu'n rhaid i ni newid sut oedden ni'n cyflwyno ein gwasanaethau, agor cyfrifon Zoom a recriwtio gwirfoddolwyr newydd gan fod rhai yn gwarchod eu hunain. Ond nid yr arian oedd yn bwysig, y peth pwysig oedd dod â thîm ynghyd.'

Gwnaeth cyllid TSRF ganiatáu i 'The Mentor Ring' oroesi a hefyd i estyn allan a threfnu gweithgareddau newydd fel dosbarthiadau ioga ar-lein, sy'n parhau i gael eu cynnal bob dydd. Gwnaeth y cyllid ganiatáu iddynt wneud newidiadau hirdymor i'w model cyflenwi a chyrraedd mwy o bobl pan oedd ei angen mwyaf.

Cynllun grantiau a benthyciadau COVID-19 a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yw Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a ddyluniwyd i gynorthwyo mudiadau gwirfoddol i oroesi a ffynnu yn ystod y pandemig. Yn 2021/22, gwnaethom ddosbarthu £6.7 miliwn o gyllid i 172 o ymgeiswyr llwyddiannus.

'The Mentor Ring' yng Nghanol-fan Gymunedol Butetown

Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn cael eu gwerthfawrogi mwy a rhoddir mwy o ffydd ynddynt

Gwyddom nad yw pobl bob amser yn sylweddoli'r gwerth aruthrol y mae mudiadau gwirfoddoli yn ei gyfrannu at gymunedau ledled Cymru. Y flwyddyn hon roeddem ni eisiau adeiladu ar y sylw newydd y mae mudiadau gwirfoddol wedi'i gael yn sgil rôl bwysig ein sector o helpu pobl i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig.

Yr hyn a wnaethom

1 Gwnaethom gynnal yr Wythnos Elusennau Cymru gyntaf erioed i ddathlu'r elusennau, y mudiadau gwirfoddol, y grwpiau cymunedol a'r gwirfoddolwyr sy'n cyfoethogi bywydau pob un ohonom yma yng Nghymru

2 Gwnaethom hyrwyddo gwerth y sector gwirfoddol i benderfynwyr. Gwnaethom gymryd rhan yn yr Wythnos Gwirfoddolwyr a'r Wythnos Ymddiriedolwyr; mynychodd 78 o bobl ein digwyddiadau ar-lein ar gyfer yr Wythnos Ymddiriedolwyr, sef 'Cryfhau eich llywodraethu' a 'Phwysigrwydd llywodraethu ariannol da'. Gwnaethom gryfhau llais mudiadau gwirfoddol gydag Aelodau o'r Senedd drwy gynnal 'hustyngau sector gwirfoddol' gyda'r tair prif blaid cyn etholiadau 2021. Gwnaethom hefyd gyhoeddi darnau gan bob plaid yn gofyn iddynt amlinellu eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol y sector gwirfoddol

3 Gwnaethom gydweithio â Llywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Arweinyddiaeth Traws-sector Gwirfoddoli. Mae'r grŵp yn nodi adnoddau ac yn llywio datblygiad polisïau er mwyn mwyafu cyfraniad gwirfoddoli yng Nghymru

4 Cyrhaeddodd ein prosiect Ennyn Effaith poblogaidd ei flwyddyn olaf. Wrth iddo ddod i ben, parhaodd y prosiect i gefnogi'r sector yng Nghymru drwy fesur ac arddangos ei effaith, gan hefyd weithio gyda phartneriaid ledled y DU i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gwnaethom gynnal pedwar digwyddiad a dwy weminar, gan ymdrin â phynciau fel 'Arwain ar gyfer effaith', 'Newid mwyaf arwyddocaol' a 'Gweithio gyda gwerthuswyr allanol'. Cyrhaeddodd y prosiect 257 o gyfranogwyr yn ei chwe mis olaf, a chychwynnwyd ar gyfnod o werthuso ym mis Hydref 2021. Dros gyfnod yr holl brosiect, rhwng 2018 a 2021, gwnaethom gynnal 34 o ddigwyddiadau a gweminarau ac ymgysylltu â bron 1000 o gyfranogwyr

5 Gwnaethom barhau i gynnal a chadw a diweddaru Porth Data'r Sector Gwirfoddol er mwyn cyflwyno tystiolaeth gref o'r sector

Gan ddefnyddio Cyllid Cynhwysiant Gweithredol gan CGGC, gwnaeth Leonard Cheshire helpu James gyda chyflogaeth a hunanhyder – gwyliwch y fideo yma!

Astudiaeth achos

Wythnos Elusennau Cymru

GWNAETHOM DREFNU WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU NEWYDD I DDATHLU EFFAITH MUDIADAU GWIRFODDOL A GWIRFODDOLWYR YNG NGHYMRU.

Wedi'i gefnogi gan ITV Cymru, cynhaliwyd ein Hwythnos Elusennau Cymru gyntaf erioed rhwng 15-19 Tachwedd 2021 a'r nod oedd tywynnu golau ar waith gwych mudiadau gwirfoddol o bob math ar hyd a lled Cymru.

Gwnaethom alw ar bobl i roi amlygrwydd i grŵp a oedd yn agos at eu calonnau, i roi arian neu nwyddau iddynt neu i wirfoddoli gyda nhw.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r wythnos i ddangos rhai o'r pethau anhygoel y mae elusennau yn eu gwneud yng Nghymru a chomisiynu cyfres o fideos byr i adrodd eu storïau.

Un stori o'r fath oedd un 'Monumental Welsh Women', sef grŵp dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n ceisio gwneud iawn am y ffaith nad oes unrhyw gerfluniau o fenywod go iawn yng Nghymru.

Teulu Betty Campbell yn y dadorchuddiad o gerflun 'Monumental Welsh Women's yng Nghaerdydd

Ar 29 Medi 2021, gosododd y grŵp gerflun er cof am Betty Campbell, y brifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru. Hon oedd y cerflun gyntaf o fenyw o Gymru a enwyd, ond hon hefyd oedd yr un gyntaf o fenyw ddu Gymreig.

'Roedd 'Monumental Welsh Women' wrth eu boddau yn cymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru,' meddai'r Cyfarwyddwr, Helen Molyneux. 'Mae dathlu'r effaith bwerus y gall gwirfoddolwyr a mudiadau nid-er-elw ei chael, yn enwedig mewn meysydd lle nad oes ffynonellau cyllido ac adnoddau traddodiadol ar gael, mor bwysig, a gobeithio y bydd yn annog pobl eraill i gyflawni prosiectau fel ein un ni.'

Y gwahaniaeth a wnaethom

Gwnaeth ein Hwythnos Elusennau Cymru arwain nifer o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru i gael sylw yn y wasg, ar deledu, ar-lein ac mewn print. Bu ITV Cymru yn ddigon caredig hefyd i bartneru â ni ar yr ymgyrch a thrwy gydol yr wythnos, bu modd i ni roi sylw i'r Groes Goch yng Nghymru, Tir Dewi a 'Follow Your Dreams' ar eu rhaglen 'Wales at Six'.

Yr hyn y gwnaethoch chi ei ddweud am ein digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Ymddiriedolwyr

> 'Roeddwn i eisiau diolch yn benodol i chi a'r tîm am eich ymdrechion i sicrhau y gallwn fynychu heddiw. Am sesiwn dda! Roedd hi'n werth fy amser i ddod. Rhai gwersi ardderchog y gellir eu defnyddio yn ogystal â chadarnhad o rai cysyniadau hefyd.'
>
> **Gareth Davies, Ymddiriedolwr ScoutsCymru**

Dde: CUBE (Cymuned Unedig i Bawb yn Y Barri) yn agoriad 'The Gallery', caffi a gofod digwyddiadau cymunedol ar Broad Street yn y Barri, a gefnogir gan ein Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol ▶

Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn cael mwy o effaith ar lesiant, nawr ac yn y dyfodol

Rydym ni'n credu fod y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn hanfodol i lesiant pobl a chymunedau ar hyd a lled Cymru. Rydym eisiau cefnogi mudiadau i ddod yn well fyth am wella bywydau pobl. Eleni, roedd ein gwaith ar bolisïau a grantiau yn arbennig o bwysig i gyflawni'r nod hwn.

Yr hyn a wnaethom

1 Gwnaethom gyd-gynllunio gweledigaeth deng mlynedd a dyheadau i'r dyfodol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Gwnaeth mwy na 100 o fudiadau rannu eu pryderon a'u dyheadau ar gyfer Cymru. Gwnaethom gyhoeddi'r canfyddiadau yn ein hadroddiad, Dyfodol y Sector Gwirfoddol

2 Gwnaethom lansio ein Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol (CALF) gyda gwerth £67,000 o fenthyciadau ar gael i alluogi mudiadau gwirfoddol i gymryd perchnogaeth o asedau cymunedol. Diolch i'n partneriaeth ag elusen Cynnal Cymru, bu modd i ni gynnig cyfraddau llog llai i fudiadau Cyflog Byw a/neu'r rheini sy'n cynnal cynllun gweithredu sydd ar waith

3 Gwnaethom agor ein cynllun grant Dechrau Busnes Carbon Sero Net, sy'n cynnig cymorth ariannol a thechnegol i helpu mentrau cymdeithasol i gael eu busnesau yn barod i fasnachu, gan hefyd ymwreiddio arferion sy'n ystyriol o'r hinsawdd

4 Gwnaeth ein Cynllun Grant Cymru ac Affrica a'n Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ddyfarnu mwy na £2.25 miliwn rhyngddynt i'r sector gwirfoddol, a dyfarnodd ein Cronfa Cynhwysiant Gweithredol fwy na £5.5 miliwn i fudiadau a phrosiectau sy'n helpu pobl ddifreintiedig yn ôl i gyflogaeth. Caiff y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol ei rheoli gan CGGC, a'i chefnogi gan gyllid o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

5 Bu ein prosiect Partneriaeth Natur Lleol (LNP) Cymru yn gweithio tuag at greu Cymru fwy gwydn a chyfoethog o natur drwy gydweithio â phobl, cymunedau, penderfynwyr a busnesau. Eleni, gwnaeth y prosiect ymdrin â bron 1,500 o ymholiadau, cynnal bron 650 o ddigwyddiadau a gweithgareddau a chefnogi mwy nag 130 o brosiectau ymarferol, gyda bron 450 o gymunedau yn cael budd o'r gweithgareddau hyn. Mae LNP Cymru hefyd wedi bod yn allweddol i ddarparu grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, gan gefnogi 59 o brosiectau ledled Cymru

Astudiaeth achos

Cynyddu nifer y bobl ymhlith cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig sy'n manteisio ar gael y brechlyn

GWNAETH EIN CYLLID BRYS COVID HELPU'R BMHS I GAEL GWYBODAETH AM Y BRECHLYN I GYMUNEDAU DUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG.

Wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru, gwnaeth ein Cronfa Adfer y Sector Gwirfoddol (VSRF) helpu'r mudiad newydd yn Abertawe, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BMHS), gyda'i waith ar gynorthwyo cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig i gael gwybodaeth am frechiadau COVID-19. Gwnaeth cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig ddioddef cyfraddau marwolaeth anghymesurol o uchel drwy gydol y pandemig, a sylwodd Alfred Oyekoya, Cyfarwyddwr BMHS, fod angen 'ymdrechion penodedig i gefnogi pobl o gymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig i gael y brechlyn,' gan gynnwys unigolion a oedd yn 'ddigartref; mudwyr heb eu dogfennu; a'r rheini sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.'

Gwnaeth BMHS gynnal sesiynau Awr Iechyd ar gyfer cymunedau lleol gyda gweithwyr meddygol proffesiynol Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, hyrwyddo uned frechu symudol Imbiwlans y Bwrdd Iechyd a chynnal digwyddiad ar-lein i helpu pobl i fod yn fwy gwybodus am frechiadau COVID-19.

Ers dechrau'r pandemig, mae BMHS wedi ffurfio cydberthnasau newydd ac wedi parhau i adeiladu ar eu gwaith partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol eraill yn ardal Abertawe. Gwnaeth hyn i gyd arwain BMHS at ennill tlws yn y noson wobrwyo ar gyfer Arwyr Cymunedol Di-glod yn Abertawe ym mis Mawrth 2022. Dywedodd Alfred: 'Drwy gyllid CGGC, bu modd i ni gyflwyno mwy na 65 o sesiynau mewn nifer o ieithoedd a oedd yn cynnwys llythrennedd iechyd, addysg iechyd meddwl a sesiynau brechu i'r gymuned.

'Gwnaeth y cyllid ein galluogi i ddal ati i ddadlau dros gydraddoldeb iechyd a'i gwneud hi'n bosibl i gynnig hyfforddiant fel rhan o'n hymdrech i normaleiddio sgyrsiau am iechyd meddwl a gwneud pynciau iechyd meddwl yn fwy perthnasol a hygyrch i bawb.'

◀ **Chwith:** Gwasanaethau Iechyd Meddwl pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BMHS) y tu allan i Imbiwlans Abertawe

Y gwahaniaeth a wnaethom

1 Gwnaethom barhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar lefel uchel. Gwnaethom hwyluso chwe chyfarfod rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â dau gyfarfod i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a gadeiriwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Mewn cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan AS, canmolodd y Gweinidog y sector gwirfoddol am eu 'gwaith anhygoel' yn ystod y pandemig, gan ddweud na fyddai Cymru wedi dod drwyddi heb eu hymdrechion nhw

2 Gwnaethom ymateb i 11 o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru ar bynciau fel y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymgynghoriadau gan Lywodraeth y DU ar bethau fel y Strategaeth Wydnwch Genedlaethol a diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol. Gwnaeth ein gwaith dylanwadu ac ymgysylltu arwain CGGC i gael ei grybwyll 85 o weithiau mewn sesiynau llawn, cyfarfodydd pwyllgor ac adroddiadau llywodraethol Senedd Cymru

3 Cyflwynodd Llywodraeth y DU gynigion i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a fyddai'n tanseilio'r gwaith y mae'r sector gwirfoddol yn ei wneud i gryfhau hawliau dynol, cydraddoldeb a llesiant yng Nghymru. Drwy Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, prosiect a gaiff ei redeg mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru, gwnaethom weithio gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol a'r Gynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol i drefnu ymateb brys i'r ymgynghoriad ffenestr gul. Cydnabu ein gwaith gan Lywodraeth Cymru a gymerodd ran yn y rhan helaeth o'n gweithgareddau, yn helpu i lunio eu hymateb swyddogol eu hunain i'r ymgynghoriad a adleisiodd lawer o'r pwyntiau a godwyd gan y sector gwirfoddol. Gwnaeth Sioned Williams AS a Jane Hutt AS grybwyll y gwaith wrth i'r Senedd fabwysiadu cynnig yn mynegi'r un pryderon dybryd â'r sector. Gwnaeth ein gwaith hefyd fwydo i mewn i ymdrechion ledled y DU i gefnogi pobl i ymhél â'r ymgynghoriad ar y Ddeddf Hawliau Dynol, a aeth ymlaen i dderbyn 12,873 syfrdanol o ymatebion o bob cwr o'r DU

4 Gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ar lafar i bwyllgorau Senedd Cymru ar bynciau fel proffil rhyngwladol Cymru a chraffu ar weinyddiaeth gyhoeddus, ac i Dŷ'r Arglwyddi ar fframweithiau cyffredin ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

5 Bu ein prosiect Helplu Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Age Cymru, i lunio cynllun i alluogi gwirfoddolwyr i ymweld â chartrefi gofal yn ystod y pandemig, a nododd un gwirfoddolwr sut roedd wedi helpu i 'gymryd y baich oddi ar ysgwyddau' staff cartrefi gofal ymroddedig. Gwnaeth Helplu hefyd weithio gyda Chomisiwn Bevan ar lwybr 'gwirfoddoli i yrfa', gan nodi arweinwyr clinigol a oedd â diddordeb mewn datblygu cyfleoedd a llwybrau gwirfoddoli i mewn i yrfaoedd iechyd a gofal, a helpu i gefnogi tri phrosiect peilot ar wirfoddoli mewn gofal diwedd oes

◀ **Chwith:** Gwnaeth gweithio yng ngardd gymunedol Anturiaethau Organig Cwm Cynon fagu hyder pobl ifanc

Astudiaeth achos

Cynllun lleoliad swydd yn rhoi hwb i bobl ifanc

GWNAETHOM GYNORTHWYO ANTURIAETHAU ORGANIG CWM CYNON I GAEL MWY NA PHÂR YCHWANEGOL O DDWYLO DRWY GYNLLUN KICKSTART.

Mae CGGC wedi bod yn cynorthwyo mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i fanteisio ar brosiect yr Adran Gwaith a Phensiynau, Kickstart. Mae'r cynllun yn caniatáu i gyflogwyr wneud cais am gyllid i greu lleoliadau gwaith chwe mis o hyd i bobl ifanc ar Gredyd Cynhwysol neu'r Lwfans Ceisio Gwaith, ac sydd mewn perygl o fod yn bobl ddi-waith hirdymor.

Gwnaethom helpu Anturiaethau Organig Cwm Cynon (CVOA), gardd gymunedol menter gymdeithasol yn Abercynon, i wneud cais llwyddiannus i'r Cynllun Kickstart a rhoi gwaith i bum unigolyn ifanc - a gwnaeth eu cyfranogwyr ifanc ffynnu!

Yn eu lleoliadau, bu'r cyflogeion Kickstart yn ymwneud â phlannu bwyd, cynaeafu, cynnal a chadw cnydau a chynefinoedd, bioamrywiaeth ac adfer ardal yr afon. Gwnaethant hefyd ddysgu sut i ofalu am goed, helpu i adeiladu ardal goginio awyr agored a gweithio gyda grwpiau o blant anabl, yn egluro beth oedd gwahanol offer garddio yn eu gwneud.

Mae'r lleoliadau wedi rhoi mwy o hyder i'r bobl ifanc. Disgrifiodd Janis Werrett, Cyfarwyddwr CVOA, un o'r bobl ifanc, Meg, fel 'person hollol wahanol nawr. Rydyn ni wedi'i chefnogi hi ac mae wedi datblygu ei llais ei hun, i'r graddau ei bod hi eisiau gwneud mecaneg ceir yn y coleg.'

Gwnaeth hefyd siarad am sut roedd y grŵp wedi mynd y tu hwnt i gylch gwaith y lleoliadau Kickstart, yn clirio gardd menyw nad oedd yn gallu gadael ei chartref gan ddefnyddio'r offer a'r sgiliau a ddysgwyd ar eu lleoliad.

Ein nod

Mae CGGC yn fwy cynaliadwy a chyfrifol

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd cynaliadwy sydd hefyd yn ennyn a chefnogi diwylliant o gynaliadwyedd ledled Cymru. Yn ystod 2021/22, ein nod oedd sicrhau bod lleisiau amrywiol a chynhwysol wrth wraidd ein prosesau penderfynu.

Yr hyn a wnaethom

1 Gwnaethom gwblhau'r symud i brif swyddfa newydd yng Nghaerdydd. Gyda swyddfeydd yn y Rhyl ac yn Aberystwyth bellach, rydym yn gweithredu'n gyfan gwbl ar y cwmwl ac yn dilyn model gweithio hybrid hyblyg ar gyfer ein staff, sy'n gallu gweithio ble bynnag a phryd bynnag y dymunant cyhyd â'i fod yn bodloni gofynion eu rôl

2 Gwnaethom weithio gyda'n haelodau i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r blaenoriaethau i'r sector gwirfoddol yn y blynyddoedd i ddod

3 Gwnaethom roi hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) i 97% o'n staff, naill ai drwy hyfforddiant llawn tair awr o hyd neu sesiynau diweddaru awr o hyd

4 Gwnaethom gefnogi staff gyda'n hyrwyddwyr llesiant, ein parth llesiant i staff a thrwy drefnu clybiau ar-lein i leihau ynysu a chysylltu â'n gilydd

5 Gwnaethom gynnal sesiynau 'cwrdd â'r noddwyr' gyda mudiadau gwirfoddol a oedd yn mynd i'r afael â'r ffurfiau amrywiol o wahaniaethu, gan ein helpu ni i gyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol

▼ **Isod:** Samantha Carpenter, ein Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn siarad drwy ein Cynllun Gweithredu EDI gyda'r staff

Y gwahaniaeth a wnaethom

Astudiaeth achos

Datblygu EDI

RYDYM YN SYLWEDDOLI BOD GWAHANIAETHU, RHAGFARN AC ANFANTAIS YN BODOLI YN EIN CYMDEITHAS. GWNAETHOM BARHAU Â'N HYMRWYMIAD I GYFRANNU AT Y GWAITH O HELPU I DDIFA HYN DRWY WEITHIO'N GADARNHAOL I HYRWYDDO CYMDEITHAS FWY CYNHWYSOL.

Gan weithio ar waith a ddechreuodd yn 2020/21, gwnaethom ddal ati â'n hymrwymiad i ddarparu ein holl wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth ar sail deg a chyfartal.

Mae ein grŵp hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) wedi bod yn ganolog i hyn, yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ac yn galluogi staff i ymgysylltu ag ymddiriedolwyr, rhannu syniadau a dylanwadu ar gyfeiriad CGGC ar ein taith EDI.

Gwyddom fod gan y sector gwirfoddol gasgliad amrywiol o brofiadau byw mewn materion sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig o bob cefndir. Yn ystod 2021/22, gwnaethom arwain y gwaith ar hybu ac ymateb i ymgynghoriadau llywodraethol ar gydraddoldebau a hawliau dynol.

Trwy ymgysylltiad staff a gafodd ymateb da, gwnaethom hefyd ddatblygu Cynllun Gweithredu EDI heriol gyda 26 o gamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn olaf, gwnaethom gyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn canolbwyntio ar grwpiau â nodweddion arbennig wrth wneud penderfyniadau, gan ein galluogi i nodi effeithiau cadarnhaol y gellid eu cyflwyno neu eu cynyddu neu effeithiau negyddol y gellid eu lliniaru.

'Mae gwaith arwyddocaol ar draws pob rhan o'n mudiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi caniatáu i ni wirioneddol ddeall ble rydym ni ar ein taith EDI ar hyn o bryd,' meddai Samantha Carpenter, ein Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

'Mae'r gwaith paratoi hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa i allu cyflawni ein cynllun gweithredu heriol ac i gyfrannu at flwyddyn un ein Cynllun Strategol ar gyfer 2022 i 2027 mewn modd ystyrlon.'

Yr hyn y gwnaeth staff ei ddweud am ein hyfforddiant EDI

'Gwnaeth Samantha waith ardderchog yn darparu sesiwn ddiddorol iawn, a oedd yn teimlo'n berthnasol ac yn bwrpasol i'n gwaith ni yma yn CGGC. Mae cael hyfforddiant trylwyr wedi'i gyflwyno gan arbenigwr yn y maes wedi rhoi'r hyder i mi fod gennyf yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion EDI a byddaf yn parhau i ddefnyddio arferion gorau ym mhob agwedd ar fy ngwaith - wrth ryngweithio â chydweithwyr, rhanddeiliaid allanol ac aelodau.'

Ein nod

Mae CGGC yn gwneud defnydd gwell o adnoddau mwy amrywiol

Rydym yn gweithio i amrywio ein sylfaen gyllido, yn gwneud defnydd gwell o ddigidol ac yn hyrwyddo diwylliant o wella'n barhaus a chydweithio ag eraill. Eleni, gwnaethom ganolbwyntio ar ddatblygu ein gwasanaethau digidol a gweithio gydag eraill, gan gynnwys ein partneriaid allweddol, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, er mwyn cyfuno ein harbenigedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yr hyn a wnaethom

1 Gwnaethom gynnal ein fersiwn ar-lein gyntaf o gofod3, digwyddiad blaenllaw CGGC a'r achlysur mwyaf o'i fath i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Cawsom wythnos o weminarau, gweithdai a thrafodaethau a fynychwyd gan fwy na 1,000 o bobl

2 Ar ôl addasu'n gyflym i gyflwyno hyfforddiant a digwyddiadau ar-lein yn 2020, gwnaethom barhau i roi cymorth yn ddigidol tra nad oedd wyneb yn wyneb yn bosibl

3 Erbyn diwedd 2021, roedd ein 'strategaeth gwasanaethau digidol' ar waith yn llawn, a daeth CGGC yn fudiad a oedd yn gyfan gwbl yn y cwmwl

4 Gwnaethom barhau â'n partneriaeth â mudiad Cynnal Cymru, y prif fudiad ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Gyda'n gilydd, gwnaethom ganolbwyntio ar yr economi sylfaenol a sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i ddatblygu polisïau ac arferion

5 Gwnaethom arwain ar waith i ddatblygu'r Hwb Gwybodaeth fel rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ein partneriaeth â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol. Mae'r Hwb yn cynnig adnoddau, hyfforddiant a rhwydweithio ar-lein am ddim i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru

6 Gwnaethom barhau â'n hymrwymiad i ddysgu staff yn barhaus, a chyflwynwyd yr holl gyrsiau hyfforddi staff ar-lein. Gwnaeth ein staff gofnodi 328 o wahanol adegau lle roeddent wedi cyrchu deunyddiau dysgu ar bynciau fel y GDPR, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a marchnata

Y gwahaniaeth a wnaethom

Gwnaethom gydweithio gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ddosbarthu £1.5 miliwn y Gronfa Pwysau'r Gaeaf. Gwnaeth hyn gyllido ymdrechion lleol a helpodd i liniaru'r pwysau ar y GIG drwy ehangu gweithgareddau cyfredol a chreu mwy o gapasiti mewn mudiadau. Canmolodd Gemma Lelliot, Cyfarwyddwr Cymru Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru, rôl CGGC yn hyn, gan ddweud: 'Mae cymorth CGGC yn gyffredinol yn amhrisiadwy, ac rydyn ni'n wirioneddol werthfawrogi'r cysylltiadau a'r ymgysylltiadau rydyn ni'n rhan ohonynt drwy eich cymorth rhagweithiol.'

Yr hyn y gwnaeth ein staff ei ddweud am yr hyfforddiant ar-lein y gwnaethant ei fynychu

> 'Cefais fy siomi ar yr ochr orau gan ba mor ddiddorol oedd y cwrs, yn enwedig gan ystyried ei fod yn cael ei gyflwyno ar-lein. Defnyddiwyd y dechnoleg mewn modd clyfar. Profiad positif iawn ar y cyfan. Rwy'n fwy na pharod i wneud penderfyniadau sylfaenol ar faterion sy'n ymwneud â'r GDPR ac rwy'n gwybod at bwy i droi os byddaf yn wynebu sefyllfa fwy cymhleth.'
>
> **Aelod staff a fynychodd ein hyfforddiant GDPR**

Astudiaeth achos

Caffi Trwsio Cymru

GWNAETH EIN BUDDSODDIAD BACH YNG NGHAFFI TRWSIO CYMRU GYFRANNU AT Y TONNAU MAWR Y MAE'R MUDIAD YN EI WNEUD YNG NGHYMRU.

Mae Caffi Trwsio Cymru wedi mynd o dderbyn grant bychan drwy Gynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS) i gael ei gynnwys yn y Rhaglen newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Yn 2018, cafodd Caffi Trwsio Cymru gyllid gan LDTCS i sefydlu wyth caffi trwsio newydd a hyfforddi gwirfoddolwyr i drwsio eitemau a oedd ar y ffordd i safleoedd tirlenwi, addysgu sgiliau trwsio ac i annog uwchgylchu.

'Ar ôl i ni gael y grant cychwynnol gan CGGC, fe gychwynnodd y busnes o ddifrif!' meddai Phoebe Brown, Cyfarwyddwr Caffi Trwsio Cymru, 'D'yn ni ddim yn bum mlwydd oed eto ac rydyn ni wedi tyfu mor gyflym.'

Bu'r prosiect yn gymaint o lwyddiant fel y dyfarnwyd 'grant Arwyddocad Cenedlaethol' mwy o faint LDTCS i Gaffi Trwsio Cymru i ddatblygu a pheilota technoleg sy'n hwyluso ac yn monitro gwerth trwsio ac ailddefnyddio.

Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen newydd ym mis Mehefin 2021 yn nodi eu hymrwymiadau ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Roedd yn cynnwys yr addewid i gefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio a thrwsio yng nghanol trefi ar hyd a lled Cymru.

'Mae'n grêt gweld eu bod nhw'n bwriadu parhau i gefnogi Caffis Trwsio ac eisiau gweld mwy ohonyn nhw, oherwydd ein nod fel mudiad yw gweld un ym mhob cymuned yng Nghymru,' meddai Phoebe. 'Rydyn ni'n gwybod bod llawer mwy i ddod a ph'un a gaiff y rheini eu cyflwyno gennym ni neu gan fudiadau eraill, mae'n gam go iawn yn y cyfeiriad cywir.'
Caiff LDTCS ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan CGGC mewn partneriaeth â Chynghorau Gwirfoddol Sirol.



Dde: Caffi Trwsio Cymru yn helpu pobl i drwsio cyfarpar electronig fel y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na mynd i safle tirlenwi ▶

Ein cyllid

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad ariannol ar gyfer 2021/22.

YN YSTOD Y FLWYDDYN, GWNAETHOM DDOSBARTHU £28.9 MILIWN MEWN GRANTIAU A BENTHYCIADAU I'R SECTOR GWIRFODDOL. EIN HINCWM OEDD £39 MILIWN A'N GWARIANT OEDD £35.5 MILIWN.

Incwm
£39 miliwn



Incwm cyfyngedig
£33.8 miliwn



Incwm anghyfyngedig
£5.2 miliwn



Gwariant
£35.5 miliwn



- Grantiau i'r sector
- Costau staff (cyflogau, recriwtio, hyfforddiant ac ati)
- Gorbenion (costau'r adeilad, cyfarpar, cyfleustodau ac ati)
- Costau eraill (archwiliadau, ymgynghorwyr, marchnata ac ati)

Aelodau bwrdd CGGC

Llywydd
Michael Sheen

Is-lywyddion
Tom Jones OBE
Margaret Thorne CBE DL

Cadeirydd
Peter Davies CBE

Is-gadeirydd
Fran Targett OBE

Trysorydd
Jonathan Evans
(Ymddiswyddodd 3 Mawrth 2022)
Colin Arnold
(Penodwyd 3 Mawrth 2022)

Ymddiriedolwyr
Steve Brooks
Rocio Cifuentes
(Ymddiswyddodd 3 Mawrth 2022)
Lindsay Cordery-Bruce
Lisa Davies
Rhian Davies
(Penodwyd 18 Tachwedd 2021)
Elizabeth Girling
(Ymddiswyddodd
18 November 2021)
Simon Harris
Chris Lines
Mark Llewellyn
Sara Moseley
(Ymddiswyddodd
18 November 2021)
Menai Owen-Jones
(Penodwyd 18 Tachwedd 2021)
Joe Stockley
Edward Watts MBE DL
Helen Bulkeley (a adnabyddir fel Helen White) (Ymddiswyddodd 18 Tachwedd 2021)
Dr Neil Wooding CBE
(Penodwyd 16 Chwefror 2022)
Kate Young

Sylwedydd
Colin Arnold (rhwng Chwefror 2021 a Mawrth 2022)
(Defigo Finance Ltd)

Ysgrifenyddes
Tracey Lewis

Rhif cofrestru'r cwmni
0425299

Rhif elusen
218093

Swyddfa Gofrestredig:
Un Rhodfa'r Gamlas,
Heol Dumballs,
Caerdydd,
CF10 5BF

Bancwyr
Barclays Bank Plc,
Llys Windsor,
1-3 Plas Windsor,
Caerdydd,
CF10 3BX

Cynghorwyr cyfreithiol
Geldards LLP,
Cwr y Ddinas Rhif 4,
Stryd Tyndall,
Caerdydd,
CF10 4BZ

Hugh James,
Dau Sgwâr Canolog,
Caerdydd,
CF10 1FS

Capital Law,
Adeilad Capital,
Stryd Tyndall,
Caerdydd,
CF10 4AZ

Archwilydd
Bevan Buckland LLP
Llawr Gwaelod,
Cardigan House,
Castle Court,
Parc Menter Abertawe,
Abertawe,
SA7 9LA

Diolch

Hoffai CGGC ddiolch i'n holl aelodau a phartneriaid am eu cefnogaeth y flwyddyn hon, yn ogystal â'r canlynol:

AccountsIQ

ACEVO

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Aimee Parker Consultancy

Arts Factory

Ateb

Barclays Bank PLC

Bevan Buckland LLP

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Carys Mair Communications Cyfathrebu

Catherine Hester

Class Networks

Clear the Fog

Comic Relief

Comisiwn Bevan

Cranfield Trust

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru cyn hyn)

Cyfryngau Digidol Tantrwm

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Cymen

Cynllun iechyd HSF

Chwaraeon Cymru

Darwin Gray

Data Cymru

Data Orchard

Futurice Ltd

GIG Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru

Grow Social Capital CIC

Grŵp Arweinyddiaeth

Traws-sector Gwirfoddoli (VCSLG)

Helplu

Hub Cymru Affrica

Huw Irwin Associates

Iechyd Cyhoeddus Cymru

ITV Cymru Wales

Keegan and Pennykid

Landsker

Legal Education Foundation

Lloyds Bank Foundation

Llywodraeth Cymru

NCVO

Nesta

New Economics Foundation

NHS Charities Together

Nico

Prifysgol Caerdydd

ProMo Cymru

Pugh Computers

Recruit3

Richard Newton Consulting

Russell Todd

Salesforce

Savage and Gray

Sefydliad Siartredig Codi Arian

Social Investment Business

Social Investment Scotland

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)

The Scottish Council for Voluntary Organisations (SCVO)

The Wellbeing Planner

Volunteer Now

Volunteer Scotland

WISERD

Wrigleys Solicitors

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS)

Yr Uned Pobl a Gwaith

Ysgol Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru (WSSPR)

Datganiadau ariannol 2021/22

Yn yr adran hon ceir manylion ein cyfrifon a'n gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 gan gynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, adolygiad a datganiadau ariannol, adroddiad strategol y grŵp, gwybodaeth ynglŷn â'n haelodau, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol.

Adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr 2021/22

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Dogfen lywodraethu

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ('CGGC') yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Ei ddogfennau llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 9 Rhagfyr 1946, a ddiwygiwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2016.

Recriwtio a phenodi Ymddiriedolwyr

Mae erthyglau cymdeithasu CGGC yn darparu ar gyfer Bwrdd sy'n cynnwys dim llai na chwech a dim mwy nag un-ar-bymtheg o ymddiriedolwyr. Caiff hyd at ddeuddeg o ymddiriedolwyr Bwrdd CGGC eu hethol gan Aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chaiff hyd at bedwar aelod eu penodi gan Fwrdd CGGC. Bydd ymddiriedolwyr yn ymadael yn ôl trefn gylchdro, sef y rhai sydd wedi gwasanaethu am dair blynedd yn ddi-dor ar ôl cael eu hethol neu eu hailethol.

Bydd ymddiriedolwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol am dymor pellach o dair blynedd ac ni chaiff yr un ymddiriedolwr fod yn y swydd am fwy na naw mlynedd yn olynol. Gall Bwrdd CGGC gyfethol unrhyw un ar unrhyw adeg i lenwi swydd wag dros dro sy'n codi ar Fwrdd CGGC. Yn dilyn ein proses ethol Ymddiriedolwyr eleni ac etholiad ein haelodau ar gyfer y saith sedd wag ar y Bwrdd, cymeradwyodd ein haelodau benodiad dau ymddiriedolwr newydd ac ailbenodi pum ymddiriedolwr presennol.

Recriwtio Darpar Gadeirydd

Ar ôl wyth mlynedd fel Cadeirydd a chyfanswm o 11 mlynedd ar y Bwrdd, bydd Peter Davies yn camu i lawr o'i swydd fel Cadeirydd CGGC ym mis Tachwedd 2022. Mae Peter wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad strategol CGGC ers 2014 ac fel mudiad rydym yn hynod ddiolchgar iddo am ei gymorth a'i gyfraniadau yn ystod y cyfnod hwn.

Ar ôl chwilio'n eang, cadarn, agored ac yn dryloyw am ein Cadeirydd newydd, proses a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2021 gyda chymorth asiantaeth recriwtio, daethom o hyd i 5 ymgeisydd eithriadol a'u cyfweld. Daeth yr ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol ac roedd ganddynt ystod amrywiol o sgiliau.

Cymeradwywyd Dr Neil Wooding CBE yn unfryd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr i ymuno â'r Bwrdd fel Darpar Gadeirydd. Bydd Neil yn gweithio ochr yn ochr â

Peter hyd nes y bydd Peter yn camu i lawr o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2022.

Mae Neil wedi ymgymryd â nifer o rolau gwirfoddol yn ystod ei yrfa. Mae'n arbenigo mewn datblygu pobl, newid o fewn mudiadau ac amrywiaeth ddynol.

Cynefino a hyfforddi ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cwblhau sesiwn gynefino ac yn cael llawlyfr cynhwysfawr i ymddiriedolwyr sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am eu rôl a'u cyfrifoldebau. Caiff ymddiriedolwyr fynediad at adnoddau ar-lein i'w cefnogi yn eu rôl a darperir hyfforddiant mewnol sy'n ymdrin â meysydd llywodraethu allweddol.

Yn ystod 2021/22, cynhaliwyd nifer o sesiynau canolbwyntiedig ar gyfer ymddiriedolwyr, gan gynnwys hyfforddiant diweddaru ar ddiogelu a buddsoddiad elusennol, yn ogystal â diweddariadau ar wahanol raglenni gwaith.

Rheoli risg

Mae is-bwyllgor Archwilio a Risg CGGC wedi cymeradwyo cofrestr risg gynhwysfawr y mae'n ei hadolygu'n gyson. Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau posibl, yn disgrifio'r camau y mae angen eu cymryd i leihau neu osgoi pob risg, pwy sy'n gyfrifol am gymryd y camau, a'r dyddiadau targed. Mae Cadeirydd yr is-bwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod pob un o'r ymddiriedolwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Swyddi Anrhydeddus

Mae gan CGGC dair swydd anrhydeddus, ac mae'n falch o gael cymorth pobl â diddordeb a phrofiad helaeth yn y sector gwirfoddol.

Mae Llywydd Anrhydeddus CGGC, Michael Sheen yn hyrwyddo CGGC a'r sector bob cyfle a gaiff. Mae Is-lywydd CGGC, Tom Jones OBE yn gweithio i gynnal a datblygu cysylltiadau cymdeithas sifil ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Mae Is-lywydd CGGC, Margaret Thorne CBE DL yn parhau i gefnogi gwaith CGGC gyda phartneriaid lleol.

Strwythur y mudiad

Aelod-fudiad yw CGGC. Mae'r aelodaeth ar gael i elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio. Caiff aelodau eu hannog yn weithredol i lunio ein gwaith a chysylltu â rhwydwaith cyfoethog o bobl o'r un meddylfryd sydd â'r un weledigaeth.

Mae dau is-bwyllgor yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei rôl: Pwyllgor Archwilio a Risg CGGC a Phwyllgor Cyllid CGGC. Cefnogir y Bwrdd hefyd gan nifer o baneli ymgynghori ariannol. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro'r cynlluniau strategol a gweithredol sy'n ganolbwynt ac yn sail i waith CGGC.

Partïon cysylltiedig

Yn ystod 2010/11 sefydlodd yr Elusen grŵp drwy gorffori dau is-gwmni perchnogaeth lwyr, Social Investment (Cymru) Ltd (a ailenwyd o WCVA Investments Ltd ar 24 Hydref 2014) at ddibenion sefydlu cronfa fenthyciadau, a WCVA Services Ltd at ddibenion gweinyddu gwasanaethau benthyca.

Mae Social Investment (Cymru) Ltd yn darparu buddsoddiad cymdeithasol ar gyfer ac ar ran y trydydd sector yng Nghymru. Rydym wrthi'n ystyried creu diben arall i'r cwmni, sef i reoli holl gynnyrch ariannol ad-daladwy CGGC, er mwyn sicrhau bod gan y trydydd sector yng Nghymru ffynhonnell

barhaus i fuddsoddiad ar gael i gefnogi ei uchelgais entrepreneuraidd.

Yn dilyn cwblhad prosiect blaenorol a gyllidwyd gan Ewrop, mae WCVA Services Limited bellach yn segur.

Cafodd trydydd is-gwmni, WCVA Trading Limited, ei gorffori yn ystod 2011/12; nid yw'r cwmni hwn yn weithredol ar hyn o bryd.

Gwnaeth ein pedwerydd is-gwmni, Cynnal Cymru - Sustain Wales (Cynnal Cymru) ymuno â grŵp CGGC ar 1 Ebrill 2018. Cynnal Cymru yw'r elusen genedlaethol dros ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cynnal Cymru hefyd yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant. Cynnal Cymru yw'r prif fudiad ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru. Cenhadaeth Cynnal yw gwneud Cymru'n gymdeithas garbon isel, effeithlon o ran adnoddau, iach, cyfiawn a ffyniannus sy'n un â'r ecosystemau naturiol sy'n ei chefnogi.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'r Cyflog Byw gyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru, cysylltu lleihau carbon â grantiau ac wedi ystyried egwyddorion economi sylfaenol a phartneriaeth gymdeithasol ar draws timau prosiect a pholisi.

Mae Grantiau a Chontractau Caffael a ddyfarnwyd i gyrff lle mae gan yr Ymddiriedolwyr naill ai reolaeth uniongyrchol neu ddylanwad sylweddol wedi'u datgelu yn nodyn 8 y cyfrifon.

Amcanion a gweithgareddau

Ein gweledigaeth

'Dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb'

Ein cenhadaeth

'Bydd CGGC yn gatalydd dros newid positif drwy Gysylltu, Galluogi a Dylanwadu'

Amcanion elusennol

Amcanion yr elusen yw hybu pob diben neu unrhyw ddiben er budd y gymuned y bernir yn ôl y gyfraith ei fod yn ddiben elusennol.

Budd cyhoeddus

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi talu sylw dyledus at ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolwyr yn hyderus bod gweithgareddau CGGC yn cadw at y rheoliadau ar fudd cyhoeddus.

Parhaodd CGGC i ymateb i'r amgylchiadau a grëwyd gan bandemig Covid-19, o ran ffyrdd o weithio ac o ran ein cymorth i'r sector.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiwyd yn arbennig ar baratoi ar gyfer diwedd cyllid yr UE yng Nghymru a cheisio datblygu cydberthnasau â Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cael cymaint â phosibl o gymorth i bobl, cymunedau a'r rôl a chwaraeir gan y sector.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a'n haelodaeth ehangach, gwnaethom ganolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd lle gallem wneud yr effaith fwyaf. Un o'n prif negeseuon cyfathrebu yw ein bod yn gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Grantiau a chyllid

Gweinyddodd yr elusen 18 (2021:21) o gynlluniau grant yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd taliadau grant i 680 (2021: 817) o fudiadau.

Grantiau	**2022 Nifer y grantiau a dalwyd ac a ad-dalwyd**	**2022 Gwerth y grantiau a paid / repaid a ad-dalwyd £**	2021 Nifer y grantiau a paid / repaid a ad-dalwyd	2021 Gwerth y grantiau a paid / repaid a ad-dalwyd £
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru	**12**	**460,899**	8	354,448
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru Ieuenctid	**13**	**366,963**	8	171,610
Cynhwysiant Gweithredol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**74**	**2,892,702**	32	1,861,845
Cynhwysiant Gweithredol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Ieuenctid	**41**	**1,467,341**	24	1,043,370
Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**13**	**537,228**	9	449,965
Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – Dwyrain Cymru	**2**	**81,338**	6	237,013
Cyllid Seilwaith - CVCs	**19**	**5,460,053**	19	7,385,563
Treth Tirlenwi	**75**	**462,557**	60	2,167,695
Cyngor Partneriaeth	**29**	**87,525**	29	87,545
Gwirfoddoli Cymru	**157**	**1,864,849**	19	146,096
Cysylltiadau Cymunedol Cymru ac Affrica	**31**	**927,283**	35	674,314
Comic Relief	**5**	**102,925**	19	585,002
Helplu	**-**	**-**	1	12,500

Apêl Llifogydd Dennis	**1**	**12,938**	7	25,819
Partneriaeth Natur Leol LNP	**22**	**603,952**	42	581,715
Lleoedd Natur Lleol L4NP	**25**	**5,899,697**	42	2,668,156
Grant Datblygu Helplu	**-**	**-**	3	36,000
Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector	**98**	**6,698,859**	177	9,455,121
Cronfa Argyfwng y Sector Gwirfoddol	**-**	**-**	270	15,162,204
Kickstart	**61**	**303,000**	6	25,500
Ymchwil ar Wirfoddoli a Llesiant	**-**	**-**	1	3,000
NEWID	**2**	**349,104**		
	680	**28,579,214**	817	43,134,480
Incwm a gwariant cyfatebol ychwanegol a ddenwyd drwy incwm o'r cynlluniau grant.	143	2,377,774	105	1,930,791

Contractau drwy gaffael

Gweinyddodd yr elusen 0 (2021: 0) o gynlluniau contract drwy gaffael yn ystod y flwyddyn.

Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i unrhyw elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol sydd ar waith yng Nghymru. Gwnaethom lansio cynnig aelodaeth newydd ym mis Medi 2021. Fel rhan o'r lansiad hwn, gwnaethom ofyn i'n holl aelodau lenwi ffurflen aelodaeth ar ein system wefan newydd er mwyn sicrhau bod eu holl fanylion yn gyfredol. Er bod hyn wedi achosi i'r niferoedd leihau rhywfaint, mae'r broses hon wedi golygu bod gennym sylfaen aelodau cyfredol a gweithredol bellach.



Adolygiad ariannol 2021/22

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CGGC gynhyrchu cyfanswm incwm gweithredu o £38.77 miliwn. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ar anterth y pandemig, mae CGGC wedi llwyddo i gael oddeutu £90 miliwn o incwm gweithredu, sy'n gynnydd sylweddol o'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn dangos y lefel anhygoel o weithgarwch sydd wedi bod ar droed ar draws y mudiad, yn enwedig o ran darparu grantiau a benthyciadau ar gyfer y trydydd sector.

Prif ffynonellau cyllido'r Elusen yw cyllid grant a benthyciad gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, Comic Relief a chyllidwyr eraill i gefnogi ei gweithgareddau craidd, gwaith prosiect penodol a chymorth parhaus i'r sector gwirfoddol wrth i bandemig Covid-19 barhau. Caiff cyllid uniongyrchol ei gynhyrchu hefyd drwy gynnig gwasanaethau a gweithgareddau i'w haelodau, gan gynnwys hyfforddiant, cyhoeddiadau a chynadleddau.

Mae'r incwm hwn, ynghyd â'r gwariant sy'n codi, yn cael ei rannu rhwng gweithgareddau anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol yr elusen er mwyn helpu i roi darlun clir o'r sefyllfa wirioneddol. Mae'r naratif isod yn cefnogi hynny ymhellach:

Dadansoddiad o sefyllfa ariannol gyfunol CGGC

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £
Incwm gweithredu	5,187,163	33,580,137	38,767,300
Costau gweithredu	(2,755,710)	(32,758,010)	(35,513,720)
Canlyniadau gweithredu	**2,431,453**	**822,127**	**3,253,580**
Incwm buddsoddi	8,584	234,675	243,259
Colledion ar ôl ailbrisio buddsoddiadau	(5,444)	-	(5,444)
Sefyllfa ariannol cyn addasiadau pensiwn	**2,434,593**	**1,056,802**	**3,491,395**
Addasiadau Pensiwn *	4,610,000	-	4,610,000
Sefyllfa derfynol	**7,044,593**	**1,056,802**	**8,101,395**
Balansau a ddygwyd ymlaen	2,057,015	4,349,064	6,406,079
Balansau a gariwyd ymlaen	9,101,608	5,405,866	14,507,474

*Mae swm o £80,000 sy'n cynyddu'r costau pensiwn o fewn "Cyflogau ac Argostau" wedi'i gynnwys yn yr incwm gweithredu.

Gweithgarwch anghyfyngedig

Mae'r enillion gweithredu net o £2.43 miliwn a adroddir ar weithgarwch anghyfyngedig yn cynnwys ffi gyffredinol o £80 mil sy'n ymwneud â'r addasiad i'r pensiwn actwaraidd a'r gwarged o werthu Tŷ Baltig (£1.36 miliwn).

Cyfanswm y cyllid anghyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2022 oedd £9.10 miliwn. O hyn, mae'r Bwrdd wedi dynodi £3.05 miliwn ar gyfer cronfa eiddo wrth gefn, cyfraniadau pensiwn ychwanegol tuag at y diffyg cyfandaliad a nodwyd ar gyfer blynyddoedd i ddod, y costau a ragwelir o gau prosiectau Ewropeaidd a chostau i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd parhaus yr elusen, gan adael cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig o £6.05 mil. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cynnwys gwarged pensiwn o £1.18 miliwn, a phe bai hwn yn cael ei dynnu allan, byddai'r cronfeydd rhydd wrth gefn yn dod i £4.87 miliwn. Y llynedd, roedd atebolrwydd pensiwn o £3.35 miliwn. Mae strategaeth ariannol bwyllog a gofalus yn cael ei dilyn i sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn yr elusen yn cael eu diogelu i gefnogi cynaliadwyedd parhaus y mudiad – ac mae rheoli'r cronfeydd rhydd wrth gefn yn erbyn symudiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn her.

Gweithgarwch cyfyngedig

Mae'r holl brosiectau cyfyngedig yn cael eu cyllido'n llawn. Mae'r symudiad cadarnhaol o £1.06 miliwn yn cynrychioli'r symudiad net yn y flwyddyn yn erbyn y cronfeydd wrth gefn sydd gan CGGC ar weithgarwch benthyciad o ran CIF 1, CIF 2, Asda a chynlluniau benthyciadau Gwydnwch. Mae'r prif gynnydd y flwyddyn hon wedi dod yn sgil rhyddhau swm sylweddol o incwm i gronfeydd cyfyngedig wrth gefn mewn perthynas ag ad-dalu benthyciadau o fewn y cynllun benthyciadau Gwydnwch.

Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2022 oedd £5.41 miliwn, sy'n cynrychioli arian a dyledion heb eu talu cynlluniau benthyca amrywiol ar gyllid a ddyfarnwyd, net unrhyw ddarpariaethau ar gyfer dyled goll. Yn unol â strategaeth ariannol CGGC, mae gwariant ar bob prosiect cyfredol yn cael ei fonitro a'i reoli'n ofalus er mwyn sicrhau nad oes colledion yn codi ar weithgarwch cyfyngedig sy'n cael ei gyllido'n llawn.

Gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'r ymddiriedolwyr gwirfoddol, mae 42 o unigolion a chanddynt sgiliau a phrofiad perthnasol yn gwasanaethu fel aelodau gwirfoddol o'r Byrddau Prosiect a Phanel Benthyciadau ac yn cynorthwyo CGGC drwy ddarparu arbenigedd ar wahanol gynlluniau grant neu gynllunio gwahanol agweddau ar ei waith.

Polisi grantiau a chyllido

Mae'r ymddiriedolwyr yn hysbysebu pob cynllun grant a chyllido ac yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau cymwys. Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol ac argymhellion a wneir gan y byrddau prosiect a'r panel benthyciadau, a benodir gan y bwrdd a'u cadeirio gan aelodau bwrdd, gan gyflwyno trawstoriad eang o arbenigedd. Cedwir at godau ymddygiad llym, gan gynnwys cofrestru buddiannau. Cyhoeddir yr holl ddyfarniadau'n gyhoeddus.

Polisi buddsoddi

Mae'r ymddiriedolwyr yn buddsoddi'n bennaf mewn adneuon banc y farchnad arian, ond hefyd mewn rhai buddsoddiadau llog sefydlog, gyda'r nod o sicrhau enillion rhesymol gyda chyn lleied â phosibl o risg.

Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd wrth gefn gael eu cadw ar lefel sy'n sicrhau y gall gweithgarwch craidd CGGC barhau pe bai cyllidwr mawr yn lleihau ei gyllid neu'n ei dynnu'n ôl, a bod cyfran o'r cronfeydd wrth gefn ar gael ar ffurf sy'n ei gwneud yn hawdd eu gwireddu. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried mai cronfeydd y gellid eu gwireddu'n rhwydd yw'r symiau y gellid eu troi'n arian parod yn hawdd pe bai angen gwneud hynny. Mae cyfrifo lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei hangen yn rhan annatod o gylchred cynllunio, cyllidebu a rhagamcanu CGGC. Mae'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd y gallai pob ffrwd incwm a gwariant fod yn wahanol i'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer; lefel arfaethedig y gweithgarwch; ac ymrwymiadau CGGC.

Cafodd y polisi cronfeydd wrth gefn ei asesu a'i adolygu gan yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn. Maen nhw'n trafod y cronfeydd wrth gefn y gellid eu gwireddu'n rhwydd, ymrwymiadau CGGC a gwerth marchnadol buddsoddiadau. Tynnir sylw at y prif risgiau i'r incwm a'r gwariant ac mae cyfrifiad wedi'i wneud o ganlyniadau ariannol posibl symudiadau anffafriol. Mae'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau y cedwir lefel ddigonol o gronfeydd wrth gefn y gellid eu gwireddu'n rhwydd. Mae gan yr ymddiriedolwyr gronfeydd anghyfyngedig dynodedig wrth gefn, gwerth cyfanswm o £1.05 miliwn, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf.

Gellir gweld manylion y cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn sydd gan yr Elusen yn nodyn 18 y cyfrifon.

Yr Ymddiriedolwyr a chynghorwyr yr elusen

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ymddiriedolwyr a'r cynghorwyr eraill a wasanaethodd yr elusen yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â manylion gweinyddol eraill ynghylch yr elusen, ar dudalen 32 yr Adroddiad Blynyddol uchod.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith cwmnïau yn gofyn i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r elusen a'r adnoddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae angen i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson

- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- Datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw amrywiadau perthnasol sydd wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau ar y sail honno

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan yr elusen ac am uniondeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Archwilydd

Cyflwynwyd penderfyniad ynghylch penodi archwilwyr i'r aelodau yn ystod cyfarfod cyffredinol blynyddol 2019, yn unol ag adran 384 Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r penodiad am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd bellach.

DRWY ORCHYMYN Y BWRDD



Tracey Lewis
Ysgrifennydd y Cwmni

22 Medi 2022

CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT

Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Datganiad Cyfunol o weithgareddau ariannol

INCWM	Nodyn	**Cronfeydd Anghyfyngedig £**	**Cronfeydd Cyfyngedig £**	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £
Incwm o weithgareddau Masnachu:					
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**711,582**	**26,877**	**738,459**	600,882
Incwm o fuddsoddiadau	4	**8,584**	**234,675**	**243,259**	184,399
Incwm o weithgareddau Elusennol:					
Grantiau derbyniadwy	5	**2,152,740**	**33,553,260**	**35,706,000**	49,341,175
Incwm arall	5	**63,409**	**-**	**63,409**	90,924
Gwariant wedi'i adennill		**896,763**	**-**	**896,763**	733,676
Elw o Werthu Eiddo	5	**1,362,669**	**-**	**1,362,669**	-
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**5,195,747**	**33,814,812**	**39,010,559**	50,951,056
GWARIANT					
Costau cynhyrchu cronfeydd:					
Gwariant ar godi arian	9	**558,602**	**-**	**558,602**	376,197
Gwariant ar weithgareddau elusennol	9	**2,197,108**	**32,758,010**	**34,955,118**	49,286,771
Cyfanswm gwariant		**2,755,710**	**32,758,010**	**35,513,720**	49,662,968
Incwm Net/(gwariant)		**2,440,037**	**1,056,802**	**3,496,839**	1,288,088
Enillion/(Colledion) actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**4,610,000**	**-**	**4,610,000**	(2,020,000)
Symudiad cronfeydd wrth gefn wedi'u hailbrisio		**-**	**-**	**-**	(63,259)
(Colledion)/Enillion ar ailbrisio buddsoddiadau		**(5,444)**	**-**	**(5,444)**	22,595
Symudiad net mewn cronfeydd		**7,044,593**	**1,056,802**	**8,101,395**	(772,576)
Balans a ddygwyd ymlaen		**2,057,015**	**4,349,064**	**6,406,079**	7,178,655
Balans a gariwyd ymlaen		**9,101,608**	**5,405,866**	**14,507,474**	6,406,079

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.

Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys £3,053,547 (2021: £1,816,000) o gronfeydd dynodedig a chynaliadwy (gweler nodyn 18).

Cyfrif incwm a gwariant y grŵp

	Nodyn	**Cronfeydd Anghyfyngedig £**	**Cronfeydd Cyfyngedig £**	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £
Incwm		**5,187,163**	**33,580,137**	**38,767,300**	50,766,657
Costau gweithredu	9	**(2,755,710)**	**(32,758,010)**	**(35,513,720)**	(49,662,968)
		2,431,453	**822,127**	**3,253,580**	1,103,689
Incwm buddsoddiad	4	**8,584**	**234,675**	**243,259**	184,399
Incwm net		**2,440,037**	**1,056,802**	**3,496,839**	1,288,088

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.

Mantolen Gyfunol

	Nodyn	2022 £	2021 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau diriaethol	12	**308,966**	-
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	13	**92,046**	97,490
Stoc	14	**-**	360,000
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	**7,905,904**	7,405,910
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	15	**5,053,829**	5,966,638
Arian yn y banc		**20,251,220**	20,268,776
		33,302,999	34,098,814
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	**(11,909,000)**	(21,191,856)
Asedau cyfredol net		**21,393,999**	12,906,958
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**21,702,965**	12,906,958
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	**(8,375,491)**	(3,150,879)
Ased/(rhwymedigaeth) Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	24	**1,180,000**	(3,350,000)
Asedau net		**14,507,474**	6,406,079
CRONFEYDD			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**9,101,608**	2,057,015
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**3,183,377**	3,233,753
Gwarged - arall		**2,222,489**	1,115,311
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	19	**5,405,866**	4,349,064
CYFANSWM CRONFEYDD		**14,507,474**	6,406,079

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 22 Medi 2022 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

P Davies CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen yr Elusen

	Nodyn	2022 £	2021 £
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	12	**308,966**	-
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	13	**92,049**	97,493
Stoc	14	**-**	360,000
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	**8,922,285**	8,403,998
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	15	**4,081,976**	4,892,432
Arian yn y banc		**20,023,024**	20,200,551
		33,119,334	33,954,474
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	**(11,806,710)**	(21,093,743)
Asedau cyfredol net		**21,312,624**	12,860,731
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**21,621,590**	12,860,731
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	**(8,375,491)**	(3,150,879)
Ased/(rhwymedigaeth) Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	24	**1,180,000**	(3,350,000)
Asedau net		**14,426,099**	6,359,852
CRONFEYDD			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**9,020,233**	2,010,788
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**2,145,385**	2,077,793
Gwarged - arall		**3,260,481**	2,271,271
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	19	**5,405,866**	4,349,064
CYFANSWM CRONFEYDD		**14,426,099**	6,359,852

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 22 Medi 2022 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

P Davies CBE
Cadeirydd

CJ Arnold
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o lif arian y grŵp

	2022	2021
	£	£
Llifau arian o weithgareddau gweithredu		
Gwariant net ar gyfer y cyfnod adrodd	**3,496,839**	1,288,088
Addasiadau ar gyfer:		
Costau dibrisiant	**2,595**	93,640
(Elw) ar waredu asedau diriaethol sefydlog	**(1,370,000)**	(31,424)
Llog a dderbyniwyd	**243,259**	184,399
Gostyngiad (cynnydd) mewn dyledwyr	**412,815**	(6,831,387)
Gostyngiad/(cynnydd) mewn credydwyr	**(4,058,244)**	22,031,741
Symudiad anariannol parthed addasiad Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio	**80,000**	(210,000)
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredu	**(1,192,736)**	16,525,057
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi:		
Enillion a dderbyniwyd o werthiant eiddo	**1,730,000**	504,525
Prynu gosodiadau a ffitiadau	**(311,561)**	-
Llog a dderbyniwyd	**(243,259)**	(184,399)
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	**1,175,180**	320,126
Newid mewn arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod adrodd	**(17,556)**	16,845,183
Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	**20,268,776**	3,423,593
Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**20,251,220**	20,268,776

Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig wedi'i hymgorffori yn y Deyrnas Unedig. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF

Nod yr elusen yw cyflwyno gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi gwirfoddoli, llywodraethu, cyllido a diogelu; a hyrwyddo a chefnogi cyfraniad y trydydd sector at feysydd polisi pwysig.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian swyddogol y grŵp, a'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

1. Polisïau cyfrifyddu

Dyma'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd trwy gynnwys buddsoddiadau asedau sefydlog ar werth y farchnad. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n galw amheuaeth ynghylch gallu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i barhau fel busnes gweithredol.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau" (Elusennau SORP FRS102) a Deddf Cwmnïau 2006, ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (y DU a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Cwmni (gweler nodyn 2).

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn ymgorffori datganiadau ariannol yr Elusen a holl ymgymeriadau'r grŵp. Gan fod Datganiad cyfunol o Weithgareddau Ariannol a chyfrif incwm a gwariant yn cael ei gyhoeddi, mae Datganiad ar wahân o Weithgareddau Ariannol y rhiant-gwmni yn cael ei hepgor o ddatganiadau ariannol y grŵp drwy rinwedd adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Busnes Gweithredol

Mae'r grŵp a'r elusen yn bodloni eu gofynion cyfalaf gwaith dyddiol drwy eu cyfleusterau banc. Mae'r cyflyrau economaidd cyfredol yn parhau i greu ansicrwydd. Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sefyllfa fasnachu'r cwmni at y dyfodol, ac yn seiliedig ar ganlyniadau masnachu gwirioneddol ers diwedd y flwyddyn, maent yn hyderus bod modd defnyddio'r egwyddor busnes gweithredol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Cyfrifyddu cronfeydd

Defnyddir cronfeydd cyfyngedig at ddibenion penodol a osodir gan y rhoddwr. Bydd y cyfryw ddibenion yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y mudiad. Codir gwariant at y dibenion hynny ar y gronfa, ynghyd â dyraniad teg o orbenion a chostau cefnogi.

Rhoddion neu adnoddau eraill sy'n dod i mewn a geir neu a gynhyrchir i'w gwario ar amcanion cyffredinol yr elusen yw cronfeydd anghyfyngedig.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u dynodi at ddibenion penodol gan yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer gwaith angenrheidiol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau yn barhaus, ond sy'n methu â bodloni meini prawf llym y rhwymedigaeth gontractiol a osodir yn FRS102.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Incwm a gwaddolion

RHODDION AC ANRHEGION

Cynhwysir yr holl roddion ac anrhegion ariannol yn llawn yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy, a bwrw nad yw'r rhoddwr wedi gosod cyfyngiadau ar amseriad y gwariant perthnasol, ac os felly oedir cydnabyddiaeth hyd nes y mae'r rhag-amod wedi'i fodloni.

GRANTIAU DERBYNIADWY

Cynhwysir grantiau refeniw fel adnoddau sy'n dod i mewn yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo a bwrw bod amodau i'w derbyn wedi'u bodloni.

Cynhwysir grantiau ar gyfer cyllid craidd fel incwm gwirfoddol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Cynhwysir grantiau i brynu asedau sefydlog i adnoddau cyfyngedig sy'n dod i mewn yn y cyfnod y cododd y gwariant ynddo os yw'r amodau i'w derbyn wedi'u bodloni. Cynhwysir dibrisiad ar yr asedau sefydlog a brynwyd gyda'r cyfryw grantiau yn y gronfa gyfyngedig.

INCWM BUDDSODDIADAU

Cyfrifir am incwm buddsoddi ar sail croniadau. Daw'r incwm hwn o ddifidendau cyfranddaliadau, llog banc a llog o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

INCWM MASNACHU

Cyfrifir am incwm buddsoddi ar sail croniadau. Mae'r incwm hwn yn cynnwys hyfforddiant allanol a ddarperir, lesau tenantiaid, biwro'r gyflogres ac aelodaeth.

INCWM ARALL

Cynhwysir pob incwm arall yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y mae'r incwm yn perthyn iddo a bwrw bod gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm. Ni chynhwysir cyllid cyfatebol yn y cyfrifon hyn ond cyfeirir at y swm yn adroddiad yr ymddiriedolwyr a nodyn 8.

Gwariant

GRANTIAU TALADWY

Cynhwysir grantiau taladwy yn y cyfnod pan fodlonir yr amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth y taliad grant neu, pan nad oes amodau perfformiad, pan gyfyd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol.

GWARIANT ARALL

Cydnabyddir gwariant ar sail gronnol fel y cyfyd rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn llawn, a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n perthyn iddo:

- Costau cynhyrchu cronfeydd yw'r costau sydd ynghlwm wrth ddenu incwm gwirfoddoli a'r costau masnachu i godi arian.
- Gwariant elusennol yw'r costau hynny y mae'r elusen yn mynd iddynt wrth gynnal ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r cyfryw weithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cefnogi.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sydd ynghlwm wrth ateb gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a'r costau archwilio sydd ynghlwm wrth reolaeth strategol yr elusen.
- Dyrannir pob cost rhwng categorïau gwario y SoFA mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Caiff costau sydd ynghlwm wrth weithgaredd penodol eu dyrannu'n uniongyrchol, a chaiff eraill eu dyrannu ar sail briodol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

GWARIANT WEDI'I ADENNILL

Mae gwariant wedi'i adennill yn ymwneud â gorbenion y gellir ailgodi tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys taliadau cyfieithu, meddiannu a defnyddiau traul, hyfforddiant staff mewnol, llogi ystafelloedd a ffioedd rheoli.

ARIAN GWEITHREDOL CYFLWYNIADOL

Caiff datganiadau ariannol unigol pob endid grŵp eu cyflwyno yn arian y prif amgylchedd economaidd y mae'r endid yn gweithredu o'i fewn (ei arian gweithredol). At ddiben y datganiadau ariannol cyfunol, mae'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol wedi'u cyflwyno mewn Sterling (£).

ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL A DIBRISIANT

Nodir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei fywyd defnyddiol tybiedig neu, os y delir ef o dan les cyllid, dros gyfnod y les, pa un bynnag yw'r byrraf.

Gosodiadau a ffitiadau – 10 mlynedd

Cyfarpar cyfrifiadurol – 10 mlynedd

Mae'r gost yn cynnwys pris prynu'r ased a'r gwariant a briodolir yn uniongyrchol i gael yr eitem. Caiff ased sefydlog ei anadnabod ar ei waredu neu pan na ddisgwylir unrhyw fuddion economaidd yn y dyfodol o barhau i ddefnyddio'r ased. Pennir yr enillion neu'r colledion sy'n codi o waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng elw gwerthiannau a gwerth cario ymlaen yr ased a chânt eu cydnabod neu eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

Ni chaiff asedau sy'n costio £1,000 neu lai eu trin fel cyfalaf na thraul drwy'r datganiadau o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn y cânt eu prynu.

BUDDSODDIADAU

Cyfrifir buddsoddiadau asedau sefydlog yn unol â'u gwerth marchnadol, fel y'u cofnodir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Caiff symudiadau yn y gwerth marchnadol eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel enillion neu golledion heb eu gwireddu ar asedau buddsoddiadau. Cofnodir incwm sy'n deillio o'r cyfryw asedau fel incwm buddsoddiad yn y flwyddyn y'i derbyniwyd.

Nodir cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn ôl cost namyn darpariaeth.

STOC

Mae Stoc yn ymwneud ag eiddo a gedwir i'w ail-werthu a chaiff ei nodi ar gost y gwerth net ar y llyfrau ar yr amser y caiff ei drosglwyddo o ased diriaethol sefydlog i stoc.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, caiff stoc eu hasesu am amhariad. Os oes amhariad ar eitem o stoc, caiff y stocrestr adnabyddedig ei lleihau i'w phris gwerthu namyn y costau i gwblhau a gwerthu a chaiff tâl amhariad ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled. Pan fydd angen gwrthdroi amhariad, caiff y tâl amhariad ei wrthdroi, hyd at golled wreiddiol yr amhariad, a chaiff ei gydnabod fel credyd yn y cyfrif elwa a cholledion.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Grŵp wedi dewis mabwysiadu Offerynnau Ariannol Sylfaenol FRS 102, Adran 11 a 12 Dyroddiad arall o Offerynnau Ariannol FRS 102 o ran offerynnau ariannol.

Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol eu mesur ar bris trafodiad i gychwyn, gan gynnwys costau trafodiad, ac eithrio'r asedau ariannol hynny a ddosbarthir ar werth teg drwy elw neu golled, a gaiff eu mesur ar werth teg i gychwyn (pris trafodiad heb gynnwys costau trafodiad) oni bai bod y trefniant yn drafodiad cyllidol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol dim ond eu gwrthbwyso ar fantolen y Grŵp pan, a dim ond pan, mae hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod y Grŵp yn bwriadu setlo ar sail net, neu realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Mae offerynnau dyled (ar wahân i'r rheini sydd angen eu had-dalu neu eu derbyn o fewn blwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill derbyniadwy a thaladwy, yn cael eu mesur ar werth presennol y llifau arian yn y dyfodol i ddechrau ac yna'n cael eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

ARIAN PAROD A PHETHAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian parod wrth law ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb os rhoddir dim mwy na 24 awr o rybudd. Pethau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau rhydd iawn sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n hawdd i symiau penodol o arian parod heb lawer o risg o newid eu gwerth.

Yn y datganiad cyfunol o lifau arian parod, dangosir arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod net gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Grŵp.

DYLEDWYR

Caiff dyledwyr tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad, namyn unrhyw amhariad. Caiff benthyciadau derbyniadwy eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

DYLEDWYR MWY NA BLWYDDYN

Mae dyledwyr mwy na blwyddyn yn ymwneud â dyledwyr benthyciadau o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

DYLED DDRWG

Os credir and oes modd adennill unrhyw incwm heb ei gasglu serch eich ymdrechion gorau, caiff ei ddileu fel dyled ddrwg drwy'r cyfrif incwm a gwariant (I&E) fel gostyngiad mewn incwm. Oherwydd Covid-19, caiff y cynlluniau benthyca eu hadolygu fesul achos. Pan fydd ad-daliad unrhyw fenthyciad wedi'i ohirio dros dro gan y benthyciwr, ac ni ddisgwylir gweld unrhyw arwyddion o drallod ar ôl y pandemig, yna nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn y cyfrifon. Bydd y polisi hwn ar gyfer y cynlluniau benthyca yn cael ei adolygu'n rheolaidd pan fydd rhagor o wybodaeth yn dod i law ynghylch y pandemig.

CREDYDWYR

Caiff credydwyr masnachu tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad. Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

BUDDION CYFLOGAETH

Caiff buddion tymor byr cyflogeion a chyfraniadau at gynlluniau cyfrannu diffiniedig eu cydnabod fel treuliau yn y cyfnod y cododd y treuliau hynny.

Mae cost unrhyw hawliau gwyliau nas defnyddiwyd yn cael ei chydnabod ar unwaith fel traul pan mae cwmni'n amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu, a chyfrifir y treuliau ar gyfer yr holl hawliau gwyliau nas defnyddiwyd, fel ag y maent ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â hyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Costau pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol

CYNLLUN PENSIWN Â CHYFRANIADAU WEDI'U DIFFINIO

Mae'r Grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu cynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion. Cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau sefydlog i mewn i gynllun y mae ei asedau wedi'u cadw ar wahân mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol. Caiff y cyfraniadau taladwy blynyddol eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Caiff asedau cynllun eu mesur ar werth teg. Caiff rhwymedigaethau cynllun eu mesur ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u gostwng ar gyfraddau bond safon uchel priodol. Cyflwynir y gwarged neu ddiffyg net ar wahân i asedau net eraill ar y fantolen. Caiff gwarged net dim ond ei gydnabod i'r graddau y mae'n adenilladwy, naill ai trwy lai o gyfraniadau i'r cynllun neu drwy ad-daliad ariannol o'r cynllun.

Codir costau gwasanaeth cyfredol a chostau o setliadau a chwtogiadau yn erbyn yr elw gweithredu. Cydnabyddir y llog ar rwymedigaethau'r cynllun a'r llog ar asedau'r cynllun yn yr adran elw neu golled. Adroddir enillion ar asedau cynllun (heb gynnwys incwm llog) ac enillion a cholledion actwaraidd yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

ASEDAU AR BRYDLES

Mae'r Grŵp yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau ar y dechrau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn brydles, neu'n cynnwys prydles, sy'n seiliedig ar sylwedd y trefniant.

ASEDAU LES CYLLID

Caiff prydlesi asedau sy'n sylweddol drosglwyddo'r holl risgiau a buddion o ganlyniad i berchenogaeth eu galw yn brydlesi cyllid.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles fel asedau ar werth teg yr asedau ar brydles neu, os yw hynny'n is, gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Pan na ellir pennu'r gyfradd sydd ymhlyg, defnyddir cyfradd fenthyca gynyddrannol y Grŵp. Mae costau cynyddrannol uniongyrchol, sy'n codi wrth negodi a threfnu'r brydles, wedi'u cynnwys yng nghost yr ased.

Caiff asedau eu dibrisio dros gyfnod byrrach y les a thros fywyd defnyddiol tybiedig yr ased. Caiff asedau eu hasesu am amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r cytundeb. Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng ad-daliad cyfalaf a thâl cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, i gynhyrchu cyfradd tâl gyson ar falans yr ad-daliadau cyfalaf heb eu casglu.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ASEDAU GWEITHREDU AR BRYDLES

Cyfeirir at brydlesi nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth fel prydlesi gweithredu. Caiff taliadau o dan brydlesi gweithredu eu codi ar y cyfrif elw a cholled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

CYMHELLION PRYDLES

Mae cymhellion a dderbynnir i rwymo i brydles gyllid yn lleihau gwerth teg yr ased a chânt eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer gwerth presennol taliadau prydles lleiaf.

Caiff cymhellion a dderbynnir i rwymo i brydles weithredu eu credydu i'r cyfrif elw a cholled, i leihau costau, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

TRETHIANT

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a'r prif ffynonellau o ansicrwydd wrth amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i reolwyr wneud rhagamcanion a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ac asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau a adroddir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny.

Ym marn y cyfarwyddwr, dyma'r dyfarniadau beirniadol sydd wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn natganiadau ariannol y Grŵp:

MAE'R DYFARNIADAU ALLWEDDOL A WNAED GAN REOLWYR YN YMWNEUD Â'R CANLYNOL:

1. Y gallu i adennill o ddyledwyr, a digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.
2. Amcangyfrif bywydau defnyddiol a gwerth gweddilliol asedau sefydlog, er mwyn cyfrifo dibrisiant a godir.

3. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	**Cronfeydd Cyfyngedig £**	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £
Hyfforddiant a chyhoeddusrwydd	**627,807**	**26,877**	**654,684**	472,341
Cyfarfodydd a thenantiaid	**40,681**	**-**	**40,681**	89,936
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	**43,094**	**-**	**43,094**	38,605
	711,582	**26,877**	**738,459**	600,882

4. Incwm o Fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	**Cronfeydd Cyfyngedig £**	**Cyfanswm Cronfeydd 2022 £**	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £
Llog ar adnau banc	**3,114**	**234,675**	**237,789**	178,929
Incwm buddsoddiad	**5,470**	**-**	**5,470**	5,470
	8,584	**234,675**	**243,259**	184,399

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

5. Grantiau derbyniadwy

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2022 £	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £
Prifysgol Caerdydd	-	**17,887**	**17,887**	17,626
Sefydliad Cymorth i Elusennau	**83,781**	-	**83,781**	100,925
Comic Relief	**65,000**	**102,925**	**167,925**	660,002
Adran Gwaith a Phensiynau	**12,646**	**303,000**	**315,646**	25,500
GoFundMe (Cronfa Argyfwng Llifogydd Dennis)	-	**12,938**	**12,938**	25,819
Helplu	-	-	-	20,000
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	-	**117,472**	**117,472**	111,803
Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol	-	**20,257**	**20,257**	32,475
Cyfoeth Naturiol Cymru	**710**	-	**710**	1,421
New Philanthropy NPC	-	**15,107**	**15,107**	18,734
Prifysgol Northumbria	-	**22,562**	**22,562**	709
Cronfa Buddsoddiad Cymdeithasol ASDA	-	**90,015**	**90,015**	115,186
Chwaraeon Cymru	-	**70,718**	**70,718**	77,783
Cronfa'r Loteri Genedlaethol	-	**5,415**	**5,415**	40,375
The Waterloo Foundation	-	-	-	9,399
The Wheel	-	**22,485**	**22,485**	1,414
Prifysgol De Cymru	-	**6,447**	**6,447**	11,012
Llywodraeth Cymru	**1,986,227**	**24,620,903**	**26,607,130**	42,975,935
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	-	-	205
CGGC	**4,376**	-	**4,376**	3,521
WEFO	-	**8,125,129**	**8,125,129**	5,091,331
Cyfanswm grantiau derbyniadwy	**2,152,740**	**33,553,260**	**35,706,000**	49,341,175

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

6. Incwm net

Nodir incwm net ar ôl codi tâl ar gyfer:		2022	2021
		£	£
Dibrisiant ar asedau sefydlog a berchnogir		**2,595**	93,640
Taliadau i'r archwiliwr:	- ffioedd archwilio	**23,872**	23,064
	- gwasanaethau treth	**2,276**	3,600

7. Gwybodaeth ynglŷn ag ymddiriedolwyr a chyflogeion

A) GWYBODAETH YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLWYR

Ni chafodd yr un ymddiriedolwr nac unigolyn â chysylltiad teuluol neu fusnes ag ymddiriedolwyr, daliad yn y flwyddyn, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gan yr elusen na mudiad neu gwmni a reolir gan yr elusen (2021: £Dim).

Ad-dalwyd treuliau teithio tri ymddiriedolwr i fynychu cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgorau a Phanel Grantiau a ddaeth i gyfanswm o £213 yn ystod y flwyddyn (2021: £dim).

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-ymddiriedolwyr am wasanaethau proffesiynol yn ystod y flwyddyn (2021: £Dim).

B) GWYBODAETH YNGLŶN Â CHYFLOGEION

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	**3,195,420**	2,921,298
Costau nawdd cymdeithasol	**305,042**	278,770
Costau pensiwn ac yswiriant bywyd eraill	**1,039,967**	726,465
	4,540,429	3,926,533

Nifer y cyflogeion yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd 108 (2021: 100).

Mae'r enillion yn cynnwys cyflog ac yswiriant gwladol y cyflogwr ond nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Maent hefyd yn cynnwys taliadau dileu a therfynu swydd a wnaed yn y flwyddyn. Gellir dosbarthu nifer y cyflogeion yr oedd eu henillion am y flwyddyn yn fwy na £60,000 fel a ganlyn:

	2022	2021
£60,000 - £69,999	**2**	-
£70,000 - £79,999	**-**	-
£80,000 - £89,999	**-**	-
£90,000 – £99,999	**1**	1

Cafodd cyfraniadau eu talu at gynllun buddion diffiniedig 3 (2021: 1) o'r cyflogeion y telir cyflog uwch iddynt.

Mae prif bersonél rheoli'r Elusen yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Ysgrifennydd y Cwmni a'r ymddiriedolwyr. Cyfanswm buddion cyflogeion prif bersonél rheoli'r Elusen oedd £410,389 (2021: £388,802).

C) TALIADAU DILEU A THERFYNU SWYDD

Mae'r ffigur cyflogau yn cynnwys £Dim o gostau diswyddo a therfynu (2021: £ 1,562).

Prif bersonél rheoli'r grŵp yw'r un unigolion â'r rheini sydd gan yr Elusen.

Mae cyflog pob aelod o'r staff yn gysylltiedig â phwyntiau ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol, ac eithrio'r Prif Weithredwr. Cafodd y cyflog hwnnw ei feincnodi flynyddoedd yn ôl ac mae wedi'i chwyddo ers hynny yn unol â chodiadau cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

8. Grantiau taladwy a thaliadau contractau a gafaelwyd

Dyma restr o'r 50 grant mwyaf yn eu crynswth a roddwyd i fudiadau (ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion):

Dyfernir yr holl grantiau i fudiadau trydydd sector yng Nghymru:

	2022 £	2021 £
Cymdeithas Mudiadau gwirfoddol Gwent	**828,865**	**1,408,549**
Cyngor bwrdeistref Sirol Conwy	**794,849**	**-**
Cyngor Dinas a Sir Abertawe	**566,636**	**-**
Cyngor Gwynedd	**545,278**	**-**
Prime Cymru	**469,817**	**323,970**
Cyngor Sir Fflint	**459,006**	
Cymdeithas Mudiadau gwirfoddol Powys	**448,119**	**685,952**
Cymunedau'n Ymlaen Môn Communities Forward	**444,028**	**-**
Cyngor Sir Ceredigion	**384,088**	**-**
Byddin yr Iachawdwriaeth	**366,140**	**250,701**
Awdurdod Parc Cenedlaethol arfordir Sir Benfro	**365,434**	**-**
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd	**305,759**	**434,321**
Interlink	**305,544**	**426,819**
Mantell Gwynedd	**304,726**	**456,796**
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful	**301,949**	**-**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	**286,857**	**-**
Cyngor Sir Benfro	**275,048**	**288,109**
Cyngor Sir Ddinbych	**268,299**	**-**
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe	**267,904**	**442,457**
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen	**264,559**	**384,828**
Menter Môn Cyf	**261,970**	**-**
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd a Phort Talbot	**257,424**	**390,804**
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	**257,017**	**409,071**
Cyngor Sir Ynys Môn	**254,795**	**-**
Leonard Cheshire Disability	**253,633**	**493,233**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	**249,774**	**364,025**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr	**245,651**	**361,061**
Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy	**244,304**	**365,293**
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	**240,385**	**369,521**
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	**238,432**	**362,522**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion	**238,366**	**371,059**
Medrwn Môn	**237,056**	**355,267**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint	**232,359**	**371,890**
Cyngor Caerdydd	**231,779**	**282,640**
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful	**228,786**	**356,725**
Cyngor Bro Morgannwg	**217,578**	**-**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	**210,963**	**-**
Teams 4 U	**206,302**	**-**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	**200,754**	**-**
YMCA Abertawe	**194,048**	**248,793**
Mamau Affrica	**190,014**	**-**
Cyngor Dinas Casnewydd	**187,899**	**-**
Cwmpas (a elwyd yn Canolfan Gydweithredol Cymru cyn hyn)	**185,705**	**-**
Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch	**184,496**	**385,685**
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	**184,147**	**383,139**
Cymorth Cristnogol	**182,641**	**-**
Sgiliau Cyf	**178,958**	**-**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**175,907**	**-**
ProMo Cymru	**172,900**	**-**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	**171,048**	**-**
Mind Cymru	**-**	**637,997**
Ambiwlans St John Cymru	**-**	**546,112**
Llamau Cyf	**-**	**384,011**
Cwmni Buddiannau Cymunedol Community Care Collaborative	**-**	**375,647**
The Centre for Building Social Action Limited	**-**	**364,618**
Gofal a Thrwsio Cymru	**-**	**346,198**
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig	**-**	**332,046**
Cyngor Menywod Cymru	**-**	**325,648**
Volunteering Matters	**-**	**304,312**
Age Cymru	**-**	**282,070**
Stephens and George Charitable Trust	**-**	**280,076**
Trwsio a Rhannu (yn masnachu fel Caffi Trwsio Cymru)	**-**	**259,983**
Oasis Cardiff	**-**	**256,818**
New Pathways Family Friendly Therapeutic Centre of Excellence	**-**	**256,277**
North Wales Nappy Collaborative	**-**	**254,003**
Media Academy Cymru	**-**	**229,984**
Valleys Kids	**-**	**229,154**
Cymunedau'n Ymlaen Mon Communities First	**-**	**226,130**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	**-**	**218,463**
Platfform for Change	**-**	**214,595**
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion	**-**	**206,153**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Cymdeithas Multiple Sclerorsis (MS)	-	**204,280**
Dysgu Oedolion Cymru	-	**203,227**
Mirus-Wales	-	**202,717**
Cyfanswm y 50 grant mwyaf a dalwyd i sefydliadau	**14,767,996**	**18,113,749**
Cyfanswm grantiau taladwy eraill	**13,811,218**	**25,020,731**
Cyfanswm grantiau a dalwyd i sefydliadau	**28,579,214**	**43,134,480**

Nid yw'r grantiau hyn yn cynnwys £2,377,774 (2021: £1,930,791) o incwm cyllid cyfatebol a gwariant a adlewyrchir yng nghyfrifon y mudiadau a gafodd grantiau.

Dyma fudiadau lle y ceir ymddiriedolwyr cyffredin a/neu le y mae gan ymddiriedolwr o CGGC safle uwch yn y mudiad a dderbyniodd grantiau gan yr Elusen yn ystod y flwyddyn.

Mudiad	**Parti Cysylltiedig**	**Swm £**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Edward Watts	828,865
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig	Rocio Cifuentes	154,175
Mind Cymru	Sara Moseley	700

Nid oedd unrhyw daliadau contractau a gafaelwyd i fudiadau yn 2022 (2021: £Dim). Ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion (2021: dim).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

9. Cyfanswm gwariant

Gwariant elusennol uniongyrchol

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2022	Cyfanswm Cronfeydd 2021
	£	£	£	£	£
Grantiau a Ddyfarnwyd	-	-	28,579,214	28,579,214	43,134,480
Treuliau Eiddo	-	40,319	-	40,319	40,360
Treuliau Cyfarpar Swyddfa	239	769	854	1,862	5,414
Rhent ac Ardrethi	-	70,978	-	70,978	24,622
Gwres a Golau	-	8,971	-	8,971	17,931
Recriwtio a Staff Dros Dro	129	29,686	40,517	70,332	28,794
Cyflogau ac Argostau	364,362	1,142,178	2,715,158	4,221,698	3,643,449
Teithio, Cynhaliaeth a Lles	356	35,412	4,879	40,647	29,939
Hyfforddiant Staff	882	1,809	5,806	8,497	8,338
Cyfarfodydd a Chynadleddau	50,410	15,449	5,086	70,945	92,726
Cyhoeddusrwydd	1,718	22,891	16,313	40,922	79,713
Postio a Theleffon	10	2,855	1,440	4,305	5,794
Costau Hyfforddiant Allanol	9,409	17,918	29,028	56,355	51,518
Deunydd Ysgrifennu	3	2,238	17	2,258	50
Argraffu	-	-	48	48	1,491
Costau Cyhoeddi	966	7,814	10,179	18,959	13,213
Costau Cyfieithu	3,169	27,396	28,272	58,837	88,173
Llungopïo	-	41	406	447	267
Ymgynghori ac Archwilio	31,344	306,415	276,585	614,344	616,525
Gorbenion Canolog	72,517	62,328	787,326	922,171	750,341
Mân Gostau	1,417	3,328	39,751	44,496	45,068
	536,931	1,798,795	32,540,879	34,876,605	48,678,206

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Costau cymorth a ddyrannwyd

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2022	Cyfanswm Cronfeydd 2021
	£	£	£	£	£
Cyflogau a Chostau Staff	**11,597**	**264,830**	**-**	**276,427**	248,931
Yswiriant a Diogelwch	**-**	**13,347**	**10,890**	**24,237**	22,334
Costau Cyfrifiadurol	**9,398**	**86,950**	**135,069**	**231,417**	376,296
Ffioedd Banc	**676**	**5,952**	**2,661**	**9,289**	5,367
Dibrisiant Eiddo Rhydd-ddaliadol	**-**	**2,595**	**-**	**2,595**	93,640
Atgyweiriadau ac Amnewidiadau	**-**	**-**	**-**	**-**	5,648
	21,671	**373,674**	**148,620**	**543,965**	752,216
Costau Llywodraethu					
Ffioedd Archwilio	**-**	**23,872**	**-**	**23,872**	23,064
Arall	**-**	**213**	**-**	**213**	-
	-	**24,085**	**-**	**24,085**	23,064
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus ar y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol	**-**	**554**	**68,511**	**69,065**	209,482
Cyfanswm gwariant	**558,602**	**2,197,108**	**32,758,010**	**35,513,720**	49,662,968

10. Trethiant

Fel elusen, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'i eithrio rhag treth ar incwm ac enillion i'r graddau y maent yn cael eu defnyddio ar gyfer ei amcanion elusennol. Nid oes taliadau treth wedi'u codi yn yr Elusen.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

11. Ffurfiau cymharol ar gyfer y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £
Incwm o weithgareddau Masnachu:				
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**547,588**	**53,294**	**600,882**
Incwm o fuddsoddiadau	4	**6,696**	**177,703**	**184,399**
Incwm arall	5	**1,416,397**	**-**	**1,416,397**
Incwm o weithgareddau Elusennol:				
Grantiau derbyniadwy	5	**702,996**	**47,221,782**	**47,924,778**
Incwm arall	5	**90,924**	**-**	**90,924**
Gwariant wedi'i adennill		**733,676**	**-**	**733,67**
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**3,498,277**	**47,452,779**	**50,951,056**
Gwariant				
Costau cynhyrchu cronfeydd:				
Gwariant ar godi arian	9	**376,197**	**-**	**376,197**
Gwariant ar weithgareddau Elusennol	9	**1,972,185**	**47,314,586**	**49,286,771**
Cyfanswm gwariant		**2,348,382**	**47,314,586**	**49,662,968**
Incwm Net/(gwariant)		**1,149,895**	**138,193**	**1,288,088**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		**61,882**	**(61,882)**	**-**
(Colledion)/enillion ar ailbrisio asedau sefydlog		**-**	**-**	**-**
(Colledion)/enillion actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**(2,020,000)**	**-**	**(2,020,000)**
Symudiad cronfeydd wrth gefn wedi'u hailbrisio		**(63,259)**	**-**	**(63,259)**
(Colledion)/Enillion ar ailbrisio buddsoddiadau		**22,595**	**-**	**22,595**
Symudiad net mewn cronfeydd		**(848,887)**	**76,311**	**(772,576)**
Balansau a ddygwyd ymlaen		**2,905,902**	**4,272,753**	**7,178,655**
Balansau a gariwyd ymlaen		**2,057,015**	**4,349,064**	**6,406,079**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

12. Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp ac Elusen	Gosodiadau a Ffitiadau Un Rhodfa'r Gamlas £	 Cyfanswm £
Cost		
Ar 1 Ebrill 2021	-	-
Ychwanegiadau	**311,561**	**311,561**
Gwarediadau	**-**	**-**
Ar 31 Mawrth 2022	**311,561**	**311,561**
Dibrisiant		
Ar 1 Ebrill 2021	**-**	**-**
Tâl am y flwyddyn	**2,595**	**2,595**
Dibrisiant ar werthiannau	**-**	**-**
Ar 31 Mawrth 2022	**2,595**	**2,595**
Gwerth net ar y llyfrau		
Ar 31 Mawrth 2022	**308,966**	**308,966**
Ar 31 Mawrth 2021	**-**	**-**

Cedwir pob ased sefydlog at ddibenion elusennol uniongyrchol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

13. Buddsoddiadau

Grŵp ac Elusen Buddsoddiadau a restrir	2022 Cost £	2022 Gwerth marchnadol £	2021 Cost £	2021 Gwerth marchnadol £
44,250 National Westminster Bank 9% SR "A" Cyfranddaliadau Blaenoriaeth heb fod yn gronnus	**50,352**	**24,565**	50,352	70,800
17,000 8¾% Aviva Cyfranddaliadau Blaenoriaeth Cronnus	**19,820**	**67,481**	19,820	26,690
Gwerth marchnadol ar 31 Mawrth	**70,172**	**92,046**	70,172	97,490

Elusen yn unig	Cwmnïau grŵp £
Ar 31 Mawrth 2021 ac 31 Mawrth 2022	**3**
Gwerth net ar y llyfrau	
Ar 31 Mawrth 2021 ac 31 Mawrth 2022	**3**

Ar 31 Mawrth 2022 roedd y canlynol yn is-gwmnïau a oedd yn eiddo llwyr i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac wedi'u corffori ym Mhrydain Fawr:

	Gweithgareddau
Cynnal Cymru – Sustain Wales Ltd	Buddsoddiadau
Social Investment (Cymru) Limited	Buddsoddiadau
WCVA Services Limited	Anfasnachol
WCVA Trading Limited	Anfasnachol

Roedd cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau a'r cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 a'r elw neu'r golled am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw ar gyfer yr is-ymgymeriadau fel a ganlyn:

	Cyfanswm y cyfalaf cyfranddaliadau a'r cronfeydd wrth gefn £	Elw/ (Colled) £
Cynnal Cymru – Sustain Wales Ltd	81,378	35,148
Social Investment (Cymru) Limited	(639,554)	207,074
WCVA Services Limited	1	-
WCVA Trading Limited	1	-

Caiff pob un o'r is-gwmnïau uchod eu cario yn unol â'r gwerth net ar y llyfrau, sef £3 yn y cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

14. Stoc

	Grŵp		Elusen	
	2022	2021	**2022**	2021
	£	£	**£**	£
Gwerth net ar y llyfrau Tŷ Baltic	**-**	360,000	**-**	360,000
	-	360,000	**-**	360,000

15. Dyledwyr

		Grŵp		Elusen
	2022	2021	**2022**	2021
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn	**£**	£	**£**	£
Dyledwyr eraill	**7,377,530**	6,987,088	**7,324,570**	6,910,969
Symiau sy'n ddyledus gan ymgymeriadau grŵp	**-**	-	**1,135,479**	1,155,960
Cynlluniau Benthyg	**528,374**	418,822	**462,236**	337,069
	7,905,904	7,405,910	**8,922,285**	8,403,998

	2022	2021	**2022**	2021
Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	**£**	£	**£**	£
Cynlluniau Benthyg	**5,053,829**	5,966,638	**4,081,976**	4,892,432
	5,053,829	5,966,638	**4,081,976**	4,892,432

Gwneir benthyciadau'r Gronfa Fuddsoddi Cymunedol, Asda a Gwydnwch am gyfnodau yn amrywio o 5 mlynedd i 25 mlynedd ac mae ganddynt gyfradd llog o 2-7% (rhai gyda chyfnod di-log).

	Dygwyd ymlaen 31 Mawrth 2021	**Benthyciadau a a roddwyd yn y flwyddyn**	**Llog yn y flwyddyn**	**Swm a ad-dalwyd yn y flwyddyn**	**Symudiad Darpariaeth**	**Cariwyd ymlaen 31 Mawrth 2022**
ELUSEN	**5,229,501**	**636,064**	**159,929**	**(1,280,443)**	**(200,840)**	**4,544,211**
CRONFA BUDDSODDI CYMUNEDOL 2	**1,155,960**	**-**	**74,746**	**(325,043)**	**132,329**	**1,037,992**
- adequate accounting records have not been kept or returns adequate for our audit have not been received from branches not visited by us; or
- the financial statements are not in agreement with the accounting records and returns; or
- certain disclosures of trustees' remuneration specified by law are not made; or
- we have not obtained all the information and explanations necessary for the purposes of our audit.

Responsibilities of the trustees

As explained more fully in the trustees' responsibilities statement, the trustees are responsible for the preparation of the financial statements and for being satisfied that they give a true and fair view, and for such internal control as they determine is necessary to enable the preparation of financial statements that are free from material misstatement, whether due to fraud or error.

In preparing the financial statements, the trustees are responsible for assessing the Group's and Parent Charitable company's ability to continue as a going concern, disclosing, as applicable, matters related to going concern and using the going concern basis of accounting unless the trustees either intend to liquidate the Group and Parent Charitable company or to cease operations, or have no realistic alternative but to do so.

Our responsibilities for the audit of the financial statements

Our objectives are to obtain reasonable assurance about whether the financial statements as a whole are free from material misstatement, whether due to fraud or error, and to issue an auditor's report that includes our opinion. Reasonable assurance is a high level of assurance but is not a guarantee that an audit conducted in accordance with ISAs (UK) will always detect a material misstatement when it exists. Misstatements can arise from fraud or error and are considered material if, individually or in the aggregate, they could reasonably be expected to influence the economic decisions of users taken on the basis of these financial statements.

Extent to which the audit was considered capable of detecting irregularities, including fraud

We identify and assess the risks of material misstatement of the Financial Statements, whether due to fraud or error, and then, design and perform audit procedures responsive to those risks, including obtaining audit evidence that is sufficient and appropriate to provide a basis for our opinion.

We discussed our audit independence complying with the Revised Ethical Standard 2019 with the engagement team members whilst planning the audit and continually monitored our independence throughout the process.

Identifying and assessing potential risks related to irregularities

In identifying and assessing risks of material misstatement in respect of irregularities, including fraud and non-compliance with laws and regulations, our procedures included the following:

- enquiring of management, including obtaining and reviewing supporting documentation, concerning the Group's and Parent charitable company's policies and procedures relating to:
- identifying, evaluating and complying with laws and regulations and whether they were aware of any instances of non-compliance.
- detecting and responding to the risks of fraud and whether they have knowledge of any actual, suspected or alleged fraud.
- the internal controls established to mitigate risks related to fraud or non-compliance with laws and regulations.
- discussing among the engagement team how and where fraud might occur in the Financial Statements and any potential indicators of fraud.
- obtaining an understanding of the legal and regulatory frameworks that the Group and Parent Charitable company operates in, focusing on those laws and regulations that had a direct effect on the Financial Statements or that had a fundamental effect on the operations of the Group and Parent Charitable company, The key laws and regulations we considered in this context included the UK Companies Act and relevant tax legislation.

Audit response to risks identified

In addition to the above, our procedures to respond to risks identified included the following:

- reviewing the financial statement disclosures and testing to supporting documentation to assess compliance with relevant laws and regulations.
- enquiring of management concerning actual and potential litigation and claims; performing analytical procedures to identify any unusual or unexpected relationships that may indicate risks of material misstatement due to fraud.
- reading minutes of meetings of those charged with governance and reviewing correspondence with HMRC; and
- in addressing the risk of fraud through management override of controls, testing the appropriateness of journal entries and other adjustments.
- assessing whether the judgements made in making accounting estimates are indicative of a potential bias; and
- evaluating the business rationale of any significant transactions that are unusual or outside the normal course of business.

We also communicated relevant identified laws and regulations and potential fraud risks to all engagement team members and remained alert to any indications of fraud or non-compliance with laws and regulations throughout the audit.

A further description of our responsibilities for the audit of the financial statements is located on the Financial Reporting Council's website at: **[www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]**. This description forms part of our auditor's report.

Use of our report

This report is made solely to the Charity's members, as a body, in accordance with Chapter 3 of Part 16 of the Companies Act 2006. Our audit work has been undertaken so that we might state to the Charity's members those matters we are required to state to them in an auditor's report and for no other purpose. To the fullest extent permitted by law, we do not accept or assume responsibility to anyone other than the Charity's members as a body, for our audit work, for this report, or for the opinions we have formed.



Alison Vickers (Senior Statutory Auditor)
for and on behalf of
Bevan Buckland LLP
Chartered Accountants
And Statutory Auditors
Ground Floor
Cardigan House
Castle Court
Swansea Enterprise Park
Swansea
SA7 9LA

Date: 22 September 2022

WALES COUNCIL FOR VOLUNTARY ACTION

England & Wales - Charity number 218093

Accounts

Gwneud mwy o wahaniaeth **gyda'n gilydd**

Make a bigger difference **together**

WCVA
CGGC

Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2020/21
Annual report and financial statements 2020/21

CYMRAEG ENGLISH

0300 111 0124 | www.wcva.cymru

Cynnwys

Cyhoeddwyd Tachwedd 2021

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhif Elusen Gofrestredig 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru

Adroddiad blynyddol 2020/21 2

Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr 36

Grantiau a chyllid 39

Aelodau 41

Adolygiad ariannol 42

Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 47

- Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol 47
- Cyfrif incwm a gwariant y grŵp 48
- Mantolen gyfunol 49
- Mantolen yr elusen 50
- Datganiad o lif arian y grŵp 51
- Nodiadau i'r datganiadau ariannol 52

Adroddiad strategol y grŵp 78

Adroddiad yr archwilydd annibynnol 80

Croeso

Helo a chroeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.

YN FLWYDDYN HEB EI THEBYG, GWNAETH POB UN OHONON NI DEIMLO EFFEITHIAU'R PANDEMIG DRWY GYDOL Y CYFNOD HWN.

Mae'n rhaid i ni ddechrau drwy gydnabod pa mor anodd mae 2020/21 wedi bod i unigolion, cymunedau a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru a thu hwnt. Y gwirionedd trist yw na fydd llawer o fudiadau gwirfoddol yn ailgodi o hyn, ac mae cyfnod heriol o flaen y gweddill ohonyn nhw.

Fodd bynnag, rydyn ni hefyd wedi gweld rhai pethau cadarnhaol. Mae'r ymateb gan y sector gwirfoddol i'r argyfwng wedi bod yn wirioneddol anhygoel. Ni fu gwerth a phwysigrwydd y sector yma yng Nghymru erioed yn fwy eglur.

Mae CGGC yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. Rydyn ni'n falch o'r rhan rydyn ni wedi'i chwarae mewn galluogi gwaith hanfodol ein sector yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae gweithio gyda'n gilydd wedi bod yn gwbl hanfodol y flwyddyn hon, fel y gwelwch chi o'n rhestr faith o ddiolchiadau ar dudalen 34.

Y GWAHANIAETHAU MWYAF RYDYM NI WEDI'U GWNEUD YN 2020/21

1 Gwnaeth newid ein ffocws i ddarparu **cyngor, arweiniad a chyllid COVID-19 hanfodol** ganiatáu i ni gynorthwyo mudiadau gwirfoddol drwy'r pandemig.

2 Trwy weithio gyda'n partneriaid, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ac eraill, **gwnaethon ni alluogi mwy o wirfoddolwyr i ymateb i'r pandemig.**

3 Gwnaethon ni **gryfhau llais mudiadau gwirfoddol gyda'r llywodraeth,** gan sicrhau bod ymateb y sector i COVID-19 yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau ein Hadroddiad Blynyddol.

Ruth Marks MBE
Prif Weithredwr

Peter Davies CBE
Cadeirydd

Ein nodau

Cynllun newid CGGC 2017-22



Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn gryfach ac yn fwy gwydn

Os yw mudiadau gwirfoddol yn mynd i wneud y gwahaniaeth mwyaf y gallant eu gwneud, mae angen iddynt fod yn gryf eu hunain. Y flwyddyn hon, gwnaethon ni ganolbwyntio ar helpu'r sector i lywio trwy'r newidiadau a'r ansicrwydd, gan addasu ein gwasanaethau i adlewyrchu amrywiaeth y sector, a negodi, adolygu a chyflwyno cyllid COVID-19 brys.

Beth wnaethon ni

1 Gwnaethon ni ddosbarthu mwy na threbl y swm cyllid i'r sector (mewn grantiau a benthyciadau) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda £47miliwn yn cael ei ddosbarthu yn 2020/21 o'i gymharu â £ 14.6miliwn yn 2019/20. O hyn, roedd £27.8 miliwn yn gyllid a oedd yn ymwneud â COVID-19 ac yn ôl Offeryn Olrhain Grantiau COVID-19 '360Giving' (fel ag yr oedd ym mis Chwefror 2021), CGGC oedd y nawfed cyllidwr COVID-19 uchaf yn y DU o ran nifer y grantiau a roddwyd allan, gyda 461 o grantiau a oedd yn ymwneud â COVID yn cael eu dosbarthu

2 Gwnaethon ni roi diweddariadau ar COVID-19 a chylchlythyrau i'r sector, a gweithredu fel un o'r prif gyfryngwyr rhwng Llywodraeth Cymru a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Gwnaethon ni hefyd gysylltu cyflenwyr cyfarpar diogelu personol (PPE) â grwpiau oedd angen cyflenwadau ar hyd a lled y wlad. Cyflwynwyd 85 o sesiynau ar-lein gennym i fwy na 2,500 o gyfranogwyr a gwnaethon ni gyhoeddi mwy na 50 o flogiau ac adnoddau canllaw

3 Gwnaethon ni godi ymwybyddiaeth o Gyllido Cymru, sef platfform a grëwyd gyda'n partneriaid, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, yn Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW). Yn dilyn ymgyrch gan bartneriaid, llwyddodd y safle i gyrraedd carreg filltir bwysig o 10,000 o ddefnyddwyr cofrestredig. Mae bellach yn cynnwys manylion 670 o gyllidwyr, 770 o wahanol gronfeydd, a gwelodd 19,347 o chwiliadau am gyllid dros gyfnod o 12 mis

4 Roedd gwirfoddoli a gweithredu dan arweiniad y gymuned yn gwbl ganolog i ymateb ein cymdeithas i COVID-19. Gwnaethon ni helpu gwirfoddolwyr i gamu ymlaen yn ddiogel yn ystod y pandemig gan ddefnyddio platfform Gwirfoddoli Cymru Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Gwelwyd cynnydd aruthrol mewn gwirfoddolwyr a chyfleoedd gwirfoddoli cyfatebol y flwyddyn hon, wrth i'r pandemig ennyn ymateb pellgyrhaeddol a brwdfrydig iawn gan wirfoddolwyr ar hyd a lled y wlad

5 Gwnaeth ein prosiect Catalydd Cymru: Treftadaeth Wydn, gynnig cymorth trylwyr i fudiadau treftadaeth ledled Cymru i'w helpu i ddatblygu ymhellach. Eleni, gwnaethon ni gyrraedd 115 o unigolion o fudiadau treftadaeth ledled Cymru ar draws 11 o wahanol gyrsiau a mwy na 40 awr o ddysgu i amserlen

Gwirfoddoli Cymru yn 2020/21

14,019
o wirfoddolwyr wedi cofrestru

1,035,881
o olygon tudalennau

23,291
o oriau wedi'u cofnodi

257,831
o ymwelwyr â'n gwefan

1,213
o gyfleoedd newydd wedi'u lanlwytho

Gwirfoddoli COVID-19

8,068
o wirfoddolwyr

298
o gyfleoedd

18,637
o oriau wedi'u cofnodi

1,346
o dasgau cymunedol wedi'u hychwanegu at yr ap tasgau
(1,335 wedi'u cwblhau hyd yma)

Grantiau a benthyciadau wedi'u dosbarthu i'r sector - £47 miliwn

£15,162,204
Ymateb brys COVID-19

£9,455,120
Grantiau goroesi ac adfer COVID-19

£674,314
Prosiectau rhwng Cymru ac Affrica

£3,165,315
Benthyciadau goroesi ac adfer COVID-19

£146,096
Grantiau gwirfoddoli

£7,385,563
Cymorth lleol i'r sector

£1,432,038
Buddsoddiadau cymdeithasol

£87,545
Cynnal rhwydweithiau trydydd sector

£581,715
Partneriaethau natur lleol

£585,002
Cefnogi a chryfhau gweithredu cymunedol

£3,431,273
Lleihau anweithgarwch economaidd

£102,819
Arall

£2,167,695
Grantiau amgylcheddol

£2,668,156
Prosiectau cyfalaf i adfer a gwella natur

Y gwahaniaeth a wnaethon ni



Helpu Cymru i gael gafael ar gyllid Ewropeaidd

DERBYNIODD 3-SET (EIN TÎM EWROPEAIDD TRYDYDD SECTOR) WERTHUSIAD ANNIBYNNOL ARUTHROL O GADARNHAOL GAN YR YMCHWILWYR, WAVEHILL.

Nodwyd, ymhlith pethau eraill, fod '3-SET wedi dangos ei allu i ledaenu gwybodaeth a chanllawiau perthnasol a chyfredol, ochr yn ochr â pholisi ac ymgysylltiad lefel strategol i hyrwyddo'r sector a'i ddyfodol' ac 'roedd y mwyafrif llethol o'r buddiolwyr hefyd yn credu bod 3-SET wedi cynnig canllawiau effeithiol i'w cynorthwyo i gyflawni eu prosiectau.

'Roedd y mwyafrif yn credu bod 3-SET wedi'u cynorthwyo i raddau helaeth ac ni wnaeth unrhyw un awgrymu eu bod wedi methu â darparu cymorth defnyddiol pan yr holwyd amdano.'

◀ **Chwith:** Gweithiwr dan hyfforddiant yng Nghanolfan Arddio Awen, lle mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn rhedeg menter seiliedig ar waith i oedolion ag anableddau. Cafodd Awen gyllid trwy ein Cronfa Wydnwch y Trydydd Sector

Beth wnaethoch chi ei ddweud am ein cyrsiau Catalydd Cymru

> ‘Gwych, y gorau rwyf wedi cymryd rhan ynddo. Mae wedi rhoi syniadau ardderchog i mi hefyd.’

Cyfranogwr ar ein cwrs Cyflwyniad i Roi Unigol

> ‘Gwnaeth y cwrs wneud i mi edrych ar recriwtio aelodau bwrdd mewn modd cwbl wahanol ac edrych ar ffyrdd mwy arloesol o recriwtio ymddiriedolwyr’

Cyfranogwr ar ein dosbarth meistr ‘Sut i recriwtio aelodau bwrdd amrywiol’

Dde: Paned gyda grŵp cerdded Coed Lleol yn Nhremadog. Mae Coed Lleol wedi bod yn trefnu teithiau cerdded a gweithgareddau natur eraill, gan gadw pellter cymdeithasol, ar hyd a lled Cymru i gefnogi iechyd meddwl a llesiant ▶

Beth wnaethoch chi ei ddweud am ein Cronfa Wydnwch y Trydydd Sector

‘Cafodd y cyllid effaith enfawr ar ein mudiad. Sicrhaodd fod ein cyllid craidd yn ddiogel, gan roi’r cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod yr unigolion a oedd yn cysylltu â ni’n gallu cael y cymorth oedd ei angen arnynt yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae hefyd wedi rhoi’r cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau eraill a gwasanaethau newydd ar gyfer amgylchedd ar ôl cyfyngiadau, fel cyflwyno gwasanaeth o bell.’

Mind Bwrdeistref Caerffili

‘Mae wedi ein helpu i ddal ati pan wnaethon ni syrthio trwy’r bylchau gyda mathau eraill o gymorth. Mae wedi golygu y gallwn ni – mewn cyfnod anodd tu hwnt – gynllunio’n hyderus ar gyfer yr hirdymor, a rhoi ein hunain mewn sefyllfa i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni’r hyn sydd ei angen a’i eisiau wrth i ni ailgodi gyda’n gilydd. Mae’r arian, yn amlwg, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr ac arwyddocaol, ond mae’r hyn sydd wedi’i ddatgloi yn sgil y cyllid hwn o ran ein gallu i edrych ymlaen hefyd wedi cael effaith fawr.’

Circus Eruption

Mae Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru yn gynllun grant a benthyciad COVID-19 gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i dylunio i gynorthwyo mudiadau gwirfoddol i ddod drwyddi a ffynnu yn ystod y pandemig. Yn ystod 2020/21, gwnaethon ni ddosbarthu £9.5 miliwn mewn grantiau a £3.2 miliwn mewn benthyciadau trwy'r gronfa.

Astudiaeth achos

Gobaith yng ngŵydd popeth

GWNAETH CRONFA WYDNWCH Y TRYDYDD SECTOR HELPU HOPE RESCUE I DDOD DRWY STORM 2020.

Hyd yn oed cyn i Covid-19 ddod â'r byd i stop, cafodd Cymru ei difrodi gan Storm Dennis. Achosodd y llifogydd ddifrod ofnadwy, yn enwedig mewn rhannau o Dde Cymru, ac i'r elusen achub cŵn, bu'n fwy costus fyth pan fu'n rhaid i'w siop elusen ym Mhontypridd gau.

Prin y cafodd Hope Rescue gyfle i ddal eu gwynt cyn i'r cyfyngiadau orfodi i'w gwasanaeth llety cŵn gau, gan dynnu ffrwd arall o incwm oddi arnynt, hyd yn oed pan oedd galw uchel am eu gwasanaethau o hyd.

'Nid oedd cau ein drysau yn opsiwn pan ddaeth y cyfyngiadau symud i rym' meddai'r Rheolwr Trawsnewid, Vanessa Wadden. 'Roedden ni'n gwybod y byddai'r cŵn mwyaf agored i niwed yn ein cymuned leol yn parhau i fod angen ein help, ynghyd â pherchnogion anifeiliaid anwes agored i niwed a'u teuluoedd. Byddai angen ein gwasanaethau yn fwy nag erioed.'

'Dim ond digon o arian i ddal ati am gwpwl o fisoedd oedd gennym wrth gefn. Gwnaeth grant Cronfa Wydnwch y Trydydd Sector nid yn unig ein galluogi i gadw'n drysau ar agor, ond gwnaeth hefyd roi'r amser yr oedd ei angen arnom i anadlu a chanolbwyntio ar addasu ein gweithrediadau a'n strategaeth creu incwm.

'Y diwrnod y clywsom ein bod wedi cael y grant oedd y noson orau o gwsg roeddwn i wedi'i chael ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau!'

Gwirfoddolwr o Hope Rescue yn cerdded un o'u cŵn achub

Ein nod

Mae mudiadau gwirfoddol yn cael eu gwerthfawrogi mwy a rhoddir mwy o ffydd ynddynt

Gwyddom nad yw pobl bob amser yn sylweddoli'r gwerth aruthrol y mae mudiadau gwirfoddoli yn ei gyfrannu at gymunedau ledled Cymru. Y flwyddyn hon, roedden ni eisiau dod yn llais cryfach ar gyfer y sector, yn enwedig wrth ddynesu at etholiadau 2021 y Senedd.

Beth wnaethon ni

1 Gwnaethon ni ddefnyddio ein cyrhaeddiad i hybu gwerth mudiadau gwirfoddol trwy'r pandemig drwy gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol fel #NawrFwyNagErioed a threfnu gweithgareddau ar gyfer yr Wythnos Ymddiriedolwyr a'r Wythnos Gwirfoddolwyr. Daeth 157 o bobl i'n digwyddiadau poblogaidd yn ystod yr Wythnos Ymddiriedolwyr ar amrywio eich bwrdd, recriwtio ymddiriedolwyr ifanc a chynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol (AGMs) ar-lein

2 Gwnaethon ni gryfhau ein sylfaen dystiolaeth yn ystod y pandemig er mwyn deall yr effaith ar y sector gwirfoddol a dangos gwerth y sector. Rydyn ni wedi casglu gwybodaeth, gan gynnwys trwy ymarferiad gwrando gyda'n haelodau, wedi cydweithio ag ymchwilwyr ac wedi diweddaru ein Porth Data – ein cronfa o wybodaeth hanfodol am y sector yng Nghymru

3 Gwnaeth y prosiect Ennyn Effaith gynorthwyo'r sector yng Nghymru i fesur a dangos ei effaith trwy ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau a gweminarau am ddim. Gwnaethon ni gynnal pum digwyddiad mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a alluogodd cyfranogwyr i drafod pynciau uwch. Gwnaeth deg gweminar ragarweiniol hefyd gynnig y cyfle i ddysgu am wahanol agweddau ar effaith. Cyrhaeddodd y prosiect bron 400 o gyfranogwyr yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cynrychioli 41% o'r cyfranogwyr ledled y DU

Dde: Sesiwn chwarae i deuluoedd yng Nghanolfan Cymunedol Butetown yng Nghaerdydd a redir gan yr elusen cynhwysiant cymdeithasol, The Mentor Ring – un o dderbynyddion ein Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector ▶

Astudiaeth achos

#NidGwobrauElusennauCymru

GWNAETHON NI NEILLTUO MIS HYDREF I GYDNABOD GWAITH ANHYGOEL MUDIADAU GWIRFODDOL A GWIRFODDOLWYR.

Oherwydd argyfwng COVID-19, bu'n rhaid i ni wneud y penderfyniad anodd i ganslo Gwobrau Elusennau Cymru 2020. Fodd bynnag, gyda chymaint o grwpiau ac unigolion yn gwneud cymaint i gynorthwyo pobl yng Nghymru yn ystod y cyfnod anodd hwn, roedden ni'n teimlo ei bod hi'n bwysicach nag erioed i weiddi nerth ein pennau am waith mudiadau gwirfoddol.

Roedd ein hymgyrch, #NidGwobrauElusennauCymru, yn annog pobl i 'enwebu' mudiad gwirfoddol neu wirfoddolwr a oedd wedi cael effaith fawr ar eu bywydau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gan ddefnyddio'u ffonau clyfar neu we-gamera, cymerodd bobl ran drwy recordio neges i ddweud 'diolch' neu 'thank you' personol i wirfoddolwyr neu fudiadau penodol a oedd yn golygu rhywbeth iddyn nhw.

Rhai o'r fideos gwych y gwnaethon ni eu derbyn fel rhan o'r ymgyrch, wedi'u cymryd o'n **fideo uchafbwyntiau 2020**

Nid oedd unrhyw enillwyr na gwobrau i'w cyflwyno, ond drwy gydol mis Hydref, bu ein hashnod a'n ffrydiau cyfryngau cymdeithasol yn llawn diolchiadau o'r galon a straeon ysbrydoledig am unigolion a grwpiau a oedd yn amlwg wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Diolch i bawb a gymerodd ran!

Y gwahaniaeth a wnaethon ni

1 Gwnaethon ni gyhoeddi mwy o straeon newyddion da ar ein gwefan nag erioed o'r blaen, sy'n dangos y gwahaniaeth y mae mudiadau gwirfoddol wedi bod yn ei wneud i gymunedau ar hyd a lled Cymru yn ystod y pandemig. Gwnaethon ni gyhoeddi 42 o flogiau am ymateb y sector i'r pandemig a sut allem ni ailadeiladu, a gwnaethon ni gofnodi 194,857 o ymwelwyr â'r wefan yn 2020/21 o'u cymharu ag 191,374 yn 2019/20

2 Fel un o nifer o randdeiliaid sy'n gweithio tuag at gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn mudiadau gwirfoddol, rydyn ni'n falch o weld bod y Comisiwn Elusennau wedi adrodd ym mis Mehefin 2020 (Saesneg yn unig) fod yr ymddiriedaeth a'r hyder cyffredinol mewn elusennau wedi cynyddu yn y ddwy flynedd flaenorol (er eu bod yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn 2016)

Dde: Paentio ffenestri yn Antur Waunfawr, a dderbyniodd cyllid i fuddsoddi yn eu canolfan drwy ein Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (SBGF). Mae SBGF wedi'i chyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ▶

Beth wnaethoch chi ei ddweud am ein hymgyrch #NidGwobrauElusennauCymru

‘Gwnaeth #nidgwobrauelusennaucymru CGGC roi cyfle unigryw i Aren Cymru a mudiadau eraill gydnabod a dathlu cyfraniadau eithriadol y rheini sy’n mynd yr ail filltir i gynorthwyo pobl yn ystod pandemig COVID-19.

‘Ym mis Hydref 2020, diolchodd Judith Stone, y Rheolwr Gyfarwyddwr, i un o wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr Aren Cymru, y Llawfeddyg Trawsblannu Ymgynghorol, Dr Mike Stephens, gyda fideo byr a rannwyd ar blatfformau ein cyfryngau cymdeithasol. Trwy rannu’r fideo ar blatfformau cenedlaethol CGGC, amlygwyd pwysigrwydd elusennau o ran cynorthwyo pobl â chyflyrau iechyd. Codwyd proffil Aren Cymru ac ehangwyd ein cyrhaeddiad i ddenu buddiolwyr a chefnogwyr newydd, gan arwain at ymholiadau ynghylch ein cyfleoedd gwirfoddoli.’

Aren Cymru

‘Gwnaeth Tŷ Hafan dderbyn tri enwebiad yn #NidGwobrauElusennauCymru 2020 - un gan ein cyn-reolwr Gwirfoddoli, Debbie Gibby, yr ail gan Kelly Morris, Dirprwy Reolwr ein siop yn Nhonysguboriau.

‘Ynghyd â hyn, bu ein Llysgennad, Lucy Owen, yn ddigon caredig i enwebu Tŷ Hafan drwy drydar fideo hyfryd o’i phrofiadau o’r hosbis a’r mewnwelediadau a gafodd wrth roi sylw diweddar i’n cefnogaeth dros Marieme a Ndeye, efeilliaid cydgysylltiedig, a’u tad.

‘Rhyngddyn nhw, cafodd y tri fideo hyn fwy nag 1.7 mil o olygon ar Twitter ac, wrth i nosweithiau tywyll yr hydref gau amdanon ni, a’r posibilrwydd o ail gyfnod clo gynyddu, roedd y platfform a ddarparwyd gan #NidGwobrauElusennauCymru yn ffordd wych o nid yn unig diolch i’n gwirfoddolwyr am wneud cymaint trosom ni yn ystod y diwrnodau anoddaf hynny, ond hefyd i rannu â chynulleidfa ehangach, a hwyluswyd gan yr hashnod, beth mae Tŷ Hafan yn ei wneud.’

Linda Harris,
Pennaeth Marchnata a Chyfathrebiadau Tŷ Hafan

Beth wnaethoch chi ei ddweud am ein gwaith Ennyn Effaith

'Dim ond eisiau dweud yn sydyn fod gwybodaeth ennyn effaith wedi bod yn ddefnyddiol tu hwnt yn fy ngwaith. Rwyf hefyd wedi bod yn rhan o raglen ymateb hyfforddiant covid y Sefydliad Codi Arian ac wedi bod yn rhannu gwefan a digwyddiadau Ennyn Effaith gydag elusennau eraill. Mae wedi bod yn hynod werthfawr, felly diolch o galon!'

◀ **Chwith:** Mae Canolfan Gweilch Bywyd Gwyllt Glaslyn yn parhau â'i waith o ddiogelu gweilch bridio yng Ngwm Glaslyn diolch yn rhannol i'n Cronfa Wydnwch y Trydydd Sector

Ein nod

Mae mudiadau a gwirfoddolwyr yn cael mwy o effaith ar lesiant cyfredol a llesiant y dyfodol

Rydyn ni eisiau helpu mudiadau gwirfoddol i wirioneddol wella llesiant Cymru, gan adeiladu ar y gwahaniaeth y maen nhw eisoes yn ei wneud. Yn 2020/21, gwnaethon ni ganolbwyntio ar grantiau sy'n cynorthwyo pobl i wneud gwahaniaeth i'w cymuned, a chynorthwyo mudiadau gwirfoddol i ymgyrchu a dylanwadu ar lywodraeth a busnesau er mwyn gwella llesiant pobl.

Beth wnaethon ni

1 Gwnaethon ni gryfhau llais mudiadau gwirfoddol trwy gynyddu ein hymgysylltiad lefel uchel â Llywodraeth Cymru

2 Ym misoedd cynnar y pandemig, gwnaethon ni gynnal nifer o ddigwyddiadau 'Dyfodol Gwahanol Cymru', yn edrych ar sut olwg allai fod ar Gymru ar ôl COVID o safbwynt yr argyfwng hinsawdd, gwirfoddoli, darparu gwasanaethau, yr economi a dylanwadu ar bolisi

3 Gwnaethon ni weithio gyda'r sector i lunio maniffesto'r Sector Gwirfoddol ar gyfer 2021 cyn etholiadau'r Senedd, gan nodi sut y gallai gwaith partneriaeth rhwng y sector a phenderfynwyr wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau ledled Cymru

4 Gwnaethon ni gynorthwyo Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i lunio ei Adroddiad Adfer er mwyn adeiladu ar yr enghreifftiau o waith da gan y sector yn ystod y pandemig. Canolbwyntiodd hwn ar dri maes allweddol – gwirfoddoli, cydberthnasau a chymorth. Gwnaeth yr adroddiad gynnig ffyrdd newydd o weithio gyda'n gilydd, blaenoriaethau ar gyfer partneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru a chyllid ar gyfer prosiectau strategol

5 Gwnaeth ein cyllid alluogi mudiadau i gynorthwyo'u cymunedau a mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol mawr. Er enghraifft, gwnaeth ein Cronfa Cynhwysiant Gweithredol gyllido prosiectau i helpu pobl dan anfantais i ddychwelyd i fyd gwaith, a gwnaeth ein grantiau Cymru ac Affrica hwyluso prosiectau sy'n cyflwyno buddion i'r ddwy wlad

6 Gwnaeth ein Prosiect Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol gefnogi anghenion llesiant pobl yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19, fel y rheini sydd wedi cael anawsterau emosiynol a chorfforol ac wedi teimlo'n unig ac wedi'u hynysu

Astudiaeth achos

Innovate Trust – nid enw yn unig mohono, mae'n feddylfryd

GWNAETH CRONFA CYNHWYSIANT GWEITHREDOL CGGC HELPU 'INNOVATE TRUST' I DDIWALLU ANGHENION EI DDEFNYDDWYR GWASANAETHAU.

Hyd yn oed gyda heriau COVID-19, mae meddwl yn hyblyg a dull wedi'i deilwra'n ofalus wedi galluogi cyfranogwyr ar brosiect cyflogaeth Innovate Trust i ffynnu.

Wedi'i gyllido gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, nod y prosiect yw cynnig amrediad o weithgareddau, hyfforddiant a chymorth i bobl anabl i'w galluogi i ennill sgiliau a phrofiad gwaith ar gyfer cyflogaeth.

Pan ddaeth y cyfyngiadau i rym, lles cyfranogwyr oedd y brif flaenoriaeth. Roedd yn rhaid i Innovate sicrhau bod cyfranogwyr yn ymdopi cystal ag y gallent. Gwnaethant drawsnewid eu gwasanaethau a chynnal sesiynau ar-lein dros blatfformau fideo fel Zoom, gan wneud pethau fel addysgu'r cyfranogwyr i ddefnyddio jariau gofidiau.

◀ **Chwith:** Mae Alex, cyfranogwr gyda Innovate, yn defnyddio'r wybodaeth garddio a roesant iddo dros y cyfyngiadau symud

Gwnaethant hefyd ddylunio eu platfform cyfryngau cymdeithasol unigryw eu hunain, 'Insight', a oedd yn lle ar-lein diogel i gyfranogwyr ryngweithio a chymdeithasu.

Mae Alex yn chwaraewr gemau brwd sydd wedi bod yn cymryd rhan mewn grwpiau chwarae gemau dros Zoom gyda chyfranogwyr eraill. Eglurodd Emma o Innovate, 'gyda'r cyfnod clo, d'oes dim rheswm dros beidio â threulio oriau'n chwarae gemau, ond gall hynny'ch gwneud chi'n fwy ynysig fyth. Feddylies i - yn fydde fe'n syniad da cael o leiaf grŵp cymdeithasol sy'n siarad am eu diddordebau?'

'Rwy'n ei fwynhau'n fawr' meddai Alex, 'mae wedi fy ngwneud i'n llawer mwy hyderus.'

Mae'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn cael ei rheoli gan CGGC, a'i chefnogi gan gyllid o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Y gwahaniaeth a wnaethon ni

1 Gwnaethon ni hwyluso 15 o gyfarfodydd rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ac ymateb i 15 o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru. Gwnaethon ni hefyd ymateb i ymgynghoriadau gan Senedd y DU a Gofal Cymdeithasol Cymru y flwyddyn hon. Gwnaeth hyn, ynghyd â gwaith arall ar ymgysylltu a dylanwadu, beri i waith CGGC gael ei grybwyll 45 o weithiau yng nghyfarfodydd llawn Senedd Cymru, mewn cwestiynau ac atebion ysgrifenedig, cyfarfodydd pwyllgor ac adroddiadau llywodraethol, gyda 36 o'r rhain yn ymwneud â'n gwaith ar gynorthwyo'r sector wrth ymateb i COVID-19

2 Cafodd argymhellion a wnaed gan CGGC, ar ôl ymgysylltu â'r sector, eu hadlewyrchu yn Adroddiad Adfer Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, gan gynnwys cydberthnasau â chyrff llywodraethol a chyhoeddus, cymorth i'r sector adfer, a sut i gynnal yr ymchwydd mewn gwirfoddoli a gweithredu cymunedol. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gytuno i weithio gyda'r sector i greu egwyddorion cyllido mwy cynaliadwy yn yr adferiad. Cafodd yr argymhellion hyn eu hadlewyrchu hefyd yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar effaith COVID-19 ar y sector

Dde: Platfform oedd un o'r lliaws o fudiadau gwirfoddol a addasodd ei wasanaethau yn ystod y pandemig i helpu'r gymuned. Cafodd Platfform Gyllid Ewropeaidd trwy ein Cronfa Cynhwysiant Gweithredol i helpu pobl dan anfantais i ddychwelyd i fyd gwaith. ▶

◀ **Chwith:** Gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn garddio i wella eu llesiant gyda Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, un o dderbynyddion Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol

Astudiaeth achos

Llinell fywyd i ofalwyr yn ystod y pandemig

GWNAETH EIN CRONFA ARGYFWNG Y GWASANAETHAU GWIRFODDOL HELPU GOFALWYR PEN-Y-BONT AR OGWR I ADDASU A CHREU GWASANAETHAU I GEFNOGI EU CYMUNED.

Bu'n rhaid i Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr addasu eu gwasanaethau'n gyflym ym mis Mawrth 2020 ar ôl gweld cynnydd eang mewn achosion o ofalwyr a oedd yn teimlo wedi'u hynysu ac yn bryderus.

Mae cyllid gan Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol CGGC wedi caniatáu i'r mudiad greu llinell ffôn newydd i ofalwyr gael gafael ar amrediad o arbenigwyr pan fyddant angen cyngor neu ddim ond sgwrs am bryderon a gofidiau.

'Gall bod yn ofalwr fod yn anhygoel o anodd', meddai Rhian Watts, Rheolwr Prosiect Addysg Gofalwyr Ifanc yng Nghanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr. 'Mae gan y bobl hyn y dasg hynod anodd o amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

'Wrth i'r pandemig waethygu, roedd angen cymorth ar y gofalwyr hyn yn fwy nag erioed. Fel y gŵydd pob un ohonon ni, mae rôl y gofalwr wedi dod yn anoddach nag erioed yn ystod y cwpwl o fisoedd diwethaf.

'Diolch i'r drefn, mae ein gwasanaethau newydd yn caniatáu i ni gyrraedd mwy fyth o ofalwyr, ac mae wedi creu ymdeimlad cryf o gymuned trwy helpu gofalwyr i gael ffyrdd newydd o reoli pryderon a'u hatgoffa bod yna bobl eraill sy'n deall yr hyn y maen nhw'n eu hwynebu.'

Ein nod

Mae CGGC yn fwy cynaliadwy a chyfrifol

Rydyn ni eisiau defnyddio llywodraethu a chynllunio da i sicrhau bod ein mudiad yn gynaliadwy, ond rydyn ni hefyd eisiau gweithio mewn modd sy'n cefnogi cymdeithas fwy cynaliadwy yng Nghymru. Yn ystod 2020/21, gwnaethon ni ganolbwyntio ar lesiant staff a chefnogi staff ar draws y mudiad i gyfrannu mwy at brosesau penderfynu.

Beth wnaethon ni

1 Gwnaethon ni newid i fodel gweithio gartref i'r holl staff a symud popeth i seilwaith digidol yn y cwmwl, gan gynnwys ein system ffôn. Gwnaeth hyn ganiatáu i ni ddarparu gwasanaethau ar gapasiti llawn, tra bod yr holl staff yn gweithio o bell ac yn ddiogel

2 Gwnaethon ni werthu ein swyddfa yn y Rhyl a symud i adeilad modern ar brydles yn Abergele. Mae hyn wedi creu system hyblyg o weithio wrth nifer o weithfannau, wedi lleihau gorbenion ac wedi ein galluogi i greu amgylchedd swyddfa hyblyg, fwy cynaliadwy i'n staff

3 Y flwyddyn hon, gwnaethon ni wella ein harferion llywodraethu a rheoli a chynyddu ein gwydnwch trwy greu cynllun ariannol pum mlynedd a dirprwyo cyfrifoldebau dros gyllidebau a gweithrediadau i reolwyr er mwyn caniatáu i ni fod yn fwy hyblyg, gyda'r gallu i addasu

4 Gwnaethon ni gadw at ein hymrwymiad i'r Cyflog Byw gwirioneddol. Ledled y DU, dim ond 4% o gyflogwyr Cyflog Byw sydd yn y sector gwirfoddol, ond mae'n dda gwybod bod 30% o gyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw yng Nghymru yn unig. Yn CGGC, yn ogystal â bod yn Gyflogwr Cyflog Byw ein hunain, rydyn ni'n Gyllidwr Cyflog Byw, sy'n ymrwymedig i annog y mudiadau rydyn ni'n eu cyllido i dalu'r Cyflog Byw gwirioneddol

5 Gwnaethon ni lansio grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Sefydlwyd y grŵp hyrwyddwyr EDI i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac i gefnogi'r gwaith o hybu'r pethau hyn yn CGGC. Mae aelodau o'r grŵp wedi hwyluso sesiynau yn ein diwrnod staff, datblygu calendr o ddigwyddiadau, rhoi cyngor ar ymarferion recriwtio, gwneud gwaith ymchwil ac wedi llunio papurau ar gyfer bwrdd ymddiriedolwyr CGGC

6 Gwnaethon ni gymryd rhan yn rhaglen Busnes Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg, gan gynnal arolwg staff i'n helpu ni i ddeall mwy am ein diwylliant busnes. Gwnaethon ni ddefnyddio hwn i hysbysu Cynllun Gweithredu Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn gwella a datblygu ein harferion adnoddau dynol

Y gwahaniaeth a wnaethon ni

Astudiaeth achos

Llesiant ein staff

GWNAETHON NI GEISIO LLEIHAU EFFEITHIAU'R PANDEMIG AR IECHYD MEDDWL EIN STAFF TRWY DDEFNYDDIO CLYBIAU AR-LEIN.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar iechyd meddwl pob un ohonon ni. Gyda'r mwyafrif o'n staff yn gweithio gartref eleni, roedden ni eisiau gwneud yr hyn y gallem ni i leihau ynysu ac annog iechyd meddwl da.

Pan darodd y pandemig, gwnaethon ni greu 'parth llesiant' ar ein mewnrwyd lle gallai staff rannu eu profiadau a syniadau da. Anogwyd staff i ddechrau clybiau ar-lein hefyd fel ffordd o gysylltu â'i gilydd.

Gwnaeth Mair Rigby, ein Rheolwr Llywodraethu a Diogelu, drefnu clwb darllen dydd Iau ar gyfer staff, a gwnaeth Rajma Begum, sy'n trefnu digwyddiadau cyri poblogaidd i godi arian, redeg 'Staff Grub Club' (Clwb Bwyd Staff) i gyfnewid syniadau coginio da, dangos ryseitiau a siarad am bopeth sy'n ymwneud â bwyd!

Dywedodd Nicola Nicholls o'n tîm gwirfoddoli: 'Mae mor braf cwrdd â chydweithwyr mewn amgylchedd hamddenol i rannu syniadau a ryseitiau, roedden ni i gyd yn mwynhau arddangosiadau coginio Rajma a'r lliaws o ddanteithion coginio a gyflwynwyd ganddi. Fe wnaeth hi fy ysbrydoli i ddefnyddio cynhwysion nad oeddwn wedi'u defnyddio o'r blaen ac roedd un o'i phrydau mor flasus, fe gefais i e' bob nos am wythnos! Mae'n seibiant hyfryd mewn diwrnod prysur iawn'.

Dde: Mae ein Rheolwr Amrywiaeth Cenedlaethol, Rajma yn dangos i gydweithwyr CGGC sut i chwipio un o'i chyrri byd-enwog ▶

Ein nod

Mae CGGC yn gwneud defnydd gwell o adnoddau mwy amrywiol

Rydym yn gweithio i amrywio ein sylfaen gyllido, yn gwneud defnydd gwell o ddigidol ac yn hyrwyddo diwylliant o wella'n barhaus a chydweithio ag eraill. Gwnaethon ni ganolbwyntio ar wneud yn siŵr bod gan ein staff y sgiliau digidol roedd eu hangen arnyn nhw i gyflwyno mwy o wasanaethau ar-lein. Gwnaethon ni hefyd edrych ar gael mwy o werth am ein harian drwy ein hadeiladau, cyllidebu strategol a thrwy weithio mewn partneriaeth.

Beth wnaethon ni

1 Trwy symud i weithio'n gwbl ddigidol, bu modd i ni barhau i ddarparu cymorth hyblyg a chydweithio gyda'r sector gwirfoddol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cefnogi Trydydd Sector Cymru a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

2 Gwnaethon ni gadw at ein hymrwymiad i ddarparu addysgu parhaus ar gyfer y staff, gyda'r holl gyrsiau hyfforddi staff yn symud i blatfformau digidol

3 Gwnaethon ni gynnal ein AGM a'n darlith flynyddol ar-lein am y tro cyntaf erioed, gyda darlith ragorol ar 'Sut gall elusen fyd-eang gyflenwi'n lleol' gan Brif Swyddog Gweithredol Oxfam, Danny Sriskandarajah, a glywyd gan 148 o bobl

4 Gwnaethon ni gydweithio ag Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar brotocol ar gyfer gweithio ar y cyd mewn ymateb i COVID-19

5 Gwnaethon ni barhau â'n partneriaeth â Cynnal Cymru, y prif fudiad ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Gweithiodd Cynnal Cymru ac CGGC gyda'i gilydd i nodi cyllidwyr posibl i gefnogi amrywiaeth o fewn y sector datblygu cynaliadwy, ac i wneud mwy i sicrhau pontio teg i sero-net. Bydd yr ymrwymiad a'r nod cyffredin hwn o fudd i'n haelodaeth ehangach ac yn cael effaith gadarnhaol ar gymdeithas sifil a'r amgylchedd. Gwnaeth Cynnal Cymru ac CGGC hefyd weithio gyda'i gilydd ar bapur ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch adferiad gwyrdd a chyfiawn

6 Gwnaethon ni weithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar waith ymchwil ar wirfoddoli a llesiant yn ystod y pandemig er mwyn dangos sut mae gwirfoddoli, gyda chefnogaeth seilwaith, yn helpu i greu cymunedau gwydn, wedi'u grymuso

Astudiaeth achos

Lansio'r Hwb Gwybodaeth i uwchsgilio'r sector

MAE'R HWB GWYBODAETH YN RHOI MYNEDIAD HAWDD I FUDIADAU GWIRFODDOL YNG NGHYMRU AT AMREDIAD O WYBODAETH, RHWYDWEITHIO A DYSGU AR-LEIN.

Y flwyddyn hon, gwnaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC a'n holl bartneriaid ar Gynghorau Gwirfoddol Sirol) lansio cronfa newydd o wybodaeth ac adnoddau dysgu ar-lein ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru – Hwb Gwybodaeth y sector gwirfoddol.

Mae'r Hwb yn adnodd am ddim sydd wedi'i ddylunio i helpu mudiadau gwirfoddol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, cysylltu ag eraill a gwella eu gwybodaeth mewn meysydd fel rhedeg eu mudiad, gwirfoddoli, cyllid a dylanwadu.

Yn ogystal â detholiad o daflenni gwybodaeth a chyrsiau ar-lein, mae'r Hwb Gwybodaeth hefyd yn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr rwydweithio â chymheiriaid a chael trafodaethau ar bynciau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae'r Hwb Gwybodaeth ar gael yn **www.thirdsectorsupport.wales**.

Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Y gwahaniaeth a wnaethon ni

1 Mae ein prosiect Partneriaethau Natur Lleol (LNP) Cymru yn cydweithio â phobl, cymunedau, penderfynwyr a busnesau i gynllunio a chreu Cymru fwy gwydn, sy'n gyfoeth o natur. Y flwyddyn hon, gwnaeth y prosiect ymdrin â bron 2,000 o ymholiadau, cynnal mwy na 650 o ddigwyddiadau a gweithgareddau a chynorthwyo mwy na 200 o brosiectau ymarferol a bron 300 o gymunedau i gael budd o'r gweithgareddau hyn. Mae LNP Cymru hefyd wedi cyfrannu at y gwaith o gyflenwi grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, gyda 98% o'r cyllid yn cael ei wario o fewn y flwyddyn ar alluogi 77 o brosiectau ledled Cymru

2 Gwnaeth CGGC chwarae rolau allweddol mewn cydweithrediadau â chyllidwyr eraill. Dyluniwyd ein cronfeydd brys i ategu'r rheini gan gyllidwyr allweddol eraill er mwyn sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i'r amrediad ehangaf posibl o fudiadau, a gwnaethon ni helpu i sicrhau bod data gwerthfawr yn cael ei rannu er mwyn ehangu cyrhaeddiad y cyllid ac atal ceisiadau twyllodrus. Nawr, mae CGGC, fel rhan o Fforwm Cyllidwyr Cymru, yn edrych ar sut y gellir adeiladu ar y cydweithrediad llwyddiannus hwn yn y tymor byr a'r hirdymor. Dywedodd un cyllidwr: 'Gwnaeth fy helpu i wneud argymhellion gwell. Gwnaeth leihau'r risgiau wrth wneud penderfyniadau. Rwy'n falch ei fod wedi digwydd.'

3 Gwnaeth ein prosiect Dyfodol Gwell Cymru gydweithredu â phartneriaid newydd er mwyn i CGGC a'r sector ennill sgiliau newydd. Buom yn gweithio gyda'r Ysgol Dyfodol Rhyngwladol a thair cymuned mewn gwahanol rannau o Gymru i ddychmygu eu dyfodol ar ôl y pandemig. Datblygodd y prosiect adnoddau fel podlediadau er mwyn galluogi grwpiau rhagolwg dan arweiniad y gymuned ledled y wlad

Gwnaeth Bwyd Dros Ben Aber Aberystwyth gymryd rhan yn y prosiect Dyfodol Gwell Cymru. Dywedodd Heather Mclure:

> 'Roedd y cyfle i ddysgu gan arbenigwyr rhagolwg ac arbenigwyr dychmygu yn werthfawr tu hwnt. Rydyn ni'n ceisio sicrhau cyllid ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â phrosiect sy'n gweithio tuag at yr economi gylchol. Rydyn ni'n mynd i fod yn cryfhau cyfleoedd tyfu bwyd a hyfforddiant garddwriaethol, ac rydyn ni'n mynd i gydweithio â'r 'Aber Food Coop.'

Astudiaeth achos

TSSW yn helpu i warchod bywyd gwyllt a choetiroedd

GWNAETH CYDWEITHREDIAD RHWNG CGGC A'R CYNGHORAU GWIRFODDOL SIROL HELPU PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO I OFALU AM RYWOGAETHAU A WARCHODIR.

Mae CGGC yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), y rhwydwaith o fudiadau cymorth ar gyfer y sector yng Nghymru. Mae TSSW yn bartneriaeth genedlaethol rhwng y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) lleol ac CGGC. Mae CGGC yn gweithio gyda CVCs ar asesu ceisiadau ar gyfer Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS), sy'n galluogi gweinyddiaeth ganolog effeithlon ynghyd â gwybodaeth am anghenion cymunedau lleol ledled y wlad.

◀ **Chwith:** Gwirfoddolwyr yn adfer Coedwig Llwynhelyg

Gwnaeth Coedwig Llwynhelyg, gardd Fictoraidd yn Sir Benfro, dderbyn cyllid gan LDTCS i'w hadfer er mwyn cyflwyno buddion i'r gymuned leol, denu ymwelwyr a gwella bioamrywiaeth.

Mae'r goedwig yn gartref i adar fel y gnocell fraith fwyaf, a chaiff yr ardal ei reoli i ddiogelu dyfrgwn fel Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. 'Cafodd y gwirfoddolwyr wybodaeth a sgiliau newydd ac roedden nhw'n teimlo'n fwy cysylltiedig â natur a'u hardal leol,' meddai Tom Moses o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Ein cyllid

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi trosolwg o'n perfformiad ariannol ar gyfer 2020/21.

YN YSTOD Y FLWYDDYN, GWNAETHON NI DDOSBARTHU £47 MILIWN MEWN GRANTIAU A BENTHYCIADAU I'R SECTOR GWIRFODDOL. EIN HINCWM OEDD £51 MILIWN A'N GWARIANT OEDD £49.7 MILIWN.

Incwm
£51 miliwn



Incwm cyfyngedig
£47.5 miliwn



Incwm anghyfyngedig
£3.5 miliwn




Gwariant
£49.7 miliwn
2%
3%
8%
87%
Grantiau i'r sector
Costau staff (cyflogai, recriwtio, hyfforddiant ac ati)
Gorbenion (costau adeiladau, cyfarpar, cyfleustodau ac ati)
Costau eraill (archwiliadau, ymgynghorwyr, marchnata ac ati)

Aelodau bwrdd CGGC

Llywydd
Michael Sheen

Is-lywyddion
Tom Jones OBE
Margaret Thorne CBE DL

Cadeirydd
Peter Davies CBE

Is-gadeirydd
Fran Targett OBE

Trysorydd
Jonathan Evans

Ymddiriedolwyr
Stephen Brooks
Rocio Cifuentes
Lindsay Cordery-Bruce
Lisa Davies
Elizabeth Girling
Simon Harris
Chris Lines
Mark Llewellyn
Sara Moseley
Joseph Stockley
Edward Watts MBE DL
Helen Bulkeley
(a adnabyddir fel Helen White)
Kate Young

Sylwedydd
Colin Arnold (o fis Chwefror 2021)
(Defigo Finance Ltd)

Ysgrifenyddes
Tracey Lewis

Rhif cofrestru'r cwmni 0425299

Rhif elusen 218093

Swyddfa Gofrestredig :
Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

Bancwyr
Barclays Bank Plc
Llys Windsor
1-3 Plas Windsor
Caerdydd
CF10 3BX

Cynghorwyr cyfreithiol
Geldards LLP
Cwr y Ddinas Rhif 4
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ
Hugh James
Dau Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1FS
Capital Law
Adeilad Capital, Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4AZ

Archwilydd
Bevan Buckland LLP
Langdon House, Langdon Road
Glannau Abertawe SA1 8QY

Diolch

Hoffai CGGC ddiolch i'n holl aelodau a phartneriaid am eu cymorth y flwyddyn hon, ynghyd â'r canlynol:

20 Degrees Consulting
Bwyd Dros Ben Aber
ACEVO
Arts Factory
Barclays Bank PLC
Bevan Buckland LLP
Comisiwn Bevan
Beiciau Gwaed Cymru
Busnes yn y Gymuned Cymru
Stadiwm Dinas Caerdydd
Prifysgol Caerdydd
Carol Mack, Association of Charitable Foundations
Carys Mair Thomas Cyfathrebu
Cyfrifiad 2021
Centurion VAT
Sefydliad Codi Arian Siartredig
Chwarae Teg
Class Networks
Comic Relief
Sefydliad Cymunedol Cymru
Cowshed
Cymdeithas Cyfieithwyr
Cytun
Dafydd Thomas
Danny Sriskandarajah, Oxfam
Darius Hughes, Cadeirydd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a Phennaeth Brechlynnau yn UK Pfizer
Darwin Gray
Data Cymru
Deryn
Drosi Bikes
Eileen Murphy
Elin Maher
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
Eva Trier Consulting
Futurice Ltd
Getting on Board
Helplu
Cynllun iechyd HSF
Jess Blair
Keegan and Pennykid
Legal Education Foundation
Lloyds Bank Foundation
Moondance Foundation
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
NCVO
Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd
GIG Cymru
Yr Uned Pobl a Gwaith
Tîm Canlyniadau Pŵer Pobl, Nesta
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Race Council Cymru
Recruit3
Cwmni Buddiannau Cymunedol Resource
Responsible Finance
Richard Newton Consulting
Russell Todd
Savage and Gray Design
Ysgol Dyfodol Rhyngwladol
Shirley David, Business and Employment Support and Training (BEST)
Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Investment Business
Social Investment Scotland
Chwaraeon Cymru
Tempo
Yr Ymgyrch #NawrMwyNagErioed
Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain
The Funding Centre
Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban (SCVO)
Volunteer Now
Volunteer Scotland
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
TUC Cymru
Wavehill
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)
Llywodraeth Cymru
Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Y Tŷ Gwyrdd

Datganiadau ariannol 2020/21

Yn yr adran hon ceir manylion ein cyfrifon a'n gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 gan gynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, adolygiad a datganiadau ariannol, adroddiad strategol y grŵp, gwybodaeth ynglŷn â'n haelodau, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol.

Adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr 2020/21

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Dogfen lywodraethu

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ('CGGC') yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Ei ddogfennau llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu dyddiedig 9 Rhagfyr 1946, a ddiwygiwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2016.

Recriwtio a phenodi Ymddiriedolwyr

Mae erthyglau cymdeithasu CGGC yn darparu ar gyfer Bwrdd sy'n cynnwys dim llai na chwech a dim mwy nag un-ar-bymtheg o ymddiriedolwyr. Caiff hyd at ddeuddeg o ymddiriedolwyr Bwrdd CGGC eu hethol gan Aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chaiff hyd at bedwar aelod eu penodi gan Fwrdd CGGC. Bydd ymddiriedolwyr yn ymadael yn ôl trefn gylchdro, sef y rhai sydd wedi gwasanaethu am dair blynedd yn ddi-dor ar ôl cael eu hethol neu eu hailethol.

Bydd ymddiriedolwr sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol am dymor pellach o dair blynedd ac ni chaiff yr un ymddiriedolwr fod yn y swydd am fwy na naw mlynedd yn olynol. Gall Bwrdd CGGC gyfethol unrhyw un ar unrhyw adeg i lenwi swydd wag dros dro sy'n codi ar Fwrdd CGGC. Ni chynhaliwyd unrhyw etholiadau ymddiriedolwyr yn ystod 2020 gan nad oedd unrhyw ymddiriedolwyr yn ymddeol, felly bydd ein hetholiadau nesaf yn cael eu cynnal yn 2021.

Cynefino a hyfforddi ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cwblhau sesiwn gynefino ac yn cael llawlyfr cynhwysfawr i ymddiriedolwyr sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am eu rôl a'u cyfrifoldebau. Caiff ymddiriedolwyr fynediad at adnoddau ar-lein i'w cefnogi yn eu rôl a darperir hyfforddiant mewnol sy'n ymdrin â meysydd llywodraethu allweddol. Yn ystod 2020/21, datblygwyd rhaglen hyfforddiant cyllid mewnol rhagorol a gyflwynwyd i ymddiriedolwyr.

Rheoli risg

Mae is-bwyllgor Archwilio a Risg CGGC wedi cymeradwyo cofrestr risg gynhwysfawr y mae'n ei hadolygu'n gyson. Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau posibl, yn disgrifio'r camau y mae angen eu cymryd i leihau neu osgoi pob risg, pwy sy'n gyfrifol am gymryd y camau, a'r dyddiadau targed.

Mae Cadeirydd yr is-bwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod pob un o'r ymddiriedolwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Swyddi Anrhydeddus

Mae gan CGGC dair swydd anrhydeddus, ac mae'n falch o gael cymorth pobl â diddordeb a phrofiad helaeth yn y sector gwirfoddol.

Mae Llywydd Anrhydeddus CGGC, Michael Sheen yn hyrwyddo CGGC a'r sector bob cyfle a gaiff. Mae Is-lywydd CGGC, Tom Jones OBE yn gweithio i gynnal a datblygu cysylltiadau cymdeithas sifil ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Mae Is-lywydd CGGC, Margaret Thorne CBE DL yn parhau i gefnogi gwaith CGGC gyda phartneriaid lleol.

Strwythur y mudiad

Aelod-fudiad yw CGGC. Mae'r aelodaeth ar gael i elusennau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio. Caiff aelodau eu hannog yn weithredol i lunio ein gwaith a chysylltu â rhwydwaith cyfoethog o bobl o'r un meddylfryd sydd â'r un weledigaeth.

Mae dau is-bwyllgor yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei rôl: is-bwyllgor Archwilio a Risg CGGC ac is-bwyllgor Cyllid CGGC. Cefnogir y Bwrdd hefyd gan nifer o fyrddau prosiect, panel benthyciadau a phanel cronfeydd grant. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro'r cynlluniau strategol a gweithredol sy'n ganolbwynt ac yn sail i waith CGGC.

Partïon cysylltiedig

Yn ystod 2010/11 sefydlodd yr Elusen grŵp drwy gorffori dau is-gwmni perchnogaeth lwyr, Social Investment (Cymru) Ltd (a ailenwyd o WCVA Investments Ltd ar 24 Hydref 2014) at ddibenion sefydlu cronfa fenthyciadau, a WCVA Services Ltd at ddibenion gweinyddu gwasanaethau benthyca.

Mae Social Investment (Cymru) Ltd yn darparu buddsoddiad cymdeithasol ar gyfer ac ar ran y trydydd sector yng Nghymru. Rydym wrthi'n ystyried creu diben arall i'r cwmni, sef i reoli holl gynnyrch ariannol ad-daladwy CGGC, er mwyn sicrhau bod gan y trydydd sector yng Nghymru ffynhonnell barhaus i fuddsoddiad ar gael i gefnogi ei uchelgais entrepreneuraidd.

Yn dilyn cwblhad prosiect blaenorol a gyllidwyd gan Ewrop, mae WCVA Services Limited bellach yn segur.

Mae Grantiau a Chontractau Caffael a ddyfarnwyd i gyrff lle mae gan yr Ymddiriedolwyr naill ai reolaeth uniongyrchol neu ddylanwad sylweddol wedi'u datgelu yn nodyn 8 y cyfrifon.

Cafodd trydydd is-gwmni, WCVA Trading Limited, ei gorffori yn ystod 2011/12; nid yw'r cwmni hwn yn weithredol ar hyn o bryd.

Gwnaeth ein pedwerydd is-gwmni, Cynnal Cymru - Sustain Wales (Cynnal Cymru) ymuno â grŵp CGGC ar 1 Ebrill 2018. Cynnal Cymru yw'r elusen genedlaethol dros ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cynnal Cymru hefyd yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant. Cynnal Cymru yw'r prif fudiad ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru. Cenhadaeth Cynnal yw gwneud Cymru'n gymdeithas garbon isel, effeithlon o ran adnoddau, iach, cyfiawn a ffyniannus sy'n un â'r ecosystemau naturiol sy'n ei chefnogi.

Trwy gydweithio byddwn yn cynyddu ein heffaith ac yn mynd yn agosach

at gyflawni ein nodau strategol o ran cynaliadwyedd, dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ymgynghoriaeth, hyfforddiant a gwaith dylanwadu gyda'n haelodau a'n partneriaid. Gyda'n gilydd byddwn yn cefnogi ein gilydd, ein haelodau a'n partneriaid i gyd-ddylunio a chyd-ddarparu datrysiadau arloesol i helpu i greu Cymru fwy cynaliadwy.

Amcanion a gweithgareddau

Ein gweledigaeth

'Dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb'

Ein cenhadaeth

'Bydd CGGC yn gatalydd dros newid positif drwy Gysylltu, Galluogi a Dylanwadu'

Amcanion elusennol

Amcanion yr elusen yw hybu pob diben neu unrhyw ddiben er budd y gymuned y bernir yn ôl y gyfraith ei fod yn ddiben elusennol.

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac wedi adolygu gweithgareddau'r elusen i sicrhau eu bod yn cynnig budd i'r cyhoedd. Wrth lunio ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ein gweithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr bob amser yn sicrhau bod y rhaglenni yr ydym yn eu darparu yn cyd-fynd â'n prif wrthrychau.

Wrth weithio gyda'r pandemig (Covid-19) annisgwyl a digyffelyb yn ystod y flwyddyn, gwnaethom adolygu ein meysydd busnes hanfodol ac addasu ein gweithgareddau at ddibenion gwahanol er mwyn sicrhau bod CGGC yn parhau i gefnogi anghenion y sector gwirfoddol yn ystod cyfnod ansicr iawn. Bu CGGC yn rheoli nifer o gronfeydd brys fel rhan o becyn cymorth £24 miliwn Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector. Mae CGGC yn parhau i gynorthwyo'r sector gwirfoddol yng Nghymru i ddatblygu ei weithgareddau, ei ymgysylltiad a'i effaith er mwyn cyfrannu at gymunedau lleol a mentrau polisi cyhoeddus cenedlaethol.

Grantiau a chyllid

Gweinyddodd yr elusen 21 (2020: 14) cynllun grant yn ystod y flwyddyn a gwnaed taliadau grant i 817 (2020: 388) o fudiadau.

Grantiau	**2021 Nifer y grantiau a dalwyd**	**2021 Gwerth y grantiau a dalwyd £**	2020 Nifer y grantiau a dalwyd	2020 Gwerth y grantiau a dalwyd £
Cynhwysiant Gweithredol – Dwyrain Cymru	**8**	**354,448**	17	850,566
Cynhwysiant Gweithredol – Ieuenctid Dwyrain Cymru	**8**	**171,610**	17	321,121
Cynhwysiant Gweithredol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**32**	**1,861,845**	82	3,328,047
Cynhwysiant Gweithredol – Ieuenctid Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**24**	**1,043,370**	46	1,847,080
Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**9**	**449,965**	11	337,705
Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol – Dwyrain Cymru	**6**	**237,013**	7	109,332
Cyllid Seilwaith – Cynghorau Gwirfoddol Sirol	**19**	**7,385,563**	19	3,673,126
Treth Tirlenwi	**60**	**2,167,695**	41	1,226,932
Cyngor Partneriaeth	**29**	**87,545**	29	87,545
Gwirfoddoli Cymru	**19**	**146,096**	54	907,726
Cysylltiadau Cymunedol Cymru ac Africa	**35**	**674,314**	34	237,560
Comic Relief	**19**	**585,002**	13	1,230,000
Helplu	**1**	**12,500**	1	75,000

Apêl Llifogydd Dennis	**7**	**25,819**	17	76,184
Partneriaeth Natur Leol LNP	**42**	**581,715**	-	-
Lleoedd Natur Lleol L4NP	**42**	**2,668,156**	-	-
Grant Datblygu Helplu	**3**	**36,000**	-	-
Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector	**177**	**9,455,121**	-	-
Cronfa Argyfwng y Sector Gwirfoddol	**270**	**15,162,204**	-	-
Kickstart	**6**	**25,500**	-	-
Ymchwil ar Wirfoddoli a Llesiant	**1**	**3,000**	-	-
	817	**43,134,480**	388	14,307,924
Incwm a gwariant arian cyfatebol ychwanegol a ddenwyd drwy incwm o'r cynlluniau grant.	105	1,930,791	156.00	2,722,074

Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i unrhyw elusennau, grwpiau gwirfoddol neu fentrau cymdeithasol sydd ar waith yng Nghymru. Gall y rheini nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn gofrestru'n danysgrifwyr neu'n bartneriaid, ond nid ystyrir y rhain yn aelodau. Eleni, gwnaethom oedi adnewyddu aelodaeth a recriwtio oherwydd y pandemig, felly roeddem yn falch o weld cynnydd bach yn y niferoedd.

Aelodau



Partneriaid

Adolygiad ariannol 2020/21

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth CGGC gynhyrchu cyfanswm incwm gweithredu o £50.77 miliwn. Prif ffynonellau cyllido'r Elusen yw cyllid grant a benthyciad gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, Comic Relief a chyllidwyr eraill i gefnogi ei gweithgareddau craidd, gwaith prosiect penodol a chymorth sylweddol i'r sector gwirfoddol yn ystod pandemig Covid-19. Caiff cyllid uniongyrchol ei gynhyrchu hefyd drwy gynnig gwasanaethau a gweithgareddau i'w haelodau, gan gynnwys hyfforddiant, cyhoeddiadau, cynadleddau a rhentu eiddo.

Mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol CGGC y flwyddyn hon, gan gynyddu'r incwm cyffredinol tua £30 miliwn. Mae oddeutu 85% o gyfanswm yr incwm wedi'i ddosbarthu fel grantiau heb gynnydd arwyddocaol mewn adnoddau eraill. Ni ragwelir y bydd yr incwm yn parhau ar y lefel uwch hon yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r incwm hwn, ynghyd â'r gwariant sy'n codi, yn cael ei rannu rhwng gweithgareddau anghyfyngedig a chyfyngedig. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol yr elusen er mwyn helpu i roi darlun clir o'r sefyllfa wirioneddol. Mae'r naratif isod yn cefnogi hynny ymhellach:

Dadansoddiad o sefyllfa ariannol gyfunol CGGC

	Anghyfyngedig £	Cyfyngedig £	Cyfanswm £
Incwm gweithredu a dderbyniwyd	3,491,581	47,275,076	50,766,657
Costau gweithredu	(2,348,382)	(47,314,586)	(49,662,968)
Canlyniadau gweithredu	**1,143,199**	**(39,510)**	**1,103,689**
Incwm buddsoddi	6,696	177,703	184,399
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd	61,882	(61,882)	-
Enillion ar ôl ailbrisio buddsoddiadau	22,595	-	22,595
Dibrisiant ar elfen wedi'i hailbrisio'r costau adeiladu a gyllidwyd drwy symudiadau yn y gronfa ailbrisio	(63,259)	-	(63,259)
Sefyllfa ariannol cyn addasiadau pensiwn	**1,171,113**	**76,311**	**1,247,424**
Addasiadau Pensiwn *	(2,020,000)	-	(2,020,000)
Sefyllfa derfynol	**(848,887)**	**76,311**	**(772,576)**
Balansau a ddygwyd ymlaen	2,905,902	4,272,753	7,178,655
Balansau a gariwyd ymlaen	2,057,015	4,349,064	6,406,079

*Mae swm o £210,000 i wrthbwyso'r costau pensiwn o fewn "Cyflogau ac Argostau" wedi'i gynnwys yn yr incwm gweithredu.

Gweithgarwch anghyfyngedig

Mae'r enillion gweithredu net o £1.14 miliwn a adroddir ar weithgarwch anghyfyngedig yn cynnwys gordaliad o £230 mil tuag at y diffyg pensiwn a'r ffioedd llog o £20 mil.

Cyfanswm y cyllid anghyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021 oedd £2.06 miliwn. O hyn, mae'r Bwrdd wedi dynodi £1.82 miliwn ar gyfer cronfa eiddo wrth gefn, cyfraniadau pensiwn ychwanegol tuag at y diffyg cyfandaliad a nodwyd ar gyfer blynyddoedd i ddod, y costau a ragwelir o gau prosiectau Ewropeaidd a chostau i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd parhaus yr elusen, gan adael cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig o £240 mil. Mae strategaeth ariannol bwyllog a gofalus yn cael ei dilyn i sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn yr elusen yn cael eu diogelu i gefnogi cynaliadwyedd parhaus y mudiad; ond unwaith eto eleni, cafodd y cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn eu heffeithio'n fawr gan effaith ar y gronfa bensiwn, a gynyddodd y diffyg i £3.35 miliwn. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ragdybiaethau'r actiwari fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

Gweithgarwch cyfyngedig

Mae'r holl brosiectau cyfyngedig yn cael eu cyllido'n llawn. Mae'r symudiad cadarnhaol o £76 mil yn cynrychioli'r symudiad net yn y flwyddyn yn erbyn y cronfeydd wrth gefn sydd gan CGGC ar weithgarwch benthyciad o ran CIF 1, CIF 2, Asda a chynlluniau benthyciadau Gwydnwch.

Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2021 oedd £4.35 miliwn, sy'n cynrychioli Cronfeydd Arian Parod Buddsoddi Cymunedol a dyledion heb eu talu ar arian a ddyfarnwyd, net unrhyw ddarpariaethau ar gyfer dyled goll. Yn unol â strategaeth ariannol bwyllog CGGC, bydd gwariant ar bob prosiect cyfredol yn cael ei fonitro a'i reoli'n ofalus er mwyn sicrhau na fydd colledion yn codi ar weithgarwch cyfyngedig sy'n cael ei gyllido'n llawn.

Gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'r ymddiriedolwyr gwirfoddol, mae 43 o unigolion a chanddynt sgiliau a phrofiad perthnasol yn gwasanaethu fel aelodau gwirfoddol o'r Byrddau Prosiect, Panel Benthyciadau ac Phanel Grantiau sydd yn cynorthwyo CGGC drwy ddarparu arbenigedd ar wahanol gynlluniau grant neu gynllunio gwahanol agweddau ar ei waith.

Polisi grantiau a chyllido

Mae'r ymddiriedolwyr yn hysbysebu pob cynllun grant a chyllido ac yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau cymwys. Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol ac argymhellion a wneir gan y byrddau prosiect a'r panel benthyciadau, a benodir gan y bwrdd a'u cadeirio gan aelodau bwrdd, gan gyflwyno trawstoriad eang o arbenigedd. Cedwir at godau ymddygiad llym, gan gynnwys cofrestru buddiannau. Cyhoeddir yr holl ddyfarniadau'n gyhoeddus.

Polisi buddsoddi

Mae'r ymddiriedolwyr yn buddsoddi'n bennaf mewn adneuon banc y farchnad arian, ond hefyd mewn rhai buddsoddiadau llog sefydlog, gyda'r nod o sicrhau enillion rhesymol gyda chyn lleied â phosibl o risg. Yn sgil gwerthu'r eiddo yn Aberystwyth a Gogledd Cymru a'r gwerthiant sydd ar droed o'r eiddo yng Nghaerdydd, mae'r polisi buddsoddi'n cael ei ddatblygu ymhellach.

Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd wrth gefn gael eu cadw ar lefel sy'n sicrhau y gall gweithgarwch craidd CGGC barhau pe bai cyllidwr mawr yn lleihau ei gyllid neu'n ei dynnu'n ôl, a bod cyfran o'r cronfeydd wrth gefn ar gael ar ffurf sy'n ei gwneud yn hawdd eu gwireddu. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried mai cronfeydd y gellid eu gwireddu'n rhwydd yw'r symiau y gellid eu troi'n arian parod yn hawdd pe bai angen gwneud hynny. Mae cyfrifo lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei hangen yn rhan annatod o gylchred cynllunio, cyllidebu a rhagamcanu CGGC. Mae'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd y gallai pob ffrwd incwm a gwariant fod yn wahanol i'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer; y lefel arfaethedig y gweithgarwch; ac ymrwymiadau CGGC.

Cafodd y polisi cronfeydd wrth gefn ei asesu a'i adolygu gan yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn. Trafodant y cronfeydd wrth gefn y gellid eu gwireddu'n rhwydd, ymrwymiadau CGGC a gwerth marchnadol buddsoddiadau. Tynnir sylw at y prif risgiau i'r incwm a'r gwariant ac mae cyfrifiad wedi'i wneud o ganlyniadau ariannol posibl symudiadau anffafriol. Defnyddiodd yr ymddiriedolwyr y wybodaeth hon i sicrhau y cedwir lefel ddigonol o gronfeydd wrth gefn y gellid eu gwireddu'n rhwydd. Mae gan yr ymddiriedolwyr gronfeydd anghyfyngedig dynodedig wrth gefn, gwerth cyfanswm o £1.82 miliwn, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf; ond, gyda'r cynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn y flwyddyn hon, mae'r cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig cyffredinol wedi lleihau'n sylweddol ar y cyfan.

Gellir gweld manylion y cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn sydd gan yr Elusen yn nodyn 18 y cyfrifon.

Yr Ymddiriedolwyr a chynghorwyr yr elusen

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ymddiriedolwyr a'r cynghorwyr eraill a wasanaethodd yr elusen yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â manylion gweinyddol eraill ynghylch yr elusen, ar dudalen 33 yr Adroddiad Blynyddol uchod.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith cwmnïau yn gofyn i ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r elusen a'r adnoddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae angen i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- Datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw amrywiadau perthnasol sydd wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau ar y sail honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar wefan yr elusen ac am uniondeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Archwilydd

Cyflwynwyd penderfyniad ynghylch penodi archwilwyr i'r aelodau yn ystod cyfarfod cyffredinol blynyddol 2019, yn unol ag adran 384 Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r penodiad am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd bellach.

DRWY ORCHYMYN Y BWRDD

Tracey Lewis
Ysgrifennydd y Cwmni

16 Medi 2021

CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT

Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Datganiad Cyfunol o weithgareddau ariannol

Incwm	Nodyn	**Cronfeydd Anghyfyngedig £**	**Cronfeydd Cyfyngedig £**	**Cyfanswm Cronfeydd 2021 £**	Cyfanswm Cronfeydd 2020 £
Incwm o weithgareddau Masnachu:					
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**547,588**	**53,294**	**600,882**	652,990
Incwm o fuddsoddiadau	4	**6,696**	**177,703**	**184,399**	232,639
Incwm arall	5	**1,416,397**	**-**	**1,416,397**	888,449
Incwm o weithgareddau Elusennol:					
Grantiau derbyniadwy	5	**702,996**	**47,221,782**	**47,924,778**	18,550,807
Incwm arall	5	**90,924**	**-**	**90,924**	14,389
Gwariant wedi'i adennill		**733,676**	**-**	**733,676**	832,741
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**3,498,277**	**47,452,779**	**50,951,056**	21,172,015
Gwariant					
Costau cynhyrchu cronfeydd:					
Gwariant ar godi arian	9	**376,197**	**-**	**376,197**	367,138
Gwariant ar weithgareddau elusennol	9	**1,972,185**	**47,314,586**	**49,286,771**	20,581,650
Cyfanswm gwariant		**2,348,382**	**47,314,586**	**49,662,968**	20,948,788
Incwm Net/(gwariant)		**1,149,895**	**138,193**	**1,288,088**	223,227
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		**61,882**	**(61,882)**	**-**	-
(Colledion)/enillion ar ailbrisio asedau sefydlog		-	**-**	**-**	**(353,638)**
Colledion)/enillion actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**(2,020,000)**	**-**	**(2,020,000)**	(1,310,000)
Revaluation reserve movement		**(63,259)**	**-**	**(63,259)**	241,685
Enillion/(Colledion) ar ailbrisio buddsoddiadau		**22,595**	**-**	**22,595**	(11,059)
Symudiad net mewn cronfeydd		**(848,887)**	**76,311**	**(772,576)**	(1,209,785)
Balans a ddygwyd ymlaen		**2,905,902**	**4,272,753**	**7,178,655**	8,388,440
Balans a gariwyd ymlaen		**2,057,015**	**4,349,064**	**6,406,079**	7,178,655

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.
Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys £1,816,000 (2020: £2,272,419) o gronfeydd dynodedig a chynaliadwy (gweler nodyn 18).

Cyfrif incwm a gwariant y grŵp

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Incwm		**3,491,581**	**47,275,076**	**50,766,657**	20,939,376
Costau gweithredu	9	**(2,348,382)**	**(47,314,586)**	**(49,662,968)**	(20,948,788)
		1,143,199	**(39,510)**	**1,103,689**	(9,412)
Incwm buddsoddiad	4	**6,696**	**177,703**	**184,399**	232,639
Gwariant net		**1,149,895**	**138,193**	**1,288,088**	223,227

Caiff holl weithgareddau'r elusen eu hystyried fel rhai parhaus.

Mantolen Gyfunol

	Nodyn	2021 £	2020 £
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	12	-	990,000
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	13	**97,490**	74,895
Stoc	14	**360,000**	-
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	**7,405,910**	3,698,022
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	15	**5,966,638**	2,843,139
Arian yn y banc		**20,268,776**	3,423,593
		34,098,814	10,039,649
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	**(21,191,856)**	(2,310,994)
Asedau cyfredol net		**12,906,958**	7,728,655
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**12,906,958**	8,718,655
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	**(3,150,879)**	-
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio (rhwymedigaeth)	24	(3,350,000)	**(1,540,000)**
Asedau net		**6,406,079**	7,178,655
Cronfeydd			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**2,057,015**	2,905,902
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**3,233,753**	3,073,651
Gwarged - arall		**1,115,311**	1,199,102
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	19	**4,349,064**	4,272,753
CYFANSWM CRONFEYDD		**6,406,079**	7,178,655

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 16 Medi 2021 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

P Davies CBE
Cadeirydd

J Evans
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen yr Elusen

	Nodyn	2021	2020
		£	£
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	12	-	990,000
Asedau cyfredol			
Buddsoddiadau	13	**97,493**	74,898
Stoc	14	**360,000**	-
Dyledwyr	15	**8,403,998**	4,863,527
Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	15	**4,892,432**	1,651,890
Arian yn y banc		**20,200,551**	3,316,434
		33,954,474	9,906,749
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	**(21,093,743)**	(2,195,725)
Asedau cyfredol net		**12,860,731**	7,711,024
Cyfanswm asedau heb gynnwys rhwymedigaethau cyfredol		**12,860,731**	8,701,024
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	**(3,150,879)**	-
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio (rhwymedigaeth)	24	**(3,350,000)**	(1,540,000)
Asedau net		**6,359,852**	7,161,024
Cronfeydd			
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	18	**2,010,788**	2,888,271
Cyfyngedig:			
Gwarged - sy'n ymwneud â benthyciadau hirdymor a ddyfarnwyd		**2,077,793**	1,796,500
Gwarged - arall		**2,271,271**	2,476,253
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	19	**4,349,064**	4,272,753
CYFANSWM CRONFEYDD		**6,359,852**	7,161,024

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan yr aelodau Bwrdd ar 16 Medi 2021 ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:

P Davies CBE
Cadeirydd

J Evans
Trysorydd

Rhif Cofrestru'r Cwmni. 0425299
Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o lif arian y grŵp

	2021	2020
	£	£
Llifau arian o weithgareddau gweithredu		
Gwariant net ar gyfer y cyfnod adrodd	**1,288,088**	223,227
Addasiadau ar gyfer:		
Costau dibrisiant	**93,640**	137,595
(Elw)/Colled ar waredu asedau diriaethol sefydlog	**(31,424)**	35,147
Llog a dderbyniwyd	**184,399**	232,639
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	**(6,831,387)**	321,115
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	**22,031,741**	(768,492)
Symudiad anariannol parthed addasiad Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio	**(210,000)**	130,000
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredu	**16,525,057**	311,231
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi:		
Enillion a dderbyniwyd o werthiant eiddo	**504,525**	196,562
Llog a dderbyniwyd	**(184,399)**	(232,639)
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	**320,126**	(36,077)
Newid mewn arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod adrodd	**16,845,183**	275,154
Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	**3,423,593**	3,148,439
Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**20,268,776**	3,423,593

Mae'r polisïau a'r nodiadau cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig wedi'i hymgorffori yn y Deyrnas Unedig. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH.

Nod yr elusen yw cyflwyno gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi gwirfoddoli, llywodraethu, cyllido a diogelu; a hyrwyddo a chefnogi cyfraniad y trydydd sector at feysydd polisi pwysig.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian swyddogol y grŵp, a'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

1. Polisïau cyfrifyddu

Dyma'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd trwy gynnwys buddsoddiadau asedau sefydlog ar werth y farchnad. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n galw amheuaeth ynghylch gallu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i barhau fel busnes gweithredol.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau" (Elusennau SORP FRS102) a Deddf Cwmnïau 2006, ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (y DU a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu critigol penodol. Mae hefyd yn mynnu bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Cwmni (gweler nodyn 2).

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn ymgorffori datganiadau ariannol yr Elusen a holl ymgymeriadau'r grŵp. Gan fod Datganiad cyfunol o Weithgareddau Ariannol a chyfrif incwm a gwariant yn cael ei gyhoeddi, mae Datganiad ar wahân o Weithgareddau Ariannol y rhiant-gwmni yn cael ei hepgor o ddatganiadau ariannol y grŵp drwy rinwedd adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Busnes Gweithredol

Mae'r grŵp a'r elusen yn bodloni eu gofynion cyfalaf gwaith dyddiol drwy eu cyfleusterau banc. Mae'r cyflyrau economaidd cyfredol yn parhau i greu ansicrwydd. Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sefyllfa fasnachu'r cwmni at y dyfodol, ac yn seiliedig ar ganlyniadau masnachu gwirioneddol ers diwedd y flwyddyn, maent yn hyderus bod modd defnyddio'r egwyddor busnes gweithredol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Cyfrifyddu cronfeydd

Defnyddir cronfeydd cyfyngedig at ddibenion penodol a osodir gan y rhoddwr. Bydd y cyfryw ddibenion yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y mudiad. Codir gwariant at y dibenion hynny ar y gronfa, ynghyd â dyraniad teg o orbenion a chostau cefnogi.

Rhoddion neu adnoddau eraill sy'n dod i mewn a geir neu a gynhyrchir i'w gwario ar amcanion cyffredinol yr elusen yw cronfeydd anghyfyngedig.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sydd wedi'u dynodi at ddibenion penodol gan yr Ymddiriedolwyr, ar gyfer gwaith angenrheidiol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau yn barhaus, ond sy'n methu â bodloni meini prawf llym y rhwymedigaeth gontractiol a osodir yn FRS102.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Incwm a gwaddolion

RHODDION AC ANRHEGION

Cynhwysir yr holl roddion ac anrhegion ariannol yn llawn yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy, a bwrw nad yw'r rhoddwr wedi gosod cyfyngiadau ar amseriad y gwariant perthnasol, ac os felly oedir cydnabyddiaeth hyd nes y mae'r rhag-amod wedi'i fodloni.

GRANTIAU DERBYNIADWY

Cynhwysir grantiau refeniw fel adnoddau sy'n dod i mewn yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo a bwrw bod amodau i'w derbyn wedi'u bodloni.

Cynhwysir grantiau ar gyfer cyllid craidd fel incwm gwirfoddol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Cynhwysir grantiau i brynu asedau sefydlog i adnoddau cyfyngedig sy'n dod i mewn yn y cyfnod y cododd y gwariant ynddo os yw'r amodau i'w derbyn wedi'u bodloni. Cynhwysir dibrisiad ar yr asedau sefydlog a brynwyd gyda'r cyfryw grantiau yn y gronfa gyfyngedig.

INCWM BUDDSODDIADAU

Cyfrifir am incwm buddsoddi ar sail croniadau. Daw'r incwm hwn o ddifidendau cyfranddaliadau, llog banc a llog o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

INCWM MASNACHU

Cyfrifir am incwm buddsoddi ar sail croniadau. Mae'r incwm hwn yn cynnwys hyfforddiant allanol a ddarperir, lesau tenantiaid, biwro'r gyflogres ac aelodaeth.

INCWM ARALL

Cynhwysir pob incwm arall yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y cyfnod y mae'r incwm yn perthyn iddo a bwrw bod gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm. Ni chynhwysir cyllid cyfatebol yn y cyfrifon hyn ond cyfeirir at y swm yn adroddiad yr ymddiriedolwyr a nodyn 8.

Gwariant

GRANTIAU TALADWY

Cynhwysir grantiau taladwy yn y cyfnod pan fodlonir yr amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth y taliad grant neu, pan nad oes amodau perfformiad, pan gyfyd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol.

GWARIANT ARALL

Cydnabyddir gwariant ar sail gronnol fel y cyfyd rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn llawn, a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n perthyn iddo:

- Costau cynhyrchu cronfeydd yw'r costau sydd ynghlwm wrth ddenu incwm gwirfoddoli a'r costau masnachu i godi arian.

- Gwariant elusennol yw'r costau hynny y mae'r elusen yn mynd iddynt wrth gynnal ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r cyfryw weithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cefnogi.

- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sydd ynghlwm wrth ateb gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys y ffioedd a'r costau archwilio sydd ynghlwm wrth reolaeth strategol yr elusen.

- Dyrannir pob cost rhwng categorïau gwario y SoFA mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r adnodd. Caiff costau sydd ynghlwm wrth weithgaredd penodol eu dyrannu'n uniongyrchol, a chaiff eraill eu dyrannu ar sail briodol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

GWARIANT WEDI'I ADENNILL

Mae gwariant wedi'i adennill yn ymwneud â gorbenion y gellir ailgodi tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys taliadau cyfieithu, meddiannu a defnyddiau traul, hyfforddiant staff mewnol, llogi ystafelloedd a ffioedd rheoli.

ARIAN GWEITHREDOL CYFLWYNIADOL

Caiff datganiadau ariannol unigol pob endid grŵp eu cyflwyno yn arian y prif amgylchedd economaidd y mae'r endid yn gweithredu o'i fewn (ei arian gweithredol). At ddiben y datganiadau ariannol cyfunol, mae'r canlyniadau a'r sefyllfa ariannol wedi'u cyflwyno mewn Sterling (£).

ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL A DIBRISIANT

Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol yn ôl cost neu brisiad, heb gynnwys dibrisiad ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Codir dibrisiad o'r flwyddyn gaffael ar adeiladau rhydd-ddaliadol yn gyfartal dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir, sy'n amrywio rhwng 10 ac 20 mlynedd.

Ar gyfer ychwanegiadau sy'n hanfodol i'r adeiladau, codir tâl dibrisio cronnol yn y flwyddyn brynu er mwyn cyd-fynd â'r cyfnod yr amcangyfrifir y caiff yr ychwanegiadau eu defnyddio yn yr adeilad y maent yn perthyn iddo.

Ni chaiff cyfrifiaduron na chyfarpar swyddfa eu cyfalafu mwyach ond fe'u cyfrifir drwy'r datganiad o weithgareddau ariannol. Ni chaiff yr holl asedau eraill sy'n costio £1,000 neu lai eu cyfalafu.

BUDDSODDIADAU

Cyfrifir buddsoddiadau asedau sefydlog yn unol â'u gwerth marchnadol, fel y'u cofnodir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Caiff symudiadau yn y gwerth marchnadol eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel enillion neu golledion heb eu gwireddu ar asedau buddsoddiadau. Cofnodir incwm sy'n deillio o'r cyfryw asedau fel incwm buddsoddiad yn y flwyddyn y'i derbyniwyd.

Nodir cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau yn ôl cost namyn darpariaeth.

Mae cyfranddaliadau mewn is-gwmnïau wedi'u nodi ar gost heb amhariad cronedig.

STOC

Mae Stoc yn ymwneud ag eiddo a gedwir i'w ail-werthu a chaiff ei nodi ar gost y gwerth net ar y llyfrau ar yr amser y caiff ei drosglwyddo o ased diriaethol sefydlog i stoc. Caiff y stoc ei asesu am amhariad ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Os yw eitem o stoc wedi'i hamharu, caiff y stocrestr ei lleihau i'w bris gwerthu heb y costau i gwblhau a gwerthu a chydnabyddir tâl amhariad yn y cyfrif elw a cholled.

Pan fydd angen gwrthdroi amhariad, caiff y tâl amhariad ei wrthdroi, hyd at golled gwreiddiol yr amhariad, a chaiff ei gydnabod fel credyd yn y cyfrif elwa a cholledion.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Grŵp wedi dewis mabwysiadu Offerynnau Ariannol Sylfaenol FRS 102, Adran 11 a 12 Dyroddiad arall o Offerynnau Ariannol FRS 102 o ran offerynnau ariannol.

Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol eu mesur ar bris trafodiad i gychwyn, gan gynnwys costau trafodiad, ac eithrio'r asedau ariannol hynny a ddosbarthir ar werth teg drwy elw neu golled, a gaiff eu mesur ar werth teg i gychwyn (pris trafodiad heb gynnwys costau trafodiad) oni bai bod y trefniant yn drafodiad cyllidol.

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol dim ond eu gwrthbwyso ar fantolen y Grŵp pan, a dim ond pan, mae hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod y Grŵp yn bwriadu setlo ar sail net, neu realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Mae offerynnau dyled (ar wahân i'r rheini sydd angen eu had-dalu neu eu derbyn o fewn blwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill derbyniadwy a thaladwy, yn cael eu mesur ar werth presennol y llifau arian yn y dyfodol i ddechrau ac yna'n cael eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

ARIAN PAROD A PHETHAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian parod wrth law ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb os rhoddir dim mwy na 24 awr o rybudd. Pethau sy'n cyfateb i arian parod yw buddsoddiadau rhydd iawn sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n hawdd i symiau penodol o arian parod heb lawer o risg o newid eu gwerth.

Yn y datganiad cyfunol o lifau arian parod, dangosir arian parod a phethau sy'n cyfateb i arian parod net gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac sy'n ffurfio rhan annatod o reolaeth arian parod y Grŵp.

DYLEDWYR

Caiff dyledwyr tymor byr eu mesur ar bris y trafodiad, namyn unrhyw amhariad. Caiff benthyciadau derbyniadwy eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

DYLEDWYR MWY NA BLWYDDYN

Mae dyledwyr mwy na blwyddyn yn ymwneud â dyledwyr benthyciadau o'r benthyciadau buddsoddi cymdeithasol.

DYLED DDRWG

Os credir nad oes modd adennill unrhyw incwm heb ei gasglu serch eich ymdrechion gorau, caiff ei ddileu fel dyled ddrwg drwy'r cyfrif incwm a gwariant (I&E) fel gostyngiad mewn incwm. . Oherwydd Covid-19, caiff y cynlluniau benthyca eu hadolygu fesul achos. Pan fydd ad-daliad unrhyw fenthyciad wedi'i ohirio dros dro gan y benthyciwr, ac ni ddisgwylir gweld unrhyw arwyddion o drallod ar ôl y pandemig, yna nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn y cyfrifon. Bydd y polisi hwn ar gyfer y cynlluniau benthyca yn cael ei adolygu'n rheolaidd pan fydd rhagor o wybodaeth yn dod i law ynghylch y pandemig.

CREDYDWYR

Caiff credydwyr masnachu eu mesur ar bris y trafodiad. Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, eu mesur i ddechrau ar werth teg costau net y trafodiad, a'u mesur wedyn ar gost amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw amhariad.

BUDDION CYFLOGAETH

Caiff buddion tymor byr cyflogeion a chyfraniadau at gynlluniau cyfrannu diffiniedig eu cydnabod fel treuliau yn y cyfnod y cododd y treuliau hynny.

Mae cost unrhyw hawliau gwyliau nas defnyddiwyd yn cael ei chydnabod ar unwaith fel traul pan mae cwmni'n amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu, a chyfrifir y treuliau ar gyfer yr holl hawliau gwyliau nas defnyddiwyd, fel ag y maent ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â hyn.

Costau pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol

CYNLLUN PENSIWN Â CHYFRANIADAU WEDI'U DIFFINIO

Mae'r Grŵp a'r cwmni elusennol yn gweithredu cynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion. Cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun pensiwn lle mae'r Grŵp yn talu cyfraniadau sefydlog i mewn i gynllun y mae ei asedau wedi'u cadw ar wahân mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol. Caiff y cyfraniadau taladwy blynyddol eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Caiff asedau cynllun eu mesur ar werth teg. Caiff rhwymedigaethau cynllun eu mesur ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u gostwng ar gyfraddau bond safon uchel priodol. Cyflwynir y gwarged neu ddiffyg net ar wahân i asedau net eraill ar y fantolen. Caiff gwarged net dim ond ei gydnabod i'r graddau y mae'n adenilladwy, naill ai trwy lai o gyfraniadau i'r cynllun neu drwy ad-daliad ariannol o'r cynllun.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Codir costau gwasanaeth cyfredol a chostau o setliadau a chwtogiadau yn erbyn yr elw gweithredu. Cydnabyddir y llog ar rwymedigaethau'r cynllun a'r llog ar asedau'r cynllun yn yr adran elw neu golled. Adroddir enillion ar asedau cynllun (heb gynnwys incwm llog) ac enillion a cholledion actwaraidd yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.

ASEDAU AR BRYDLES

Mae'r Grŵp yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau ar y dechrau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn brydles, neu'n cynnwys prydles, sy'n seiliedig ar sylwedd y trefniant.

ASEDAU CYLLID AR BRYDLES

Caiff prydlesi asedau sy'n sylweddol drosglwyddo'r holl risgiau a buddion o ganlyniad i berchenogaeth yn brydlesi cyllid.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles fel asedau ar werth teg yr asedau ar brydles neu, os yw hynny'n is, gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Pan na ellir pennu'r gyfradd sydd ymhlyg, defnyddir cyfradd fenthyca gynyddrannol y Grŵp. Mae costau cynyddrannol uniongyrchol, sy'n codi wrth negodi a threfnu'r brydles, wedi'u cynnwys yng nghost yr ased.

Caiff asedau eu dibrisio dros dymor y brydles neu fywyd defnyddiol bras yr ased, pa un bynnag yw'r byrraf. Asesir yr asedau am amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydles fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r cytundeb. Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng ad-daliad cyfalaf a thâl cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, i gynhyrchu cyfradd tâl gyson ar falans yr ad-daliadau cyfalaf heb eu casglu.

ASEDAU GWEITHREDU AR BRYDLES

Cyfeirir at brydlesi nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth fel prydlesi gweithredu. Caiff taliadau o dan brydlesi gweithredu eu codi ar y cyfrif elw a cholled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

CYMHELLION PRYDLES

Mae cymhellion a dderbynnir i rwymo i brydles gyllid yn lleihau gwerth teg yr ased a chânt eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer gwerth presennol taliadau prydles lleiaf.

Caiff cymhellion a dderbynnir i rwymo i brydles weithredu eu credydu i'r cyfrif elw a cholled, i leihau costau, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a'r prif ffynonellau o ansicrwydd wrth amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i reolwyr wneud rhagamcanion a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a adroddir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ac asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau a adroddir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny.

Ym marn y cyfarwyddwr, dyma'r dyfarniadau beirniadol sydd wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn natganiadau ariannol y Grŵp:

MAE'R DYFARNIADAU ALLWEDDOL A WNAED GAN REOLWYR YN YMWNEUD Â'R CANLYNOL:

1. Y gallu i adennill o ddyledwyr, a digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg.
2. Amcangyfrif bywydau defnyddiol a gwerth gweddilliol asedau sefydlog, er mwyn cyfrifo dibrisiant a godir.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

3. Gweithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £	Cyfanswm Cronfeydd 2020 £
Hyfforddiant a chyhoeddusrwydd	**419,047**	**53,294**	**472,341**	387,850
Cyfarfodydd a thenantiaid	**89,936**	**-**	**89,936**	224,521
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	**38,605**	**-**	**38,605**	40,619
	547,588	**53,294**	**600,882**	652,990

4. Incwm o Fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2021 £	Cyfanswm Cronfeydd 2020 £
Llog ar adnau banc	**1,226**	**177,703**	**178,929**	227,169
Incwm buddsoddiad	**5,470**	**-**	**5,470**	5,470
	6,696	**177,703**	**184,399**	232,639

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

5. Grantiau derbyniadwy

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2021	Cyfanswm Cronfeydd 2020
Prifysgol Caerdydd	-	**17,626**	**17,626**	25,059
Sefydliad Cymorth i Elusennau	**100,925**	-	**100,925**	102,336
Comic Relief	**75,000**	**585,002**	**660,002**	1,305,000
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg	-	-	-	17,884
Adran Gwaith a Phensiynau	-	**25,500**	**25,500**	-
GoFundME (Cronfa Argyfwng Llifogydd Dennis)	-	**25,819**	**25,819**	92,752
Helplu	-	**20,000**	**20,000**	-
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	-	**111,803**	**111,803**	49,041
Lloyds Bank Foundation	-	-	-	2,970
NCVO	-	**32,475**	**32,475**	-
Cyfoeth Naturiol Cymru	**1,421**	-	**1,421**	2,448
New Philanthropy NPC	-	**18,734**	**18,734**	-
Prifysgol Northumbria	-	**709**	**709**	-
Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban	-	-	-	2,182
Cronfa Buddsoddiad Cymdeithasol ASDA	-	**115,186**	**115,186**	374,723
Chwaraeon Cymru	-	**77,783**	**77,783**	-
Step Up To Serve	-	-	-	6,274
Cronfa'r Loteri Genedlaethol	-	**40,375**	**40,375**	-
The Waterloo Foundation	**9,399**	-	**9,399**	30,000
The Wheel	-	**1,414**	**1,414**	-
Prifysgol De Cymru	-	**11,012**	**11,012**	-
Llywodraeth Cymru	**1,929,127**	**41,046,808**	**42,975,935**	8,964,191
Fforwm Cyllidwyr Cymru	-	**205**	**205**	636
CGGC	**3,521**	-	**3,521**	63,285
WEFO	-	**5,091,331**	**5,091,331**	8,395,476
Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd	-	-	-	4,999
Cyfanswm grantiau derbyniadwy	**2,119,393**	**47,221,782**	**49,341,175**	19,439,256
Swm o hyn sy'n incwm o weithgareddau masnachu:				
Sefydliad Cymorth i Elusennau	**100,925**	-	**100,925**	102,336
Llywodraeth Cymru	**1,315,472**	-	**1,315,472**	786,113
	1,416,397	-	**1,416,397**	888,449
Gweithgarwch elusennol	**702,996**	**47,221,782**	**47,924,778**	18,550,807
Incwm secondiad	**59,500**	-	**59,500**	14,389
Gwerthiant Neuadd Morfa	**31,424**	-	**31,424**	-
Incwm Arall	90,924	-	90,924	-
	2,210,317	47,221,782	49,432,099	19,453,645

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

6. Incwm net

Nodir incwm net ar ôl codi tâl ar gyfer:	**2021**	2020
	£	£
Dibrisiant ar asedau sefydlog a berchnogir	**93,640**	137,595
Taliadau i'r archwiliwr: - ffioedd archwilio	**23,064**	26,500
- gwasanaethau treth	**3,600**	293

7. Gwybodaeth ynglŷn ag ymddiriedolwyr a chyflogeion

A) GWYBODAETH YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLWYR

Ni chafodd yr un ymddiriedolwr nac unigolyn â chysylltiad teuluol neu fusnes ag ymddiriedolwyr, daliad yn y flwyddyn, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gan yr elusen na mudiad neu gwmni a reolir gan yr elusen (2020: £Dim).

Ni chafodd unrhyw un o'r ymddiriedolwyr gostau teithio wedi'u had-dalu oherwydd cynhaliwyd pob cyfarfod Bwrdd, Pwyllgor a Phanel Grant yn rhithiol yn ystod y flwyddyn (2020: £ 2,977).

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-ymddiriedolwyr am wasanaethau proffesiynol yn ystod y flwyddyn (2020: £Dim).

B) GWYBODAETH YNGLŶN Â CHYFLOGEION

	2021	2020
	£	£
Cyflogau	**2,921,298**	2,599,585
Costau nawdd cymdeithasol	**278,770**	249,213
Costau pensiwn ac yswiriant bywyd eraill	**726,465**	643,634
	3,926,533	3,492,432

Nifer y cyflogeion yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd oedd 100 (2020: 91).

Mae'r enillion yn cynnwys cyflog ac yswiriant gwladol y cyflogwr ond nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Maent hefyd yn cynnwys taliadau dileu a therfynu swydd a wnaed yn y flwyddyn. Gellir dosbarthu nifer y cyflogeion yr oedd eu henillion am y flwyddyn yn fwy na £60,000 fel a ganlyn:

	2021	2020
£60,000 - £69,999	**0**	1
£70,000 - £79,999	**0**	0
£80,000 - £89,999	**0**	1
£90,000 – £99,999	**1**	0

Cafodd cyfraniadau eu talu at gynllun buddion diffiniedig 1 (2020: 2) o'r cyflogeion y telir cyflog uwch iddynt.

Mae prif bersonél rheoli'r Elusen yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Ysgrifennydd y Cwmni a'r ymddiriedolwyr. Cyfanswm buddion cyflogeion prif bersonél rheoli'r Elusen oedd £351,293 (2020: £381,434).

C) TALIADAU DILEU A THERFYNU SWYDD

Mae'r ffigur cyflogau yn cynnwys £1,562 o gostau diswyddo a therfynu (2020: £ dim).

Prif bersonél rheoli'r grŵp yw'r un unigolion â'r rheini sydd gan yr Elusen.

Mae cyflog pob aelod o'r staff yn gysylltiedig â phwyntiau ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol, ac eithrio'r Prif Weithredwr. Cafodd y cyflog hwnnw ei feincnodi flynyddoedd yn ôl ac mae wedi'i chwyddo ers hynny yn unol â chodiadau cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

8. Grantiau taladwy a thaliadau contractau a gafaelwyd

Dyma restr o'r 50 grant mwyaf yn eu crynswth a roddwyd i fudiadau (ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion):

	2021 £
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	**1,408,549**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	**685,952**
Mind Cymru	**637,997**
Ambiwlans Sant Ioan Cymru	**546,112**
Leonard Cheshire Disability	**493,233**
Mantell Gwynedd	**456,796**
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe	**442,457**
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd	**434,321**
Interlink – Rhondda Cynon Taf	**426,819**
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	**409,071**
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd a Phort Talbot	**390,804**
Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch	**385,685**
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen	**384,828**
Llamau Cyf	**384,011**
Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg	**383,139**
Cwmni Buddiannau Cymunedol Community Care Collaborative	**375,647**
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint	**371,890**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion	**371,059**
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	**369,521**
Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy	**365,293**
The Centre for Building Social Action Limited	**364,618**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam	**364,025**
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	**362,522**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr	**361,061**
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful	**356,725**
Medwrn Môn	**355,267**
Gofal a Thrwsio Cymru	**346,198**
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig	**332,046**
Cymorth i Ferched Cymru	**325,648**
PRIME Cymru	**323,970**
Volunteering Matters	**304,312**
Cyngor Sir Penfro	**288,109**
Cyngor Caerdydd	**282,640**
Age Cymru	**282,070**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Stephens and George Charitable Trust	**280,076**
Trwsio a Rhannu (yn masnachu fel Caffi Trwsio Cymru)	**259,983**
Oasis Caerdydd	**256,818**
New Pathways Family Friendly Therapeutic Centre of Excellence	**256,277**
North Wales Nappy Collaborative	**254,003**
Byddin yr Iachawdwriaeth	**250,701**
YMCA Abertawe	**248,793**
Media Academy Cymru	**229,984**
Valleys Kids	**229,154**
Cymunedau yn Gyntaf Môn Communities First	**226,130**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	**218,463**
Platfform for Change	**214,595**
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion	**206,153**
Cymdeithas Multiple Sclerorsis (MS)	**204,280**
Dysgu Oedolion Cymru	**203,227**
Mirus-Wales	**202,717**
Cyfanswm y 50 grant mwyaf a dalwyd i fudiadau	**18,113,749**
Cyfanswm grantiau taladwy eraill	**25,020,731**
Cyfanswm grantiau a dalwyd i fudiadau	**43,134,480**

Nid yw'r grantiau hyn yn cynnwys £1,930,791 o incwm cyllid cyfatebol a gwariant a adlewyrchir yng nghyfrifon y mudiadau a gafodd grantiau.

Dyma fudiadau lle y ceir ymddiriedolwyr cyffredin a/neu le y mae gan ymddiriedolwr o CGGC safle uwch yn y mudiad a dderbyniodd grantiau gan yr Elusen yn ystod y flwyddyn.

Mudiad	**Parti Cysylltiedig**	**Swm**
		£
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent	Edward Watts	1,408,549
Mind Cymru	Sara Moseley	637,997
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig	Rocio Cifuentes	332,046

Nid oedd unrhyw daliadau contractau a gafaelwyd i fudiadau yn 2021 (2020: £Dim). Ni wnaed unrhyw grantiau i unigolion (2020: dim).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

9. Cyfanswm gwariant

Gwariant elusennol uniongyrchol

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2021	Cyfanswm Cronfeydd 2020
	£	£	£	£	£
Grantiau a Ddyfarnwyd	-	-	43,134,480	43,134,480	14,608,519
Costau Eiddo	-	40,360	-	40,360	87,876
Costau Cyfarpar Swyddfa	50	2,825	2,539	5,414	2,909
Costau Swyddfa yr ailgodwyd tâl amdanynt	-	-	-	-	213,896
Rhent ac Ardrethi	3,281	20,261	1,080	24,622	15,608
Gwres a Golau	2,163	15,768	-	17,931	46,734
Recriwtio a Staff Dros Dro	4,539	13,367	10,888	28,794	80,889
Cyflogau ac Argostau	215,219	961,979	2,659,855	3,837,053	3,411,210
Teithio, Cynhaliaeth a Lles	686	26,995	2,258	29,939	117,359
Hyfforddiant Staff	704	2,073	5,561	8,338	21,310
Cyfarfodydd a Chynadleddau	76,111	13,896	2,719	92,726	163,830
Cyhoeddusrwydd	-	43,903	35,810	79,713	64,935
Postio a Theleffon	839	2,658	2,297	5,794	30,104
Costau Hyfforddiant Allanol	2,641	23,330	25,547	51,518	41,634
Deunydd Ysgrifennu	3	9	38	50	4,415
Argraffu	8	1,125	358	1,491	4,819
Costau Cyhoeddi	213	7,631	5,369	13,213	24,045
Costau Cyfieithu	67	55,485	32,621	88,173	77,657
Llungopïo	68	199	-	267	2,412
Ymgynghori ac Archwilio	4,987	312,597	298,941	616,525	571,733
Gorbenion Canolog	21,269	71,027	658,045	750,341	538,406
Mân Gostau/(Incwm)	-	40,748	4,320	45,068	157,927
	332,848	1,656,236	46,882,726	48,871,810	20,288,227

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Costau cymorth a ddyrannwyd

	Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig	Gwariant ar weithgareddau elusennol Cronfeydd Anghyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2021	Cyfanswm Cronfeydd 2020
	£	£	£	£	£
Costau Cyflogau a Staff	-	55,327	-	55,327	49,668
Yswiriant a Diogelwch	2,619	19,715	-	22,334	39,848
Costau Cyfrifiadurol	16,082	137,836	222,378	376,296	298,413
Ffioedd Banc	328	5,039	-	5,367	6,977
Dibrisiant Eiddo Rhydd-ddaliadol	18,672	74,968	-	93,640	137,595
Atgyweiriadau ac Amnewidiadau	5,648	-	-	5,648	11,757
	43,349	292,885	222,378	558,612	544,258
Costau Llywodraethu					
Ffioedd Archwilio	-	23,064	-	23,064	26,500
Arall	-	-	-	-	2,997
	-	23,064	-	23,064	29,497
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus ar y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol	-	-	209,482	209,482	86,806
Cyfanswm gwariant	376,197	1,972,185	47,314,586	49,662,968	20,948,788

10. Trethiant

Fel elusen, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi'i eithrio rhag treth ar incwm ac enillion i'r graddau y maent yn cael eu defnyddio ar gyfer ei amcanion elusennol. Nid oes taliadau treth wedi'u codi yn yr Elusen.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

11. Ffurfiau cymharol ar gyfer y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Cronfeydd 2020 £
Incwm o weithgareddau				
Masnachu:				
Gweithgareddau masnachu eraill	3	**616,996**	**35,994**	**652,990**
Incwm o fuddsoddiadau	4	**22,722**	**209,917**	**232,639**
Incwm arall	5	**888,449**	**-**	**888,449**
Incwm o weithgareddau Elusennol:				
Grantiau derbyniadwy	5	**340,186**	**18,210,621**	**18,550,807**
Incwm arall	5	**14,389**	**-**	**14,389**
Gwariant wedi'i adennill		**832,741**	**-**	**832,741**
Cyfanswm incwm a gwaddolion		**2,715,483**	**18,456,532**	**21,172,015**
Gwariant				
Costau cynhyrchu cronfeydd:				
Gwariant ar godi arian	9	**367,138**	**-**	**367,138**
Gwariant ar weithgareddau Elusennol	9	**2,363,982**	**18,217,668**	**20,581,650**
Cyfanswm gwariant		**2,731,120**	**18,217,668**	**20,948,788**
Incwm Net/(gwariant)		**(15,637)**	**238,864**	**223,227**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		**(221,779)**	**221,779**	**-**
Colledion)/enillion ar ailbrisio asedau sefydlog		**(353,638)**	**-**	**(353,638)**
(Colledion)/enillion actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio		**(1,310,000)**	**-**	**(1,310,000)**
Symudiad cronfeydd wrth gefn wedi'u hailbrisio		**241,685**	**-**	**241,685**
(Colledion)/Enillion ar ailbrisio buddsoddiadau		**(11,059)**	**-**	**(11,059)**
Symudiad net mewn cronfeydd		**(1,670,428)**	**460,643**	**(1,209,785)**
Balansau a ddygwyd ymlaen		**4,576,330**	**3,812,110**	**8,388,440**
Balansau a gariwyd ymlaen		**2,905,902**	**4,272,753**	**7,178,655**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

12. Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp ac Elusen	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Tŷ Baltic £	 Neuadd y Morfa £	 Cyfanswm £
Cost			
Ar 1 Ebrill 2020	1,200,000	1,016,895	2,216,895
Ailddosbarthu	(1,200,000)	-	(1,200,000)
Gwarediadau	-	(1,016,895)	(1,016,895)
Ar 31 Mawrth 2021	-	-	-
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2020	720,000	506,895	1,226,895
Tâl am y flwyddyn	120,000	36,899	156,899
Ailddosbarthu	(840,000)	-	(840,000)
Dibrisiant ar werthiannau	-	(543,794)	(543,794)
Ar 31 Mawrth 2021	-	-	-
Gwerth net ar y llyfrau			
Ar 31 Mawrth 2021	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2020	480,000	510,000	990,000

Cedwir pob ased sefydlog at ddibenion elusennol uniongyrchol.

Yn ystod y flwyddyn, gwaredwyd Neuadd Morfa ac mae Tŷ Baltic wedi'i ailddosbarthu fel stoc ar y gwerth net ar y llyfrau o £360,000, gan fod yr eiddo hwn i fod i gael ei werthu cyn 31 Mawrth 2022.

Pe bai asedau sefydlog wedi'u cynnwys yn unol â'r rheolau cyfrifyddu costau hanesyddol, byddai'r eiddo i gyd wedi'i fesur fel a ganlyn:

	2021 **£**	**2020** **£**
Cost hanesyddol	**1,418,519**	3,217,903
Dibrisiant cronedig	**(1,248,296)**	(2,125,412)
	170,223	1,092,491

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

13. Buddsoddiadau

Grŵp ac Elusen Buddsoddiadau a restrir	**2021** **Cost** **£**	**2021** **Gwerth marchnadol** **£**	2020 Cost £	2020 Gwerth marchnadol £
44,250 National Westminster Bank 9% SR "A" Cyfranddaliadau Blaenoriaeth heb fod yn gronnus	**50,352**	**70,800**	50,352	53,985
17,000 8¾% Aviva Cyfranddaliadau Blaenoriaeth Cronnus	**19,820**	**26,690**	19,820	20,910
